Pum ceiniog a dimai. Five pence half-penni. Ffeif pens hêpenni.	Pa faint y pwys yw y mollt? What a pound is the mutton? Hwot a pownd iz ddy myt'n?



- Pa aelod yw hwn ?  
What joint is this ?  
Hwot joint iz ddis ?
- Dyma i chwi y lwyn.  
Here is the loin for you ?  
Hi'r iz ddy loin ffôr iw.
- Beth yw pris yr wÿdd yma ?  
What is the price of this goose ?  
Hwot iz ddy preis of ddis gws ?
- Hanner coron.  
Half a crown.  
Hâff a crown.
- Pa faint yw pris yr hwyaid yna ?  
How much is the price of those  
How mych iz ddy preis of ddôz  
ducks ?  
dycs ?
- Beth yr ydych yn ei ofyn am yr ymenyn ?  
What do you ask for the butter ?  
Hwot dw iw âsc ffôr ddy byttr ?
- Pa sawl wÿ sydd am swllt ?  
How many eggs are there for a  
How menni egz ar dde'r ffôr a  
shilling ?  
shiling ?
- Mae arnaf eisieu mesur o gloron.  
I want a measure of potatoes ?  
Ei wônt a mezhw'r of potêtoz.
- Dowch i'r faelierfa.  
Come to the shop.  
Cym tw ddy shop.
- Gadewch i ni weled eich brethyn glas.  
Let us see your blue cloth.  
Let ys si iw'r blw clôth.
- Pa faint y llath ydyw ?  
How much a yard is it ?  
How mych a iârd iz it ?
- Torrwch i mi lathen a hanner.  
Cut me a yard and a half.  
Cyt mi a iard and a hâff.
- Pa sut yr ydych yn gwerthu y llian yma ?  
How do you sell this linen ?  
How dw iw sel ddis linin ?
- Mae arnaf eisieu pâr o hosanau gwlan.  
I want a pair of woollen stockings.  
Ei wônt a pe'r of wwlîn stocingz.
- Pa faint yw eu pris ?  
What is the price of them ?  
Hwot iz ddy preis of them ?
- Rhaid i chwi ostwng ychydig : maent yn rhy ddrudion.  
You must abate a little : they  
Iw myst abêt a lit'l : dde  
are to dear.  
âr tw di'r.
- Dyma bâr rhad iawn.  
Here is a very cheap pair.  
Hi'r iz a ferî chîp pe'r.
- Yr ydych yn gofyn gormod am yr het yma.  
You ask too much for this hat.  
Iw âsc tw mych ffôr ddis hat.
- A ellwch chwi newid papyr deg punt ?  
Can you change a ten pound note ?  
Can iw chenj a ten pownd nôt ?
- Nid oes genyf ddigon o arian.  
I have not enough of silver.  
Ei haf not inÿff of silfy'r.
- Mi a gymeraf bunt o bres.  
I'll take a pound in copper.  
Ei'l têt a pownd in copyr.
- Cyfrifwch naw penadyr.  
Count nine sovereigns.  
Cownt nein sÿfyrinz.
- Rhaid i mi gael derbyneb.  
I must have a receipt.  
Ei myst haf a risit.
- Pa bryd y cawn ni wneyd cyfrif ?  
When shall we make a reckoning ?  
Hwen shal wi mêt a rec'ning ?
- Tua'r Nadolig, ond odid.  
About Christmas, probably.  
Abôwt Crismys, probybli.
- A fuoch chwi yn y farchnad ?  
Have you been to market ?  
Haf iw bin tw mârcit ?
- A ydyw hi yn gostwng peth ?  
Does it lower any ?  
Dyz it lôyr enni ?
- Mae y cig yn myned yn ddrutach.  
Flesh-meat is getting dearer.  
Fflesh-mit iz getting di'ryr.

§ 13. *Dysgeidiaeth.*

A aeth y plant i'r ysgol ? Are the children gone to school ? Ar ddy children gon tw scwl ?	It would be well for every orator It wŷd bi wel ffôr efyri ôratty'r to be versed in Logic. tw bi fêrst in lojic.
Ymha lyfr y mae Owain ? What book is Owen in ? Hwot bwc iz öin in ?	Yr oedd eich taid yn gyfarwydd yn yr ieithoedd dwyreiniol. Your grandfather was acquainted Iw'r grandffâddy'r woz accwënted with the oriental languages. widd ddi orientyl lang-gwijiz.
Mae o wedi dechreu ar Ramadeg. He has commenced his Grammar. Hi haz comménst his grammyr.	Fe fedrai eich ewythr y nifer amlaf o ieithoedd Ewrop. Your uncle knew most of the Iw'r ynge'l niw most of dde languages of Europe. lång-gwijiz of Ewrop.
Mae yn medru Cymraeg a Saesneg He knows Welsh and English. Hi nôz welsh and ing-glish.	A ydych yn hoffi awduron diwedd- ar ? Do you like modern authors ? Dwi wŷ leic modern ôthyrrz ?
A ddysgodd efe Rifyddiaeth ? Has he learnt Arithmetic ? Has hi lérnt arithmetic ?	Daearyddwr mawr oedd efe. He was a great Geographer. Hi woz a grêt jiógraffyr.
Mae efe wedi cyrraedd y degiadau He has advanced as far as Deci- He haz adfânst az ffâr az dési- mals. mylz.	Efe a gyflwynodd ei holl amser at Dduwinyddiaeth. He devoted all his time to Divinity Hi difôtéd ôl his teim tw diffiniti.
Mae 'n fuddiol dysgu Mesuriaeth. It is useful to learn Mensuration. It iz iw'sffwl to lérn menshwreshyn	Mae ganddo lyfrgell odidog. He has an excellent library. Hi haz an écselent léibrari.
Dylai llongwyr fedru Mordwyaeth Seafaring-men ought to know Siffering-men ôt tw no Navigation. nafigëshyn.	Mae o yn darllen llawer iawn. He reads a great deal. Hi ridz a grêt dil.
Da fyddai i bob areithydd fod yn hyddysg mewn Arbwyllleg.	

CYNLLUNIAU WRTH BA RAI Y GELLIR  
YSGRIFENU CYFRIFON.

Y SAER.

Brecon, October 20th, 1849.

Mr. Rees Lewis,

	Bought of John Davies.	£. s. d.
Making a narrow-wheeled Waggon complete .....		28 0 0
Making a new broad-wheeled Cart (without Iron work)...		7 10 0
Repairing Waggon Chest.....		0 15 6
Making a new Wheelbarrow.....		0 7 6
Putting a new Axle to Cart.....		0 6 6
Putting a new Arm to Waggon.....		0 5 9
Two days' labour.....at 3s. per day.....		0 6 0
		£.37 11 3

## Y LLIEINIWR A'R BRETHYNWR.

Mr. David Davies, Llangefni, Feb. 11th, 1849.

Bought of William Hughes. £. s. d.

18 yards of Drugget.....at	9s. 0d. per yard.....	8	2	0
5 ditto of blue Cloth.....at	18 0 ditto.....	4	10	0
25 ditto of Shalloon.....at	1 0 ditto.....	1	5	0
2 ditto of Drab Cloth.....at	8 0 ditto.....	0	16	0
4 ditto of Cambric.....at	10 0 ditto.....	2	0	0
15 ditto of Print for Dress .....at	0 6 ditto.....	0	7	6
		<u>£.17 0 6</u>		

## Y LLEDRWR.

Mr. Foulk Evans, Swansea, June 30th, 1849.

Bought of Simon Lloyd. £. s. d.

27 Calf Skins.....at	4s. 0d. per skin.....	5	8	0
5 Sheep ditto.....at	1 3 ditto.....	0	6	3
10 Lamb ditto.....at	0 10 ditto.....	0	8	4
Part of Cowhide .....40 lbs. at	1 2 per lb.....	2	6	8
2 Skins of Roan.....at	3 6 per skin.....	0	7	0
		<u>£.8 16 3</u>		

## Y SIOPWR CYFFREDIN.

Carmarthen, September 1st, 1849.

Mr. Meilyr Gwalchmai,

Bought of David Evans. £. s. d.

25 lbs. of Loaf Sugar.....at	0s. 6d. per lb.....	0	12	6
14 lbs. of Rice.....at	0 3 ditto.....	0	3	6
8 lbs. of Black Tea.....at	5 0 ditto.....	2	0	6
3 lbs. of Currants.....at	0 6 ditto.....	0	1	0
12 lbs. of Soap.....at	0 5 ditto.....	0	5	0
3 oz. of Black Pepper.....at	0 2 per oz.....	0	0	6
		<u>£.3 3 0</u>		

## Y CRYDD.

Ruthin, September 22d, 1849.

Mr. Morgan Williams,

Bought of John Jones. £. s. d.

A pair of Wellington Boots.....	1	5	0
Repairing pair of Shoes.....	0	2	6
A pair of Bluchers.....	0	18	6
A pair of Overshoes.....	0	8	6
Soleing and Heeling a pair of Short Boots.....	0	3	6
		<u>£.2 18 0</u>	

## Y WNIADWRAIG.

Miss Williams, Mold, Jan. 21st, 1849.

Bought of Jane Jones. £. s. d.

18 yards of fine Lace.....at	12s. 3d. per yard.....	11	0	6
5 pairs of fine Kid Gloves.....at	2 2 per pair....	0	10	10
Making Dress.....		1	5	0
Repairing 2 Tippetts.....at	1 6 each.....	0	3	0
Making a Petticoat.....		0	3	0
		<u>£.13 2 4</u>		

## Y GOF.

Mr. Henry Hughes,

Bala, October 5th, 1849.

	Bought of John Simon.	£.	s.	d.
Making a new Iron Plough.....		1	10	0
Shoeing 2 Horses (Fox and Farmer).....at 2s. 8d. each....		0	5	4
Resetting and repairing Shoes for Lofty.....		0	1	6
A new Shoe for Smiler.....		0	0	8
Dressing Cart Wheels.....50 lbs. of Iron, at 4½d. per lb....		0	18	9
Fitting up a new Harrow..20 lbs. of Iron, at 5d. ditto. ...		0	8	4
		<u>£.3 4 7</u>		

## Y TOWR, Y SAER MAEN, Y PLASTRWR, A'R SAER.

Mr. James Evans,

Oswestry, November 12th, 1849.

	Bought of Humphrey Williams.	£.	s.	d.
560 yards of masonry, at <i>Tyhen</i> (work alone)....1s. 0d per yd.		28	0	0
450 loads of Stones for ditto..... at 2 0 per load		45	0	0
300 measures of Lime for ditto.....at 1 6 per mea.		22	10	0
144 loads of Sand for ditto..... at 3 0 per load		21	12	0
Slating Roof (including materials) 150 yds.at 2 6 per yd.		18	15	0
Plastering Walls, 3 coats, 400 yards .....at 1 0 per yd.		20	0	0
Putting on a new Roof at ditto, as per contract.....		75	9	0
A new Floor in Parlour, 36 yards of oak...at 2 0 per yd.		3	12	0
3 Locks for Doors, and 5 pairs of Hinges.....		0	11	9
		<u>£.235 9 9</u>		

## Y TEILIWR.

Mr. Thomas Edwards,

Merthyr Tydfil, November 30th, 1849.

	Bought of John Morris.	£.	s.	d.
Making a Suit of Clothes.....		0	17	6
Making a Coat.....		0	8	6
Repairing an Overcoat (finding Materials) .....		0	6	9
Making a pair of Trowsers.....		0	4	0
Fittings for ditto.....		0	3	9
Making a silk velvet Vest.....		0	3	0
		<u>£.2 3 6</u>		

Ar dderbyniad Cyfrif, ysgrifener dano fel hyn,

*December 31st, 1849.—Received the above. John Jones.*Dealler nad ydyw y rhai hyn ond *cynlluniau*, ac nad ydyw y prisiau, y mesurau, yr enwau a'r dyddiad, ond dychymygl*Dangoseb am Arian a dderbyniwyd am Eiddo, &c.*Received, December 31st, 1849, of Mr. Cadwaladr Thomas, the sum of One hundred and fifty Pounds fourteen Shillings and eleven Pence, for Goods as per Bill delivered. *John Griffiths.*£.150 14 11.*Dangoseb am Arian a roddir ar Lôg.*

On demand, I\* promise to pay Mr. Jeremiah Davies the sum of Two hundred Pounds Sterling, with Interest thereon at the rate of Five Pounds per Cent. per Annum, for value received.

Dated this 1st day of January, 1850.

£.200.*Jonathan Williams.*\* Pan y bydd ychwaneg nag un yu myned yn atebol, rhodder *We jointly and severally*, yn lle *I*, a rhoddant eu henwau y naill dan y llall yn y gwaelod.

## RHAGARWEINIAD.

§ 1. CYMMERIR yn ganiataol fod y Cymmro y rhoddir cyfarwyddyd iddo yn y treithodyn hwn i ddysgu yr iaith Seisnig, yn yr un sefyllfa ag yr oedd yr ysgrifenydd ei hunan ynnddi, ddeunaw mlynedd yn ol—heb fod erioed mewn ysgol yn dysgu Seisneg, heb feddu un llyfr i ddysgu yr iaith, heb wybod pa lyfrau i'w prynu i'r perwyl, na gwybod dim am y modd i'w hiawn ddefnyddio; ond yn medru Cymmraeg yn o dda; gwedi darllen, myfyrio, a deall ei gramadeg yn lled drwyadl; ac wedi dysgu cyfansoddi yn ei iaith ei hun yn gymmedrol o ystwyth a dealladwy; canys anghymmesur ac anfanteisiol ydyw i Gymmro ddechreu dysgu Seisneg, nac un iaith estronol arall, tra yn anwybodus ac yn annysgedig yn ei iaith ei hun. Ymddengys y pwysigrwydd i'r dysgadur ddysgu gramadeg Cymmraeg yn fwy amlwg, os ystyrir yr hyn a ddywed M'Culloch—Fod gramadeg un iaith, o ran sylwedd, yn ramadeg pob iaith, am fod yr egwyddorion mawrion a gyfansoddant ramadeg yn gyffelyb yn mhob iaith, a'i brif reolau o gymhwysiad cyffredinol. Gan hyny, os myfyria y dysgadur ramadeg Cymmraeg, caiff fyfyrion egwyddorion mawrion, a phrif reolau gramadeg Seisneg yn ei iaith ei hun.

§ 2. Heblaw yr egwyddorion a'r rheolau crybwylledig, sydd yn gyffelyb yn mhob iaith, y sawl a gyfansoddant ramadeg cyffredinol, mae i iaith pob cenedl amryw neilltuolion ac ieithweddau; gan hyny, mae i bob iaith ei gramadeg neilltuol ei hunan, ac felly y mae i'r Seisneg; a rhaid i'r efrydydd ddysgu hwn hefyd, mewn amser cyfaddas, er iddo fod yn medru gramadeg Cymmraeg yn barod.

§ 3. Mae tri dull arbenig i ddyn mewn oedran ddysgu iaith estronol.

(1.) Ymfudo i'r wlad y byddo yr iaith yn cael ei llefaru, gan ymddiried ei lwyddiant i'w gyfathrach â'r brodorion.

Hwn yn ddiâu ydyw y dull mwyaf cyflym ac effeithiol; a gall fod yn fwy felly, ond ei helpu âg efrydion priodol.

(2.) Dysgu mewn llyfrau, trwy gynnorthwy athraw. Hwn yw y dull mwyaf cyffredinol; ac os gellir barnu yr achos wrth yr effaith, mae rhyw ddiffyg nodedig yn y dull yma o ddysgu y Seisneg a ddygir yn mlaen yn Nghymru; canys o'r holl nifer mawr sy wedi cael o saith i ddeng mlynedd o ysgol ddyddiol i ddysgu yr iaith, nid oes odid un o ddeg ohonynt yn alluog i ddeall y llyfr Seisneg mwyaf syml, nac un o bymtheg yn alluog i siared yr iaith, nac odid un o ugain yn alluog i'w hysgrifenu yn ramadegol. Gobeithir y bydd i'r cynnwrf ynghylch addysg sydd yn awr yn y Dywysogaeth brysur effeithio diwygiad trwyadl yn y dull yma o ddysgu Seisneg, cystal ag o ddysgu amryw gangenau eraill o wybodaeth fuddiol.

(3.) Y trydydd dull o ddysgu iaith estronol ydyw, ei dysgu trwy lyfrau yn unig, heb un cynnorthwy arall; a thybir mai at y dull hwn, yn benodol, y cyfeiriai cynnygydd haelfrydig "Y Cyfarwyddyd;" gan hyny, dangos i'r efrydydd pa fodd i ddysgu y Seisneg yn y dull yma, mewn yspaid mor fyr o amser ag y mae yn ddichonadwy, fydd y gorchwyl hyd ddiwedd y treithodyn hwn.

§ 4. Iaith ydyw cyfrwng trosglwyddiad y meddwl; a gellir ei hystyried mewn dau olygiad—fel offeryn trosglwyddiad y meddwl, ac fel gwyddor a'n dysg i iawn ddefnyddio yr offeryn er cyrraedd y diben amcanedig. Fel offeryn, mae iaith yn gynnwysedig o'r holl eiriau sydd ynddi, y sawl a ffurfiant ei geiriadur. Fel gwyddor, cynnwysa amryw reolau i osod ei geiriau ynghyd, y sawl a ffurfiant ei gramadeg; a chyn y bydd nebun yn meddu gwybodaeth o iaith, rhaid iddo ei myfyrio yn y ddau olygiad yna—myfyrio ei geiriau, a myfyrio y rheolau i'w trefnu yn ymadrodd.

§ 5. Dau brif amcan a ddichon fod yn ngolwg yr efrydydd pan yn dechreu dysgu iaith estronol—deall awdwyr a llefarwyr, a chyfansoddi yn gywir ei hunan yn yr iaith. Cyn y gall byth gyrraedd yr amcanion yna yn llwyddiannus, rhaid iddo ddarllen llawer iawn o gyfansoddiad yn yr iaith a fwriada ddysgu; ac er mwyn i'r llygaid, y tafod, a'r clustiau, ei gydgygnorthwyo yn ei amcanion, annogir ef i ddarllen yn hyglyw bob amser, pan allo wneyd hyny heb flino rhai eraill.

§ 6. Tuag at i'r efrydydd gyrraedd yr amcanion crybwyll-edig, gyda golwg ar yr iaith Seisneg, rhaid iddo fyned trwy dair o dasgau go fawrion—dysgu cynaniad yr iaith, dysgu ei harddygraff, a dysgu ei chyfansoddiad.

§ 7. Er y rheir y gorchwyl o ddysgu y Seisneg, fel hyn, yn dair rhan; ac er y rhaid ymdrin â phob rhan ar wahan,

i raddau, er mwyn trefn; eto, ni feddylir i'r efrydydd—yn wir, nis gall chwaith—lwyr ddysgu cynaniad yr iaith, cyn dechreu dysgu ei harddygraff; na llwyr ddysgu y naill a'r llall, cyn dechreu dysgu deall yr iaith. Eithr, mewn ymarferiad, gall efe ddysgu y tair tasg yn gymmysgedig, fel y cyfarwyddo profiad ef. Mewn gwirionedd, mae cynaniad ac arddygraff mor gyssylltedig, fel nas gellir dysgu y naill heb ddysgu y llall ar yr un pryd; a dylai yr efrydydd ymdrechu cofio geiriau, a deall custrawiad broddegau, neu gyfansoddiad yr iaith, yn barhaus wrth fyned yn mlaen.

## RHAN I.

## CYNANIAD YR IAITH SEISNIG.

§ 8. ER bod cynaniad ac arddygraff, fel yr awgrymwyd eisys, yn dra chyssylltedig; eto, mae gwahaniaeth o bwys rhyngddynt. Cynaniad yw y modd y llefarir geiriau, ond arddygraff yw y modd y silliadir neu y llythyrenir hwynt. Cynaniad yw sail arddygraff, gan fod pob iaith yn cael ei llefaru cyn iddi gael ei hysgrifenu; a phe dilynesid symledd a chyssondeb, buasai arddygraff yn adrithiad cywir a manwl i'r llygad o'r seiniau a gyflwyna cynaniad i'r glust. Ond y mae'r Seisneg yn dra diffygiol ac anghyson gyda golwg ar hyn; canys y mae pob llafariad (*vowel*) sydd yn yr iaith yn cael ei defnyddio i ddynodi sain pob llafariad arall sydd ynddi, a phob cydsain i ddynodi amryw seiniau heblaw yr eiddo priodol ei hun. Oherwydd hyn, mae dysgu cynaniad y Seisneg yn orchwyl pur anhawdd i'r Cymmro; a chan nad oes dim, hyd y gwyddys, wedi ei gyhoeddi ar y mater yn Gymmraeg, ymesgusodir am dreulio cryn lawer o'r llyfryn yma i'w egluro.

§ 9. Gellir rhanu y cynaniad Seisnig yn dri dosparth—Seiniadaeth, Meintiolaeth, ac Aceniad. Mae gan y pethau hyn y fath effaith ar eu gilydd, fel, wrth ymdrin â'r naill, y bydd rhaid cymmeryd yn ganiataol fod y lleill yn ddealledig. Nid yw o bwys chwaith eu hegluro yn ol eu cyflead yn yr adran hon; gan hyny, ymdrinir â hwynt, o ran cyflead, yn y drefn a dybir, wrth fyned yn mlaen, a fyddo yn fwyaf manteisiol i'r efrydydd ddeall y prif bwnc—y cynaniad Seisnig.

## SEINIADAETH.

§ 10. Seiniadaeth a eglura sain y llythyrenau oll—y llafariad a'r cydseiniaid. Cymmerir yn ganiataol fod yr efrydydd yn gwybod pob peth a ellir wybod am lythyrenau, sillau, a phethau ereill, trwy gyfrwng gramadegau Cymmreig (§ 1. 2);



am hyny nid eglurir dim, hyd y cofir, a fyddo wedi ei egluro eisys yn foddhaol yn y Gymmraeg.

§ 11. Dylai y dysgadur ddeall nad yw y gwahanol enwau a roddir i'r llythyrenau, o nemor bwys, ond mai eu seiniau a'u gweithrediadau ar eu gilydd sydd yn bwysig. Mae llythyrenau, yn hyn, i raddau, yn debyg i ffugrau rhifyddol, neu arwyddion alsoddol; ychydig o bwys ydyw wrth ba enwau y gelwir hwynt, os gwybyddir eu harwyddocâd. Mae hyn yn wirionedd nodedig gyda golwg ar y Seisneg (§ 8).

§ 12. Gan na roddir i'r llythyrenau Seisnig eu sain egwyddorol yn yr arddygraff braidd yn ddim mynychach na rhyw sain arall (§ 8), nid yw yr egwyddor o nemor werth fel arweiniad i gynaniad yr iaith; er hyny, dichon y byddai yn fuddiol i'r efrydydd, mewn rhai amgylchiadau, wybod sain egwyddorol y llythyrenau.

EGWYDDOR GYFFREDIN Y SEISNEG, GYDAG ENWAU Y LLYTHYRENAU YN GYMMRAEG, A GEIRIAU CYMMREIG YN DANGOS EU GRYM.

Rhif.	Llyth.	Enw.	Grym.
1.	A, a—e,	fel e yn lle.	
2.	B, b—bi,	fel b yn bid.	
3.	C, c—si,	fel s yn sil.	
4.	D, d—di,	fel d yn dig.	
5.	E, e—i,	fel i yn lli.	
6.	F, f—eff,	fel ff yn effaith.	
7.	G, g—dshi,	fel j yn Job.	
8.	H, h—eitsh	(enw yn unig : grym, hi).	
9.	I, i—ei,	fel ei yn lleidr.	
10.	J, j—dshe,	yr un o ran grym a g, rhif 7.	
11.	K, k—ce,	fel c yn cel.	
12.	L, l—el,	fel l yn hel.	
13.	M, m—em,	fel m yn llem.	
14.	N, n—en,	fel n yn llèn.	
15.	O, o—tebyg	i o yn llo.	
16.	P, p—pi,	fel p yn pig.	
17.	Q, q—ciw,	fel c yn ciw.	
18.	R, r—a'r,	fel r yn a'r.	
19.	S, s—es,	fel s yn estyn.	
20.	T, t—ti,	fel t yn ti.	
21.	U, u—iw,	fel iw yn iwrch.	
22.	V, v—fi,	fel f yn myfi.	
23.	W, w—dybliw	(enw yn unig), fel w yn wab.	
24.	X, x—ecs,	fel cs yn cecsan.	
25.	Y, y—wei	(enw yn unig,) fel i yn iâd.	
26.	Z, z—dsed,	tebyg i s yn ysblenydd.	

§ 13. Y nod yma—a ddynoda gyfartaledd: a—e, hyny yw, a sy gyfartal o ran sain i e. Enough, i-nýff,<sup>1</sup> h. y. enough, sy gyfartal o ran sain i i-nýff, &c.

§ 14. Mae sain ewyddorol *g*, (§ 12, rhif 7), a *j*, (12, rhif 10), yn estronol i'r Gymmraeg. Yr un yn hollol ydyw sain y ddwy lythyren, er bod eu henwau egwyddorol yn wahanol. Nis gellir dynodi eu sain â llythyrenau Cymmreig yn well nag y gwnaed yn y daflen uchod, (§ 12, rhif 7, 10). Gwir elfenau y sain yma yw *dzh*: y ffordd i ffurfio y sain dan sylw yw gosod y tafod yn safle *d*, ac ynganu *zh* yn ddigyfrwng o flaen un o'r llafariaid—*dzhe*, *dzhi*, &c. Edr. § 15. Mae sain egwyddorol y ddwy lythyren yn nechreu y geiriau cynnefin, *John*, *Job*, *Jeremia*, *Joel*, *Jona*, &c.: *j* a ddefnyddir yn y llyfryn hwn i ddynodi y sain dan sylw o eiddo y ddwy lythyren, *g* a *j*, am ei bod yn fyrach a harddach na *dzhi* a *dzhe*; ac y mae ei sain yn eithaf adnabyddus.

§ 15. *Z*, o ran ei llun a'i henw, sydd estronol i'r Gymmraeg; ond o ran ei sain, mae yn dra thebyg, os nad yr un yn hollol âg s Gymmreig pan ei dilynir yn ddigyfrwng gan lythyren leddf, megys yn *ysbryd*, *ysdori*, *ysgafn*. Mae *z* yn dal yr un berthynas âg s ag a ddeil *b* â *p*, *d* â *t*, &c., gan hyny, nid yw *z* yn ddim amgen na sain leddf s.

---

## Y LLAFARIAID.

§ 16. Y LLAFARIAID sydd yn yr egwyddor yw *a, e, i, o, u*. *W* a *y* hefyd a elwir yn llafariaid pan na fyddont yn dechreu gair neu sill; ond prif nodwedd y ddwy lythyren hyn yw ymgyfuno â llafariaid eraill i ffurfio deuseiniaid; am hyny, priodol y gelwir hwynt, cyfunoliaid. Edr. § 167—170.

---

## MEINTIOLAETH Y LLAFARIAID.

§ 17. Wrth feintiolaeth (yr hyn a elwir yn Seisneg, *quantity*) y llafariaid, y golygir parhad eu sain fel hir, canolig, ac attaledig.

<sup>1</sup>Sylwer mai sain briodol y Gymmreig, fel yn *myn*, *yr*, *tyrfa*, a ddefnyddir bob amser yn yr engreiffiau cynaniadol, ac nid ei sain benthyciol, fel yn *ceffyl*, *ceff-ul*. Cofier hyn!

§ 18. Gall llafariad fod yn hir, yn (1.) Pan yn diweddu sill, heb gael ei dilyn gan gydsain; megys yn *me—mi, fee—ffi*. Yn y sefyllfa yma, gelwir y llafariad yn rhydd, am nad yw yn cael ei chaethiwo gan gydsain ddilynedig; a sillau o'r fath yma a elwir sillau rhyddion.

2. Gall llafariad fod yn hir mewn sill pan yn cael ei dilyn gan gydsain, megys yn *mete, mit; feet, ffit*. Yn y sefyllfa yma gelwir y llafariad yn gaethedig, am ei bod yn cael ei chaethiwo gan gydsain. Sillau o'r natur yma a elwir hefyd, sillau caethedig.

3. Gall llafariad fod yn hir mewn sill rhydd acenol: *medium, mi-di-ym*:—mewn sill caethedig acenol: *meeting, mit-ing*:—neu mewn sill rhydd anacenol: *rose-tree, rôz-tri*.

§ 19. Gall sain canolig llafariad ddigwydd yn (1.) mewn sill rhydd anacenol: *meander, mi-an-dyr; cherry,<sup>1</sup> cher-ri*.

(2.) Mewn sill caethedig anaenol: *cherries, cher-riz*. Nid yw y meintiolaeth yma yn digwydd un amser mewn sillau acenol. Gellir cynanu llafariad o'r meintiolaeth hyn bob amser yn annibynol ar y gydsain ddilynol pan ddigwyddo mewn sill gaethedig.

§ 20. Meintiolaeth neu sain attaledig y llafariaid a ddilynir bob amser gan gydsain yn yr un sill, a gall ddigwydd yn

(1.) Mewn sill acenol: *pity, pit-i*.

(2.) Mewn sill anacenol: *coalpit, còl-pit*.

(3.) Mewn gair unsill pwysleisiol: *fit, ffit*.

Mae y meintiolaeth yma yn hanfodol fyr, pa un bynag ai mewn sill acenol ai anacenol y digwyddo, gan fod y gydsain a'i dilyna yn yr un sill bob amser yn ei attal yn chwim, ac yn effeithio cymmaint arno, yn enwedig pan yn anacenol, fel y mae yn gwahaniaethu oddi wrth seiniau y ddau ddosparth arall, yn neilltuol oddi wrth yr eiddo y cyntaf, o ran ansawdd braidd yn gystal ag o ran meintiolaeth. Mae yr *i* yn *coalpit* yn llawer lletach na sain yr *e* yn *me, medium, meeting*. Mae yr

<sup>1</sup> Y llythyrenau a'r sillau italaidd yn y geiriau Seisnig ydynt destynau yr eglurhad yn y cynaniad; ond llythyrenau italaidd yn y cynaniad a ddynodant ryw seiniau penodol. Fel hyn, yn yr adran yma, y sillau *me a ry*, yn y geiriau Seisnig *meander a cherry*, sydd yn destynau eglurhad yn yr adran dan sylw; ond yr *r* Italaidd yn nghynaniad *meander*, *mi-an-dyr*, a'r *ch* italaidd yn nghynaniad *cherry*, *cher-ri*, a ddefnyddir yn y cynaniad i ddynodi seiniau penodol. Am y sain a ddynoda yr *r* italaidd, edr. § 77, &c. Y *ch* italaidd a ddefnyddir bob amser yn y cynaniad yn y llyfr hwn, i ddynodi y sain gyfansawdd a rydd y Seison i *ch*, sef tsh; megys yn *chair*, tshe'r; ond yn y treithawd yma, *che'r*. Dynodir y sain dan sylw â *ch* italaidd yn yr engreiffiau cynaniadol, er mwyn byrdeb, ac am fod sain Seisnig gyfansawdd *ch* yn hysbys i luaws o'r Cymmy. Am natur a ffurfiad y sain yma, edr. *ch*, § 316.

*i* yn coalpit yn llawn mor debyg i'r *u* yn y gair Cymyreig *cut*, ag ydyw i'r *i* yn y gair Cymyreig *cip*. Dylai yr efrdydd gofio hyn yn ofalus, a seinio yr *i* dan sylw yn gyffredin, megys rhwng sain *u* ac *i* Gymyreig.

§ 21. Yn unol â'r egluriadau hyn, sylwa y Dr. Latham yn dra phriodol wrth ymdrin â meintiolaeth y llafariaid:—

(1.) Fod yr holl lafariaid hirion yn annibynol, ond nad yw yr holl lafariaid annibynol yn hirion.

(2.) Fod yr holl lafariaid dibynol yn fyrion, ond nad yw yr holl lafariaid byrion yn ddibynol.

§ 22. Mae sain ganolig y llafariaid yn dal perthynas gyfartal braidd â'r hir ac â'r attaledig : a gellir dynodi y meintiolaeth hir a'r canolig â'r gair *cyflawn*; am fod y canolig yn gystal a'r hir yn cynnwys sain gyflawn a diattal y llafariaid (§ 21, 1). Gellir dynodi meintiolaeth canolig ac attaledig y llafariaid â'r gair *byr*; oblegid *byr* ydyw y dosbarth canolig yn gystal a'r attaledig (§ 21, 2). Yn unol â hyn, dyma feintiolaeth y llafariaid yn ddau ddosparth, sef cyflawn a byr. Mae deall meintiolaeth y llafariaid o bwys er medru cynanu y Seisneg yn briodol; ac er mwyn gwneyd y pwnc mor eglur i'r efrdydd ag y gellir, rhoddir taflen ger bron o feintiolaeth cymmariaethol yr holl lafariaid Seisnig, yn yr hon y gwelir y tri dosparth crybwyll-edig—hir, canolig, ac attaledig, a'u holl adraniadau, ar unwaith.

HIR.

CANOLIG.

ATTALEDIG.

Rhif y Llafarfaid	Rhif y	Acenol.	Anacenol.	Anacenol.	Acenol.	Anacenol.
1 E	1	fee—ffî	-	cherry—cher-ri	-	-
	2	feet—ffît	-	cherries—cher-riz	fit—ffît	-
	3	meeting—mit-ing	rosetree—rôz-tri	tremendous—tri-men-dys	pitÿ—pit-i	coalpit—côl-pit
2 A	1	may—me	-	Sundays—syn-de	-	-
	2	mate—mêt	-	Sundays—syn-dez	met—met	-
	3	taylor—te-lyr	retail—ri-tel	aerial—e-i-ri-yl	mending—mending	comment—com-ment
3 Ah	1	Ah! a!	-	Hannah—han-na	fat—ffat	-
	2	psalm—sâm	-	-	acting—ac-ting	drawback—dro-bac
	3	laundry—lân-dri	partake—par-têc	-	-	-
4 Au	1	law—lo	-	jackdaw—jac-do	cot—cot	-
	2	caught—côft	-	-	topping—top-ing	housetop—hows-top
	3	torment—tôr-ment	torment—tôr-mént	austere—o-sti'r'	-	-
5 Uh	1	{ verb—fêrb	-	tolerate—tôl-yr-et	nut—nyt	-
	2	{ bird—bêrd	-	nadir—ne-dyr	-	-
	3	{ urge—ÿrj	-	sulphur—syl-ffyr	nutting—nyt-ing	walnut—wôl-nyt
6 O	1	urgent—ÿr-jent	-	follow—ffol-o	-	-
	2	no—no	-	negroes—ni-groz	-	-
	3	note—nôt	-	obey—o-bé	-	-
7 Oo	1	boating—bôt-ing	cockboat—coc-bot	cuckoo—cwc-w	-	-
	2	loo—lw	-	-	hood—hwd	-
	3	pool—pwl	whirlpool—hwêrl-pwl	-	-	childhood—cheild-hwd

§ 24. Yn y daflen flaenorol, trefnwyd y llafariaid Seisnig yn y modd ag y dilyna y seiniau eu gilydd yn naturiol—1. *e—i*; 2. *a—e*; 3. *ah—a*; 4. *au—o*; 5. *uh—y*; 6. *o—o*; 7. *oo—w*.

§ 25. Y golofn gyntaf a ddengys pa sawl llafariad seml, wahanol, sydd yn yr iaith Seisnig; a pha rai ydynt.

§ 26. Y drydedd, y bedwaredd, y bummed, y chweched, a'r seithfed golofn, a ddangosant wahanol feintiolaeth pob un o'r llafariaid, a chynaniad y geiriau a'u cynnwysant.

§ 27. Yr ail golofn a ddengys mewn pa sawl math o sillau gall pob meintiolaeth ddigwydd.

§ 28. Y llafariaid sydd yn destyn eglurhad yn y daflen, yn gystal a thrwy yr holl lyfr, yw y rhai sy wedi eu hargraffu â llythyrenau Italaid yn y geiriau Seisnig.

Dichon y tybia rhai fod y daflen dan sylw yn fwy cywrain nag ydyw o ymarferol; pynag beth am hyny, mae mor ymarferol fel nas gellir cynanu y Seisneg yn gywir heb fod yn deall ei chynnwysiad.

EGLURHAD AR Y DULL A DDEFNYDDIR YN YR ENGREIFFTIAU  
CYNANIADOL, YN Y LLYFR HWN,  
I DDANGOS MEINTIOLAETH Y LLAFARIAID.

§ 29. Pan derfynno cynaniad gair neu sill â rhyw gydsain, neu gydseiniaid, heb law *r* (§ 77, &c.), y sain fer neu attaledig a roddir bob amser i'r llafariad fyddo yn y cynaniad, os na fydd nôd uwch ei phen i ddangos yn wahanol: *man*, man; *tract*, tract; *bread*, bred; *breast*, brest; *pity*, pit-i; *mending*, mend-ing (§ 23, col. 6).

§ 30. Pan fyddo sain hir i lafariad mewn gair neu sill yn terfynu â rhyw gydsain, neu gydseiniaid, rhoddir y nôd yma<sup>1</sup> bob amser uwch ei phen yn y cynaniad, i ddangos hyny, fel hyn: *feet*, ffît; *least*, lîst; *mate*, mêt; *paint*, pënt; *laundry*, lândri; *recal*, ri-côl. (§ 23, col. 3.)

§ 31. Hir neu ganolig, o angenrheidrwydd, ydyw sain pob llafariad mewn sillau rhyddion: *me*, mi; *may*, me; *Satan* se-ty'n; *lady*, le-di.

<sup>1</sup> Mae yr *aceniad* yn disgyn bob amser ar y sill y byddo y nôd dan sylw uwch ben llafariad yn y cynaniad: fel y gwelir yn *laundry*, lân-dri; *recal*, ri -côl.

## RHEOLAU I ADNABOD MEINTIOLAETH Y LLAFARIAID.

§ 32. Yr holl lafariaid, oddi eithr *i*, pan o dan yr acan, ac o flaen un gydsain a ddilynir gan *ia*, *io*, neu *ion*, a seinir yn hirion: *regalia*, ri-gé-li-a; *folio*, ffó-li-o; *adhesion*, ad-hi-zhyn; *intrusion*, in-trw-zhyn; *confusion*, con-ffiw-zhyn.

Eithr: *gladiator*, glád-i-e-tyr; *battalion*, bat-tal-i-yn; *discretion*, dis-cresh-yn; *national*, násh-yn-yl; *rational*, rásh-yn-yl.

§ 33. *I*, yn yr un sefyllfa a seinir yn fer: *militia*, mi-lish-a; *punctilio*, pynge-til-io; *contrition*, con-trish-yn.

§ 34. Llafariaid yn digyfrwng ragflaenu *ity*, neu *ety*, a seinir yn hirion: *deity*, dí-i-ti; *piety*, péi-i-ti.

§ 35. Pan ragflaeno cydsain y terfyniadau *ity*, *ety*, bydd pob llafariad acenol a fyddo o'u blaen, oddi eithr *u*, yn fer: *polarity*, po-lár-i-ti; *severity*, si-fér-i-ti; *divinity*, di-fín-i-ti; *curiosity*, ciw-ri-ós-i-ti.

Eithr: *rarity*, ré-ri-ti; *scarcity*, scêr-si-ti.

§ 36. *U* acenol, pan yn rhagflaenu un gydsain ac *ity* neu *ety*, a seinir *iw*: *impunity*, im-piŵ-ni-ti; *opportunity*, op-por-tiŵ-ni-ti.

§ 37. *U* acenol, pan o flaen *r* a chydsain arall, ac yn rhagflaenu *ity*, a seinir ychydig yn hwy nag *y* yn y gair Cymmreig *tyrfa*: *curvity*, cŷr-fi-ti; *taciturnity*, tas-i-tŷr-ni-ti.

§ 38. Pob llafariad acenol, oddi eithr *u*, o flaen un gydsain a'r terfyniad *ic*, neu *ical*, a seinir yn fer: *satanic*, se-tan-ic; *poetical*, po-ét-i-cyl.

§ 39. *Ū*, yn yr un sefyllfa, a seinir fel *iw*: *cubic*, ciw-bic; *musical*, miŵ-zi-cul.

§ 40. Bydd y llafariad acenol yn fer bob amser yn y sill olaf ond dau o eiriau a derfynant yn

*loquy*—*obloquy*=ób-lo-cwi.

*strophy*—*apostrophy*=a-pós-tro-phi.

*meter*—*barometer*=ba-róm-i-tyr.

*gonal*—*diagonal*=dei-ág-o-nyl.

*vorous*—*carnivorous*=cár-níf-o-r-ys.

*ferous*—*somniferous*=som-níff-er-ys.

*fluous*—*mellifluous*=mel-líff-liw-ys.

*fluent*—*mellifluent*=mel-líff-liw-ent.

*parous*—*oviparous*=o-fíp-a-r-ys.

*cracy*—*aristocracy*=ar-is-tóc-ra-si.

*gony*—*cosmogony*=cos-móg-o-ni.

*phony*—*symphony*=sím-ffo-ni.

*nomy*—*astronomy*=as-trón-o-mi.

*tomy*—*anatomy*=a-nát-o-mi.

*pathy*—*antipathy*=an-típ-a-thi.

§ 41. Gan nas dichon i ynganiad amddifad o gyfartaledd fod yn hyfryd i'r glust; a chan fod meintiolaeth neu gyfartaledd

amser mewn ynganiad yn mawr ddibynnu ar iawn aceniad, eir yn mlaen yn bresennol i sylwi ar yr aceniad Seisnig.

---

## YR ACENIAD SEISNIG.

§ 42. MAE y fath effaith gan aceniad ar sain y llythyrenau Seisnig, yn neilltuol ar y llafariaid, fel y bydd rhaid cymeryd yn ganiataol yn fynych fod yr aceniad yn ddealedig, wrth egluro gwahanol seiniau y llafariaid. Oherwydd hyn, tybir mai yn y man yma y bydd yn fwyaf manteisiol i'r efrydydd gael cyfarwyddyd ar aceniad.

### EGLURHAD AR Y DULL A DDEFNYDDIR YN YR ENGREIFFTIAU CYNANIADOL, I DDANGOS ACENIAD GEIRIAU.

§ 43. Mae yr holl eiriau sydd heb un nôd acan uwch ben y llafariaid, nac ar ol sillau, yn yr engreiffiau cynaniadol, i'w hacenu fel pe baent Gymmraeg, ar y sill olaf ond un; megys, *satan*, se-ty'n; *mending*, men-ding; *abrasion*, ab-re-zhyn; *redemption*, ri-dem-shyn; *abdication*, ab-di-ce-shyn; *predecessor*, pred-i-ses-yr, &c.

§ 44. Pan ddigwyddo yr acan fod ar ryw sill fer, neu ar ryw sill rhydd mewn gair, heb law yr olaf ond un, dynodir hi â'r nôd yma (') uwch ben y llafariad neu ar ei hol, fel hyn: *advocate*, âd-fo-cet; *affect*, aff-ffêct; *notary*, nó-tyr-i; *notorious*, no-tó-ri-ys; *resurvey*, ri-syr-fê, &c.

§ 45. Pan fyddo yr acan ar ryw sill hir caethedig, dynodir hi bob amser yn y cynaniad, â'r nôd yma (^) uwch ben y llafariad (§ 30, a'r nodiad 30): *danger*, dên-jyr; *enrol*, en-rôl; *superfluous*, su-pêr-ffliw-ys, &c.

---

## RHEOLAU ACENIADAETH.

### DEUSILLIAID.

§ 46. Y deusilliaid, geiriau deusill, a ffurfir trwy chwanegu terfyniad at wreiddair, a acenir yn gyffredin ar y sill flaenaf: *childish*, cheild-ish; *kingdom*, cing-dym; *fulness*, ffwl-nes.



§ 47. Y deusilliaid a ffurfir trwy ragddodi sill at wreiddair, a acenir yn gyffredin ar yr olaf: *beget*, bi-gét; *return*, ri-tŷrn.

§ 48. Am y deusilliaid sydd yn sylweddeiriau a pherwyddiaid, y sylweddeiriau yn gyffredin a acenir ar y sill flaenaf, a'r perwyddiad ar yr olaf: *abject*, âb-ject (*syl.*); *abject*, ab-jéct (*per.*).<sup>1</sup>

Eithr: nid acenir perwyddiaid ond anfynych ar y sill flaenaf, eithr sylweddeiriau a acenir yn fynych ar yr olaf: *delight*, di-léit; *perfume*, per-ffiwm.

§ 49. Y deusilliaid a derfynant âg *y*, *our*, *ow*, *le*, *ish*, *c*, *ck*, *ter*, *age*, *en*, *et*, a acenir braidd bob amser ar y sill flaenaf: *cranny*, cran-ni; *labour*, le-byr; *willow*, wil-o; *battle*, bat-t'l; *banish*, ban-ish; *cambric*, cêm-bric; *cassock*, cas-yc; *batter*, bat-yr; *courage*, cur-ij; *fasten*, ffas-s'n; *quiet*, cwei-et.

Eithr: *allow*, al-lów; *arow*, a-fów; *endow*, en-dów; *below*, bi-ló; *bestow*, bi-stó.

§ 50. Sylweddeiriau deusillog yn terfynu âg *er*, a acenir ar y sill flaenaf: *canker*, cang-cyr; *danger*, dên-jyr.

§ 51. Perwyddiaid deusillog yn terfynu â chydsain ac *e* fud, neu rai â deuseiniaid yn y sill olaf, neu rai yn diweddu â dwy gydsain, a acenir ar y sill olaf: *conspire*, con-spei'r'; *escape*, es-cêp; *appease*, ap-pîz; *attend*, at-tênd.

§ 52. Sylweddeiriau deusillog â deuseiniaid yn y sill olaf, a acenir yn gyffredin ar y sill hono: *applause*, ap-plôz; *assault*, as-sôlt.

Eithr: geiriau yn terfynu âg *ain*:—*mountain*, mown-tin; *certain*, ser-tin.

§ 53. Deusilliaid y byddo dwy lafariad ynddynt, yn cael eu hysgaru yn y cynaniad, a acenir yn gyffredin ar y sill flaenaf: *lion*, lei-yn; *riot*, rei-yt; *liar*, lei-yr.

Eithr: *create*, cri-êt.

#### TRISILLIAID.

§ 54. Y geiriau teirsill a ffurfir trwy gyssylltu terfyniad â hwynt, neu trwy ragddodi sill atynt, a gadwant aceniad y gair cyntefig: *tenderness*, tén-dyr-nes; *bespatter*, bi-spat-yr.

§ 55. Trisilliaid yn terfynu yn *ous*, *al*, *ion*, a acenir ar y sill flaenaf: *arduous*, âr-diw-ys; *capital*, cáp-i-tyl; *mention*, men-shyn.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Mae cyfres bur gyflawn o'r rhai hyn yn "Smart's Walker Remodelled," "Principles of Pronunciation," 83, note 83. Edr. hefyd, "Walker's Pronouncing Dictionary;" *Prin. of Pron.* 492; "Butter's Etymological," 101st Edition: tudal. 48.

<sup>2</sup> *Mention*, a geiriau cyffelyb, a silliadir yn dair sill—*men-ti-on*, ond a gynanir yn ddwy sill, fel yn yr adran uchod.

§ 56. Trisilliaid yn terfynu yn *ce, ant, ent, ate*, a acenir ar y sill flaenaf: *countenance, cown'-ti-nyns; elegant, él-i-gynt; armament, âr-ma-ment; propagate, próp-a-get.*

Eithr: geiriau yn tarddu o rai a acenir ar y sill olaf, neu eiriau â llafariad o flaen dwy gydsain yn y sill ganol: *connivance, con-ni-fyns; promulgate, pro-myl-get.*

§ 57. Trisilliaid yn terfynu ag *y*, a acenir yn gyffredin ar y sill flaenaf: *en-tity, én-ti-ti; specify, spés-i-ffeï.*

§ 58. Trisilliaid yn terfynu â *le, re*, a acenir ar y sill flaenaf: *legible, léj-i-b'l; theatre, thí-a-tyr.*

Eithr: *disciple, dis-sei-p'l; example, egz-am-p'l; indenture, in-den-tiw'r.*

§ 59. Trisilliaid yn terfynu yn *ude*, a acenir ar y sill flaenaf: *plentitude, plén-ti-tíwd.*

§ 60. Trisilliaid yn terfynu yn *ator*, a acenir ar y sill ganol: *spectator, spect-te-tyr.*

Eithr: *orator, ór-a-tyr; senator, sén-a-tyr; barrator, bár-ra-tyr; legator, lég-a-tyr.*

§ 61. Trisilliaid â deuseiniaid yn y sill ganol, neu â llafariad o flaen dwy gydsain, a acenir ar y sill ganol: *endeavour, en-def-yr; domestic, do-mes-tic.*

§ 62. Y trisilliaid a acenir ar y sill olaf, yn gyffredin a ddeilliant o'r Ffrancaeg, neu a ffurfir trwy ragddodi sill neu ddwy at sill hirsain acenol: *acquiesce, ac-cwi-és; overcharge, o-fyr-chârj.*

#### AMRYSILLIAID.

§ 63. Amrysilliaid, neu eiriau o fwy na thair sill, yn gyffredin a ddilynant aceniad y geiriau o'r sawl y tarddant: *arrogating, ár-ro-ge-ting; incontinently, in-cón-ti-nent-li, &c.*

§ 64. Amrysilliaid yn terfynu yn *le* yn gyffredin a acenir ar y sill flaenaf: *amicable, ám-i-ca-b'l; despicable, dés-pi-ca-b'l.*

Eithr: geiriau y byddo dwy gydsain yn y sill ganol: *megys, combustible, com-býs-ti-b'l, &c.*

§ 65. Amrysilliaid yn terfynu yn *ia, io, cal, ion, ous, ty*, a acenir ar y sill olaf ond dau: *cyclopædia, sei-clo-pi-di-a; punctilio, pyngc-tíl-i-o; despotic, des-pót-i-cyl; salvation, sal-fe-shyn (nod. 55); voluptuous, fo-lýp-tiw-ys; victorious, fie-tó-ri-ys; activity, ac-tíf-i-ti.*

§ 66. Er bod y rheolau hyn yn rhai defnyddiol, fel y sylwa y Dr. Johnson; eto mae iddynt gynnifer o eithradau, fel y cyferfydd yr efrydydd âg aml air nas gall benderfynu ei aceniad heb droi i eiriadur cynaniadol.

§ 67. Tybir mai y cyfarwyddyd goreu i gyrraedd iawn aceniad, yn gystal a-chynaniad geiriau Seisnig, ydyw tafleni a chyfresau o eiriau wedi eu trefnu yn ol eu haceniad ar y sill gyntaf, yr ail, y drydedd, &c., ynghyda mynych ymchwiliad mewn geiriadur cynaniadol da.

§ 68. Mae llawys o silliaduron (*spelling books*) yn cynnwys y cyfryw dafleni a chyfresau, ond nid ydynt wedi eu trefnu mor fanteisiol i'r hunanefrydydd ag y gellid eu ffurfio. Tybir mai y rhagoraf yw "*Butter's Gradations in Reading and Spelling*," a "*Butter's Etymological Spelling Book*."<sup>1</sup>

§ 69. Yn y "*Gradations*," tudal. 136, mae cyfres o eiriau pur hawdd eu cynanu; ac uwch ben y gyfres, mewn llythyr-enau mân—"Accented on the first syllable:" h. y. Acenedig ar y sill gyntaf. Yn agos i odre yr un ddalen, mae cyfres gyffelyb, ac uwch ei phen—"Accented on the second syllable:" Acenedig ar yr ail sill. Mae cyfresau cyffelyb, tudal. 137, 138, 142—147, 151—153. Tudal. 157—160, mae cyfresau o eiriau teirsill, acenedig ar y sill gyntaf. Tudal. 161—163, rhai teirsill, acenedig ar yr ail sill. Tudal. 164, rhai teirsill, acenedig ar y drydedd sill. Tudal. 165, cyfres o eiriau pedeirsill, acenedig ar y sill gyntaf. Tudal. 166, 167, rhai pedeirsill, acenedig ar yr ail sill. Tudal. 168, rhai pedeirsill, acenedig ar y drydedd sill. Mae y geiriau sydd yn y "*Gradations*" wedi eu dethol yn ofalus a medrus—y rhai hawddaf eu cynanu sydd yn yr iaith.

§ 70. Gwedi i'r efrdydd fyned drwy y cyfresau crybwylledig o'r "*Gradations*," caiff gyfresau o eiriau mwy dyrus yn "*Butter's Etymological Spelling Book*," (§ 68), tudal. 1—24, gyda dangosiad uwch ben pob cyfres ar ba sill y mae'r acan.

§ 71. Ar ol i'r efrdydd ymgynnesfno â'r geiriau sydd yn y cyfresau crybwylledig, byddai yn bur fuddiol iddo fyfyrion yr ail ran (*part ii.*) o "*Butter's Etymological Spelling Book*," er dysgu geiriau sydd o gyffelyb gynaniad ond o wahanol lythyr-eniad ac ystyr. Mae cyfres bur gyflawn o'r rhai hyn, tudal. 25—34, wedi eu trefnu yn ol sain y llafariaid a seinir ynddynt. Dynodir sain y llafariaid sydd i'w seinio ynddynt, fel hyn: "*Like a in mate*," h. y. fel *a* yn *mate*, mêt; *ale*, êl; *ail*, êl; *ait*, êt; *eight*, êt; *ate*, êt, &c. Tudal. 25: "*Like a in mare*," fel *a* yn *mare*, me'r. Tudal. 26: "*Like a in mat*," fel *a* yn *mat*, mat. Tudal. 27: "*Like a in mart*," fel *a* yn *mart*, märt, &c.

§ 72. Tudalen 35, mae cyfres o eiriau o un a dwy sill a

<sup>1</sup> Rhoddir enwau llyfrau Seisnig yn Seisneg, fel y gallo yr efrdydd wybod sut i'w herchi gan lyfrwerthwyr.

seinir yn gyffelyb mewn ymddiddan cyffredin: megys, *dire*, *dei'r*; *dyer*, *dei'r*—yn fanwl, *dei-yr*; *flare*, *fle'r*, *fle-yr*, &c.

§ 73. Tudal. 36: geiriau a gam gynanir yn fynych, naill ai trwy beidio seinio y llythyren *r* yn yr olaf o bob par, neu trwy ei seinio yn y blaenaf:—*ah!* *a*; *are*, *a'*, yn gywir *âr*; *alms*, *âmz*; *arms*, *âmz*, yn briodol *ârmz*, &c.

§ 74. Tudal. 37: geiriau lled gyffelyb o ran sain, ond a wahaniaethir trwy fod y blaenaf yn meddu sain *s*, a'r olaf yr eiddo *z*: *advice*, *ad-féis*; *advise*, *ad-fëiz*; *ass*, *as*; *as*, *az*, &c.

§ 75. Rhy faith fyddai rhoddi engreifftiau o'r holl gyfresau ardderchog sydd yn "Silliadur Butter," hyd tudal. 60, yn y sawl y dylai yr efrdydd fod yn berffaith gynnefin. Gallai eu gwneyd yn fwy defnyddiol byth iddo ei hun trwy gynnorthwy geiriadur cynaniadol, ac un Seisneg a Chymmraeg, ped ysgrifennai hwynt oll, ynghyd â'u cynaniad a'u heglurhad, fel hyn:—

*Ale*—*êl*, *cwrw*, } tudal. 25, &c. | *Air*—*e'r*, *awyr*, } tudal, 26, &c.  
*Aû*—*êl*, *dolurio*, } | *Ere*—*e'r*, *cyn*, }

§ 76. Nis annogir y dysgadur i fyfyrion y cyfresau crybwyll-edig yn fanwl, nes iddo ddarllen y cyfarwyddiadau a'r rheolau a ganlynant, ar sain y llythyrenau, am y dangosir yn y rhai hyn y modd i gynanu llythyrenau a sillau. Hefyd, gofaled am beidio trysori un gair yn ei gof heb fod yn sicr o'i iawn llythyreniad, ei gynaniad, ei aceniad, a'i ystyr; a thuag at hyn, gwnaed ei hun yn berffaith gynnefin â'r rheolau sydd yn y treithodyn hwn; ac ar bob amgylchiad o ammheuaeth, ymfyned â'i eiriadur cynaniadol, ac â'i un Seisneg a Chymmraeg. Caiff gyfarwyddyd sut i ddefnyddio y cyfryw, ar ol myned drwy sain y llythyrenau.

## SEINIAU Y LLAFARIAID SEISNIG.

*Effaith yr R orchfantol ar y llafariad rhagflaenol iddi.*

§ 77. MAE i'r *r* yma effaith neilltuol ar y llafariad Seisnig; a thybir mai cyn ymdrin â sain y llafariad y dylid egluro hyn. *R*, pan yn rhagflaenu llafariad ar ddechreu sill; neu, pan ar ol llafariad yn niwedd sill, ac yn cael ei dilyn gan llafariad neu *r* arall; a seinir yn arw, fel *r* Gymmreig: *ray*, *re*; *tray*, *tre*; *arable*, *âr-a-b'l*; *marry*, *mar-ri*; *peril*, *per-il*; *her-ring*, *her-ring*; *miracle*, *mîr-a-c'l*; *mirror*, *mir-ryr*; *origin*, *ôr-i-jin*; *borrow*, *bor-ro*.

§78. Ond, *r*, pan ar ol llafariad yn niwedd sill, ac heb gael ei dilyn gan lafariad, na chan *r* arall, neu, yn cael ei dilyn gan ryw gydsain heb law *r*, a seinir yn bur doddiadol a gorchfantol. Mae yr *r* yma yn dal perthynas agos â sain y llafariaid gorchfantol *ah*, *a*; *au*, *o*; *uh*, *y*; megys yn *far*, ffâr; *for*, ffor; *fur*, ffyr. Dywed Smart fod y Llundainwyr yn cario sain orchfantol *r* mor bell ag i seinio *far* yn ffâ', *hard*, yn hà'd, *cord* yn cò'd, a *lord* yn lô'd. Sylwa A. J. Ellis eu bod yn diflanu yr *r* ar ol yr holl lafariaid hirsain, ac ar ol y dwylafariaid a ddynodant eu sain, ac yn cynanu *mare*, braidd yn mêy, *uir*, êy; *mere*, mîy; *ear*, îy; *ore*, ôy; *poor*, pŵy; &c.; ond dylid gochei yr eithafedd yma mor ofalus, medd Smart, ag y dylid gochel sain arw yr *r* yn y gyfryw sefyllfa.

§79. Y rheol yw, bod yr *r* orchfantol yn dullweddu y llafariaid hirsain a'r deuseiniaid a'i rhagflaeno; a bod lledsain *u*, *y*; yn cyfryngu rhyngddynt. Mae Smart yn rhoddi yr *u* i fewn yn ei gynllun o'r llafariaid sydd yn rhagflaenu ei egwyddorion cynaniadol; megys, er engr. *mare*, m̄aur, mêyr; *mere*, m̄ear, mîyr; *more*, m̄our, môyr; *mir*, m̄iur, meiy; &c. Mae y lledsain dan sylw i'w chlywed yn wahanredol rhwng yr *r* orchfantol a'r holl lafariaid hirsain (oddi eithr *ah*, *a*; *au*, *o*; *uh*, *y*) a'r deuseiniaid; sef rhyngddi a'r rhai hyn; *e*, *i*; *a*, *e*; *o*, *o*; *oo*, *w*; *i*, *ei*; *oi*, *oi*; *u*, *iŵ*: *mare*, me'r; *fair*, ffe'r; *mere*, mi'r; *peer*, pi'r; *more*, mo'r; *boar*, bo'r; *poor*, pw'r; *fire*, ffe'i'r; *moir*, moi'r; *our*, ow'r; *pure*, piw'r.

§80. Dynodir sain orchfantol yr *r* yn mhob sefyllfa, yn yr engreiffiau cynaniadol, âg *r* Italaidd, megys y gwelir uchod: a dynodir y lledsain grybwylledig (§79) mewn geiriau unsill, ac mewn sillau acenol ac adacenol, â tholnod (') yn ddigyfrwng o flaen yr *r* italaidd, orchfantol; ond mewn sillau anacenol, *r* italaidd yn unig a ddefnyddir yn gyffredin, i ddy-nodi y sain orchfantol a'r lledsain.

SEINIAU YR *A*.

§81. Mae i'r llythyren *a* Seisnig bedair o brif seiniau: *a* yn *mate* (§23, rhif 2, col. 3), *a* yn *psalm* (§23, rhif 3, col. 3), *a* yn *fall* (§23, rhif 4, col. 3), ac *a* yn *fat* (§23, rhif 23, col. 6).

*A* 1.

§82. *A*, yn *mate*, mêt. Hon ydyw sain egwyddorol *a* (§12, rhif 1); ac y mae yn un o'i thair sain hir (§23, rhif 2, 3, 4, col. 3).

§83. Dywed Smart fod y sain yma yn diweddu yn fwy addfain nag y dechreua, gan ogwyddo megys at sain *e*, *i*; gan hyny, mae vn tueddu i fod yn ddeuseiniad. Clywir y sain yn *pay*,

pe; pane, pên; pain, pên; y sawl, yn ol Smart, a gyanir braidd yn pêi, pên.

§ 84. Gallesid dynodi y sain yma yn briodol âg *æ*, ond rhag dwyn i fewn arwyddnodau dieithrol, dynodir sain gyntaf yr *a* yn yr engreiffiau cynaniadol, mewn sillau acenol, caethedig, âg ê: mate, mêt; tailor, têt-yr; ond yn mhob sill rhydd, ac mewn sillau anacenol, caethedig, âg *e*: pay, pe; nasal, ne-syl; retail, ri-tel.

§ 85. *A*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau a ddiweddant âg un gydsain ac *e* fud; babe, bêb; place, plês.

Eithr: bade, bad; have, haf; ate, et; axe,<sup>1</sup> acs.

(2.) O flaen *ng* neu *st* ac *e* fud: change, chênj; paste, pêst.

(3.) Fel eithrad yn bass, bês.

(4.) Pan yn diweddu sill acenol: paper, pepyr; spectator, spec-te-tyr.

Eithr: father, ffâ-ddyr; papa, pa-pâ; water, wo-tyr.

(5.) Mewn sillau acenol yn diweddu â chydsain ac *e* fud, yn nherfyniad geiriau; persuade, pyr-swêd; opaque, o-pêc; menage, men-êj.

(6.) Fel eithrad yn ambace, êmzes; cambrio, cêm-bric; Cambridge, cêm-bridj; chamber, chêm-byr; ancient, ên-shynt; angel, ên-jyl; danger, dên-jyr; a'u hanedigion.

### Yr *A* 1 o flaen *R*.

§ 86. Mae sain yr *A* 1 wrth ddiweddu pan o flaen yr *r* orchfantol, yn gogwyddo at sain yr *y* Gymmreig, yn hytrach nag at sain yr *i* (§ 83). Edr. § 78—80.

§ 87. *A*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill a derfynant âg *r* ac *e* fud; pare, pe'r; dare, de'r.

Eithr: are, â'r.

(2.) Fel eithrad yn char, che'r; scarce, see'rs.

(3.) Mewn sillau acenol a derfynant âg *r* ac *e* fud; neu pan ddiflano yr *e* fud, ac y cymmer *i* ei lle wrth dreiglo gair; barely, be'rli; prepare, pri-pe'r'; paring, pe'r-ing.

### *A* 2.

§ 88. *A*, yn psalm, sâm (§ 23, rhif 3, col. 3). Mae sain yr *a* yma yn dra thebyg i sain yr *a* Gymmreig yn câu, ond yehydig yn lletaeh a mwy gorchfantol.

§ 89. Dynodir y sain yma yn yr engreiffiau cynaniadol

<sup>1</sup> Mewn gwirionedd, mae *x* yn *ddwy* gydsain.

mewn sillau rhyddion âg *a*, *baa*, *ba*; ac mewn sillau caeth-  
edig, acenol, âg *â*, *balu*, *bâm*.

§ 90. *A*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill rhyddion: *pa*, *pa*; *ha*, *ha*; *ah*, *a*.  
Eithr: *spa*, *spo*.

(2.) Mewn geiriau unsill yn diweddu yn *th*: *bath*, *bâth*;  
*path*, *pâth*.

Eithr: *hath*, *hath*.

(3.) Mewn geiriau unsill yn diweddu âg *lf* neu *lm*, yr *l*  
yn fud: *calf*, *câff*; *psalm*, *sâm*.

(4.) Mewn geiriau unsill yn terfynu âg *lve*, yr *l* a'r *e* yn  
fudion: *calve*, *câf*; *halve*, *hâf*.

(5.) Fel eithrad yn *laugh*, *lâff*; *draught*, *drâfft*; ac yn y  
toleiriau, *can't*, *cânt*; *sh'an't*, *shânt*; ac yn *chant*, *chânt*.

(6.) Yn y sillau acenol mewn geiriau a darddant o'r dos-  
peirith yna: *calver*, *câf-yr*; *halfer*, *hâff-yr*; *laughter*, *lâff-tyr*.

(7.) Fel eithrad yn *father*, *ffa-ddyr*; *pa-pa*, *pa-pâ*; com-  
mandant, com-myn-dânt; *gallant*, *gal-lânt*; a'u hanedigion.

### Yr *A* 2 o *flaen R*.

§ 91. Mae y sain yma yn ferach na'r eiddo *a* yn *psalm*,  
*sâm*; megys rhwng hono, o ran meintiolaeth, a sain yr *A* 4  
yn *fat*, *flat*; ond yn gwahaniaethu oddi wrth y ddwy, i raddau,  
oherwydd effaith yr *r* orchfantol (§ 78—80).

§ 92. Y sain yma a ddynodir yn yr engreiffitiau cynaniadol  
âg *â*, mewn sillau acenol; ac âg *a*, mewn sillau anacenol.

§ 93. *A*, a ddynoda y sain hon:—

(1.) Mewn geiriau unsill a derfynant âg *r*, neu âg *r* a  
chydysain arall: *par*, *pâr*; *lard*, *lârd*; *starch*, *stârch*.

(2.) Mewn geiriau unsill a derfynant âg *rce*, *rge*, *rse*, neu  
*rve*, yr *e* yn fud; *farce*, *ffârs*; *large*, *lârj*; *parse*, *pârs*; *carve*, *cârf*.

(3.) Fel eithrad yn *are*, *âr*.

(4.) Mewn sillau acenol yn diweddu âg *r*, pan ddechreuo  
y sill ddilynol â rhyw gydsain heblaw *r*: *army*, *âr-mî*;  
*marking*, *mâr-cîng*; *partial*, *pâr-shyl*.

(5.) Mewn blaendodau anacenol, pan ddilynir yr *r* yn  
ddigyfrwng gan gydsain arall: *armorical*, *ar-môr-i-cyl*;  
*arterial*, *ar-tî-ri-yl*; *argillaceous*, *ar-jil-le-shys*.

### *A* 3.

§ 94. *A*, yn *fall*, *ffôl* (§ 23, rhif 4, col. 3). Nid oes yn y  
Gymmraeg sain gwbl gyferbyniol i hon: dylid ei hynganu  
o'r gwddf, yn debyg i'r *y* Gymmreig, â'r genau yn fwy agored  
nag wrth ynganu *a* Gymmreig, a'r gwefusau yn lled grynhei,  
fel wrth ynganu *o*.

§ 95. Dynodir y sain yma yn yr engreiffitiau cynaniadol,

mewn sillau rhyddion âg *o*; ac mewn sillau caethedig âg *ô*; a chofied yr efrydydd ei seinio fel y dangoswyd uchod.

§ 96. *A*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill a ddiweddant â *ll*: *all*, *ôl*; *small*, *smôl*.

Eithr: *shall*, *shal*; *pall mall*, *pel mél*.

(2.) Mewn geiriau unsill a ddiweddant âg *lk*, yr *l* yn fud; neu âg *ld*: *balk*, *bôc*; *talk*, *tôc*; *bald*, *bôld*; *scald*, *scôld*.

(3.) Mewn sillau acenol a derfynant âg *ll*, pan gedwir y ddwy yn yr un sill: *palling*, *pôl-ing*; *smallness*, *smôl-nes*.

(4.) Yn y sillau acenol mewn geiriau hanedig o rai unsill yn terfynu â *ll*, er i un *l* gael ei dilëu o'r lluosill: *always*, *ôlwez*; *appal*, *ap-pôl*.

(5.) Mewn sillau acenol o gyffelyb gyfansoddiad i'r rhai unsill sydd yn yr ail ddosbarth: *talking*, *tôc-ing*; *falchon*, *ffôlchyn*.

Yr eithradau i'r rheolau hyn, medd Walker, sydd eiriau o'r Arabaeg a'r Lladin: *megys*, *Alps*, *alps*; *Albion*, *âl-bi-yn*; *asphaltic*, *as-ffal-tic*; *falcated*, *ffâl-ce-ted*, &c.

(6.) Fel eithrad yn *spa*, *spo*; *water*, *wotyr*; *ecl-at*, *e-clô*; *pacha*, *pa-shô*.

#### Yr *A* 3 o flaen *R*.

§ 97. Yr unig wahaniaeth rhwng y sain yma a'r eiddo *a* yn § 94, ydyw effaith yr *r* orchfantol (§ 78—80), ac fe'i dynodir yr un fath yn yr engreiffiau cynaniadol (§ 95).

§ 98. *A*, a ddynoda y sain hon:—

(1.) Mewn geiriau unsill a ddiweddant âg *r*, *rd*, *rm*, *rp*, neu *rt*, pan ragflaenir yr *a* gan *w* neu *u*: *war*, *wôr*; *ward*, *wôrd*; *warm*, *wôrm*; *warn*, *wôrn*; *warp*, *wôrp*; *wart*, *wôrt*; *quart*, *cwôrt*; *quartz*, *cwôrts*.

(2.) Yn y sillau acenol mewn geiriau hanedig o'r dosparth yna: *warlike*, *wôrleic*; *warder*, *wôrdyr*; *quartan*, *cwôr-ty*n, &c.

§ 99. Mae tuedd arbenig yn sain yr *w*, pan yn rhagflaenu ail neu bedwaredd sain *a*, i'w newid i sain hir neu fer y drydedd *a*. Fel hyn newidia sain *a* yn *arm*, *ârm*; *art*, *ârt*—i sain *a*, *o*, yn *warm*, *wôrm*; *wart*, *wôrt*; *quart*, *cwôrt*—a newidia sain *a* yn *at*; *barrel*, *bâr-ryl*, i sain fer y drydedd *a*, sef *o*, yn *what*, *hwot*; *cwarrel*, *cwor-ryl*, &c. Mae yr *a* yn agored i'r cyfnewidiad dan sylw, pan na fyddo y llythyren *w* yn ei rhagflaenu (dim ond ei sain), megys y gwelir yn *quart*, *cwôrt*; *quality*, *cwól-i-ti*: yma, mae *qu* yn effeithio y cyfnewidiad, am fod *qu* yn gyfunsain a *cw*.

Eithr: yr *a* yn *quack*, *cwac*; *wag*, *wag*; *waggon*, *wag-yn*; a *wax*, *wacs*, a geidw bedwaredd sain *a*—a'r un sain, ond ychydig yn hwy, a roddir i'r *a* yn *quaff*; *waft*, *wafft*.



## A 4.

§ 100. *A*, yn *fat*, *ffat* (§ 23, rhif 3, col. 6). Yr *a* yma a ddynoda sain fer attaledig yr *a* yn *psalm*, *sâm*; ac y mae yn gyfatebol i sain yr *a* Gymmreig yn *pan*.

§ 101. Dilynir y sain yma yn gyffredin gan gydsain yn yr un sill, yr hon a ettyl y sain yn chwim; ac y mae presenoldeb y gydsain yn ddigon i ddynodi ei meintiolaeth byr, megys yn nghynaniad *fat*, *ffat*, heb un nôd uwch ben yr *a* (§ 29).

§ 102. *A*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill a ddiweddant âg un gydsain neu ychwaneg: *tap*, *tap*; *crab*, *crab*; *pang*, *pang*; *add*, *ad*; *clamp*, *clamp*; *Alps*, *alps*.

(2.) Mewn geiriau unsill yn diweddu â *dg* ac *e* fud: *badge*, *baj*; *fadge*, *ffaj*.

(3.) Fel eithrad yn *axe*, *acs*; *lapse*, *laps*; *bade*, *bad*; *have*, *haf*; *valve*, *falf*; *hath*, *hath*; *shall*, *shal*; *shalt*, *shalt*.

(4.) Yn y sillau acenol, adacenol, ac yn y blaendodau a derfynant âg un gydsain neu chwaneg: *banish*, *ban-ish*; *batter*, *bat-yr*; *aggravation*, *ag-ra-fe-shyn*; *accelerate*, *ac-sél-yr-et*.

(6.) Mewn sillau acenol o flaen *r*, pan ddilynir yr *r* yn ddigyfrwng gan lafariad neu *r* arall: *arabl*, *ár-a-b'l*; *bar-rel*, *bar-ryl*.

Eithr: ansoddeiriau yn hanu o sylweddeiriau yn terfynu âg *r*: *starry*, *stâr-ri*, o *star*; *tarry*, *târ-ri*, o *tar*; a *charry*, *châr-ri*, a *charcoal*, *châr-col*, o'r parwydd *to char*.

(6.) Mewn sillau acenol o flaen *ll*: *callow*, *cal-lo*; *tallow*, *tal-lo*.

103. Pan fyddo *f*, *n*, neu *s*, yn dilyn *a* yn yr un sill, bydd yr *a* ychydig yn hwy na phan o flaen llythyrenau eraill—yn dynesu at feintiolaeth yr *a* yn *par* (§ 91.) Cofied yr efrwydd hyn, gan na ddefnyddir arwyddnod gwahanol i'r *a* yn § 101 i'w dynodi yn yr engreiffiau cynaniadol, oddi eithr yn achlysurol.

§ 104. Y sain dan sylw a ddigwydda mewn geiriau fel hyn: *staff*, *staff*; *graft*, *graft*; *plan*, *plan*; *plant*, *plant*; *prance*, *prans*; *blanch*, *blanch*; *has*, *haz*; *glass*, *glas*; *fast*, *ffast*, &c.

*Seiniau anacenol A.*

§ 105. *A*, pan yn terfynu sill rhydd (sef pan nas dilynir hi gan gydsain yn yr un sill) yn nechreu gair o flaen yr acan, yn nghanol gair ar ol yr acan, neu yn nherfyniad anacenol

gair, a seinir megys rhwng sain yr *a* a'r *y* Gymmreig—yn llawn mor debyg, neu yn debycach i'r *y* ag i'r *a*: a phe eynenid *allow*, *arable*, *America*, &c., yn *y-lôw*, *âr-y-b'l*, *y-mêr-i-cy*, byddid yn bŵr agos i'r gwir gynaniad. Ond gan nad yw yr *a* yn y sefyllfaoedd hyn yn hollol yr un sain ag *y* Gymmreig, a Italaidd a ddefnyddir yn yr engreiffiau cynaniadol i'w dynodi; a chofed yr efrýdedd ei seinio fel y dangoswyd uchod, yn y geiriâu hyn a'u cyffelyb: *abound*, *a-bôwnd*; *among*, *a-mýng*: *papa*, *pap-pa*; *balldachin*, *bál-da-tin*; *calamancō*, *cal-a-mang-co*; *idea*, *ei-di-a*; *Messiah*, *mes-sei-a*; *America*, *Amêr-i-ca* (§ 23, rhif 3, col. 5).

§ 106. Y sain yma a roddir hefyd yn gyffredin i'r fannod *a*: *a book*, *a bwc*; *a candle*, *a candl*; *a man*, *a man*, &c. Pan roddir pwyslais ar y fannod *a*, seinir hi fel yr *A* 1 (§ 82). megys yn y frawddeg ganlynol, o'r eiddo Fox: "I never want *a* word, but Pitt never wants *the* word," Ei nefyr wont e wŷrd, byt Pit nefyr wonts ddi wŷrd.

§ 107. *A*, mewn sill anacenol, ar ol yr acan, pan ei rhagflaenir gan *e*, *i*, *u*, *b*, *c*, *ch*, *d*, *g*, *h*, *m*, *n*, *r*, *s*, *t*, neu *v*, a seinir yn gyffredin fel *y* Gymmreig:

(1.) O flaen *c* yn yr un sill: *card-iaē*, *câr-di-ŷē*; *almanac*, *âl-ma-nyc*, &c.

(2.) O flaen *l* yn yr un sill: *real*, *riyl*; *denial*, *di-néi-yl*; *gradual*, *grád-iw-yl*; *cannibal*, *cân-i-był*; *clerical*, *clér-i-cyl*; *seneschal*, *séti-esh-yl*; *emerald*, *ém-er-yld*, &c.

(3.) O flaen *m* yn yr un sill: *William*, *wíl-i-ym*; *Elmodam*, *él-mo-dym*; *Beauchamp*, *bi-chym*; *Birmingham*, *býr-ming-ym*; *amalgam*, *a-mal-gým*; *Abiram*, *a-bei-rym*, &c.

Eithr: geiriâu yn terfynu yn *gram*: *anagram*, *ân-a-gram*; *diagram*, *deí-a-gram*, &c.

(4.) O flaen *n* yn yr un sill: *optician*, *op-ti-shyn*; *alderman*, *ól-dŷr-mŷn*; *organ*, *ôrgyn*; *satan*, *se-tyn*; *disturbance*, *dis-tŷr-byns*; *attendance*, *at-ten-dyns*; *constancy*, *cón-styn-si*; *fragrancy*, *flé-gryn-si*; *petulant*, *pét-iw-lynt*; *tenant*, *ten-ynt*; *malignant*, *ma-lig-nynt*.

Eithr: *artisan*, *âr-ti-zan*; *partisan*, *pâr-ti-zan*.

(5.) O flaen *r* yn yr un sill: *linear*, *lín-i-ŷr*; *beg-gar*, *beg-yr*; *solar*, *sol-yr*; *anarchy*, *ân-yr-ci*; *accessary*, *ác-ses-ŷr-i*, &c.

(6.) O flaen *s* yn yr un sill: *bids*, *bei-ŷs*; *atlas*, *at-lys*; *Christmas*, *cris-mys*; *cánvass*, *can-fŷs*; *carcass*, *câr-cys*; *tres-pass*, *tres-pys*, &c.

Eithr: *alias*, *é-li-as*; *cap-ias*, *cé-pi-as*.

(7.) O flaen *t* ac *e* fud: *palace*, *pal-ys*; *solace*, *sol-ys*; *populace*, *póp-iw-lys*; *menace*, *men-ys*, &c.

Eithr: *furnace*, ffŷr-nis.

§ 108. *A*, yn y terfyniad acenol *age*, a seinir fel *ie*—*i*, yn *cherries*, *cherriz* (§ 23, rhif 1, llin. 2, col. 5), yn gyffredin mewn geiriau dwysill: *cabbage*, cab-ij; *language*, lang-gwij; *village*, fil-ij, &c.

Eithr: *adage*, ad-ej; *scutage*, scŷw-tej; *guidage*, gei-dej.

§ 109. *A*, yn y terfyniad anacenol *age*, a seinir fel *ây*—*e*, yn *Sundays*, syn-dez (§ 23, rhif 2, llin. 2, col. 5), mewn geiriau teirsill, os bydd yr acan ar y sill flaenaf: *apanage*, âp-a-nej; *barronage*, bâr-ryn-ej, &c.

§ 110. *A*, yn y terfyniad anacenol *ate*, a seinir fel *ai*—*e*, yn *retail*, ri-tel (§ 23, rhif 2, llin. 2, col. 3), mewn sylwedd-eiriau a pherwyddiaid: *carbonate*, câr-by-n-et (*s.*); *terminate*, têr-min-et, &c.

§ 111. *A*, yn y terfyniad *ate*, mewn ansoddeiriau, a seinir yn fer, fel yn *comment*, cômment (§ 23, rhif 2, llin. 3, col. 7); *accurate*, âc-ci-w-ret; *adequate*, âd-i-cwê, &c.

### SEINIAU YR *E*.

§ 112. Mae i'r llythren *e* Seisonig dair o wahanol brif seiniau: *e* yn *me* (§ 23, rhif 1, col. 3); *e* yn *met* (§ 23, rhif 2, col. 6); ac *e* yn *verb* (§ 23, rhif 5, llin. 1, col. 3).

#### *E* 1.

§ 113. *E*, yn *me*, *mi*. Hon ydyw sain egwyddorol *e* (§ 12, rhif 5); yr un a sain *i* Gymmreig yn *mi*.

§ 114. Yn yr engreiffiau cynaniadol, dynodir y sain yma mewn sillau rhyddion, ac mewn rhai anacenol, âg *i*—*me*, *mi*; mewn sillau caethedig âg *i*—*mete*, *mît*.

§ 115. *E*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Pan yn terfynu gair unsill ar ol un gydsain neu gyfunoliad (*w*, *y*), heb lafariad arall yn y gair: *be*, bi; *the*, ddi; *we*, wi; *ye*, i.

D.S... Y fannod gyfeiriadol *the*, pan o flaen gair yn dechreu â chydsain, *h* lafar, neu sain y cyfunoliaid, a seinir yn *ddy*: *the boy*, ddy boi; *the hand*, ddy hand; *the ewe*, ddy iw; *the unit*, ddy iwnit; *the youth*, ddy iwth; *the will*, ddy wil. Ond pan fyddo y fannod *the* o flaen gair yn dechreu â llafariad, deuseiniad, neu *h* fud, fe'i seinir fel yn y rheol uchod, yn *ddi*: *the ape*, ddi êp; *the owl*, ddi owl; *the hour*, ddi ow'r.

(2.) Mewn geiriau unsill a derfynant âg un gydsain ac e fud: *glebe*, glib; *eke*, ic; *mede*, mid.

(3.) Fel eithrad yn *retch*, rîch.

(4.) Mewn sillau acenol o flaen un gydsain ac *e* fud : *concede*, con-síd; *intervene*, in-tyr-fin.

(5.) Pan yn terfynu sillau acenol neu anacenol mewn geiriau lluosill, oddi eithr y sill olaf : *era*, i-ra; *precedence*, pri-si-dens.

§ 116. Rheol gyffredin y Seisneg ydyw, bod yr *e* derfynol yn fud hollol, megys yn yr engreiffitiau uchod : *glebe*, glib, &c.; ond gweinydda yn gyffredin i hwyhau y llafariad a'i rhagflaeno.

Eithr : yr eithradau i'r rheol hon sy ychydig o eiriau a gymmerwyd o'r ieithoedd uchawdurdodol (*classical*), heb eu newid, yn y sawl y rhoddir ei sain egwyddorol i'r *e*; megys, *epitome*, i-pít-o-mi; *recipe*, rés-i-pi; *simile*, sím-i-li, &c.

### Yr E 1 o flaen R.

§ 117. Yr unig wahaniaeth rhwng y sain yma a'r un flaen-orol ydyw effaith yr *r* orchfantol ar y llafariad (§ 78—80).

§ 118. *E*, a ddynoda y sain yma :—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen *r* ac *e* fud : *cere*, si'r; *here*, hi'r; *mere*, mi'r.

Eithr : *ere*, e'r; *there*, dde'r; *were*, we'r; *where*, hwe'r (yr un sain a'r eiddo *a*, § 86); a'u hanedigion.

(2.) Mewn sillau acenol yn terfynu âg *r* ac *e* fud : *adhere*, ad-hi'r'; *interfere*, in-tyr-ffi'r'.

### E 2.

§ 119. *E*, yn met, met (§ 23, rhif 2, llin. 2, col. 6). Yr *e* yma a ddynoda sain fer, attaledig, yr *a* yn *mate*, mêt. Mae yr un sain a'r *e* Gymmreig yn *pen*.

§ 120. Dilynir y sain hon yn wastad â chydsain yn yr un sill, yr hon a'i hettyl yn chwim (§ 29); a dynodir hi yn yr engreiffitiau cynaniadol âg *e*, fel yn *met*, met.

§ 121. *E*, a ddynoda y sain yma.

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen un gydsain neu chwaneg : *neb*, neb; *egg*, eg; *seet*, sect; *length*, length.

Eithr : *clif*, cliff.

(2.) Mewn geiriau unsill o flaen *dge*, *nce*, *nge*, neu *use*, yr *e* yn fud : *sedge*, sej; *pense*, pens; *venge*, fenj; *tense*, tens.

(3.) Fel eithrad yn *delve*, delf; *helve*, helf; *belle*, bel; *else*, els.

(4.) Yn y sillau acenol mewn geiriau a hanant o'r dospeirth yna : *nebula*, néb-iw-la; *ebbing*, eb-ing; *section*, sec-shyn; *edgewise*, ej-weiz; *fencer*, ffen-syr; *avenge*, a-fénj; *tenses*, ten-siz; *delver*, del-fyr; *elsewhere*, els-hwe'r; *bagatelle*, bag-a tél, &c.

Eithr: pretty, prit-i; a'i hanedigion.

(5.) Mewn sillau acenol neu adacenol o flaen *r*, os dilynir yr *r* gan *e*, *i*, neu *y*, pynag a ddyblir yr *r* ai peidio: heretic, hér-i-tic; serenade, ser-i-nêd; ferret, ffer-et; peril, per-il; merry, mer-i.

### E 3.

§ 122. *E*, yn verb, fêrb (§ 23, rhif 5, llin. 1, col. 3). Nid oes yn y Gymmraeg sain gyfatebol i hon; mae rhwng sain *a* yn y gair Cymmraeg *pâr*, ac *y* yn *tyrfa*; yn nes, yn ddiâu, i'r *y* nag i'r *a*; neu, rhwng sain yr *a* yn y gair Seisnig *are*, *âr*, a sain *u* yn *turn*, *tÿrn*; ac yn hollol gyfunsain âg *i* yn *sir*, *sêr*; *bird*, *bêrd*; *first*, *ffêrst*, &c.

§ 123. Dynodir y sain yma yn yr engreifftau cynaniadol âg *ê* Italaidd; a chofied yr efrydydd ei seinio braidd yn debycach i *y* nag i *e*, fel y dangoswyd uchod.

§ 124. *E*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill a derfynant âg *r*, neu âg *r* a rhyw gydsain arall: *her*, *hêr*; *jerk*, *jêrc*; *perch*, *pêrch*.

(2.) Mewn geiriau unsill o flaen *rge*, *rse*, neu *rve*—yr *e* yn fud: *serge*, *sêrj*; *verse*, *fêrs*; *nerve*, *nêrf*.

(3.) Mewn sillau acenol o'r un cyfansoddiad a'r dospeirth yna: *confer*, con-ffêr; *discern*, dis-sêrn; *immerge*, im-mêrj; *disperse*, dis-pêrs; *deserve*, di-sêrf.

(4.) Mewn sillau acenol yn terfynu âg *r*, a'r sill dilynol yn dechreu â chydsain: *certain*, sêr-tin, neu, sêr-ten; *immersion*, im-mêr-shyn; *reverberate*, ri-fêr-byr-et, &c.

§ 125. Gwel y dysgadur nad yw y sain yma yn digwydd un amser heb gael ei dilyn gan yr *r* orchfantol (§ 78—80); a bod y ddwy lythyren, yr *e* a'r *r*, *êr*, yn cael eu dynodi yn yr engreifftau cynaniadol â llythyrenau Italaidd—yr *ê* Italaidd i ddynodi sain orchfantol yr *ê* (§ 122, 123), a'r *r* Italaidd i ddynodi sain orchfantol yr *r* (§ 78—80). Cofied y dysgadur hyn.

### Seiniau anacenol *E*.

§ 126. Sain anacenol gyffredin yr *E*, pan yn terfynu sill, oddieithr yr olaf (§ 116), yw ei sain egwyddorol (§ 12, rhif 5: § 113, 114): *devout*, di-fowt; *precedaneous*; *pres-i-dé-ni-ys*; *precedence*, pri-si-dens. Mae y gair yma yn engraifft nodedig o wahanol seiniau yr *e* Seisnig. Yr *e* gyntaf a'r ail, a seinir fel *i* Gymmreig; y drydedd fel *e* Gymmreig; a'r bedwaredd, ar derfyn y gair, yn fud, yn ol y Rheol gyffredin, § 116.

§ 127. *E*, pan ei dilynir â chydsain yn yr un sill, mewn sillau anacenol neu adacenol, o flaen y brif acan, a seinir fel yr *E* 2 (§ 120): *decemlocular*; *di-sem-lóc-iw-lyr*; *debon-air*, *deb-o-ne'r*.

§ 128. *E*, yn nherfyniad anacenol geiriau a ddiweddont âg un gydsain, a seinir yn fynych fel yr *E* 1 (§ 114): *helmet*, *hel-mit*; *duel*, *di-wil*; *boxes*, *bocsiz*, &c.

Eithr: mae yr eithradau i'r rheol hon yn dra lluosog. Edr. § 130, a'r eithradau.

§ 129. *E*, o flaen dwy gydsain, neu ddwy gydsain ac *e* fud, yn nherfyniad anacenol geiriau, a seinir yn gyffredin fel yr *E* 2 (§ 120): *silent*, *sei-lent*; *providence*, *próf-i-dens*, &c.

§ 130. Yr un sain a rôddir hefyd i'r *e* yn *par-cel*, *pâr-sel*; *thapel*, *chap-el*; *vessel*, *fes-sel*; *gravel*, *graf-el*, &c.

Eithr: *shekel*, *shec-c'l*; *easel*, *i-z'l*; *weasel*, *wi-z'l*; *chattel*, *chat-t'l*; *drivel*, *drif-f'l*; *grovel*, *grof-f'l*; *navel*, *ne-f'l*; *ravel*, *raf-f'l*; *rivel*, *rif-f'l*; *shovel*, *shyf-f'l*; *shrivel*, *shrif-f'l*; *snivel*, *snif-f'l*; *swivel*, *swif-f'l*; *hazel*, *he-z'l*.

§ 131. Pan ragflaenir y terfyniad anacenol *en*, gan *ch*, *tsh*, *k*, *l*, *n*, *r*, neu *t*, seinir yr *e* fel yr *E* 1 (§ 114): *kitchēn*, *ċich-in*; *chicken*, *chic-in*; *woollen*, *wól-in*; *linen*, *lin-in*; *warren*, *wor-in*; *mittens*, *mit-tinz*, &c.

Eithr: *latten*, *lat-ten*, ac efallai rhai ereill.

§ 132. Pan ragflaenir y terfyniad anacenol *en* gan lafariad, neu gan *d*, *g*, *m*, *p*, *ph*, *niēū* *ŵ*, seinir *e* fel yr *E* 2 (§ 120): *alien*, *êl-ien*; *sud-den*, *syd-en*; *Origen*, *ôr-i-jen*; *specimen*, *spēs-i-men*; *aspen*, *as-pen*; *hyphen*, *hei-ffen*; *sloven*, *sly-fen*, &c.

§ 133. Pan ragflaenir y terfyniad anacenol *en*, neu *le*, gan *st*, bydd y *t* a'r *e* yn fudion: *hasten*, *he-s'n*; *nestlé*, *nes-s'l*. Edr. § 384, 1.

§ 134. *E*, yn y terfyniad anacenol *ed*, mewn perwyddiaid gorphenol, ac yn y cyfraniaid, a seinir fel yr *E* 2 (§ 120), pan ei rhagflaenir gan *d* neu *t*: *intended*, *in-tend-ed*; *affected*, *aff-ect-ed*. Ond pan ei rhagflaenir gan ryw lythyren arall, bydd yr *e* yn *ed* yn fud, a chyssylltir y *d* â'r sill a'i rhagflaena: *abridged*, *ā-brijd*; *barefaced*, *be'r'-ffest* (§ 407).

§ 135. Mud hefyd yw yr *e* yn *ed*, pan yn derfyniad anacēnol ansoddeiriau, oddi eithr yn *wretched*, *wrech-ed*; *aged*, *e-jed*; *learned*, *lérn-ed*; *blessed*, *bles-ed*; *beloved*, *bi-lyf-ed*.

§ 136. Pan gyssylltir *ly* neu *ness* at ansoddair y byddo yr *e* yn *eā* yn fud ynddo, adferir ei sain gyflawn i'r *e*: *reserved*, *ri-zêrfd*; *rēservēdly*, *ri-zêr-fed-li*; *reservedness*, *ri-zêr-fed-ness*, &c.

§ 137. *E*, yn y terfyniad lluosog *es*, pan ei seinir o gwbl, a seinir fel yr *E* 1 (§ 114): *faces*, *ffēs-iz*; *praises*, *prêz-iz*.

Ōnd ychwaneg ar hyn eto wrth ymdrin â lluosogiad a chwmpodion (*cases*—"achosion") sylweddeiriau, ac â thrydydd person y perwyddiaid, &c. wrth ymdrin â'r rhanau ymadrodd.

§ 138. *E*, pan ei dilynir yn ddigyfrwng gan *r*, mewn sillau acenol o flaen neu ar ol yr acañ, a seinir bob amser fel yr *y* Gymmreig yn y gair *tyrfa* (§ 23, rhif 5, llin. 1, col. 5): *pertain*, *pyr-tên*; *observation*, *ob-zyr-fe-shyn*; *letter*, *let-yr*; *tolerable*, *tól-yr-a-b'l*. Am sain yr *e* yma mewn sillau acenol, edr. § 122—125.

SEINIAU YR *I*.

§ 139. Mae i'r llythyren *i* Seisnig bedair o brif seiniau: *i* yn *fine* (§ 12, rhif 9); *i* yn *fit* (§ 23, rhif 1, col. 6); *i* yn *bird* (§ 23, rhif 5, col. 3); ac *i* yn *frize* (§ 23, rhif 1, llin. 2, col. 3).

*I* 1.

§ 140. *I*, yn *fine*, *flein*. Hon ydyw sain egwyddorol *i*, yr hon, mewn gwirionedd, sy ddeuseiniad trwyadl, ac a ynganir yn bur debyg, os nad yr un fath yn hollol, a'r deuseiniad Cymmreig *ei*, yn *Ceidwad*; ac *ei* a ddefnyddir yn yr engreiffiau cynaniadol i ddynodi yr *i* yma yn mhob sefyllfa.

§ 141. *I*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill a derfynañt âg un gydsain ac *e* fud: *tribe*, *treib*; *pride*, *preid*.

Eithr: *give*, *gif*; *live*, *lif*.

(2.) Mewn geiriau unsill rhyddion a chaethedig, o flaen *gh*, y *gh* yn fudion: *high*, *hei*; *nigh*, *nei*; *might*, *meit*; *knight*, *neit*.

(3.) Mewn geiriau unsill o flaen *ld* neu *nd*: *mild*, *meild*; *mind*, *meind*.

(4.) Fel eithrad yn *climb*, *cleim*; *sign*, *sein*; *isle*, *eil*; *pint*, *peint*; *Christ*, *Creist*; ac yn *oblige*, *o-bleij'*, a'i hanedigion.

(5.) Mewn geiriâu hanedig o'r dospeirth yna, neu o gyffelyb gyfansoddiad iddynñt: *prideful*, *preid-ffwl*; *high-wayman*, *hei-we-myn*; *brightness*, *breit-nes*; *childhood*, *cheild-hwd*; *binding*, *beind-ing*; *climber*, *clei-myr*; *design*, *di-sein*; *island*, *ei-lynd*, &c.

(6.) Pan yn diweddu sill acenol: *title*, *tei-t'l*; *disciple*, *dis-sei-p'l*.

*Yr I 1 o flaen R.*

§ 142. Effaith yr *r* orchfantol (§ 78—80) yn unig a berā wahaniaeth rhwng yr *i* yma a'r un a ddarluniwyd yn § 140.

§ 143. *I*, a ddynoda y sain yma :—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen *r* ac *e* fud : *fire*, ffe'i'r ; *hire*, hei'r ; *mi're*, mei'r.

Eithr : *shire*, shi'r.

(2.) Mewn sillau acenol o gyfansoddiad cyffelyb i'r dosparth yna : *ireful*, ei'r-ffwl ; *aspire*, as-pe'i'r.

### I 2.

§ 144. *I*, yn *fit*, ffit (§ 23, rhif 1, llin. 2, col. 6). Mae sain yr *i* yma fel y dangoswyd eisys (§ 20), yn dra thebyg i'r eiddo *u* Gymmreig yn *cut*, megys rhwng yr *u* yma a'r *i* Gymmreig yn *cip*. Pan fyddo yr *e* yn anacenol, fel yn *coal-pit*, *côlpit*, mae yn dynesu mwy at sain yr *u* Gymmreig na phan yn acenol. Dilynir hi bob amser mewn geiriau unsill a sillau acenol, âg un gydsain neu chwaneg.

§ 145. Dynodir yr *i* yma yn yr engreiffitiau cynaniadol ag *i*.

§ 146. *I*, a ddynoda y sain hon :—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen un gydsain neu chwaneg : *bid*, bid ; *minx*, minges.

(2.) Mewn geiriau unsill o flaen *dge*, *lge*, *nce*, neu *nge* : *bridge*, brij ; *bilge*, bilj ; *prince*, prins ; *cringe*, crinj.

(3.) Mewn sillau acenol yn y geiriau a hanant o'r dospeirth yna, neu a fyddont o gyffelyb lythyreniad iddynt : *bidden*, bid-d'n : *ridgy*, rij-i ; *bilgewater*, bilj-wo-tyr, &c.

(4.) Fel eithrad : yn *niche*, nich ; *cinque*, singe.

### I 3.

§ 147. *I*, yn *bird*, bêrd (§ 23, rhif 5, llin. 1, col. 3). Tybir mai yr un sain yn hollol sydd i'r *i* yma, ag sydd i'r *E* 3 (§ 122) ; am hyny dynodir sain y ddwy lythyren yr un fath<sup>1</sup> yn yr engreiffitiau cynaniadol (§ 123).

§ 148. *I*, a ddynoda y sain yma :—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen *r*, neu *r* ac un gydsain neu chwaneg : *sir*, sér ; *mirth*, mërth ; *thirst*, thêrst.

(2.) Mewn sillau acenol o'r un cyfansoddiad a'r dosparth yna : *virtue*, fêr-tiw, neu fêr-chiw ; *circumstance*, sér-cymstyns ; *extirpate*, ecs-têr-pet.

(3.) Fel eithrad yn *dirge*, dêrj.

### I 4.

§ 149. *I*, yn *frize*, ffrîz (§ 23, rhif 1, llin. 2, col. 3). Yr un ydyw y sain yma a'r eiddo *E* 1 (§ 113) ; a dynodir sain y ddwy lythyren yr un fath (§ 114).

<sup>1</sup> Yr un fath hefyd y dynoda *Smart* sain y ddwy lythyren.



§ 150. *I*, a ddynoda y sain hon :—

(1.) Yn y geiriau unsill hyn yn unig, o flaen *que, sme*, neu *ze*—yr *ue*, yr *s-e*, a'r *e* yn fudion : *pique*, pîc; *clique*, clîc; *disme*, dîm; *frize*, ffrîz.

(2.) Mewn sillau acenol o flaen *ce, gue, le, fue, se*, neu *vø*—yr *e* yn fud : *caprice*, ca-prîs; *police*, po-lîs; *fatigue*, ffa-tîg; *profile*, pro-ffîl; *unique*, iw-nîc; *chemise*, shem-îz; *chevaux-di-frise*, shef-o-di-ffrîz; *recitative*, res-i-ta-tîf.

(3.) Mewn sillau acenol yn terfynu âg *n*, neu *n* ac *e* fud : *bombasin*, bym-ba-zîn; *chopin*, cho-pîn; *trepaine*, tri-ffîn; *quarantine*, cwor-yn-tîn; *magazine*, mag-a-zîn, &c.

(4.) Fel eithrad, yn *Brasil*, neu *Brazil*, bra-zîl; *glacis*, gla-sis; *capive*, ca-pî-fi.

#### *Yr I 4 o flaen R.*

§ 151. *I*, yn *shire*, shî'r. Yr un sain ydyw hon a'r eiddo *E 1* o flaen *r* (§ 117); ac a ddynodir yr un fath yn yr engr-eiffitiau cynaniadol.

§ 152. *I*, a ddynoda y sain yma yn y gair *shire* yn unig, a'i hanedigion : *shiremote*, shî'r-mot; *Yorkshire*, iôrc-shî'r; *Carnarvonshire*, cyr-nâr-fyn-shî'r, &c.

#### *Seiniau anacenol I.*

§ 153. Yr *I*, a gymmer ei sain egwyddorol (§ 12, rhif 9; § 140), mewn sillau anacenol :—

(1.) Pan yn unigol yn y sill flaenaf, a'r ail sill yn acenol, ac yn dechreu â chydsain : *idea*, ei-di-a; *identity*, ei-dên-ti-ti; *irascible*, ei-râs-i-b'l.

Eithr : *imagin*, i-maj-in.

(2.) Pan yn terfynu y sill flaenaf, a'r ail sill yn acenol, ac yn dechreu â llafariad : *diameter*, dei-âm-i-tyr; *biography*, bei-ôg-ra-ffi.

(3.) Yn y blaenddodau *bi, cli, cri, gi, li, ni, pri, tri*, pan yn ddigyfrwng o flaen y sill acenol : *biangular*, bei-ân-giw-lys; *climacter*, clei-mac-tyr; *cribration*, crei-bra-shyn; *gigantic*, jei-gan-tic; *libration*, lei-bre-shyn; *nigrescent*, nei-gres-ent; *primeval*, prei-mi-fyl; *tribunal*, trei-biw-nyl.

Eithr : *bituman*, bi-tiw-myn; *litigious*, li-ti-jys; *libidinous*, li-bîd-i-nys; a'u hanedigion.

(4.) Yn y blaenddod *chi*, o flaen sill acenol yn dechreu âg *r* : *chiragra*, cei-re-gra; *chirography*, cei-rôg-ra-ffi, &c.

(5.) Fel eithrad yn y blaenddodau *di, mi, pi, ri, si, vi*, mewn geiriau fel hyn : *digladiation*, dei-glad-i-e-shyn; *micrography*, mei-crôg-ra-ffi; *piratical*, pei-rât-i-cyl; *rivality*, rei-fâl-i-ti; *silentiary*, sei-lên-shyr i; *vibration*, fei-bre-shyn.

(6.) Yn y terfyniadau *cide, ise, ize*, pan na fyddo yr acan ar y sill olaf ond un: *regicide, réj-i-seid*; *enterprise, én-tyr-preiz*; *civilize, síf-il-eiz*.

§ 154. Yr *i* a gymmer sain yr *I* 2 (§ 144, 145) mewn sillau anacenol:—

(1.) Pan yn terfynu sill o flaen neu ar ol yr acan; *diversification, di-fyr-si-ffi-ce-shyn*; *vanity, fân-i-ti*.

(2.) Mewn sillau dechreuol o flaen *r*, pan ddechreuia y sill ddilynol â llafariad, neu âg *r*: *mirador, mir-a-do'r'*; *irradiate, ir-ré-di-et*; *irregular, ir rég-iw-lyr*.

(3.) Yn y blaendodau *ci, di, fi, mi, pi, pli, ri, si, ti*, pan yn ddigyfrwng o flaen y sill acenol: *cigar, si-gâr*; *digression, di-gresh-yng*; *fidelity, ffi-dél-i-ti*; *militia, mi-lish-a*; *pilosity, pi-lós-i-ti*; *plication, pli-ce-shyn*; *ridiculous, ri-dic-iw-lys*; *silicious, si-lish-ys*; *timidity, ti míd-i-ti*.

Eithr: *citation, sei-te-shyn*, a'r dosparth 5 o § 153.

(4.) Yn nherfyniad geiriau rhwng dwy gydsain, pan ddilynir y gydsain olaf gan *e* fud, ac y rhagflaenir y terfyniad yn ddigyfrwng gan sill acenol: *reptile, rep-teil*; *sportive, spôr-tif*; *office, off-is*, &c.

Eithr: mae yr eithradau i'r rheol hon, fel llawer un arall, mor amrywiol, fel y rhaid cyfeirio yr efrydydd i'w "Eiriadur Cynaniadol" am hyfforddiant pellach.

§ 155. *I*, yn y terfyniadau *ice, ile, ime, ine, ite*, &c. a seinir weithiau fel *I* 1 (§ 140), a phryd arall fel *I* 2 (§ 144): *sacrifice, sác-ri-ffeiz*; *cowardice, ców-yr-dsi*; *infantile, ín-ffan-teil*; *puerile, píw-yr-il*; *pantomime, pân-to-meim*; *maritime, már-i-tim*; *porcupine, pôr ciw-pein*; *discipline, dís-i-plin*; *aconite, ác-o-neit*; *definite, déff-i nit*, &c.

I'r "Geiriadur Cynaniadol" y rhaid cyfeirio i benderfynu hyn eto.

§ 156. *I*, yn y blaendod *cir*, a seinir braidd yn ddieithrad, fel *I* 3 (§ 147). Sain anacenol yr *i* yma a ddynodir yn yr engreiffitiau cynaniadol ag *y* o flaen *r* orchfantol—yr: *circumfluent, syr-çym-ffliwent*, &c.

§ 157. *I*, mewn sillau anacenol o flaen yr acan, ac yn y terfyniad anacenol *ir*, a seinir yr un modd: *confirmation, confyr-me-shyn*; *extirpation, ecs-tyr-pa-shyn*; *nadir, ne-dyr*; *elixir, i-lics-yr*.

§ 158. *I*, yn y terfyniad anacenol, *ire*, a seinir fel *I* 1, o flaen *r* (§ 142): *empire, empei'r*; *acrospire, ác-ro-spei'r*, &c.

#### SEINIAU YR O.

§ 159. Mae i'r llythyren *o* bump o wahanol seiniau; *o* yn *note* (§ 23, rhif 6, col. 2); *o* yn *torment* (§ 23, rhif 4, llin. 2,

col. 3); *o* yn *cot* (§ 23, rhif 4, col. 6); *o* yn *prove* (§ 23, rhif 7, llin. 2, col. 3), ac *o* yn *came* (§ 23, rhif 5, col. 6).

## O 1,

§ 160. *O*, yn *note*, nôt. Hon ydyw sain egwyddorol yr *o* Seisnig (§ 12, rhif 15;) ac nid oes yn y Gymmraeg sain gwbl gyfatebol iddi. Yn ngenau Llundainiwr, medd Smart, nid yw y sain yma yn hollol seml, ond tuedda i ymgrynhöi at ei diwedd, gan derfynu braidd fel *oo* yn *too*, *tw*. Cynnyrch-ir y sain yn briodol, trwy estyn allan y gwefusau, a'u ffurfio yn lled debyg i'r llythren *o*, gan gyrchu y llais o'r gwddf, o ffurfle y Gymmreig, a'i osgöi wrth ei derfynu, megys at sain *w* Gymmreig, gan barhaus gadw y gwefusau yn gyfrigrwn; ond dylid gofalu na chynnyrcher deuseiniad.

§ 161. Dynodir y sain yma yn yr engreiffiau cynaniadol mewn sillau caethedig, acenol, âg ô: *note*, nôt; *boating*, bôt-ing:—ac mewn sillau rhyddion, a rhai caethedig, anac-enol âg *o*: *lo*, lo; *obey*, o-bé; *cockboat*, coc-bôt.

§ 162. *O*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill rhyddion: *go*, go; *no*, no.

Eithr: *to*, t̄w; *do*, dw; *who*, hw.

(2.) Mewn geiriau unsill o flaen un gydsain ac *e* fud: *robe*, rôb; *made*, môd.

Eithr: *come*, cym; *done*, dyn; *dove*, dyf; *one*, w̄yn.

(3.) Mewn geiriau unsill o flaen *ld*, *ll*, *lm*, *lk*, *lt*, *st*: *old*, ôld; *poll*, pôl (*syl.*); *holm*, hôm; *folk*, ffôc (yr *l* yn fud); *bolt*, bôlt; *post*, pôst.

Eithr: *poll*, pol (*per.*); *doll*, dol; *loll*, lol; *cost*, cost; *dost*, dyst, &c.

(4.) Mewn geiriau unsill o flaen *gue*—yr *ue* yn fudion: *brogue*, brôg; *rogue*, rôg.

(5.) Fel eithrad yn *bath*, bôth; *sloth*, sloth; *gross*, grôs; *comb*, côm (y *b* yn fud).

(6.) Mewn sillau acenol o gyfansoddiad cyffelyb i'r dos-peirth yna: *potent*, po-tent; *rosemary*, rôz-ma-ri; *cajole*, ca-jôl; *revolt*, ri-fôlt; *prorogue*, pro-rôg, &c.

## Yr O 1 o flaen R.

§ 163. Effaith yr *r* orchfantol (§ 78—80) yn unig sydd yn gwahaniaethu yr *o* yma oddiwrth yr un flaenorol.

§ 164. *O*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen *r*, *re*, neu *rne*—yr *e* yn fud: *bore*, bo'r; *borne*, bo'rn; *forn*, ffo'rn.

(2.) Mewn amryw eiriau unsill yn terfynu âg *rce*, *rde*, neu *rge*—yr *e* yn fud: *force*, ffo'rs; *horde*, ho'rd; *forge*, ffo'rj.

(3.) Mewn geiriau unsill o flaen *r* a rhyw gydsain arall: *sword*, so'rd; *pork*, po'rc; *torn*, to'rn; *fort*, ffo'rt; *porch*, po'rch; *forth*, ffo'rth; *corps*, co'r (y *ps* yn fudion).

(4.) Mewn sillau acenol o gyfansoddiad cyffelyb: *oread*, o'r-i-yd; *foremost*, ffo'r-most; *forceful*, ffo'rs-ffwl; *forgery*, ffo'r'-jyr-i, &c.

## O 2.

§ 165. *O*, yn *nor*, nôr, neu *torment*, tôrment (§ 23, rhif 4, llin. 3, col. 3). Mae sain yr *o* yma yn lletach a mwy gorchfantol na'r eiddo *O* 1 o flaen *r* (§ 163): mae hon yn yr un sain yn hollol a'r *A* 3 o flaen *r* (§ 97); a dynodir sain y ddwy yn yr engreiffiau cynaniadol yr un fath; sef, mewn sillau acenol, âg *ô* Italaidd yn rhagflaenu *r* orchfantol—*ôr*; ac mewn sillau anacenol, âg *o* Italaidd, o flaen *r* orchfantol—*or* (§ 78—80).

§ 166. *O*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen *r*, neu *r* ac un gydsain neu chwaneg yn ei dilyn: *or*, ôr; *nor*, nôr; *orb*, ôrb; *lord*, lôrd; *torch*, tôrch, &c.

Eithr: *ford*, ffo'rd; *sport*, spo'rt; *porch*, po'rch; *pork*, po'rc (§ 164, 1, 2, 3).

(2.) Mewn sillau acenol cyffelyb: *morning*, môrn-ing; *torment*, tôr-ment.

## O 3.

§ 167. *O*, yn *cot*, cot (§ 23, rhif 4, col. 6). Mae yr *o* yma, o ran ynganiad, yn hollol gyfatebol i sain *A* 3 (§ 94); o ran meintiolaeth yn unig y mae yn gwahaniaethu; ac y mae yn dra thebyg i'r *o* Gymmreig yn *tôn*, *calon*.

§ 168. Dynodir y sain yma yn yr engreiffiau cananiadol, mewn sillau acenol ac anacenol âg *o*—*cot*, topping; *house-top*, hows-top.

§ 169. *O*, a ddynoda y sain hon:—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen un gydsain neu chwaneg: *blot*, blot; *odd*, od; *flock*, floc; *of*, of; *off*, off; *soft*, sofft; *conch*, conge; *prompt*, promt (y *p* yn fud).

Eithr: *ton*, tyn; *son*, syn; *whom*, hwm; *lomp*, lym; *front*, ffrynt; *monk*, myngc; *tong*, tyng; *tongue*, tyng (yr *ue* yn fudion).

(2.) Mewn geiriau unsill o flaen *dge*, *ne*, *nce*, *nge*, *nze*—yr *e* yn fud: *lodge*, loj; *gone*, gon; *sconce*, scon; *conge*, conj; *bronze*, bronz; ac fel eithrad yn *solve*, solf.

Eithr: *sponge*, spynj.

(3.) Fel eithrad yn *doll*, dol; *loll*, lol; *poll*, pol. Edr. § 162, 3, yr eithradau.

(4.) Mewn sillau acenol o gyffelyb gyfansoddiad i'r dos-peirith uchod: *probable*, prób-*a*-b'l; *mnemonics*, ni-mon-ics; *cognizance*, cóg-ni-zyns; *college*, col-ej; *pomposity*, pom-pós-i-ti; *demonstration*, di-mon-stre-shyn.

Eithr: y blaenddodau acenol ac anacenol *com*, a *con*, yn fynych: *comfort*, cym-ffyr't; *compact*, cym-páct; *constable*, cýn-sta-b'l; *conjunction*, cyn-jyr-e-shyn; *conceit*, cyn-sít.

(5.) Mewn sillau acenol o flaen *r*, pan ddilynir yr *r* yn ddigyfrwng gan lafariad neu *r* arall:—*moral*, mor-yl; *borrow*, bor-o.

§ 170. Mae *o*, o flaen *ss*, *st*, neu *th*, i'w seinio yn dra thebyg i *A* 3 (§ 94); ychydig yn lletach a hwy nag *o* yn *top*. Mae seiniau yr *o* fel hyn, yn gydweddol â seiniaid yr *A* 4, o flaen y cydseiniaid a nodwyd yn § 103. Rhaid i'r dysgadur gofio hyn, gan nas defnyddir arwyddnod gwahanol yn yr engreiffitiau cynaniadol i'r eiddo *o* § 168, i ddynodi sain yr *o* dan sylw—bydd presennoldeb *ss*, *st*, neu *th*, ar ei hol yn yr un sill, yn ddigon i'w gwahaniaethu.

§ 171. *O*, a ddynoda y sain dan sylw mewn geiriau fel hyn: *dross*, dros; *cost*, cost; *broth*, broth.

Eithr: *gross*, grôs; *post*, post; *ghost*, gôst; *both*, bôth; *sloth*, slôth (§ 162, 3); *doth*, dyth.

#### O 4.

§ 172. *O*, yn *prove*, prwf (§ 23, rhif 7, llin. 2, col. 3). Yr un ydyw y sain yma a'r *w* Gymmreig yn *sŷn*.

§ 173. Yn yr engreiffitiau cynaniadol, dynodir y sain hon mewn sillau rhyddion âg *w*—*to*, *tw*:—mewn sillau caethedig âg *w*: *movement*, mwf-ment.

§ 174. *O*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill rhyddion: *to*, *tw*; *do*, *dw*; *who*, *hw*.

(2.) Mewn geiriau unsill o flaen *me*, *se*, neu *re*—yr *e* yn fud: *Frome*, ffrwm; *lose*, lŵz; *prove*, prwf.

(3.) Fel eithrad yn *tomb*, twm; *womb*, wwm (y *b* yn fud); *whom*, hwm.

(4.) Mewn sillau acenol o gyffelyb gyfansoddiad i'r dos-peirith yna: *doing*, dw-ing; *movement*, mwf-ment; *looseness*, lws-nes; *worsted*, wwr-sted (gwerinol, wys-tud).

§ 175. Mae i'r *o* sain fer, gyferbyniol i'r sain uchod, yn y tri gair Seisnig yma yn unig: *wolf*, wwlff; *woman*, wwm-yn; *bosom*, bwz-ym.

#### O 5.

§ 176. *O*, yn *come*, cym (§ 23, rhif 5, col. 6). Yr un yw

sain yr *o* yma a'r eiddo *y* Gymmreig yn y gair *cymmod*, neu *u* Seisnig yn y gair *nut*, nyt.

§ 177. Dynodir sain yr *o* yma bob amser yn yr engreiffitiau cynaniadol âg *y*: *company*, cým-pa-ni.

§ 178. *O*, a ddynoda y sain hon:—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen *me*, *ne*, *nce*, *nge*, neu *re*—yr *e* yn fud: *come*, cym; *done*, dyn; *once*, wyns; *sponge*, spynj; *love*, lyf.

(2.) Mewn geiriau unsill o flaen *mb*, *mp*, *n*, *ng*, *nk*, *nt*, *nth*, *st*, *th*, yn y geiriau hyn: *bomb*, bym (y *b* yn fud); *rhomb*, rymb; *lomp*, lymp; *son*, syn; *ton*, tyn; *tong*, tyng; *monk*, myngc; *front*, ffrynt; *month*, mynth; *dost*, dyst; *doth*, dyth.

(3.) Fel eithrad yn *tongue*, tyng.

(4.) Mewn sillau acenol cyffelyb i'r dospeirith uchod: *comely*, cym-li; *nonesuch*, nyn-sych; *dovetail*, dyf-tel; *shovel*, shyf-f<sup>l</sup>; *sponger*, spyn-jyr, &c.

(5.) Mewn sillau acenol o flaen *r*, pan ddilynir yr *r* yn ddigyfrwng gan lafariad neu *r* arall: *borage*, byr-ij; *borough*, byr-o; *worry*, wyr-i.

(6.) Fel eithrad yn y geiriau a ganlynant, a'u hanedigion: *colander*, cŷl-yn-dyr; *colour*, cyl-yr; *colonel*, cyr-nyl; *cozen*, cyz-z'n; *dozen*, dyz-z'n.

(7.) Yn fynych yn y blaendodau acenol ac anacenol *com* a *con*: *comfit*, cym-ffit; *complete*, cym-plit; *conduit*, cyn-dit; *condign*, cyn-dein'.

### Yr *O* 5 o flaen *R*.

§ 179. *O*, yn *word*, wŷrd (§ 23, rhif 5. llin. 2, col. 3). Mae y sain yma yn dra thebyg i'r eiddo *E* 3 (§ 122), yn *verb*, fêrb; ac i'r eiddo *y* Gymmreig yn *tyrfu*; ac y mae yn hollol gyfansain â'r *u* Seisnig yn *urge*, ŷrj.

§ 180. Yn yr engreiffitiau cynaniadol, *ŷ*, o flaen yr *r* orchfantol, *ŷr*, a ddefnyddir i ddynodi sain yr *o* yma, yr hon a ddigwydd yn

(1.) Mewn geiriau unsill ar ol *w*, ac o flaen *r* a rhyw gydsain arall yn dilyn yr *r*: *word*, wŷrd; *work*, wŷrc; *world*, wŷrld; *worm*, wŷrm; *worse*, wŷrs, &c.

(2.) Mewn sillau o gyfansoddiad cyffelyb i'r dosparth yna, acenol neu anacenol: *wordless*, wŷrd-les; *workman*, wŷrc-myn; *unworthy*, yn-wŷr-ddi; *lungwort*, lyng-wyrt; *Bosworth*, bos-wyrth; *Wandsworth*, wondz-wyrth.

(3.) Fel eithrad yn *attorn*, at-tŷrn; *attorney*, at-tŷr-ni; a'i hanedigion.

*Seiniau anacenol O.*

§ 181. Yr *o*, a gymmer ei sain egwyddorol (§ 12, rhif 15; § 160), mewn sillau anacenol, pan yn terfynu sill yn ddigyfrwng o flaen neu ar ol y sill acenol: *polite*, *po-leit'*; *impotent*, *im-po-tent*.

§ 182. *O*, yn y blaendodau anacenol *com* a *con*, a seinir yn fynych fel *O* 3 (§ 167), yn enwedig pan fyddont dan yr adacan: *combination*, *com-bi-ne-shyn*; *contemplation*, *contem-ple-shyn*; ond y mae cynnifer o eithradau i'r rheol hon (§ 178, 7), fel mai y geiriadur cynaniadol yn unig sydd i'w penderfynu.

§ 183. *O*, yn *or*, pan yn anacenol yn nghanol gair, a'r *r* heb gael ei dilyn gan lafariad na chan *r*, neu pan mewn terfyniad anacenol, a seinir fel *o* yn word, wŷrd (§ 179), ond yn fyrach, fel *yr* (§ 156): *opportunity*, *op-yr-tiŵ-ni-ti*; *author*, *ô-thyr*; *arbitrator*, *âr-bi-tre-tyr*; *superior*, *siw-pí-ri-yr*.

§ 184. *O*, yn y terfyniad anacenol *on*, mewn geiriau amrysill, a seinir yn gyffredin fel *O* 5 (§ 176), neu fel y gair Cymmreig *yn*: *aphelion*, *a-ffi-li-yn*; *automaton*, *o-tóm-a-ty-n*; *euroclydon*, *iw-róc-li-dyn*; *diapason*, *dei-a-pe-zyn*, &c.

§ 185. Yr un sain a roddir i *o* yn fynych, yn y terfyniadau anacenol *ol*, *om*, *on*, mewn geiriau dwysill a theirsill: *pistol*, *pis-tyl*; *vitriol*, *fít-ri-yl*; *kingdom*, *cing-dym*; *idiom*, *íd-i-ym*; *London*, *lyn-dyn*; *ichnewmon*, *ic-niŵ-myn*, &c.

§ 186. Mae *o* yn gyffredin yn fud yn y terfyniad anacenol *on*, pan ei rhagflaenir gan *c*, *d*, *k*, *p*, *s*, *t*, neu *z*: *deacon*, *di-c'n*; *pardon*, *pâr-d'n*; *beckon*, *bec-c'n*; *capon*, *ce-p'n*; *lesson*, *les-s'n*; *button*, *byt-t'n*; *blazon*, *ble-z'n* (§ 361).

SEINIAU YR *U*.

§ 187. Mae i'r llythyren *u* Seisnig bump o wahanol seiniau: *u* yn *tube* (§ 12, rhif 21); *u* yn *urge* (§ 23, rhif 5, llin. 2, col. 3); *u* yn *nut* (§ 23, rhif 5, col. 6); *u* yn *bull* (§ 23, rhif 7, llin. 2, col. 6); *u* yn *rule* (§ 23, rhif 7, llin. 2, col. 3).

*U* 1.

§ 188. *U*, yn *tube*, tiŵb. Hon ydyw sain egwyddorol *u*, yr hon sy ddeuseiniad gwirioneddol, cyfunsain â'r deuseiniad Cymmreig *iŵ* yn *iwrch*, ond bod sain yr *w* yn *iwrch* yn ferach nag ydyw elfen olaf yr *u* Seisnig yn *tube*.

§ 189. Mae sain yr *u* yma, medd Smart, yr un yn hollol a yōō, iŵ; ac yn yr engreiffitiau cynaniadol, dynodir y sain yma mewn geiriau unsill a sillau acenol, caethedig, âg iŵ: *cube*, ciŵb; *lukewarm*, liŵc-worm—ac mewn sillau rhyddion

ac anacenol, oddieithr yn achlysurol, âg *iw*: *you*, *iw*; *interlude*, *in-tyr-liwd*: a chofied y dysgadur roddi y pwyslais bob amser ar sain yr *w*.

§ 190. *U*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen un gydsain ac *e* fud: *huge*, *hiw̄g*; *duke*, *diw̄c*.

Eithr: *rule*, *rwl*; *prune*, *prwn*; *cruse*, *crwz*; *ruse*, *rŵz*.

(2.) Fel eithrad yn *fugue*, *ffiw̄g*.

(3.) Mewn sillau acenol o'r un cyfansoddiad: *tuneful*, *tiwn-ffwl*; *muteness*, *miwt-nes*; *abduce*, *ab-diws*; *abuse*, *a-biws*.

(4.) Pan yn terfynu sill acenol: *union*, *iw-ni-yn*; *bugle*, *biw-g'l*.

### *Yr U 1 o flaen R.*

§ 191. *U*, yn *mure*, *miw'r* (§ 78—80). Dengys Smart fod y sain yma yn gyfunsain â *mūur*, *miw̄yr*—yr *r* bob amser yn orchfantol.

§ 192. *U*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen *r* ac *e* fud: *ure*, *iw'r*; *bure*, *biw'r*; *cure*, *ciw'r*; *mure*, *miw'r*; *pure*, *piw'r* (cynifer ag sydd yn yr iaith).

Eithr: *sure*, *shw'r*.

(2.) Mewn sillau acenol o gyfansoddiad cyffelyb: *secure*, *si-ciw'r*; *endure*, *en-diw'r*; *impurely*, *im-piw'r-li*.

### *U 2.*

§ 193. *U*, yn *urge*, *ŷrj* (§ 23, rhif 5, llin. 2, col. 3). Yr un ydyw y sain yma a'r eiddo *O 5* (§ 178), a dynodir hi yr un fath âg *ŷr* (§ 179), yn yr engreiffitiau cynaniadol.

§ 194. *U*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen *r*, neu *r* ac un gydsain, neu chwang: *blur*, *blŷr*; *curb*, *cŷrb*; *church*, *chŷrch*; *burgh*, *bŷrg*.

(2.) Mewn geiriau unsill o flaen *rge*, *rse*, *rve*, *rze*—yr *e* yn fud: *purge*, *pŷrj*; *curse*, *cŷrs*; *curve*, *cŷrf*; *furze*, *ffŷrz*.

(3.) Mewn sillau acenol o gyfansoddiad cyffelyb: *surfeit*, *sŷr-ffit*; *burgher*, *bŷr-gyr*; *disburse*, *dis-bŷrs*; *disburthen*, *dis-bŷr-th'n*, &c.

### *U 3.*

§ 195. *U*, yn *nut*, *nyt* (§ 23, rhif 5, col. 6). Yr un sain ydyw hon a'r eiddo *O 5* (§ 175); a dynodir hi yr un fath, âg *y*, yn yr engreiffitiau cynaniadol.

§ 196. *U*, a ddynoda y sain yma:—



(1.) Mewn geiriau unsill o flaen un gydsain neu chwaneg: *tub*, *tyb*; *pluck*, *plyc*; *duct*, *dyc*; *suds*, *sydz*; *such*, *sych*.

(2.) Mewn geiriau unsill o flaen *dge*, *lge*, *lse*, *nce*, *nge*—yr *e* yn fud: *fudge*, *ffyj*; *bulge*, *bylj*; *pulse*, *pyls*; *dunce*, *dyns*; *plunge*, *plynj*.

(3.) Mewn sillau acenol o lythyreniad cyffelyb: *subaltern*, *sýb-yl-tyrn*; *cupboard*, *cyb-bo'rd*; *gudgeon*, *gyj-yn*; *presumption*, *pri-zym-shyn*, &c.

## U 4.

§ 197. *U*, yn *bull*, *bwl* (§ 23, rhif 7, llin. 2, col. 6). Yr un ydyw y sain yma a'r eiddo *w* Gymmreig yn *cwmwl*, neu yr *oo* Seisnig yn *hood*, *hwd*; a dynodir hi yn yr engreiffitiau cynaniadol bob amser âg *w*: *full*, *ffwl*.

§ 198. *U*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen *ll*, *sh*, *ss*, neu *t*: *pull*, *pwl*; *bush*, *bwsh*; *puss*, *pws*; *put*, *pwt*.

(2.) Mewn sillau acenol yn y geiriau a hanant o'r dosparth yna, a mewn rhai o gyffelyb lythyreniad: *bullet*, *bwl-et*; *fulness*, *ffwl-nes*; *bushy*, *bwsh-i*; *putlog*, *pwt-log*; *pul-pit*, *pwl-pit*, &c.

(3.) Fel eithrad yn y geiriau hyn: *butcher*, *bwch-yr*; *cuckoo*, *cwc-cw*; *pudding*, *pwd-ing*; *sugar*, *shwg-yr*; a'u hanedigion.

## U 5.

§ 199. *U*, yn *rule*, *rwl* (§ 23, rhif 7, llin. 2, col. 3). Yr un yw y sain hon a'r eiddo *o* yn *prove*, *prwf* (§ 171); a'r un fath y dynodir sain y ddwy lythyren yn yr engreiffitiau cynanianol.

§ 200. *U*, a ddynoda y sain yma:—

(1.) Mewn geiriau unsill o flaen *ce*, *de*, *le*, *ne*, *se*, *te*—yr *e* yn fud, a'r *u* yn cael ei rhagflaenu yn ddigyfrwng gan *r*:<sup>1</sup> *truce*, *trws*; *crude*, *crwd*; *rule*, *rwl*; *prune*, *prwn*; *cruse*, *crwz*; *brute*, *brwt*.

(2.) Fel eithrad yn *Pugh*, *pw*; *Ruth*, *rwth*; *truth*, *trwth*.

(3.) Mewn sillau acenol yn y geiriau a hanant o'r dospeirth yna: *sprucely*, *sprws-li*; *crudeness*, *crwd-ness*; *ruler*, *rwl-yr*; *pruning*, *prwn-ing*; *cruel*, *crw-il*; *cruset*, *crw-zet*; *brutish*, *brw-tish*; *truthful*, *trwth-ffwl*, &c.

§ 201. Mae i *u* ddwy sain arall, a ddigwyddant yn unig, mewn sillau acenol, yn *bury* a *busy*, a'u hanedigion; sef

<sup>1</sup>Sylwed y dysgadur fod *r* yn rhagflaenu yr *u* yn mhob cyflead, oddi eithr yn y gair *Pugh* yn unig.

sain *e* yn *met* (§ 23, rhif 2, col. 6), a sain *i* yn *fit* (§ 23, rhif 1, col. 6): *bury*, ber-i; *burying*, bér-i-ing; *burial*, bér-i-yl; *burialplace*, bér-i-yl-ples; *busy*, biz-i; *busily*, bíz-i-li; *business*, biz-les, bíz-i-les; *busybody*, bíz-i-bod-i; *business*, biz-nes.

### *Seiniau anacenol U.*

§ 202. *U*, a gymmer ei sain egwyddorol (§ 12, rhif 21; § 188, a 189):—

(1.) Pan yn terfynu sill anacenol, o flaen neu ar ol yr acan: *unite*, iw-neit'; *unanimous*, iw-nán-i-mys; *accumulation*, ac-ciw-miw-le-shyn; *accurate*, ác-ciw-ret; *accumulate*, ac-cíw-miw-let, &c.

(2.) Mewn terfyniadau anacenol o flaen un gydsain ac e fud: *interlude*, ín-tyr-liwd; *latitude*, lát-ti-tiwd; *longitude*, lón-ji-tiwd; *subterfuge*, sýb-tyr-ffiwj; *vestibule*, vés-ti-biwl; *vermicule*, fêr-mi-ciwl; *fortune*, ffôr-tiwn (gwerinol ffôr-chwn) *absolute*, áb-so-liwt; *substitute*, sýb-sti-tiwt, &c.

(3.) Pan yn diweddu terfyniad anacenol o flaen *e* fud: *continue*, con-tin-iw; *retinue*, rét-i-niw; *avenue*, áf-i-niw; *revenue*, réf-i-niw.

Eithr: pan fyddo *ue* yn diweddu terfyniad anacenol ar ol *g*, bydd y ddwy yn fudion: *demagogue*, dém-a-gog; *synagogue*, sín-a-gog; *apologue*, áp-o-log; *catalogue*, cát-a-log, &c.

§ 203. *U*, yn y terfyniadau anacenol, *cure* a *ture*, a seinir fel yr *U* 1 o flaen *r* orchfantol (§ 190): *epicure*, ép-i-ciwr; *sinecure*, séi-ni-ciwr; *conjecture*, con-jec-tiwr; *curvature*, cýr-fa-tiwr; *furniture*, ffýr-ni-tiwr.

D.S...Y cynaniad gwerinol o'r terfyniad *ture* yw *chw'r*, *tshw'r*; yna, *con-jec-chw'r*, *cýr-fa-chw'r*, *ffýr-ni-chw'r*. Nid oes neb o'r cynanwyr Seisnig yn gwadu nad oes tuedd gref yn y *t* i seinio fel *ch*, *tsh*; ac yn y *d* i seinio fel *j*, *dzh*; pan yn rhagflaenu *u* a rhai cyfuniadau eraill o lafariaid, mewn terfyniadau anacenol: *megys*, *verdure*, *nature*, &c.—ond cyfarwyddyd y safonau (*standards*) yw, cymmeryd llwybr canol—peidio eu cwbl seinio yn *fêr-jw'r*, *na-chw'r*, nac yn *fêr-diwr*, *ne-tiwr*, pur ychwaith; eithr prin gyffwrdd, *megys*, â sain y *zh* ar ol *d* yn *verdure*, ac â sain yr *sh* ar ol y *t* yn *nature*. Er mwyn adgofio hyn i'r efrdydd, argreffir y *d* a'r *t* yn y cyfryw sefyllfa yn Italaidd bob amser yn yr engreiffiau cynaniadol. Os tybia rhywun hyn yn ormod cywreindeb, cofied mai eiddo y Seison eu hunain ydyw; ac na themlir dim rhwymau i rod-di rheswm drosto, mwy na thros lawer o ddulliau rhyfedd eraill sy ganddynt o gynanu ac ysgrifenu eu hiaith.

§ 204. *U*, a seinir fel yr *U* 2 (§ 193), ond yn ferach, yr:—

(1.) Mewn blaenddodau anacenol: *burlesque*, byr-lésc; *curmudgeon*, cyr-myj-yn; *surveyor*, syr-fe-yr.

(2.) Yn y terfyniad anacenol, *ur*: *sulphur*, syl-ffyr; *murmur*, myr-myr.

205. *U*, a seinir fel yr *U* 3 (§ 195):—

(1.) Mewn blaenddodau anacenol: *culdee*, cyldi; *cunctation*, cyngc-te-shyn; *ulterior*, yl-ti'r'-i-yr; *umbrella*, ymbrel-a; *unable*, yn-e-b'l.

(2.) Yn y terfyniadau a ddiweddant âg un gydsain neu chwaneb: *premium*, prí-mi-ym; *arcenum*, ar-ce-nym; *genius*, jí-ni-ys; *abacus*, áb-a-cys; *Colossus*, co-los-ys; *aqueduct*, ác-wi-dyct. Am yr eithradau i'r rheol hon, edr. § 206, 2.

§ 206. *U*, a seinir fel yr *U* 4 (§ 197).

(1.) Yn y blaenddodau *full* a *ful*: *fullacorned*, ffwl-e-corn'd; *fullbloomed*, ffwlblwmd; *fulfil*, ffwl-ffil, &c.<sup>1</sup>

(2.) Fel eithrad yn mlaenddodau: *hurra*, hwr-rá; *hussar*, hwz-zâr; *huzza*, hwz-zá.

(3.) Yn y terfyniad anacenol *ful*, yn gysson: *dutiful*, diw-ti-ffwl; *fanciful*, ffán-si-ffwl; *powerful*, pow-yr-ffwl, &c.

§ 207. *U*, a seinir fel yr *U* 5 (§ 199):

(1.) Mewn blaenddodau anacenol, pan fyddo *r* yn rhagflaenu yr *u* yn ddigyfrwng (§ 110, a'r nodiad): *brutality*, brw-tál-i-ti; *crusade*, crw-sêd; *trucidation*, trw-si-de-shyn.

(2.) Yn y terfyniad anacenol *sure*, o flaen *r* orchfantol (§ 78—80) ac *e* fud: *composure*, cym-po-zhw'r; *enclosure*, en-clo-zhw'r; *incisure*, in-sizh-zhw'r, &c.

## SEINIAU Y CYFUNOLIAID *W* A *Y*.

§ 208. Y llythyrenau hyn, a elwir cyfunoliaid, o herwydd mai eu prif nodwedd yw ymgyfuno â llafariaid eraill i ffurfio deuseiniaid (§ 16). Mae i'r llythyrenau hyn, yn neilltuol i *y*, seiniau o wahanol ansawdd, megys y clywir yn *try*, *trei*; *yard*, iârd; *cow*; *will*, wil. Y seiniau a glywir yn *try* a *cow*, a elwir yn gyffredin seiniau diweddol *y* a *w*; a'r cyfryw yn *yard* a *will* a elwir eu seiniau dechreuol.

§ 209. Y deffiniad (*definition*) a roddir yn gyffredin o'r llythyrenau yma sy fel hyn: *w* a *y*, pan yn dechreu gair neu sill, ydynt gydseiniaid; ond yn mhob sefyllfa arall, llafariaid ydynt.

<sup>1</sup>Dywed Smart y dylid bod yn ofalus i beidio rhoi y sain yma, ffwl, i eiriau o darddiad uchawdurol; megys, *fulsome*, ffyl-sym; *fulminate*, ffyl-min-et, &c.; ond ei gyfyngu at y dospeirth yn § 198, ac yn yr adran hon, § 206.

§ 210. Cydsain a ffurfir trwy gydgyfarfyddiad penodol y peiriannau ymadrodd; a llafariad a ffurfir trwy ollyngiad diattal y sain lefarol trwy agoriad penodol y genau. Os cymmwysir y deffiniad yna o ffurfiad cydsain a llafariad at *w* a *y* “pan yn dechreu gair neu sill,” canfyddir bod yn anhawdd penderfynu i ba ddosparth seiniol y perthynant agosaf yn y gyfryw sefyllfa; canys er nad oes hollol gydgyfarfyddiad peiriannol yn cymmeryd lle wrth eu hynganu yn *yard* a *will*, eto mae mynedfa y sain lefarol mor gyfyngedig, fel mai prin y clywir dim sain yn y geiriau yna, nes ynganir y llafariad ddilynol i *y* neu *w*: *ya*, ià; *wi*, wî. O herwydd hyn, Latham a eilw *w* a *y*, yn y sefyllfaoedd a nodwyd, golafariaid; a sylwa eu bod yn ffurfio troddiad (*transition*, trosiad) o'r llafariaid i'r cydseiniaid. Yn ol y golygiad yma, seiniau dechreuol *w* a *y* ydyw y dolenau sydd yn cydio y ddwy gadwyn seiniol, y llafariaid a'r cydseiniaid, yn nghyd.

§ 211. Ni ddefnyddir seiniau dechreuol y llythyrenau hyn, un amser, ond mewn cyssylltiad âg un neu ddwy o'r llafariaid ereill yn yr un sill; am hyny tybir bod cyfunoliaid yn enw pur briodol arnynt.

#### SEINIAU YR *W*.

§ 212. Yr un sain, o ran ynganiad, sydd i'r llythyren *w* yn mhob sefyllfa; o ran meintiolaeth yn unig y mae ei sain diweddol, neu lefarol, yn gwahaniaethu oddi wrth ei sain gyfynol, megys y canfyddir wrth gymmaru ei sain yn *cow* a *wand*, wond. Nid oes un sain benodol iddi yn yr egwyddor Seisnig (§ 12, rhif 23)—dim ond enw yn unig. Yr un, o ran sain, ydyw ag *oo* yn y gair Seisnig *fool* (§ 23, rhif 7, col. 3). Mae ei sain diweddol yn dra thebyg, os nad yr un yn hollol, a'r eiddo *w* yn y gair Cymmreig *ow*. Anfynych, os un amser, y defnyddir *w* yn y Seisneg, ond mewn cyssylltiad âg un o'r llafariaid ereill yn yr un sill; megys yn *cow*, *bow*, &c.

§ 213. Cyssylltir *w* yn fynych â llafariad arall, yn enwedig âg *a* neu *o*, heb chwanegu dim at y sain: *draw*, dro; *scrawl*, scrôl; *bow*, bo; *own*, ôn, &c.

#### *Sain gyfunol W.*

§ 214. *W* yn *wand*, wand (§ 210). Mae sain gyfunol yr *w* Seisnig yn hollol gyfunosain â sain gyfunol yr *w* Gymmreig yn *wab*.

§ 215. Mae *w* yn fud—

(1.) Pan yn ddigyfrwng o flaen *r* yn yr un sill; *wrack*, rac; *wren*, ren; *wright*, reit, &c.

(2.) O flaen *h*, yn y geiriau hyn: *who*, hw; *whole*, hól; *whom*, hwm; *whose*, hwz; a'u hanedigion.

§ 216. Mewn geiriau eraill, pan fyddo *w* o flaen *h*, seinir hi ar ol yr *h*: *what*, hwot; *when*, hwen, &c.

SEINIAU YR *Y*.

§ 217. Mae i'r llythyren *y* dair o wahanol seiniau, heb law ei sain gyfunol: *y* yn *by* (§ 140); *y* yn *hymn* (§ 23, rhif 1, col. 6.); ac *y* yn *myrrh* (§ 23, rhif 5, llin. 1, col. 3).

*Y* 1.

§ 218. *Y*, yn *by*, bei. Yr un sain yn hollol sydd i'r *y* yma ag sydd i'r *I* 1 (§ 140); a dynodir y ddwy lythyren yr un fath yn yr engreiffiau cynaniadol (§ 141).

§ 219. Mae yr *y* yma dan lywodraeth yr un rheolau a'r *i* grybwylledig (§ 141); a dynoda yr un sain pan yn yr un sefyllfa. Yr unig wahaniaeth rhyngddynt ydyw, bod *y* yn terfynu amryw eiriau unsill, pan nad yw *i* yn terfynu dim un: *my*, mei; *ply*, plei; *sty*, stei; *ffly*, ffei, &c.

§ 220. *Y*, mewn geiriau unsill caethedig, ac mewn sillau acenol, sy dan yr un rheolau yn hollol ag *i* yn yr un sefyllfaoedd. Edr. y gwahanol ddosparthau yn yr § 141: *style*, steil; *tyrant*, tei-rynt, &c.

*Yr Y* 1 o flaen *R*.

§ 221. *Y*, yn *pyre*, pei'r. Yr un ydyw y sain hon eto a'r eiddo *i* yn *fire*, ffei'r (§ 142 a 143); ac y mae dan yr un rheolau.

§ 222. Yr holl eiriau unsill, hyd y gallwyd canfod, a gynnwysant yr *y* yma, yw y rhai hyn: *lyre*, lei'r; *gyre*, jei'r; *pyre*, pei'r; *Tyre*, tei'r.

*Y* 2.

§ 223. *Y*, yn *hymn*, him (§ 23, rhif 1, llin. 2, col. 6). Yr un ydyw sain yr *y* hon a'r eiddo *I* 2 (§ 144); ac y mae dan lywodraeth yr un rheolau, mewn geiriau unsill a sillau acenol (§ 146): *lymph*, limff; *lynex*, lingcs; *syntax*, sin-tacs; *lyric*, lirie, &c. Edr. yr adranau yna.

Eithr: yn *Wemyss*, wimz, mae *y* yn fud.

*Y* 3.

§ 224. *Y*, yn *myrrh*, mér (§ 23, rhif 5, llin. 1, col. 3). Yr un ydyw sain yr *y* yma a'r eiddo *I* 3 (§ 147); ac y mae dan lywodraeth yr un rheolau, mewn geiriau unsill a sillau acenol: *thyrse*, thêrs; *myrmedon*, mér-mi-dyn; *myrtle*, mért'l; *myrtiform*, mér-ti-fform; *syrtris*, sér-tis (§ 148).

*Seiniau anacenol Y.*

§ 225. Mae y rhai hyn eto dan lywodraeth yr un rheolau yn hollol a'r *i* yn yr un sefyllfaoedd: *hydrography*, *heidróg-ra-ffi* (§ 153, 4); *calycle*, *cál-i-cl*; *party*, *pâr-ti*; *vanity*, *fân-i-ti* (§ 154, 1): hon ydyw sain gyffredin *y* mewn terfyniad anacenol); *satyr*, *se-tyr* (§ 157).

§ 226. *Y*, a seinir fel yr *E* 2 (§ 119), neu, yn hytrach, fel yr *e* Gymmreig yn *merolaeth*, mewn dau air Seisnig, o leiaf: *myropolist*, *mer-óp-o-list*; a *myrobalan*, *mer-ób-a-lyn*.

*Sain gyfunol Y.*

§ 227. *Y*, yn *yard*, *iârd* (§ 210). Mae sain yr *y* yma yn gwbl gyfansain â'r eiddo *i* Gymmreig yn *iâr*. Ni ddefnyddir yr *y* yma amser ond mewn cyssylltiad â llafariad arall i ffurfio deuseiniad; neu i ffurfio yr hyn a elwir yn y treithodyn hwn, dwylafariad; sef dwy lythyren i ddynodi un sain, fel y dangosir eto.

## Y DEUSEINIAID.

§ 228. Deuseiniad yw cyfuniad o ddwy sain seml, wahanol, yn yr un sill, y sawl a ynganir â'r un anadliad, ac yn y fath fodd ag i ffurfio un sain gyfansawdd, yn yr hon y byddo y ddwy sain gyntefig yn hyglyw, er nad yn wahanredol.

§ 229. Mae deuseiniad y Seisneg, fel yr eiddo pob iaith arall, o ddau fath, priodol ac anmhriodol.

§ 230. Deuseiniad priodol yw y rhai y rhoddir y pwyslais ar y llafariad flaenaf ynddynt, megys yn *boy*, *bôi*; *how*, *hów*; ac a derfynant bob amser yn sain *y*, *i*; neu *w*.

§ 231. Deuseiniad anmhriodol yw y sawl y rhoddir y pwyslais ar y llafariad olaf ynddynt, megys yn *yard*, *iârd*; a *wag*, *wág*; ac a ddechreuant bob amser yn sain *y*, *i*, neu *w*.

§ 232. Yn y Seisneg nid yw dwy lafariad yn yr un sill, bob amser, yn cyfansoddi deuseiniad: defnyddia y *Seison*, yn fynych, ddwy neu dair llafariad i ddynodi un sain: er engraifft. *dead*, *ded*; *awe*, *o*; &c.; ac weithiau defnyddiant un lythyren i ddynodi deuseiniad: *fine*, *fein* (§ 140); *try*, *trei* (§ 218), &c.

§ 233. Er mwyn i'r dysgadur gael golwg cryno ar yr holl ddeuseiniad Seisnig, rhodder taflen o honynt ger bron; yr hon hefyd a fydd yn dra hwylus i gyfeirio iddi yn yr eglur- iadau.

*able, disease; disbând, disdain', disgrâce, discâlue, disjoin'; distliké, disnâtured, disrêlish.*

(16.) Ar ol yr arddodiad anesgarol *re*: *resemble, resentment; reservoir, réz-yrf-wor, &c.*

Eithr.: *resuscitate, ri-sýs-i-tet; resupinate, ri-siŵ-pin-et*—ac yn gyffredin pan fyddo y gair a gyssylltir â *re* yn ystyrlawn ynddo ei hun; neu pan fyddo *re* yn arwyddo ail wneuthuriad, sain gras *s* a ddefnyddir: *research, ri-sêrch; resound, ri-sownd', &c.*—fel hyn; *resign, pan yn arwyddo ail lofnodi, a gynanir, ri-sein'; ond pan yn arwyddo gildio, ri-zein'.*

§ 379. Y rheol gyffredin yw, fel y gwelir yn y ddwy adran olaf, a'u dosbarthau, fod *s* yn gras neu leddf, yn ol natur y llythyrenau cyssylltedig â hi. Pan ei cyssylltir â llythyren gras, mae hithau yn gras: *disturb, dis-týrb*—ond pan ei cysylltir â llythyren leddf, mae hithau yn lleddf: *disdain, diz-dên.*

D.S...Pan ddilyno *s* llythyren leddf yn yr un sill, lleddf ydyw hithau: *tubs; tybzuds, sydz*—ond pan ddechreuo *s* sill gwahanol ar ol llythyren leddf, mae yn gras: *subserve, syb-sêrf; subsist, syb-síst.*

Eithr.: *absolve, ab-zólf.*

§ 380. *S* a seinir *sh* (§ 315, rhif 15) ar ol yr acan neu yr adacan, pan ei dilynir gan *ia, io, ua, ue, neu u, ac ei rhagflaenir yn ddigyfrwng gan s* arall neu un o'r toddedigion: *cassia, cash-a; passion, pash-yn; convulsion, con-fyl-shyn; mansion, man-shyn; version, fêr-shyn; sensual, sên-shw-yl; issue, ish-iw; pressure, presh-iw'r, &c.* Hefyd, fel eithrad yn *sure, shw'r; a sugar, shwg-yr.*

§ 381. *S* a seinir fel *zh* (§ 315, rhif 16), ar ol yr acan neu yr adacan, pan ei dilynir gan *ea, ia, ie, io, ua, neu u, ac ei rhagflaenir yn ddigyfrwng gan lafariad, dwylafariad, neu ddeuseiniad: roseate (ró-zhi-et, a'r un modd am y lleill), euthanâsia, ôsier, occâsion, adhêsion, confusion, rasure, léisure, &c.*

Eithr.: *Asia, é-shi-a; nauseate, nó-shi-et; nauseous, no'-shys.*

§ 382. *S* sy fud yn aisle, eil; isle, eil; demesne, di-mîn; viscount, fei-cownt; pas, pa; sous, sw; visavis, fis-a-fi; corps, côr; puisne, piw-ni; Grosvenor, grôf-nyr; ac ychwaneg, fe allai.

### SH.

§ 383. *Sh* (§ 315, rhif 15) sy dra thebyg, o ran sain, i *s* yn

y geiriau *Gymmreig* eisiau, eishau; ceisio, ceisho—ac, yn gyffredin, ceidw ei sain yn mhob cyflead: *shall*, *mesh*, *fishery*.

Eithr.: *dishonour*, *diz-on-yr*; *mishap*, *misháp*; *threshold*, *thresh-hold*, a'r cyffelyb; ac yn *Masham*, *mas-ym*, *seinia fel s sengl*.

## T.

§ 384. *T* a seinir fel *t* *Gymmreig* (§ 315, rhif 3)—

(1.) Ar ddechreu, yn nghanol, ac ar ddiwedd geiriau fel hyn: *ten*, *matter*, *fit*.

(2.) Yn y terfyniadau *ties*, *tiest*, *tieth*, *tied*, *tier*: *cities*, *sit-iz*; *emptiest*, *ém-ti-ist*; *emptieth*, *ém-ti-eth*; *emptied*, *ém-ti-id*; *emptier*, *ém-ti-yr*.

(3.) O flaen *ia*, *ie*, neu *u*, pan fyddo yr acan ar ol y *t* yn ddigyfrwng: *Miltiades*, *mil-teí-a-diz*; *satiety*, *sa-teí-i-ti*; *tutor*, *tiw-tyr*; *opportune*, *op-yr-tiŵn*; *mature*, *ma-tiŵ'r*, &c.

(4.) Pan y rhagflaenir y *t* gan *s* neu *x* ar ol yr acan, ac o flaen *ia*, *io*, neu *uo*, seinir hi fel *t* *Gymmreig*, ond bod tuedd ynddi i lithro i sain *tsh*, *ch*—o leiaf, i gymmeryd sain *sh* ar ei hol yn y cynaniad (edr. y D.S. yn § 203, a'r D.S. yn § 334): *bestial*, *bést-i-yl*; *christian*, *crist-i-yn*; *question*, *cwest-i-yn*; *combustion*, *cym-byst-i-yn*; *mistion*, *micst-i-yn*; *tempestuous*, *tem-pést-iw-ys*.

(5) *T*, ar ol yr acan, ac o flaen *eou*, *ier*, neu *u*, a seinir fel *t* *Gymmreig*, ond gyda'r tuedd a nodwyd yn y dosbarth olaf, mewn geiriau fel hyn: *beauteous*, *biw-ti-ys*; *plenteous*, *plén-ti-ys*; *frontier*, *ffryn-ti'r*; *fortune*, *fôr-tiwn*, &c.

§ 385. *T* a seinir fel *sh* (§ 315, rhif 15) pan o flaen *ia* neu *io*, ac ar ol llafariad neu gydseiniad, oddi eithr *s* neu *x* (§ 384, 4): *partial*, *pâr-shyl*; *tertian*, *te'r-shyn*; *creation*, *cri-e-shyn*; *notion*, *no-shyn*; *fiction*, *ffic-shyn*; *attention*, *at-ten-shyn*; *eruption*, *i-rup-shyn*; *vexatious*, *fecs-e-shys*; *captious*, *cap-shys*, &c.

§ 386. *T* sy fud—

(1.) Pan ei rhagflaenir gan *s*, ac ei dilynir gan y terfyniad *en* neu *le*: *hasten*, *he-s'n*; *christen*, *cris-sn*; *castle*, *cas-s'l*; *nestle*, *nes-s'l*; *epistle*, *i-pis-s'l*, &c.

Eithr.: *bursten*, *býrs-t'n*.

(2.) Yn *often*, *off'n*; *soften*, *soff'n*; *christmas*, *cris-mys*; *chestnut*, *ches-nyt*; *mortgage*, *môr-gej*; *bankruptcy*, *bángc-ryp-si*; a'u hanedigion.

(3.) Mewn amryw eiriau estronol; *megys*, *Matthew*, *math-iw*; *Pontefract*, *pom-ffret*; *mistress*, *mis-is*; *trait*, *tre*; *gout*, *gw*; *toupet*, *tw-pé*; *hotboy*; *ho-boi*; *batman*, *bo-myn*;



boutswain, bo-s'n; britzska, bris-ca; billetedout, bil-iedw, &c.

## TH.

§ 387. *Th* a seinir fel *th* Gymmreig (§ 315, rhif 11)—

(1.) Ar ddechreu geiriau: *thane, thank, theme, think, &c.*

Eithr.: *than, ddan; that, ddat; the, ddi; thee, ddi; their, dde'r; them, ddem; then, dden; thence, ddens; there, dde'r; these, ddiz; they, dde; thine, ddein; this, ddis; thither, ddi-ddyr; those, ddôz; thou, ddow; though, ddo, thus, ddys; thy, ddei; a'u hanedigion.*

(2.) Ar ddiwedd geiriau: *bath, breath, depth, &c.*

Eithr.: *beneath, bi-nidd; booth, bôdd; with, widd; underneath, yn-dyr-nidd—ac mewn perwyddiaid a derfynant yn *th*; wreath, ridd; smooth, smôdd; mouth, mowdd, &c.*

(3.) Yn nghanol, ar ol, neu o flaen cydsain: *panther, orthodox, ethnic, philanthropy, &c.*

Eithr.: *brethren, bredd-ryn; farthing, ffâr-dding; farther, ffâr-ddyr; northern, nôr-ddyrn; northing, nôr-dding; worthy, wŷr-ddi; burthen, bŷr-dd'n.*

(4.) Yn y terfyniad *thy, thi*: *apathy, sympathy, antipathy, &c.*

Eithr.: *wreathy, ridd-i; worthy, wŷr-ddi.*

(5.) Rhwng dwy lafariad mewn geiriau o'r ieithoedd uchawdurol: *Athens, atheist, author, &c.*

§ 388. *Th* a seinir fel *dd* Gymmreig (§ 315, rhif 12)—

(1.) Ar ddechreu y geiriau a nodwyd yn § 387. Edr. yr eithr. i'r dosbarth cyntaf: *than, that, the, &c.*

(2.) Ar ddiwedd geiriau unsill o flaen *e* fud: *bathe, bêdd; breathe, bridd; loathe, lôdd, &c.*

(3.) Yn y rhif lluosog, er i'r unigol ddiweddu âg *th* gras: *bath* (unig.), *baths*, bâddz (llu.); *path* (unig.), *paths*, pâddz (llu.), &c.

(4.) Rhwng dwy lafariad mewn geiriau o darddiad Sacs-onig: *father, ffa-ddyr; feather, ffe-ddyr; either, i-ddyr, &c.*

§ 389. *Th* a seinir weithiau fel *t* Gymmreig: *Thomas, tomys; Thames, tênz; thyme, teim; asthma, ast-ma; phthisis, tei-sis; phthisick, tiz-ic; phthisical, tiz-i-cyl.*

§ 390. *Th* sy fud yn unig yn twelfthide, twelf-tid, a hyn gan y werin.

## V.

§ 391. *V* a seinir fel *f* Gymmreig (§ 315, rhif 10) yn mhob sefyllfa: *van, eve, valve, &c.*

§ 392. *V* sy fud yn sevenight, sen-it, ac yn twelvemonth, twel-mynt, yn ol y dull gwerinol.

## X.

§ 393. *X* a seinir fel *cs* Cymmreig (§ 12, rhif 24)—

(1.) Ar ddiwedd geiriau: *vex*, *vecs*; *tax*, *tacs*, &c.

(2.) Yn y sill gyntaf, pan yn acenol neu adacenol: *exile*, *ecs-eil*; *execute*, *écs-i-ciwt*; *exanthemata*, *ecs-yn-thém-a-ta*, &c.

(3.) Mewn sill acenol neu anacenol, pan ddechreuo y sill nesaf at *x* â chydsain: *excavate*, *écs-ca-fet*; *exceed*, *ecs-síd*, &c.

(4.) Mewn geiriau cyfansawdd o wraidd yn terfynu âg *x*, lle bynag y bo'r acan: *taxation*, *tacs-e-shyn*; *fixation*, *fics-e-shyn*; *relaxation*, *ri-lacs-e-shyn*, &c.

(5.) Pan na fyddo yn y sill acenol nac yn cael ei dilyn gan gydsain, mewn geiriau fel *doxology*, *docs-ól-o-ji*; *proximity*, *procs-ím-i-ti*, &c.

§ 394. *X* a seinir fel *gz* (§ 315, rhif 8, 14)—

(1.) Pan fyddo y sill nesaf ar ol yr *x* yn acenol, ac yn dechreu â llafariad neu âg *h*: *exalt*, *egz-ôlt*; *examine*, *egz-am-in*; *exhale*, *egz-hêl*; *exhibit*, *egz-hib-it*; *anxiety*, *angzei-i-ti*; *luxuriant*, *lyg-ziw-ri-ynt*, &c.

(2.) Mewn ychydig o eiriau tarddedig o rai yn meddu sain *gz* ynddynt pan yn gyssefin; megys, *exemplary*, *égz-em-plyr-i*, yr hwn a geidw sain leddf yr *x*, er bod yr acan ar y sill gyntaf, am ei fod yn tarddu o *example*, *egz-am-p'l*; ac y mae holl eiriau y dosbarth yma yn gyffelyb.

§ 395. *X* a seinir fel *esh* (§ 315, rhif 7, 15), pan ei rhagflaenir gan sill acenol, ac ei dilynir gan *i* a llafariad arall, neu gan *u*: *anxious*, *angc-shys*; *luxury*, *lyc-shiw-ri*, &c.

§ 396. *X* ar ddechreu geiriau a seinir fel *z* (§ 315, rhif 14): *xanthogen*, *zán-tho-jyn*; *xerodes*, *zi-ro-diz*; *Xenophon*, *zén-offyn*, &c.

§ 397. *X* sy fud ar ddiwedd geiriau o'r Ffrancaeg: *billetdoux*, *bil-ie-dw*; *gameux*, *zhám-bw*, &c.

## Z.

§ 398. *Z* (315, rhif 14) a seinir yn dra thebyg i *s* Gymmreig yn *ysbryd*, *ysgar*, fel y dangoswyd yn § 15.

§ 399. *Z*, yn gyffredin, a geidw ei sain priodol ar ddechreu a diwedd geiriau: *zeal*, *zîl*; *bowze*, *bowz*, &c.

§ 400. *Z*, pan ei rhagflaenir gan yr acan, ac ei dilynir gan ddeuseiniad, a seinir fel *zh* (§ 315, rhif 16): *glazier*, *gle-zhyr*; *azure*, *e-zhiw'r*, &c.

§ 401. *Z* sy fud yn rendezvous, rén-di-fw; britzska, bris-ca; Menzies, ming-iz; ac ereill. Yn mezzotint, mét-so-tint; seinir un *z* fel *t*, a'r llall fel *s*.

## ZH.

§ 402. *Zh* sy sain leddf o *sh* (§ 315, rhif 16), ag a ddefnyddir yn fynych yn nghynaniad y Seisneg. *S* neu *z* a ddefnyddir fynychaf i ddynodi y sain hon, megys yn y geiriau hyn, a'u cyffelyb: vision, fízh-yn; azure, e-zhiw'r. Mewn geiriau o darddiad Ffrengig, dynodir y sain yn fynych â *g* neu *j*: rouge, rŵzh; rouging, rŵzh-ing; jambeax, zham-bŵ; jardes, zhârdz; jet-d'eau, zhe-dó, &c.

## NATUR A RHESTRIAD Y CYDSEINIAID.

§ 403. Nid yw y cydseiniaid Seisnig, mwy nag eiddo rhyw iaith arall, yn rhyw gyfres hirfaith o ffurfiadau gwahanol; eithr tua hanner y nifer yn unig sydd yn hanfodol wahanol; y gweddill nid ydynt ond seiniau lleddf y lleill (§ 315): fel hyn, *p* a *b* ydynt yr un yn hollol o ran ffurfiad, ond yn cael eu dullweddu trwy fod yn gras neu leddf o ran ynganiad: felly hefyd y mae *t* a *d*, *ch* a *j*, *c* a *g*, &c. Mae holl seiniau syml<sup>1</sup> yr iaith Seisnig i'w gweled yn § 23 a 315; a'i holl seiniau cymmlyg neu gyfansawdd yn § 234, 235 a 276.

§ 404. Gellir rhestru yr holl gydseiniaid, oddi eithr pump, yn barau cyfartal—llythyren gras a llythyren leddf yn mhob pâr, yn ol natur eu ffurfiad peiriannol, fel hyn:—

## MUDSEINIAID.

## GOLEFLAID.

<i>Cras</i> ....	{	p t ch <sup>2</sup> k f th <sup>3</sup> s sh	}	<i>Toddedigion. Trwynolion.</i>
<i>Lleddf.</i>	{	b d j g <sup>4</sup> v th <sup>5</sup> z zh <sup>6</sup>		}

§ 405. Nid oes dim yn fwy pwysig, fel y sylwa y Dr. Latham, er cynnorthwy un i gynanu y Seisneg yn briodol, na deall natur y cydseiniaid fel creision a lleddfion.

§ 406. Pan gyfarfyddo un llythyren gras, neu chwaneg, â llythyren leddf yn yr un sill, ffurfiant gyfuniad o seiniau nas gellir ei gynanu. Cymerer y llythyren a ddewiser o'r gyfres gras (§ 404), ac uner hi â'r llythyren a ddewiser o'r gyfres

<sup>1</sup> Mae yn § 315 ddwy sain gyfansawdd, *ch* a *j*.

<sup>2</sup> *Ch*, fel yn *church*, *tshÿrtsh*, *chÿrch*.

<sup>4</sup> *G*, megys yn *gun*.

<sup>6</sup> *Z*, megys yn *azure*, *e-zhiw'r*.

<sup>3</sup> *Th*, megys yn *thin*.

<sup>5</sup> *Th*, fel yn *thus*, ddys.

leddf, yn yr un sill; canfyddir y bydd y cyfuniad yn anghyn-anadwy; megys, er engraifft, *abt*, *avt*, *apd*, *afd*, *atz*, *agt*, *ags*, *ads*, &c. Mae cyfuniadau o'r fath i'w canfod yn fynych yn y Seisneg; ond wrth eu cynanu, mae cyfnewidiad yn cymeryd lle ynddynt bob amser: naill ai newidia y llythyren leddf i'w hun gras gyferbyniol (*b i p*, *d i t*, &c.), neu, yn y gwrthwyneb (*p i b*, *t i d*). Rhaid i *abt*, tuag at fod yn gyn-anadwy, gael ei droi yn *apt* neu *abd*, ac *agt* yn *akt* neu *agd*. Mae y cyfnewidiad yma yn anhebgorol a chyffredinol.

§ 407. Nid oes un ffaith mewn iaith yn gofyn mwy o gyd-nabyddiaeth na hon. Mae tri ffurfiad, o leiaf, yn y Seisneg, lle y mae ei heffaith yn dra phwysig.

(1.) Y ffurfiau meddiannol yn *s*.

(2.) Y lluosogiad yn *s*.

(3.) Y gorphenolion yn *d a t*.

§ 408. Mae y ffeithiau hyn yn cael eu lledguddio mewn modd nodedig yn y Seisneg, yr hyn sydd yn bur anfanteisiol i'r efrydydd ieuanc. Mae yr *s*, yn y gair *stags*, yn gras; yr *g*, yn yr un gair, yn leddf; er hyny, mae y cyfuniad *ags* yn bodoli. Ond, y gwir yw, mai mewn silliad yn unig y mae yn bodoli. Wrth lefaru, neu gynanu y gair, seinir *s* yn *z*; gan hyny, *stags* a gynanir, o angenrheidrwydd, yn *staz*.

§ 409. Eto, mewn geiriau fel hyn, *tossed*, *plucked*, *looked*, yr *e* a ddiflana yn y cynaniad, a'r *d* a gyssylltir yn ddigyfrwng â'r llythyrenau creision *k*, neu *s*, fel y cynanir y geiriau yna *tost*, *plyct*, *lwct*.

§ 410. Nid yw y gweddill o'r cydseiniaid, *l*, *r*, *m*, *n*, *ng*, na chras na leddf, ond canolig; gan hyny, ymgyfunant hwy â llythyrenau creision neu leddfôn, yn ddiwahaniaeth—sain leddf a gyssylltir â hwy yn fwyaf cyffredin. Ond ychwaneg eto ar gynnwysiad yr adranau hyn, wrth ymdrin â rhanau ymadrodd."

## SEINIAU Y TERFYNIADAU.

§ 411. Mewn terfyniadau anacenol, *ea*, *eo*, *eau*, *eu*, *ia*, *ie*, *io*, *iou*, *iu*, a seinir yn gyffredin fel *iy*, neu *i-y* Cymmreig, pan eu rhagflaenir gan *b*, *f*, *l*, *m*, *n*, *p*, *r*, neu *v*, ac eu dilynir gan *l*, *m*, *n*, *r*, neu *s*: *fabian*, ffê-bi-yn; *ruffian*, ryff-i-yn; *filial*, ffil-i-yl; *premium*, pri-mi-ym; *premier*, pri-miy'r; *pinion*, pin-i-yn; *opium*, ó-pi-ym; *curious*, ciw-ri-ys; *behaviour*, bi-hef-i-yr, &c.

§ 412. Y terfyniadau anacenol *ceous, cious, seous, tious*, a seinir yn gyffredin, *shys*: *critaceous, cri-te-shys*; *gracious, gre-shys*; *nauseous, no-shys*; *contentious, con-ten-shys*.

§ 413. Y terfyniadau *geon, gion*, a *geous*, a seinir, *jyn* a *jys*: *dungeon, dyn-jyn*; *religion, re-lij-yn*; *georgeous, jôr-jys*; *contagious, con-te-jys*.

§ 414. Y terfyniad *ous*, a seinir yn ddieithrad, *ys*, pynag pa lythyren a'i rhagflaena: *ligneous, lig-ni-ys*; *stupendous, stiw-pen-dys, &c.*

---

### MAN EIRIAU ANACENOL.

§ 415. *My*, pan fyddo y sill ddilynol yn acenol, neu bwysleisiol, a seinir fel y gair Cymmreig *mi*: *myself, mi-sêlff*.

{ "This is my own, my native land."  
 { Ddis iz mi ôn, mi ne-tif land.

Ond pan yn bwysleisiol, seinir *my* yn *mei*:—

{ That is *my* book; this is *your's*.  
 { Ddat iz *mei* bwc; ddis iz iŵ'rz.

§ 416. Mae yr un sylw yn briodol am amryw o'r mân eiriau Seisnig unsill, megys, *a, am, and, be, me, the, by, thy, was, had, shall, your, for, of, from*.

Y rhai hyn oll, ac ysgatfydd eraill hefyd, pan yn bwysleisiol, neu unigol, a seinir, megys y sylwyd uchod ar *my*, yn *e, am, and, bi, mi, thi, bei, thei, woz, had, shal, iŵ'r, ffôr, of, ffrom*; ond pan yn gyssylltedig â geiriau eraill, ac yn anhwsleisiol mewn broddegau, seinir hwynt yn gyffredin yn *y* (§ 105 a 106), *ym, ynd, bi, mi, ddi* neu *ddy* (§ 116, y D. S.), *bi, ddi, wyz, hyd, shyl, iyr, ffyr, yf, ffrym*.

§ 417. Yr holl sillau anacenol a'r terfyniadau na wnaed sylw arnynt yn yr adranau hyn, § 411—416, a seinir yn unol â'r rheolau a roddwyd wrth ymdrin â'r llafariaid a'r cydseiniad, neu a roddir eto wrth ymdrin â'r rhanau ymadrodd, &c.

§ 418. Yn awr yr ydys wedi dyfod trwy yr holl seiniau Seisnig, un o'r tasgau anhawddaf a dyrysaf i Gymmro uniaith a berthyn i "Ddysgu yr Iaith Seisnig." Yr ydys wedi rhoddi ger bron yr efrydydd y rheolau cywiraf a manylaf a allwyd ddethol o weithiau prif gynanwyr diweddaraf y Seison; ac os ydyw efe wedi eu darllen a'u had-ddarllen, gwedi eu myfyrio a'u hadfyfyrio, yn ol cyfarwyddyd yr aml gyfeiriadau sydd yn

yr adranau blaenorol, o'r naill i'r llall,<sup>1</sup> credir ei fod yn alluog, erbyn hyn, i gynanu rhai cannoedd o eiriau Seisnig yn rhwydd a hyawdl; a bod ganddo ddelfryd (*idea*—meddylrith) lled gywir am y cynaniad Seisnig yn gyffredinol; canys y mae pob sain sydd yn yr iaith wedi ei chyfleu ger bron, yn yr amrywiol engreiffiau cynaniadol a ddefnyddiwyd i egluro y rheolau.

---

## CYFARWYDDYD I DDEALL GEIRIADURON CYNANIADOL.

§ 419. Mae llaws o Eiraduron Cynaniadol gan y Seison: dyma restr o enwau awdwyr y rhai penaf, a'r flwyddyn y cyfansoddwyd hwynt:—Sheridan, 1780; Walker, 1791; Jones, 1798; Fulton and Knight, 1802; Perry, 1805; Enfield, 1807; Jameson, 1827, a Webster yn yr un flwyddyn; Knowles, 1835; Birkin's *improved edition of Jones's*, 1839; Smart, 1840; Reid, 1844; Worcester, 1846; Gilbert, 1847, a Blackie & Son, yn yr un flwyddyn.<sup>2</sup>

§ 420. O'r Geiriaduron hyn, yr eiddo Walker, Smart, a Jones, sy fwyaf adnabyddus; ond y mae yr eiddo Worcester yn deilwng o sylw arbenig, nid yn unig o herwydd y gofal a gymmerodd i ddynodi y cynaniad, ond oblegid y drafferth a'r petrusder a gymmerodd i gasglu gwahanol farnau ysgrifenywyr blaenorol o barth cywir gynaniad; ac y mae yn llawer helaethach na hwynt oll. Geiriadur tra manwl a helaeth ydyw yr eiddo Smart hefyd; a chynaniad y ddau hyn yn benaf a ddilynwyd yn y treithodyn yma.

§ 421. Y rhai rhataf, a hawsaf eu deall, ydyw "*Walker's Critical Pronouncing Dictionary*;" "*Jones's Sheridan Improved*;" "*Birkin's Improved Edition of Jones's Dictionary*."

§ 422. Mae cynlluniau cynaniadol amryw o'r awdwyr a nodwyd yn dra helaeth a dyrus; oherwydd hyny ni chaniata lle i roddi yma ond cyfarwyddyd byr i ddeall yr eiddo Walker a Jones yn unig—y sawl sydd yn hawdd i'w cael, ac yn hawdd i'w deall.

<sup>1</sup> Y mae dau amcan mewn golwg wrth gyfeirio mor fynych o'r naill adran i'r llall—*gochelyd ail adroddiad*, a *chynhyrfu yr efridydd i ail ddarllen ac ail feddwl*.

<sup>2</sup> Gellir cael yr un a ddewiser o'r rhai hyn gan *Longman and Co.*, neu *Simpkin, Marshall, and Co.*, London, trwy ryw lyfrwerthwr parchus yn y Dywysogaeth.

## CYNLLUN CYNANIADOL WALKER.

§ 423. Mae cynllun Walker yn gynnwysedig mewn dwy linell sydd ar frig y dalenau, un ar frig y ddalen chwith, a'r llall ar frig y dde, trwy y geiriadur oll. Dealled yr efrydydd mai y llythyrenau sydd â *ffugrau* uwch eu penau, yn unig, a eglurant y cynllun: er engraifft, yr *à* yn unig yn y gair *fâte*, sydd yn perthyn i'r cynllun.

§ 424. Yn awr, rhoddir y cynllun ger bron, gyda dangosiad o seiniau y geiriau cynlluniol â llythyrenau Cymmreig, a chyfeiriad rhwng cromau ( ), ar ol pob gair, i'r adranau yn y treithodyn hwn, sydd yn egluro sain y llythyrenau ffugrol.

D. S. Y ffugrau sydd ar ol y geiriau cynlluniol ar frig y dalenau yn "Ngeiriadur Walker," a gyfeiriant i "Egwyddorion y Cynaniad Seisnig," sydd ar ddechreu y geiriadur.

*Y llinell sydd ar frig y ddalen chwith.*

Fâte, ffêt (§ 83); fâr, ffâr (§ 91)<sup>1</sup>; fáll, ffól (§ 94); fât, ffat (§ 101, a 102); mè, mi (§ 113); mêt, met (§ 119, a 120); pine, pein (§ 140); pîn, pin (§ 144); nô, no (§ 160); môte, môte (§ 172).

*Y llinell sydd ar frig y ddalen dde.*

Nôr, nôr (§ 165); nôt, not (§ 167); tûbe, tiwb (§ 188, a 189); tûb, tyb (§ 195); bûll, bwl (§ 197); ôil, oil (§ 257); pōund, pownd (§ 258, 1); thin (§ 387); this, ddis (§ 388).

§ 425. Er mwyn egluro i'r efrydydd ieuanc y modd i ddefnyddio y cynllun yna wrth ymofyn â'r geiriadur, tybier fod ar yr ymofynydd eisiau gwybod cynaniad y gair *beautiful*. Trôed am dano i'r geiriadur, a chaiff ei weled fel hyn:—

"Beautiful, bù'-tê-fûl." Yn awr, mae arno eisiau gwybod pa sain sydd i'r *ù* yn y sill gyntaf: edryched ar frig y ddalen dde, a gwel *u* gyffelyb yn y gair tûbe, tiwb; yna dealla mai biw y dylid seinio y sill gyntaf o *beautiful*. Yr *ê* yn *tê* ydyw y nesaf: edryched ar frig y ddalen chwith, a chenfydd fod hon yr un sain a'r *e* yn *mê*, mi; gan hyny, mai *ti* y dylid seinio yr ail sill. Yr *û* yn *fûl*, a ddaw dan sylw yn nesaf: edryched eto ar frig y ddalen dde, a chaiff weled *u* yr un fath yn *bûll*, a dealla mai *ffwl* y rhaid seinio y sill olaf o'r gair *Beautiful*; yna bydd yn alluog i gynanu y gair yn gywir, fel hyn—*biw-ti-ffwl*. Yr un modd am bob gair arall trwy y "Geiriadur" oll. Dylid cofio fod y nôd bychan yma (') uwch ben llafariad, neu ar ol sill, yn dynodi y sill acenol.

<sup>1</sup> Rhaid sylwi nad yw Walker yn gwahaniaethu rhwng sain yr *a* yn *far*, *ffâr*, a'i sain yn *psalm*, *sâm*. Ychydig o'r cynanwyr sy'n talu sylw priodol i effaith yr *r* orchfantol ar y llafariad.

## CYNLLUN CYNANIADOL JONES.

§ 426. Mae cynllun Jones yr un o ran sylwedd a'r eiddo Walker, ac i'w weled ar frig y dalenau.

*Y llinell sydd ar frig y ddalen chwith.*

ât, at; âle, êl; âll, ôl; âsk, âsc; mêt, met: dêvout, di-fowt'; mē, mi; gîve, gif; wîne, wein.

*Y llinell sydd ar frig y ddalen dde.*

hôt, hot; vôte, fôt; lôse, lŵz; hût, hyt; pûsh, pwsh; cûbe, ciwb; trulŷ, trwli; trŷ, trei; thus, ddys; thick, thic.

§ 427. Mae y cyfarwyddiadau sydd yn § 425, a ddangosant y modd i ddefnyddio cynllun Walker, yn gymmwysadwy at gynllun Jones hefyd; gan hyny, ni helaethir ychwaneg ar hyn.

§ 428. Heb law un o'r geiriaduron cynaniadol crybwyll-edig, a "Silliaduron Butter," a nodwyd yn § 67—75, dylai y dysgadur ieuanc gael y llyfrynau bychain godidog hyn o "*Chambers' Educational Course*;" sef, "*First Book of Reading*," a "*Second Book of Reading*."<sup>1</sup> Gweinyddant fel ymarferion (*exercises*) rhagorol iddo ar sain y llythyrenau, a geiriau byrion yr iaith. Dylai y llyfrynau hyn fod wrth law yr efrdydd pan yn darllen y cyfarwyddiadau ar sain y llythyrenau yn y treithod hwn; a dylai wneyd ei hun yn feistr perffaith yn yr holl eiriau a gynnwysant, cyn dechreu ymröi i ddysgu llyfrau Butter.

§ 429. Un llyfr eto a grybwyllir cyn gadael y rhan yma o'r "Cyfarwyddyd,"—"*The Gospel according to Matthew, in Phonotypy and Heterotypy*."<sup>2</sup> Argraffiad rhynglinellog (*inter-linear*) ydyw hwn, o Efengyl Matthew, yn yr hwn y mae pob llinell o'r efengyl wedi ei hargraffu yn gyntaf â llythyrenau newyddion, fel y seinir pob gair, "heb na mwy, na llai, nac amgen" o lythyrenau nag a glywir yn y cynaniad: yna, mae yr un geiriau wedi eu hargraffu mewn llinell arall, o dan y cynaniad, gair dan air, yn arddygraff (*orthography*) bresennol y Seisneg. Hefyd, mae egwyddor o'r llythyrenau newyddion a ddefnyddir yn y cynaniad, gydag eglurhad arnynt, ar ddechreu y llyfr; a gall bachgenyn o alluoedd cyffredin ei dysgu mewn deg neu bymtheg mynyd. Mae y llyfr hwn tu hwnt i bob canmoliaeth fel cynnorthwy i ddysgu cynaniad ac arddygraff yr iaith Seisnig.

<sup>1</sup> Cyst y ddau lyfryn yma iddo rôl a dimai; a gall eu cael gan unrhyw lyfrwerthwr.

<sup>2</sup> Gellir ei gael am swllt, trwy ryw lyfrwerthwr, oddi wrth Fred. Pitman, *Phonetic Depot*, 1, *Queen's Head Passage, Paternoster Row, London*.



## RHAN II.

## ARDDYGRAFF YR IAITH SEISNIG.

§ 430. ARDDYGRAFF<sup>1</sup> (*orthography*, iawnysgrifeniad) a gynnwys, o leiaf a ddylai gynnwys, rheolau a chyfarwyddiadau i llythyrenu neu silliadu geiriau iaith yn unol âg arferiad llenorion cenedl. Llefareg (*orthoepy*) yw pwnc y rhan gyntaf o'r treithodyn hwn; ond pwnc y rhan yma yw arddygraff. Llefareg, meddai y Dr. Latham, a benderfyna iawn gynaniad geiriau, ac ymdrina âg iaith fel y mae yn *llefaredig*; arddygraff a benderfyna iawn silliad geiriau, ac ymdrina âg iaith fel y mae yn *ysgrifenedig*. Llefareg a ymgylfwna i'r glust, arddygraff i'r llygad. Gwahaniaetha llefareg oddi wrth arddygraff trwy y penderfyna y modd y *llefarir* geiriau, pan mai penderfynu y mae arddygraff y modd i'w *silliadu*.

## SILLIADAETH.

§ 431. Sill yw sain a gynnyrchir â'r llais mewn un anadliad; ac y mae o ddau fath, seml a chyfansawdd. Sill seml a gynnwys un sain seml: megys *a*. Sill gyfansawdd a gynnwys amryw seiniau seml: megys, *an, and, hand, stand, strand, strange, I, how, &c.*

§ 432. Mae i silliadaeth ddau ystyr:—

(1.) Enwi llythyrenau yn unigol, wrth eu galluoedd, gan eu cyssylltu yn sillau, a'r rhai hyn drachefn yn eiriau, fel ag i ddarllen iaith.

(2.) Rhoddi llythyrenau ar bapyr yn briodol o rhan rhif, trefn, &c., fel ag i gynnyrchu cyfuniad i amlygu sain, yr hyn yw ysgrifenu iaith.

<sup>1</sup> Arddygraff a olygir fel y rhan gyntaf o'r gramadegau cyffredin, ond ni feiddir sylwi dim yma ar na rhaniad na chynnwysiad y cyfryw lyfrau—hwyrach y ceir arfod briodol i wneyd hyny, cyn bo hir, mewn llyfr arall.

§ 433. Tuag at ddysgu silliadaeth yn yr ystyr cyntaf, sylwed yr efrydydd ar y rheolau hyn:—

#### RHEOLAU SILLEBIAD.

§ 434. Na chyfraner geiriau unsill mewn un modd: *alms, form, strength.*

§ 435. Na wahaner llythyrenau yr un sill: *speak-able, un-speak-able.*

§ 436. Y rheol gyffredinol oreu i gyfranu geiriau yn sillau, yw dilyn y rhaniad a wneir gan y peiriannau ymadrodd wrth eu hiawn gynanu: *de-light, ho-ly, ex-ist, un-der, de-throne, pref-er-a-ble.* Pan na fyddo y cynaniad yn hysbys i'r efrydydd, sillebed yn ol y rheolau a gynlynant:—

§ 437. Pan gydgyfarfyddo dwy lefariad heb fod yn ddeuseiniad, cyfraner hwynt yn wahanol sillau: *cha-os, cru-el, li-on.*

§ 438. Pan fyddo deuseiniad yn rhagflaenu llafariad, ysgarer y llefariad oddi wrth y deuseiniad, yn ol y rheol olaf: *loy-al, pow-er.*

§ 439. Pan fyddo cydsain sengl rhwng dwy lafariad, cysyllter hi â'r sill olaf: *fa-tal, le-gal, ho-ly.*

Eithr.: *x* rhwng dwy lafariad, a gyssylltir â'r sill flaenaf: *ex-ist, vex-a-tion.* Hefyd, mewn geiriau cyfansawdd, rhaid cyssylltu y gydsain, er iddi fod rhwng dwy lafariad, â'r sill flaenaf: *ab-use, up-on, un-even.*

§ 440. Pan fyddo dwy gydsain rhwng dwy lafariad, gwahaner y cydseiniad: *un-der, el-bow, er-ror.*

Eithr.: *l* ac *r*, ac ar ol cydsain arall, rhwng dwy lafariad, a gyssylltir â'r gydsain a'u rhagflaeniant: *ta-ble, sti-fle, me-tre.*

§ 441. Cyfraner geiriau cyfansawdd yn ol y geiriau unsill a'u ffurfiant: *pen-knife, mis-lead, lamp-post, here-in, up-hill.*

§ 442. Diweddiadau gramadegol neu derfyniadau yn gyffredin a ysgerir: *lov-er, lov-est, lov-ing, preach-er, teach-ing.*

§ 443. Y terfyniadau *cial, cian, cious, sion, tion*, ni chyfrrenir ond anfynych; eithr, yn gyffredin, dylid eu hysgaru oddiwrth wreiddyn gair: *pro-vin-cial, Gre-cian, fal-la-cious, ex-ten-sion, mo-tion.*

§ 444. Dyna y rheolau byrion goreu a allwyd ddethol er cyfarwyddo yr efrydydd i gyfranu geiriau yn briodol, i wahanol sillau (§ 432, 1); ond ysgrifenu geiriau yn gywir, trwy gyfleu llythyrenau ynddynt yn briodol, o ran rhif, trefn, &c.

(§ 432, 2), ydyw y rhan bwysicaf ac anhawddaf o silliadaeth. Gall y rheolau a ganlynant roi peth cynnorthwy i'r efrdydd er cyrraedd yr amcan.

### RHEOLAU CYFFREDINOL LLYTHYRENIAD.

§ 445. Geiriau Seisnig yn gyffredin a derfynant âg *e* fud, un gydsain neu chwaneg, ac *y*, yr hon a seinir fel i Gym-mreig.

D.S...Mae *e* yn llafar mewn ychydig o unsilliaid a derfynant yn *e* sengl: *be, he, me, she, the, we*—ac ychydig eiriau yn *ee*: *free, tree, refugee, &c.*—ac ychydig o darddiad estronol: *epitome, synecdochee*.

§ 446. Defnyddir yr holl gydseiniaid yn llythyrenau terfynol, ond *j, q, v, c—s, g—j*.

§ 447. Bydd llythyren derfynol gair, yn gyffredin, naill ai *e* fud neu gydsain, yn ol meintiolaeth y llafariad a fyddo yn y sill derfynol i air. Os bydd y llafariad hono yn hir ac yn sengl, a dim ond un gydsain yn ei dilyn, terfyna gair yn gyffredin âg *e* fud, pynag pa gydsain a fyddo yn y sill: *babe; ache, êc; made; safe; page; make; male; theme; pine; type; mere; these; mute; clothe, clôdd; grave; doze*.

Eithr.: *niche, neich; bade; come; some; done; none; one; gone; shone; ate; have; give; live; dove; glove; love; shove*.

§ 448. Pan derfyno geiriau â sain egwyddorol *e—i, y—i* a ddefnyddir yn gyffredin i ddynodi y cyfryw sain: *boy, toy, joy; holy, happy, &c.*

D.S...Defnyddir *ey—i* mewn ychydig o eiriau i'r un perwyl: *cockney, honey, key, ley, Anglesey, Humphrey, Ramsey, &c.*—ac mewn un gair, o leiaf, *uay—i, quay*.

Eithr.: *plea, pea, flea, sea, tea*. Hefyd,edr. y D. S. yn § 445.

§ 449. Pan ddiweddo geiriau unsill â *b, d, g, m, n, p, r, t, x, z*, yn cael eu rhagflaenu gan lafariad sengl, bydd y gydsain derfynol yn gyffredin yn sengl: *rub, bud, frog, ham, tin, nap, fur, pet, fox, phiz*.

Eithr.: *ebb, add, odd, egg, inn, err, purr, butt, buzz*.

§ 450. Geiriau unsill a ddiwedant âg *f, l*, neu *s*, yn cael eu rhagflaenu gan lafariad sengl, yn gyffredin a ddyblant y gydsain derfynol: *staff, stiff, scoff; all, ell, hill; mass, less, hiss, truss*.

Eithr.: *if, of; as, gas, has, was, yes, is, his, this, wis, us, thus*.

§451. Mewn geiriau lluosill, yn gyffredin, bydd y gyd-sain ddiweddol yn sengl, oddieithr mewn geiriau a derfynont âg *f* neu *s*, yn cael ei rhagflaenu gan lafariad sengl: *syllabub*, *cinnamon*, *sinister*, &c. : *distaff*, *mastiff*, *rebuff*; *harass*, *access*, *amiss*, &c.

Eithr. : *alas*, ac eraill ysgatfydd.

§452. Mewn geiriau unsill yn diweddu â sain galed *c—k*, yn cael ei rhagflaenu gan lafariad sengl, rhoddir *k* braidd bob amser ar ol *c* : *back*, *neck*, *sick*, *clock*.

D.S...Mewn ychydig eiriau o'r cyfansoddiad yna, dilynir yr *c* â *t* : *act*, *pact*, *tact*, *tract*, *fact*, *fract*, *sect*, *pict*, *strict*, *duct*.

Eithr. : *lac*, *zinc*.

§453. *C* galed, *k*, a ddefnyddir fel cydsain derfynol yn unig mewn geiriau lluosill, ac yn y rhai hynny yn unig, pan ei rhagflaenir gan *i* neu *ia* : *music*, *public*, *authentic*; *maniac*, *cardiac*, *zodiac*.

Eithr : *almanac*.

D.S...Yr holl eiriau o'r dosbarth uchod a ysgrifenedig gynt â *ck* : *musick*, *maniack*—a chedwir y *ck* yn awr mewn geiriau a derfynant yn *ing* : *trafficking*, *mimicking*, &c., yn amgen, seinid y *c* o flaen *i*, yn ol arfer y Seison yn *sing*, *cing*; yna, elai *trafficking* yn *traffising*.

§454. Pan gyssylltir terfyniad a fyddo yn dechreu â llafariad at air a derfyna âg *e* fud; neu pan gyssylltir *y* fel terfyniad at y cyfryw, diflanna yr *e* : *cure*, *cur-able*; *sense*, *sensible*; *take*, *tak-ing*; *white*, *whit-ish*; *fame*, *fam-ous*: *stone*, *ston-y*; *wire*, *wir-y*; *noble*, *nobl-y*; *haste*, *hast-y*.

§455. Pan gyssylltir y terfyniad *fy* neu *ty* at air a derfyno âg *e* fud, newidir yr *e* i *i* : *pure*, *puri-fy*; *active*, *activi-ty*.

Eithr. : *surety*, *safety*, *duty*.

§456. Geiriau yn terfynu âg *e* fud, pan ei rhagflaenir gan *c—si*, neu *g—j*, a gadwant yr *e* o flaen *able*, *ous*, ac weithiau o flaen *ing* : *pace*, *pace-able*; *charge*, *charge-able*; *courage*, *courage-ous*; *singe*, *singe-ing*.

Eithr. : *grace*, *graci-ous*.

§457. Mewn geiriau yn terfynu âg *e* fud, ni ddiflenir yr *e* o flaen terfyniadau yn dechreu â chydsain; megys, *ful*, *less*, *ly*, *ment*, *ness*, *some*, *ty* : *waste*, *waste-ful*; *guile*, *guile-less*; *fine*, *fine-ly*; *excite*, *excite-ment*; *pure*, *pure-ness*; *whole*, *whole-some*; *sure*, *sure-ty*.

Eithr. : *duty*, *truly*, *wholly*, *awful*, *judgment*, *abridgment*, *argument*, &c.

§458. Mae y geiriau yn y sawl y rhagflaenir *e* fud gan *l*, *m*, *s*, neu *r*, ac ei dilynir gan *able*, yn ansefydlog : ysgrifena

yr awdwyr goreu—*salable*, neu *saleable*; *blamable*, neu *blameable*; *chasable*, neu *chaseable*; *provable*, neu *proveable*.

D.S...Mae cyssondeb o blaid y dull blaenaf.

§ 459. Mewn geiriau yn terfynu âg *y* ar ol cydsain, newidir yr *y* i *i* o flaen yr holl derfyniadau, oddi eithr *ing*, *ish*, ac *'s*: *fancy*, *fanci-ful*; *steady*, *steadily*; *holy*, *holi-er*, *holi-est*: *fancy*, *fancy-ing*, *fancy's*; *baby*, *baby-ish*, &c.

Eithr.: *dryly*, *dryness*; *slyly*, *slyness*; *shyly*, *shyness*.

§ 460. Mewn geiriau yn terfynu â *ty*, newidir yr *y* i *e* o flaen y terfyniad *ous*: *beauty*, *beauteous*; *duty*, *duteous*: *bounty*, *bounteous*.

§ 461. Mewn geiriau yn terfynu âg *y* ar ol llafariad, ni newidir yr *y* wrth chwanegu atynt: *gay*, *gay-ly*; *boy*, *boy-ish*; *joy*, *joy-ous*; *delay*, *delay-ing*, *delay-ed*, &c.

Eithr.: *say*, *said*; *pay*, *paid*; *lay*, *laid*; a'u hanedigion.

§ 462. Mewn geiriau unsill yn terfynu âg un gydsain ar ol llafariad sengl, dyblir y gydsain pan chwanegir terfyniadau yn dechreu â llafariad atynt: *shrub*, *shrubby*; *sin*, *sinn-ed*, *sinn-er*, *sinn-est*, *sinn-ing*, &c.

§ 463. Pan fyddo geiriau unsill yn terfynu â dwy gydsain ar ol llafariad sengl, ni ddyblir cydsain derfynol y geiriau unsill o flaen terfyniadau yn dechreu â llafariad: *milk*, *milk-y*; *shank*, *shank-ed*; *act*, *act-er*, *act-est*, *act-ing*; *rock*, *rock-y*, &c.

§ 464. Pan derfyno geiriau unsill âg un gydsain ar ol dwylafariad neu ddeuseiniad, ni ddyblir cydsain ddiweddol y geiriau unsill wrth eu cyssylltu â therfyniadau yn dechreu â llafariad: *need*, *need-y*; *head*, *head-y*; *cloud*, *cloudy*; *seal*, *seal-ed*, *seal-er*, *seal-est*, *seal-ing*, &c.

§ 465. Pan fyddo geiriau unsill yn terfynu âg un gydsain ar ol llafariad sengl (§ 462), neu â dwy gydsain ar ol llafariad sengl (§ 463); neu âg un gydsain ar ol dwylafariad neu ddeuseiniad (§ 464), ni ddyblir cydsain ddiweddol y geiriau unsill pan eu cyssylltir â therfyniadau yn dechreu â chyd-sain: *shrubs*; *sin-ful*; *shanks*; *milk-less*; *act-ress*; *rocks*: *need-ful*; *head-strong*; *cloud-less*; *seals*.

§ 466. Pan fyddo yr acan ar sill olaf geiriau lluosill yn terfynu âg un gydsain ar ol llafariad sengl, dyblir cydsain derfynol y cyfryw o flaen terfyniadau yn dechreu â llafariad: *remît*, *remît-ed*; *intermît*, *intermît-er*; *propêl*, *propêl-est*; *prefêr*, *prefêr-ing*, &c.

§ 467. Ni ddyblir cydsain derfynol geiriau lluosill o flaen terfyniadau yn dechreu â llafariad, er i'r sill olaf derfynu âg un gydsain o flaen llafariad sengl, os bydd yr acan heb fod ar y sill olaf: *lîmît*, *lîmît-ed*; *bênefit*, *bênefit-er*; *lêvel*,

lévelest; wórship, wórship-ing; offer-ing; únit, únit-y; carrot, carrot-y, &c.

D.S...Mae y nifer amlaf o'r ieithegwyr goreu yn ystyried geiriau o'r dosbarth yma, a ddiweddant âg *l*, yn eithradau; megys, *cavil*, *cavilled*, *cavilling*, *caviller*; *chisel*, *chiselled*, *chiselling*, *chiseller*; *counsel*, *counselled*, *counselling*, *counsel-ler*; *drivel*, *drivelled*, *drivelling*, *driveller*; *duel*, *duelling*, *duellist*; *gravel*, *gravelled*, *gravelling*; *grovel*, *grovelled*, *grovelling*; *level*, *levelled*, *levelling*, *leveller*; *libel*, *libelled*, *libelling*, *libeller*, *libellous*; *marvel*, *marvelled*, *marvelling*, *marvellous*; *model*, *modelled*, *modelling*, *modeller*; *pencil*, *pencilled*, *pencilling*; *quarrel*, *quarrelled*, *quarrelling*, *quar-reller*, *quarrellous*; *revel*, *revelled*, *revelling*, *reveller*; *rival*, *rivalled*, *rivalling*; *travel*, *travelled*, *travelling*, *traveller*, &c.

Dywed y *Professor Sullivan* y gallai fod natur doddiadol y llythyren *l*, ac arddygraff y geiriau Ffrengig o'r sawl yr hâna y nifer amlaf o'r geiriau hyn, yn rheswm dros, ac ef-llai, yn awdurdodi yr afreoledd yma; ond, y mae cydweddiad o blaid y rheol. Mae anwybodaeth o'r rheol hon (§467), meddai Walker, wedi arwain rhai i ysgrifenu gallopping, am galloping; worshipper, am worshiper; begotted, am begoted, &c. Mor gysson, ebai Webster, fyddai ysgrifenu auditor, am auditor; alterrer, am alterer; gardenner, am garden-er, &c.

§468. Pan fyddo geiriau lluosill yn terfynu â dwy gydsain o flaen llafariad sengl, ni ddyblir cydsain derfynol y cyfryw eiriau o flaen terfyniadau yn dechreu â llafariad, er i'r acan fod ar y sill olaf: *attráct*, *attráct-ed*; *in-gráft*, *in-gráft-er*; *refléct*, *refléct-est*; *adréss*, *adréss-ing*, &c.

§469. Pan derfyno geiriau lluosill âg un gydsain o flaen dwylafariad neu ddeuseiniad, ni ddyblir eu cydsain ddiwed-dol o flaen terfyniadau yn dechreu â llafariad, lle bynag y byddo yr acan: *repe'al*, *repe'al-ed*, *repe'al-est*, *rep-e'al-er*; *proce'd*, *proce'd-ing*; *sho'wer*, *shower-y*; *embroil'*, *embroil'-ing*, &c.

§470. Ni ddyblir cydsain ddiweddol geiriau lluosill o flaen terfyniadau yn dechreu â chydsain, pan y terfynant âg un gydsain ar ol llafariad sengl (§466 a 467); na phan derfynant â dwy gydsain ar ol llafariad sengl (§468); na phan derfynant âg un gydsain o flaen dwylafariad neu ddeuseiniad (§469); ar ba sill bynag y byddo yr acan: *rem'it*, *rem'its*; *prope'l*, *prope'ls*; *prefe'r*, *prefe'r-ment*: *limit*, *limits*; *bénéfít*, *bénéfíts*; *lével*, *lévelness*: *attra'ct*, *attra'cts*; *ingra'ft*, *ingra'ft-ment*; *cross*, *cross-ness*; *careless*, *careless-ness*; *success*, *success-less*; *gross*, *gross-ly*; *needless*, *need-*

*less-ly*; *bliss*, *bliss-ful*; *success*, *success-ful*: *repeal*, *repeals*; *embroil*, *embroil-ment*, &c.

§ 471. Geiriau cyfansawdd a ysgrifenir yn gyffredin fel y geiriau syml a'u cyfansoddant: *herein*, *here-in*; *hereafter*, *here-after*; *freeman*, *free-man*; *footstep*, *foot-step*; *ham-mock*, *ham-mock*; *assail*, *as-sail*; *earring*, *ear-ring*; *trapball*, *trap-ball*; *hoppole*, *hop-pole*; *offend*, *of-fend*, &c.

D.S...Pan gyssylltir *dis* neu *mis* at eiriau yn dechreu âg *s*, dylid ysgrifenu y ddwy *s*, yn ol y rheol yma: *dissolve*, *dis-solve*; *dissipate*, *dis-sipate*; *misspell*, *mis-spell*; *misshapen*, *mis-shapen*, &c.; ond pan gyssylltir geiriau yn dechreu â rhyw lythyren heblaw *s* at y ddau flaendod dan sylw, un *s* a ddylid ysgrifenu: *disobedience*, *dis-obedience*; *mistake*, *mis-take*, &c.

§ 472. Pan gyssylltir geiriau yn diweddu mewn dwy *l* at eiriau eraill; neu pan gyssylltir *less* neu *ly*; ac yn fynych, *ness* a *full* atynt hwy, yn gyffredin, gadewir un *l* allan: *already*, *all-ready*; *albeit*, *all-beit*; yr un modd am *al-though*, *al-most*, *al-together*; *with-al*, *un-til*, *chil-blain*, &c.: *skil-less*; *ful-ly*, *ful-fil*: *dul-ness*; *wil-ful*, &c.

Eithr.: *illness*, *shrillness*, *stillness*, *tallness*; heblaw amryw eiriau sydd yn unol â'r § 471; megys, *football*, *harebell*, *molehill*, *windmill*, &c. Hefyd, mae lluaws o eiriau yn cynnwys *l* neu *ll* yn dra ansefydlog—rhai yn ysgrifenu un *l* ynddynt, ereill ddwy: dyma rai a ysgrifenir yn wahanol gan Johnson, Walker, Knowles, Webster, Smart, &c.: *talness*, *tallness*; *fulness*, *fullness*; *miscal*, *miscall*; *comptrol*, *comptroll*; *enrol*, *enroll*; *control*, *controll*; *downful*, *downfall*, &c. "Os amddifadir geiriau o'r llythyrenau dyblyg hyn, byddant mewn perygl o gael eu camseinio."—*Walker*. "Byddai cadw y llythyren ddyblyg yn unffurf, syml, a hawdd."—*Churchill*.

§ 473. Geiriau yn diweddu yn *full*, a ysgrifenir yn gyffredin âg un *l* pan yn sylweddeiriau, a phob amser pan yn ansodd-eiriau: *handful*, *useful*, *beautiful*, &c.

§ 474. Mewn geiriau a ysgrifenedid gynt fel hyn: *error*, *inferiour*, *warriour*, gadewir yr *u* allan yn awr: *error*, *inferior*, *warrior*.

Eithr.: *honour*, *favour*, ac ychydig ereill.

§ 475. Mae amryw eiriau Seisnig yn cael eu defnyddio gan yr awduron goreu mewn dau ddull; megys, *connection* a *connexion*, *enquire* ac *inquire*, *inflection* ac *inflexion*, *negotiate* a *negociate*, &c.

§ 476. Pan fabwysir geiriau o'r Ffrancaeg, yr arferiad cyffredin yw newid y terfyniadau Ffrengig *bre*, *tre*, yn *ber*,

ter, &c. : chamber, charter—yn lle 'r dull Ffrengig : chambre, chartre, &c.

Eithr. : fibre, antre, centre, livre, lucre, manoeuvre, megre, metre, mitre, nitre, ochre, sceptre, sepulchre, spectre, theatre—y sawl a gynanir; ffei-byr, an-tyr, &c. Edr. § 374.

§ 477. Tybir bod yr adranau yna, § 445—476, yn cynnwys sylwedd yr holl reolau a ellir roddi er dysgu arddygraff yr iaith Seisnig; ond, er y cyfan, rhaid mabwysu geiriau M'Culloch, "Bod gŵyriadau yr arddygraff Seisnig oddi wrth gydweddiad yn gynifer, fel nas gellir eu cwbl feistroli ond yn unig trwy adnabyddiaeth ymarferol âg arferiadau yr iaith."

§ 478. Tuag at i'r efrydydd gyrraedd yr adnabyddiaeth ymarferol grybwylledig, ar ol iddo ddyfod yn berffaith gynnefin a meistrolgar yn y "Rheolau Cyffredinol Llythyreniad," sydd yn § 445—476, annogir ef i ysgrifenu allan y geiriau sydd yn "*Butter's Gradations*," tu dal. 133—180, sef hyd ddiwedd y llyfr. Ac os bydd y dysgadur yn cael blas ar y dasg fuddiol yma, aed ymlaen drwy "*Butter's Spelling Book*," o'i ddechreu hyd tu dal. 52. Gall yr efrydydd ymddiried nad oes un ymarferiad o fath *ysgrifenu* er dysgu arddygraff pob iaith; mewn gwirionedd, mae yn tra rhagori ar ddysgu y rheolau arddygraffol goreu. Er mwyn i'r dysgadur argraffu llythyreniad y Seisneg yn fwy effeithiol ar ei gof, byddai yn fuddiol iddo chwilio allan lythyreniad pa eiriau a ysgrifena, fydd yn cyfateb i'r rheolau a roddwyd yn yr adranau blaenorol. Os bydd yr efrydydd heb ddigon o amynedd i ysgrifenu y cyfresau geiriau a nodwyd, o silliaduron Butter, er mwyn yr arddygraff yn unig, ysgrifened hwynt fel hyn:—

#### CYFRES I. GEIRIAU O DDWY LLYTHYREN.

§ 479. ("*Butter's Gradations*," tu dal. 133.)

Geir.	Cynaniad.	Ystyr.	Geir.	Cynaniad.	Ystyr.
At	— at ...	yn.	To	— tw ...	i.
As	— az ...	megys.	It	— it ...	fe.
Me	— mi ...	mi.	Is	— iz ...	sydd.
No	— no ...	nage.	Be	— bi ...	bod.
Ox	— ocs ...	eidion.	&c.	&c.	&c.

#### § 480. CYFRES II. GEIRIAU O DAIR LLYTHYREN.

("Butter's Gradations," tu dal. 134.)

Geir.	Cynaniad.	Ystyr.	Geir.	Cynaniad.	Ystyr.
Bat	— bat ...	ystlum.	Sat	— sat ...	eisteddodd.
Pat	— pat ...	goraddas.	Rat	— rat ...	llygoden ffrengig.
Mat	— mat ...	mat.	Cat	— cat ...	cath.



Am yr holl eiriau sydd yn "*Butter's Gradations*," a "*Butter's Spelling Book*," y cyfeiriwyd atynt yn §478.

§481. Wrth ysgrifenu ei gyfresau fel yna, dysga yr efrydydd lythyreniad, cynaniad, ac ystyr y geiriau Seisnig a arferir fynychaf yn yr iaith.

§482. Rhaid i'r efrydydd gael, er ei gynnorthwy i wneyd ei gyfresau yn ol y cynllun yna, heb law y silliaduron crybwylledig, rhaid iddo gael geiriadur cynaniadol, a geiriadur Seisneg a Chymraeg da. Am fod "Geiriadur Cynaniadol Walker" yn rhad, yn hawdd i'w gael, ac yn ddigon cyflawn at bob darlleniad cyffredin (§422), hwn a gymhellir i sylw yr efrydydd. Caiff gyfarwyddyd sut i'w ddefnyddio yn §424 a 425. Y geiriadur Seisneg a Chymraeg cywiraf, helaethaf, a rhataf, yn ol ei faint, yn ddiammheuol, a gyhoeddwyd erioed, nac a gyhoeddir yn awr yn y Dywysogaeth, ydyw yr eiddo D. Silvan Evans, Darlithiwr Cymreig yn Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr. Efallai y tybia yr efrydydd y byddai yn llawn cystal iddo ymroi i ddysgu y geiriaduron hyn, o'r naill ben i'r llall! ag a fyddai iddo fyned i'r drafferth o ysgrifenu cyfresau, yn ol y cyfarwyddyd yn yr adran hon; ond yn hyn, mae yn camsynied yn ddirfawr. Pe gallai rhywun o gof anarferol (ond nis gall neb), ddysgu geiriadur, o ben i ben, dysgai filoedd o eiriau na chyfarfyddai â hwynt mewn cyfansoddiad cyffredin, ysgatfydd, unwaith yn nghorff darlleniad o ugain mil o eiriau, ond am y geiriau sydd yn "Silliaduron Butter," mae y nifer amlaf o honynt yn eiriau hawdd, ac arferedig. Heblaw hyny, nid dysgu yr iaith fel offeryn (§4), sef dysgu ystyr ei geiriau, ydyw y prif amcan mewn golwg yn y rhan yma o'r treithawd; ond dysgu arddygraff, neu lythyreniad yr iaith: a gwyddis, oddiar hir brofiad, mai trwy ysgrifenu lluaws o'i geiriau, yn benaf oll y cyrraeddir hyny yn gyflymaf. Caiff gyfarwyddiadau chwanegol, yn y rhan nesaf, sut i ddysgu geiriau, a pha eiriau, yn benodol sydd raid iddo eu dysgu yn gyntaf, er deall cyfansoddiad Seisnig.

§483. Wrth derfynu y rhan yma, annogir yr efrydydd i ofalu am wneyd ei lyfr cyfresau, os y dull triphlyg a ddewisa, yn gywir yn ol y cynllun, §479 a 480. Cymered ofal na roddo gynaniad un gair i lawr ar antur, heb fod yn sicr o'i wir gynaniad a'i aceniad. Hefyd, na rodded ddim ond un gair Cymreig ar ol pob gair Seisnig; a bydded hwnw y gair Cymreig blaenaf a fyddo yn eglurhad Mr. Evans o'r gair Seisnig. Ni raid i'r dysgadur ymdrafferthu i ddehol geiriau Cymreig—dilyned y cyfarwyddyd, a chaiff y rhai mwyaf detholedig ac arferedig sydd yn yr iaith; canys y mae y gair blaenaf yn eglurhad Mr. Evans, yn gyffredin, yn ardeb cywir o'r gair Seisnig—

yn dangos ei brif ystyr. Mae o bwys i'r efrydydd beidio rhoi ond un gair Cymreig yn ei eglurhad, er mwyn ei gof. Adrodded ei dasg deirgwaith neu bedair drosodd, fel hyn:—At, at, yn; at, at, yn, &c. &c.; ac argreffir y cyfan ar ei gof yn dra effeithiol. Caiff gyfarwyddyd i wneyd broddiadur (*vocabulary*) yn y rhan nesaf.

## RHAN III.

## CYFANSODDIAD YR IAITH SEISNIG.

§484. EITHAFNOD y treithodyn hwn ydyw rhoi cyfarwyddyd i'r efrdydd ddysgu cyfansoddiad yr iaith Seisnig, deall cyfansoddiad rhai ereill, a medru cyfansoddi ei hunan yn yr iaith, yn gyson â dull llenorion y genedl.

§485. Dywedwyd eisys, §4, y gellir ystyried iaith fel offeryn trosglwyddiad y meddwl, ac fel gwyddor a ddengys sut i ddefnyddio yr offeryn er cyrraedd yr amcan o drosglwyddo y meddwl yn ddealladwy. Fel offeryn, ei bod yn gynnwysedig o eiriau iaith; fel gwyddor, ei bod yn gynnwysedig o egwyddorion<sup>1</sup> a rheolau yn dangos y modd i ddefnyddio geiriau yn briodol. Y wyddor hon a elwir yn gyffredin, grammadeg iaith. Mae yn amlwg, erbyn hyn, y rhaid gwybod y wyddor dan sylw, cyn y gellir defnyddio yr offeryn, sef geiriau iaith yn briodol. Weithion, ar ddymuniad y cyhoeddwr, chwanegir at y Treithawd Cystadleuol<sup>2</sup> dalfyriad o'r wyddor Seisnig, sef casgliad, mor helaeth ag y caniaata lle, o'r egwyddorion a'r rheolau sydd yn dangos sut i adnabod geiriau Seisnig, yn ol eu dosparthau; a'r modd i'w cyfod yn briodol er ffurfio broddegau neu ymadroddion, yr hyn a elwir yn gyffredin, grammadeg Seisnig.

## GRAMMADEG SEISNIG.

§486. EGWYDDORION iaith a ddangosant y modd i ddywedyd yn gywir yr hyn a feddylir.

§487. Cyffiniau priodol Grammadeg, yn ol ystyr cyffredin y gair, a gynnwysant eglurhad ar y dull cywir o osod llythyr-

<sup>1</sup> Mae i'r gair *egwyddor* ddau ystyr. Ei ystyr blaenaf a arwydda *lythyrenau iaith—alphabet*. Mewn ystyr arall arwydda *elfen, rhan gyssoddol, gwirionedd sylfaenol, cynsail i weithredu arni, &c.* Yn yr ystyr yma y defnyddir y gair yn yr adran uchod, ac ynghorff y rhan yma o'r gwaith yn gyffredin. Yn yr ystyr yma, *principle* ydyw y gair Seisnig cyfystyr âg ef; ac efallai mai *dansawdd* ydyw y gair Cymmreig mwyaf priodol i ddangos y meddwl; ond gan fod y gair *egwyddor* yn fwy arferedig, dewiswyd ei ddefnyddio yma.

<sup>2</sup> Edr. y Rhagymadrodd.

enau ynghyd er ffurfio geiriau unigol, ac ar y dull o osod geiriau ynghyd er ffurfio broddegau unigol. Gosod broddegau ynghyd er ffurfio cymmwylion (*arguments*), a threfniad y rhai hyn yn y modd mwyaf destlus ac effeithiol mewn cyfansoddiad cyffredinol, sydd orchwyl dwy gangen arall o wyddor iaith, y sawl ni cheir ymdrin dim â hwy yn y treithodyn yma.

§ 488. Testynau y rhan gyntaf a'r ail o'r llyfr hwn, oedd Tonyddiaeth (*prosody*) ac Arddygraff; a thestyn y rhan yma fydd Geiryddiaeth.

---

## GEIRYDDIAETH.

§ 489. MAE Geiryddiaeth yn ddau ddosparth—Dosraniad<sup>1</sup> Geiryddol, a Chyfosodiad<sup>2</sup> Geiryddol.

§ 490. Y dosparth cyntaf a elwir yn gyffredin, yn Seisneg, *Etymology*, Cyfachyddiaeth; a'r ail ddosparth, *Syntax*, Cys-trawen. Yr ydys yn dewis y geiriau Dosraniad a Chyfosodiad Geiryddol, am eu bod yn ddefiniadau cywirach o ddau ddosparth geiryddiaeth na'r geiriau Cyfachyddiaeth a Chys-trawen, heb law eu bod yn llawn mor ddealladwy i'r cyffredin.

---

### DOSPARTH I.

## DOSRANIAD GEIRYDDOL.

### *Deffiniad*<sup>3</sup> *Cyffredinol*.

§ 491. YN ol egwyddorion iaith, arwyddion ydyw geiriau o ddelfrydau, a lluniau meddyliol yw delfrydau o bethau. Llund meddyliol sydd adrithiad<sup>4</sup> o ryw beth mewn natur,

<sup>1</sup> *Analysis*—trychwaliad peth a fyddo yn wrthrych y synwra neu y meddwl, i'w elfenau cyntefig: "dadansoddiad, dosparthiad, dat-todiad," &c.—*D. S. Evans*.

<sup>2</sup> *Synthesis*—uniad elfenau yn gyfansawdd: cydosodiad, cyssoddedigaeth, cyssodiad; cyfansoddiad.

<sup>3</sup> *DEFFINIAD* (*definition*), o *de* a *ffin*, sydd air arferedig yn Nghanonau Eglwys Loegr: arwydda, iawn derfynau, neu ffiniau peth; eglurhad mewn geiriau a neilltuola neu a wahaniaetha y peth egluredig oddi wrth bethau ereill: "darnodiad, dynodiant," &c.—*Caerwallwch*.

<sup>4</sup> *ADRITHIAD* (*representation*), o *ad* a *rhith*: gosodiad rhith peth ger bron; "cynnyrchioliad, adgynnrychiedigaeth" (!), &c.—*T. Jones*.

sylweddol neu ysprydol, a'r adrithiad hyny a elwir delfryd.<sup>1</sup>

§ 492. Gan fod pob peth sy mewn natur naill ai yn sylweddol neu yn ysprydol, rhaid bod pob delfryd yn syniad (*notion*) am feddwl neu am sylwedd, neu am briodoleddau (*properties*) neu foddau meddwl a sylwedd.

§ 493. Mewn ystyr ieithyddol, y bath (*sort*) cyntaf a phenaf o delfryd sy syniad am beth, neu fod, neu am fodoliad meddwl neu sylwedd.

§ 494. Yr ail fath o delfryd sy syniad am ffurfiau, neu symmudiadau, neu briodoleddau a moddau bodoliad pethau sylweddol neu ysprydol.

§ 495. Y trydydd bath o delfryd sy syniad am amgylchiadau perthynol ffurf, neu fodd, neu symmudiad, &c., neu am raddau perthynol yn moddau neu briodoleddau pethau neu fodau.

§ 496. Yn ol y dosraniad ieithyddol yma, tri phrif fath o delfrydau y sydd; a chan mai arwyddion o delfrydau ydyw geiriau (§ 491), nid oes ond tri bath cyntefig o eiriau.

§ 497. Gall yr efrydydd gael syniad eglur am yr hyn a olygir yma, trwy gymmeryd pellen, a'i threiglo ar lawr. Y *bellen* sy beth; y *symmudiad*, neu y weithred o dreiglo, sy briodoledd neu *fodd* penodol y peth hyny o *fodoli*; y *gradd* o fuander neu arafedd y symmuda, a ddibyna ar y symmudiad, fel y dibyna y symmudiad ei hunan ar y *bellen* neu y peth. Y tri bath yma o delfrydau yw sylfaen wreiddiol pob trefniad ieithyddol o eiriau; canys perthynas naturiol delfrydau â'u gilydd yw sail cyfansoddiad iaith.

§ 498. Mewn ystyr ieithyddol, geiriau a adrithiant yn unig:—

(1.) Delfrydau am bethau, gwirioneddol neu ddychymygol.

(2.) Delfrydau am briodoleddau neu foddau gwirioneddol neu ddychymygol y pethau hyny.

(3.) Delfrydau am radd berthynol yngwahanol foddau pethau neu fodau.

§ 499. Ond geiriau, o'u hystyried yn annibynol y naill ar y llall, ydynt oll yn arwyddion o delfrydau; ac fel arwyddion o delfrydau, maent yn enwau delfrydau; ac y mae enwau delfrydau wedi cael eu galw gan rammadegwyr yn gyffredin, enwau (*nouns*): gan hyny, tri bath cyntefig o enwau y sydd:—

<sup>1</sup> DELFRYD (*idea*), o *delw* a *bryd*, sydd air ystwyth ac ystyrlawn, arferedig gan *Henri Perè*: arwydda ddelw neu lun meddyliol (*an intellectual image*), meddyldrych, &c.

(1.) Enwau yn adrithio bodau, sylweddol neu ysprydol, canolig (*neuter*), neu ammwysol (*ambiguous*); megys, *matter*, sylwedd; *spirit*, ysbryd; *justice*, cyfiawnder; *nothing*, dim, &c.

(2.) Enwau yn adrithio priodoledau neu foddau bodau; megys, *movement*, symmudiad; *sufferance*, goddefiad, &c.

(3.) Enwau yn adrithio graddau moddedigaeth yn mhriodoledau neu foddau bodau; megys *quickness*, cyflymder; *reverence*, parch, &c.

§ 500. Er mwyn gwahaniaethu rhwng y tri bath cyntefig hyn o enwau, gellir galw y bath cyntaf, bodenwau (*nouns of being*); yr ail fath, moddenwau (*nouns of mode*); a'r trydydd bath, graddenwau (*nouns of degree*).<sup>1</sup>

§ 501. Megys y mae i bob bod ei foddau o fodoli, ac i bob modd ei raddau, mae graddenwau megys yn dibynu ar fodd-enwau, a moddenwau yn dibynu ar fodenwau, fel y mae'r delfryd o radd yn dibynu ar y delfryd o fodd, a'r delfryd o fodd, ar y delfryd o fod (§ 497), yr hwn sy megys yn annibynol, ac yn sefyll yn benaf.

§ 502. Yr egwyddor o ddosparthiad, ac o berthynas naturiol o ddibyniad a chyssylltiad rhwng bod, modd, a gradd, sydd yn ffurfio sail cyfansoddiad naturiol geiriau mewn ymadrodd; canys, megys y mae tri bath o ddelfrydau cyntefig, sef am fod, modd, a gradd; a thri bath o enwau cyntefig, cyfatebol i'r cyfryw ddelfrydau, sef bodenwau, moddenwau, a graddenwau; felly, yn gyson â'r egwyddor gyffredinol a naturiol o gyfaddasiad (*adaptation*), mae tair swydd i bob un o'r tri bath cyntefig hyn o eiriau, mewn ymadrodd, sef i fodenwau, i fodd-enwau, ac i raddenwau.

§ 503. Mae y swyddi hyn yn cyfateb yn fanwl i'r bathau cyntefig o eiriau, fel y mae y rhai hynny drachefn i'r bathau cyntefig o ddelfrydau, nid yn unig o ran rhif, ond hefyd o ran perthynas, cyssylltiad, a chydymddibyniad mewn ymadrodd; canys, megys y mae moddenwau yn dibynu ar fodenwau, a graddenwau yn dibynu ar fodd-enwau, felly mewn broddeg, y mae yr ail swydd yn dibynu ar y benaf, a'r drydedd ar yr ail. Mae perthynas a chyssylltiad y swyddi hyn â'u gilydd mewn ymadrodd yn dra thebyg i'r eiddo meistr, gwas, ac eilwas—y meistr yn benaf, ac megys annibynol; y gwas yn dibynu ar, ac yn gweini i'r meistr; a'r eilwas yn dibynu ar, ac yn gweini i'r gwas.

§ 504. Rhaid sylwi mai y swyddi hyn yn unig, ac nid y

<sup>1</sup> Mae y geiriau hyn, *bodenwau* (enwau bod), *moddenwau* (enwau modd), a *graddenwau* (enwau gradd), yn llawn mor ddealladwy, os nad mwy felly, ag ydyw *sylweddair*, *berf*, ac *adferf*, a thybir eu bod yn llawer addasach i'r deffiniad a roddir o'r tri bath geiriau dan sylw.

bathau cyntefig o eiriau, sydd yn rheoli cyfansoddiad ymadrodd; canys gall bodenwau fod yn yr ail, neu y drydedd swydd ynghyfansoddiad broddeg, yn gystal ag yn y swydd benaf: a gall moddenwau fod yn y swydd benaf, yn gystal ag yn yr ail a'r drydedd; felly hefyd, gall graddenwau fod ymhob swydd fel eu gilydd (§ 502).

§ 505. Cyn egluro hyn âg engreiffiau, dylid rhybuddio yr efrydydd nad yw natur y berthynas sy rhwng pethau neu ddefrydau a'u gilydd, yn ddim amgen nagegyddorion sylfaenol; a phan unwaith y cyfaddasir trefn cyfansoddiad at yr egwyddor gyffredinol, yna y rhaid colli golwg megys ar wir natur delfrydau, a rhestru y geiriau a'u hadrithiant yn ol pwysigrwydd eu swyddi ynghyfansoddiad broddeg. Gan hyny, rhaid ystyried mai y swyddi yma ydyw prif ddspeirth cyfansoddiad iaith, neu ranau ymadrodd.

§ 506. Er mwyn gwahaniaethu rhwng y tri dosparth hyn o swyddi, dylid cael enw ar bob un o honynt, a fyddo yn ddefiniad cywir o eiriau pan yn gwasanaethu yn y naill neu y llall; a'r enwau symlaf a mwyaf dealladwy y gellir meddwl am danynt yn bresennol yw enw (*noun*), adenw, (*adnoun*), a goradenw<sup>1</sup> (*subadnoun*), fel y gwelir yn y daflen hon:—

	<i>Bathau dospeirth.</i>	<i>Engreiffiau.</i>
BODENWAU.	{ 1. <i>Enw.</i>	man=dyn
	{ 2. <i>Adenw.</i>	of man=dyn
	{ 3. <i>Goradenw.</i>	by man=gan ddyn
MODDENWAU.	{ 1. <i>Enw.</i>	movement=symudiad
	{ 2. <i>Adenw.</i>	of movement=symudiad
	{ 3. <i>Goradenw.</i>	in movement=mewn symudiad
GRADDENWAU.	{ 1. <i>Enw.</i>	quickness=cyflymder
	{ 2. <i>Adenw.</i>	of quickness=cyflymder
	{ 3. <i>Goradenw.</i>	in quickness=mewn cyflymder

<sup>1</sup> Pan fydd rhaid cyfansoddi neu gyfieithu ambell air newydd, i ateb i egwyddorion a definiadau na welwyd o'r blaen yn y Gymraeg, ymdrechir eu cyfansoddi, megys y rhai uchod, o wreidduriau hollol gymnefin. Hefyd, defnyddir yr hen enwau ar ranau ymadrodd bob amser y cania'ta'r definiadau; a cheir gweled fel yr eir ymlaen, y daw y nifer amlaf o honynt i fewn.

§ 507. Wrth ffurfio geiriau yn froddegau, gan hyny, gwasanaetha pob bath o enwau, sef bodenwau, moddenwau, a graddenwau, eu gilydd yn eu tro, fel y dewisir, gan y gall pob un o honynt sefyll yn y dosparth a fynir o'r swyddi crybwyllledig mewn ymadrodd, fel y gwelir uchod, a hyny yn ol trefn cydymddibyniad cyson â'r egwyddor gyffredinol o gysylltiad naturiol rhwng y delfrydau o fod, modd, a gradd.

§ 508. Yn yr iaith Seisnig, dynodir dospeirth israddol enwau, sef yr adenwol (*adnominal*) a'r goradenwol (*subadnominal*), a banynau (*particles*), neu eirynau a ddynodant ddibyniad neu gyssylltiad. Trwy gymmeryd dau enw o'r dosparth cyntaf neu annibynol, gellir gwneyd iddynt wasanaethu eu gilydd bob yn ail, trwy gymmorth y geiryn *of*, yr hwn a wasanaetha fel swydd-wisg (*livery*) i ddangos bod yr enw ei cysylltir wrtho mewn dosparth neu swydd israddol. Er engraifft, os cymerir y ddau enw annibynol *man* (dyn), a *wisdom* (doethineb), gwasanaethant eu gilydd fel hyn:—

*Man of wisdom*—dyn o ddoethineb.

*Wisdom of man*—doethineb dyn.

§ 509. Y geiryn *of* ydyw yr unig swydd-wisg wahanredol a ddynoda enwau Seisnig, pan wasanaethont yn yr ail swydd, sef y dosparth adenwol; ond y geirynau a wasanaethant fel swydd-wisgoedd, yn y drydedd swydd, sef y dosparth goradenwol ydynt luosog; megys, *in, out, to, from, with, for, by, &c.*

§ 510. Trwy gymmorth y banynau hyn, mae yn hawdd cyfnewid dospeirth swyddi enwau ynghyfansoddiad ymadrodd, yr hyn a rydd i'r cyfansoddydd ddigon o amrywiadau ieithyddol at ei wasanaeth. Gellir egluro hyn trwy amrywio dospeirth swyddogol tri enw o'r bathau cyntefig o fodenwau, moddenwau, ac o raddenwau, sef *man, movement, a quickness*. Dangosir isod y gall pob un o'r enwau hyn fod yn yr un a ddewisir o'r tri dosparth swyddogol, enw, adenw, neu oradenw, ynghyfansoddiad broddeg, fel hyn:—

<i>Enw.</i>	<i>Adenw.</i>	<i>Goradenw.</i>
1. Quickness	of movement	in man.
2. Man	of quickness	in movement.
3. Movement	of quickness	in man.
4. Quickness	of man	in movement.
5. Movement	of man	in quickness.
6. Man	of movement	in quickness.

§ 511. Yn y froddeg gyntaf, *quickness*, enw o'r trydydd bath—graddenwau—sydd yn y dosparth swyddogol penaf, megys, meistr yn yr ymadrodd, ac yn cael ei wasanaethu gan



y gair *movement*, enw o'r ail fath. Moddenwau, yr hwn a gymmer swydd-wisg (*of*) yr ail ddosparth swyddogol, sef adenw; a'r gair *man*, enw o'r bath cyntaf. Bodenwau, a saif yn y trydydd dosparth swyddogol, trwy gymmorth y geiryn *in*, ac a wasanaetha y gair *movement*. Fel hyn, mae y trydydd dosparth megys yn was i'r ail, a'r ail yn was i'r cyntaf. Y dosparth cyntaf yw y penaf neu y meistr, yr ail yw y gwas, a'r trydydd yw gwas y gwas.

§ 512. Trwy gymmeryd y geiryn *of*, swydd-wisg gwas, sef adenw, oddi wrth *movement*, a'i gyssylltu â'r gair *quickness*, yr hwn oedd yn feistr, sef enw, yn y froddeg gyntaf; a chymmeryd *in*, un o swydd-wisgoedd eilwas, sef goradenw, oddi wrth *man*, a'i gyssylltu â'r gair *movement*, trwy wneyd hyn, gellir newid dospeirth swyddogol geiriau mewn ymadrodd, a gwneyd enw yn adenw, a'r adenw yn oradenw, a'r goradenw yn enw, neu, wneyd y meistr yn was, a'r gwas yn eilwas, a'r eilwas yn feistr; megys yn yr ail froddeg (§ 510)—*Man of quickness in movement*: a'r un modd am y broddegau ereill—*Movement of quickness in man*.

§ 513. Yn yr engreiffitiau dan sylw (§ 510), gwelir y gall pob enw fod ymhob dosparth swyddogol pynag peth fyddo natur hanfodol y delfryd a adrithia. Hefyd, hawdd canfod nad yw natur y delfryd a adrithir gan air yn newid, pan fyddo y cyfryw air yn newid ei ddosparth swyddogol ynghyfansoddiad ymadrodd. Fel hyn, y delfryd o fod a adrithia y gair *man*, pynag ymha ddosparth swyddogol y byddo y gair mewn broddeg—ai yn nosparth enw, adenw, ynte goradenw. Yr un fath, y delfryd o fod a adrithir gan y gair *movement*, pynag ymha ddosparth swyddogol y byddo; a'r delfryd o radd yn null modd a adrithia *quickness* ymhob dosparth swyddogol mewn ymadrodd: gan hyny, gall geiriau wasanaethu ymhob dosparth swyddogol, a sefyllfa, mewn cyfansoddiad, heb newid natur y delfrydau a adrithir ganddynt.

§ 514. Yn y broddegau dan sylw (§ 510), mae y dosparth penaf, enw, yn gyntaf; yr ail ddosparth, adenw, yn ail; a'r trydydd, goradenw, yn drydydd: ond, dylid hysbysu yr efrdydd ieuanc, nad yw hyn ond digwyddiad yn unig; canys nid yw dosparth swyddogol geiriau yn dibynu ar eu cyflead, neu y drefn y dilynant eu gilydd, mewn ymadrodd: gall yr adenw fod o flaen enw, a'r goradenw fod o flaen y naill a'r llall, &c. Daw hyn yn amlycach fel yr eir ymlaen.

§ 515. Dylid sylwi hefyd nad yw cymmorth banynau neu eirynau yn anheggorol, bob amser, er cymmwyso geiriau i wasanaethu yn y swydd o adenw neu oradenw ynghyfansoddiad broddeg; yn lle benthycu cynnorthwy banynau, mae i

eiriau yn fynych ffurf sefydlog a ddynoda swydd israddol. Oherwydd hyn, gellir adrodd y delfrydau sydd yn yr engreiffitiau y sylwyd arnynt eisys (§ 510—513), heb y banynau, fel hyn :—

<i>Enw.</i>	<i>Adenw.</i>	<i>Goradenw.</i>
Man	moves	quickly.
Man	is moving	quickly.
	&c.	&c.

§ 516. Os ydyw y dosraniad yma yn gywir, a'r drefn o gyfansoddiad seiledig arno yn gyflawn, tair rhan ymadrodd hanfodol wahanol y sydd; a phynag pa nifer o amrywiadau ac adraniadau a berthyn i eiriau, rhaid eu rhestru oll dan un o'r tri dosparth swyddogol cyntefig hyn—enw, adenw, neu oradenw.

§ 517. Mae tri dosparth swyddogol y tri bath cysefinol (*primordial*) bodenwau, moddenwau, a graddenwau, yn gyfartal o ran awdurdod ynghyfansoddiad broddegau; hyny yw, mae enw o fath graddenwau, o'r un awdurdod swyddogol, ac o'r un cystrawiad (*construction*) mewn ymadrodd, ag ydyw enw o fath bodenwau neu foddennwau; felly hefyd y mae yr adenw a'r goradenw.

§ 518. Pan unwaith y caffo yr efrydydd syniad eglur am y gwahaniaeth naturiol sy rhwng swydd enw, adenw, a goradenw; ac am undeb a chyffredinolrwydd y drefn o'u cysylltiad a'u cydymddibyniad mewn cyfansoddiad, caiff lawer llai o drafferth i gael gwybodaeth drwyadl am iawn drefniad geiriau mewn ymadrodd er dangos synwyr, nag a gaffai i gyr-raedd syniad amherffaith o ryw ddernynau (*fragments*) o'r gangen yma o wyddor iaith, wrth fyfyrion y drefn gyffredin o drin y pwnc.

§ 519. I foddioni y rhai a glywsant son am fannod (*article*), ansoddair neu enw gwan (*adjective*), rhagenw (*pronoun*), perwyddiad, prifair (?) neu ferf, (*verb*) gorair neu adferf (*adverb*), arddodiad (*preposition*), cyssylltiad (*conjunction*), &c., ac a ddymunant wybod beth a wneir o honynt yn y treithodyn hwn, bydded hysbys iddynt y cyflêir hwynt oll yn eu priodol ddspeirth, fel enwau, adenwau, a goradenwau. Y sylweddeiriau cyffredin, rhai o'r geiriau a elwir rhagenwau, a rhai o'r perwyddiaid, a berthynant i'r Dosparth Cyffredinol o Enwau. Y bannodau, yr ansoddeiriau, rhai o'r rhagenwau, amryw dreigliadau y perwyddiaid, a'r holl amrywiadau a wasanaethant i ddullweddu (*modify*) enwau, a gyflêir yn y Dosparth Cyffredinol o Adenwau. Y goreiriau, yr arddodiaid, a'r cyssylltiad ydynt weision adenwau; ac fel y cyfryw a restrir yn y Dosparth Cyffredinol o Oradenwau.

DOSPARTH CYFFREDINOL CYNTAF GEIRIAU,  
NEU ARWYDDION DELFRYDAU.

*Deffiniad Enwau.*

§ 520. DANGOSWYD eisys fod pob bath o eiriau yn gyfartal o ran eu dospeirth swyddogol, pynag pa un a adrithiont ai delffrydau am fod, ai am fodd, ai am radd; ond rhaid egluro yn awr paham y mae rhai geiriau a elwir rhagenwau, perwyddiaid, &c. yn wir enwau, eithr yn unig eu bod yn gwahaniaethu oddi wrth enwau ereill oherwydd rhyw neilltuolion nodweddol (*peculiarities of characters*) a berthynant iddynt, megys y gwahaniaetha dyn o bryd goleu oddi wrth un o bryd tywyll, heb fod yn perthyn oherwydd hyny i'r rhyw fenywaidd.

§ 521. Mae amryw o'r geiriau a elwir rhagenwau yn cael eu defnyddio fel adrithiaid<sup>1</sup> neu ddirprwyon (*agents*) enwau y tri bath cyntefig o eiriau; gan hyny, mae rhagenwau yn burion gair i'w dynodi. Ond y mae rhai o'r geiriau a elwir rhagenwau nad ydynt yn adrithio enwau o fath yn y byd, eithr yn unig yn eu gwasanaethu fel adenwau; am hyny nis gellir yn briodol eu rhestru fel dirprwyon o gyfartal swydd ag enwau. Gweision, yn ol gwir ystyr y gair, ydynt, ac nid adrithiaid. Oherwydd paham, y rhagenwau hyny yn unig, y rhai a weithredant fel dirprwyon neu adrithiaid, a restrir yn briodol yn nosparth cyffredinol enwau.

§ 522. Ymattaliwyd yn fwriadol heb grybwyll, hyd yn hyn, am y pedwerydd bath yma o eiriau, rhag rhoi dim dyrswch ar ffordd yr efrydydd ieuanc, pan yn myfyrio egwyddorion naturiol cyfaddasiad (*adaptation*), neu sylfaen wreiddiol cyfansoddiad geiriol; oblegid y mae'n amlwg nad yw y pedwerydd bath yma ynddo ei hun yn ddim amgen na chyfleustra cyfansoddiadol yn unig, ac nid ardeb (*type*) cyntefig mewn natur. Mae yn addas i adrithio bodenwau, moddenwau, neu raddenwau, heb fod yn perthyn i'r naill mwy na'r llall mewn modd penodol; a'r ammwysedd (*ambiguity*) yma yn ei nodwedd yw yr achos o'i restru fel bath gwahanol, megys yn y daflen hon:—

<i>Dosp.</i> 1.	<i>Bathau.</i>	<i>Engreifftiau.</i>
ENWAU.	{ 1. Bodenwau ...	man=dyn.
	{ 2. Moddenwau ...	movement=symmudiad.
	{ 3. Graddenwau ...	quickness=cyflymder.
	{ 4. Enwau dirprwy ...	he=eife.

<sup>1</sup> Edr, § 491. Nod. 1.

§ 523. Mae yn amlwg mai dirprwy yw y rhagenw *he*, yn adrithio enw o'r genedl wrywiol (*masculine gender*), a'i brif ddefnydd yw hebgor ail adroddiad o'r enw a adrithia. Trwy gymmorth y rhagenw yma, gellir dywedyd, "An honest man is as noble as *he* is just"—Mae dyn gonest mor foneddig ag ydyw *efe* o gyfiawn—gan ochelyd yr ailadroddiad blinderus o'r prif enw yn y dull amrosgo o amlygu yr un delfrydau, fel hyn:—"An honest man is as noble as *an honest man* is just"—Mae dyn gonest mor foneddig ag ydyw *dyn gonest* o gyfiawn.

§ 524. Gwahaniaethir enwau gan y neilltuolion o eangedd (*comprehension*), rhif (*number*), cenedl (*gender*), a chyflwr (*case*.)

### 1. AM EANGEDD.

§ 525. Pan fyddo amryw enwau yn perthyn i'r un dosparth cyffredinol o ddefiniad, byddant yn gyfartal neu anghyfar- tal o ran helaethder eu heangedd; a'r sawl a gynnwysant lawer o adraniadau unigol a elwir enwau cyffredin, tra y gelwir y rhai a gymmwysir at unigolion neu wahanredion manwl, yn enwau priodol. Ond, gwasanaetha engrafft bur arwynebol i brofi bod llawer o wahanol raddau cyffredinol- rwydd rhwng eangedd yr enwau a elwir cyffredin a'r rhai a elwir priodol. Yn y dosparthiad isod, y gair anifel sydd enw cyffredin, a'r unigolion ydynt enwau priodol.

ANIFEL.	DYN.	{	Dynion gwynion	{	1. Aneurin Gwawdrydd.
					2. Nicholas Nicholby.
		{	Dynion duon	{	1. Jem Crow.
					2. Mungo Niger.
		{	Dynion cochion	{	1. Chingachgook.
					2. Uncas.
	MARCH.	{	Meirch Cymmreig	{	1. Cadben.
					2. Bonydd.
		{	Meirch Seisnig	{	1. Farmer.
					2. Smaller.
		{	Meirch Gwyddelig	{	1. ...
					2. ...
CI.	{	Milgwn	{	1. ...	
				2. ...	
	{	Daeargwn	{	1. ...	
				2. ...	
	{	Bytheuaid	{	1. ...	
				2. ...	

§ 526. Yr unig reol gyffredinol a ellir sefydlu yn yr amgylchiad yma ydyw, mai enwau priodol ydyw yr eiddo personau, lleoedd, neu bethau unigol; a bod y lleill oll yn fwy neu lai amhennodol o ran eu harwyddocâd, a chyffredin o ran eu hystyron grammadegol.

§ 527. Mae synwyr cyffredin yn ddigonol i ddeall bod teyrnas, talaeth, dinas, tref, &c. oll yn enwau cyffredin, am y cymmwysir hwynt at ryw deyrnas neu dalaeth, dinas neu dref, &c.; ond Lloegr a Ffrainc ydynt enwau priodol, am na pherthynant ond i'r teyrnasoedd hyn yn unig. Môn ac Arfon ydynt enwau priodol, am y gwahaniaethant y ddwy wlad hyn oddi wrth bob gwlad arall. Llundain a Pharis ydynt enwau priodol, am na pherthynant ond i'r dinasoedd hyn yn unig.

§ 528. Y prif achosion o wahaniaethu rhwng graddau eangedd yn ystyr enwau, yw tlyzni a phriodoldeb iaith. Byddai yn bur amhriodol cymmaru neu gyferbynu dau enw a fyddont yn dra gwahanol o ran eangedd; megys:—

*London and France are rich places.*

*Mae Llundain a Ffrainc yn lleoedd cyfoethog.*

Mae y froddeg yma yn ffurfio bath o anghydgordiad ar-bwyllegol (*logical*), oblegid bod yr enw Ffrainc yn adrithio delfryd am deyrnas, yr hwn sy lawer helaethach o ran eangedd na 'r delfryd am ddinas a adrithir gan yr enw Llundain.

§ 529. Os gwneir cymmariad neu gyferbyniad rhwng dau enw a fyddont yn gyfartal neu gyffelyb o ran eangedd â'u gilydd, ni fydd dim annheleidrwydd neu amhriodoldeb yn y froddeg a edrydd y delfrydau: megys:—

*London and Paris are very rich places—Mae Llundain a Pharis yn lleoedd pur gyfoethog.*

*London is much larger than Paris, but not so gay—Mae Llundain yn llawer mwy na Pharis, ond nid mor ddillynwyd.*

§ 530. Y dull priodol i gyrraedd gwybodaeth fanol am eangedd, yw myfyrio amryw ddefiniadau gwahanol gangenau gwyddoriaeth yn ol y drefn ddostraniadol (*analytical method*), yn ddoSpeirth (*classes*), trefnau (*orders*), rhywiau (*genera*), adrywiau (*species*), amrywiadau (*varieties*), pennodolion (*particularities*), a neilltuolion (*peculiarities*).

§ 531. Yr unig reol a ymddengys yn ddefnyddiol yn yr amgylchiad yma yw, na ddylai enwau a fyddont yn dra gwahanol o ran graddau eangedd yn eu hystyron, gael eu cymmaru, eu cyferbynu, neu eu cyfuno mewn ystyr cyfartal.

## 2. AM RIF.

§ 532. Gofyna deseib (*system*), neu drefn reolaidd o eglurhad, bedwar gwahanrediad o leiaf gyda golwg ar rif: unigol, lluosog, cymmysgedig, ac ammwysol. Y rhif unigol (*singular*) i adrithio un gwrthrych: *man*, dyn; *book*, llyfr:—y rhif lluosog (*plural*) i adrithio mwy nag un gwrthrych: *men*, dynion; *books*, llyfrau:—y rhif cymmysgedig (*mixt*) i adrithio cynnulliad neu luosogedd pethau mewn ystyr amhennodol: *peasantry*, gwerin; *committee*, pwyllgor:—a'r rhif ammwysol (*ambiguous*) i adrithio pethau na oddefant gael eu gwahaniaethu yn fanwl gan rif: megys, *honesty*, gonestrwydd; *pride*, balchder. Ond y rhif unigol a'r lluosog yn unig sy mewn arferiad cyffredin: y cynnulledig a ddefnyddir weithiau yn unigol ac weithiau yn lluosog: "The public *is*, or, The public *are* imposed upon by quacks"—Y cyhoedd *sydd*, neu, Y cyhoedd *ydnyt* yn cael eu twyllo gan wagymhonwyr.<sup>1</sup>

§ 533. Y rhif lluosog a ffurfir o'r unigol, a hyny mewn tair ffordd o leiaf—

## FFORDD I.

Trwy olddodi *s* neu *es*, yn ol y gofyno y cynaniad, at yr unigol: slab, slabs; map, maps; babe, babes; cape, capes; lass, lasses. Hon ydyw prif ffordd y Seisneg o ffurfio y rhif lluosog.

*Rheolau Cyffredinol y Ffordd gyntaf.*

§ 534. RHEOL I. Furfir y lluosog—

(1.) Trwy olddodi *s* at yr unigol pan yn terfynu â chydsain leddf a ragflaenir gan lafariad neu gydsain: *rib*, ribs; *lad*, lads; *dog*, dogs; *hill*, hills; *drum*, drums; *hen*, hens; *bar*, bars; *wing*, wings; *booth*,<sup>2</sup> booths, &c.; *maid*, maids; *rail*, rails; &c.

(2.) Trwy olddodi *s* at yr unigol pan yn terfynu â *g e* fud ar ol cydsain leddf: *glebe*, glebes; *spade*, spades; *knave*, knaves; &c.

(3.) Trwy olddodi *s* at yr unigol pan yn terfynu â chydsain

<sup>1</sup> "Y cyhoedd a dwyllir gan wagymhonwyr," ydyw y Cymmreigiad goreu o'r froddeg uchod; eithr nid Cymmreigio yn fanwl yw y pwnc wrth gyfieithu yr engreiffitiau Seisnig, ond dangos ieithweddïad (*idiom*) broddegau Seisnig.

<sup>2</sup> *Th*, dd; *booth*, bôdd; *booths*, bôddz. Ni chaniata lle i roddi na chynaniad na chyfieithiad o'r engreiffitiau, ond pan fyddo hyny yn anheborol, megys yn yr engraifft hon. Gallai yr efrydydd gael lles pe gwnelai gyfresau o'r engreiffitiau oll, yn ol y cyfarwyddïadau a roddwyd eisys yn y ddwy ran arall o'r llyfr hwn; megys, *booth* (bôdd), *bwth*; *ll*. (lluosog) *booths*, (bôddz), *bythod*, &c.

gras a ragflaenir gan lafariad neu gydsain: *top*, *tops*; *cat*, *cats*; *mathematic*, *mathematics*; *patriarch*, *patriarchs*;<sup>1</sup> *trick*, *tricks*; *chief*, *chiefs*; *muff*, *muffs*; *moth*, *moths*, &c.

(4.) Trwy olddodi *s* at yr unigol pan yn terfynu âg *e* fud ar ol llythyren gras: *tape*, *tapes*; *note*, *notes*, &c.

(5.) Trwy olddodi *s* at yr unigol pan yn terfynu â llafariad a ragflaenir gan lafariad arall: *day*, *days*; *flea*, *fleas*; *tree*, *trees*; *toe*, *toes*; *pie*, *pies*; *pew*, *pews*; *boy*, *boys*; *bow*, *bows*; *cameo*, *cameos*; *folio*, *folios*; *attorney*, *attorneys*, &c. I'r dosparth yma hefyd y perthyn *sigh*, *sighs*, a *thigh*, *thighs*.

D.S...Seinir *s* y rhif lluosog yn holl eiriau y dospeirth 1, 2, a 5, fel *z*: *ribs*, *ribz*; *lads*, *ladz* (dosp. 1): *glebes*, *glïbz*; *spades*, *spêdz*; *knaves*, *nêz*, (dosp. 2): *days*, *dêz*; *fleas*, *flîz*, (dosp. 5). Yn y dosparth 1, mae yr *s* mewn cyssylltiad digyfrwng â chydsain leddf, yn yr arddygraiff yn gystal ag yn y cynaniad:—yn y dosparth 2, mae yr *e* derfynol yn fud, am hyny, mae yr *s*, yn y dosparth hwn hefyd, yn dyfod i gyssylltiad digyfrwng â chydsain leddf yn y cynaniad; o herwydd hyn nis gellir seinio yr *s* yn y ddau ddosparth hyn ond fel *z*; megys y dangoswyd yn y Rhan I. o'r "Cyfarwyddyd," wrth ymdrin â "Chyfuniadau Cydseiniadol Anghynanadwy." Yn dosparth 5, mae yr *s* yn dilyn llafariad, am hyny, gellir ei seinio yn gras (*s*), neu leddf (*z*); ond anian y Seison ydyw seinio yr *s* yn lleddf braidd bob amser y gallant wneyd felly; o herwydd hyny, lleddf (*z*) y seinir yr *s* yn y dosparth hwn hefyd. Yn y dospeirth 3 a 4, mae *s* y rhif lluosog mewn cyssylltiad digyfrwng â llythyrenau creision, am hyny nis gellir ei seinio hithau yn amgen nag yn gras, fel *s* Gymmreig: *tops*, *tops*; *cats*, *cats*, (dosp. 3): *tapes*, *têps*; *notes*, *nôts* (dosp. 4). Edr. uchod, y sylw ar yr *e* derfynol.

### § 535. RHEOL II. Ffurfir y lluosog—

(1.) Trwy olddodi *es* at yr unigol pan yn terfynu âg *s*, *sh*, *ss*, *x*, neu â sain cyfansawdd *ch*, *tsh*:<sup>2</sup> *bolus*, *boluses*; *brush*, *brushes*; *class*, *classes*; *box*, *boxes*; *peach*, *peaches*.

<sup>1</sup> Mae yr holl enwau y seinir *ch* ddiwedol ynddynt fel *c* Gymmreig, neu *k* Seisnig, yn perthyn i'r dosparth hwn o'r Rheol I.; a ffurfir eu rhif lluosog trwy olddodi *s* yn unig at yr unigol, megys uchod: *patriarchs*, *pêtriars*; ond yr enwau y seinir *ch* derfynol ynddynt fel *tsh* a berthynant i'r Rheol II. § 535, dosp. 1.

<sup>2</sup> Yr achos o gyssylltu *es* yn lle *s* i ffurfio y lluosog o enwau yn terfynu â'r *ch* yma, neu *x*, ydyw, nas gellir cyssylltu sain *sat* *s*, heb gyfryngiad llafariad, gan fod y *ch* yma yn terfynu mewn gwirionedd â sain *sh*, *ch*, *tsh*; ac *x* â sain *s*—*x*, *cs*.

(2.) Trwy olddodi *es* at yr unigol pan yn terfynu âg *o* ar ol cydsain: *hero*, *heroes*; *cargo*, *cargoes*; *buffalo*, *buffaloes*; *manifesto*, *manifestoes*, &c.

Eithr.: *canto*, *grotto*, *junto*, *momento*, *portico*, *quarto*, *rotundo*, *solo*, *tyro*. Y geiriau hyn oll, ynghyda *vista*, a gydffurfiant â'r Rheol I. § 534, dosp. 5, trwy gymeryd *s* yn unig at y lluosog: *cantos*, *grottos*, &c., *vistas*.

D.S...Seinir yr *s* yn y ddau ddosparth hyn ac yn yr eithradau fel *z*: *boluses*, *bôlysiz*; *brushes*, *bryshiz* (dosp. 1): *heroes*, *hi'roz*; *cargoes*, *cargoz* (dosp. 2): *cantos*, *cantoz*; *grottos*, *grottoz* (Eithr.). Ond yn y dosparth 1, ffurfia *es* y lluosog (a seinir *iz*) sill chwanegol: *class*, *class-es*, *clásiz*: eithr yn y dosparth 2, nid yw yr *es* yn ffurfio sill gwahanol—dim ond arwydd arddygraffol yn unig, i ddynodi hyd y llafariad *o*, megys y gwelir ynghynaniad *heroes*, *hi'roz*, &c.

§ 536. RHEOL III. Enwau o'r rhif unigol a derfynant yn *ce*, *ge*, *se*, neu *ze*, a wneir yn lluosog trwy gyssylltu *s* yn unig atynt: *face*, *faces*; *prince*, *princes*; *page*, *pages*; *language*, *languages*; *case*, *cases*; *house*, *houses*; *blaze*, *blazes*, &c.

D.S...Er bod yr *e* derfynol fel yn perthyn i'r enw pan yn unigol, yn yr hwn y mae 'n fud, eto pan roddir *s* ati er ffurfio lluosogedd, chwanegir sill at y gair—*page*, *pag-es*, *péjiz*. Fel hyn, mae y rheol yma yn cyfranogi o natur y Rheol I. § 534, a'r II. § 535. Fel y I. ni chwanegir ond *s* yn unig at yr unigol; fel yr II. dosp. 1, seinir yr *es* terfynol yn sill gwahanol; sef *iz* yn y lluosog. Dyma y rheswm dros drefnu y dosparth yma o luosogiad dan reol wahanol.

### *Rheolau Eithradol y Ffordd gyntaf.*

§ 537. Rheol. I. Mewn enwau a derfynant pan yn unigol âg *f* neu *fe*, ffurfir y lluosog—

(1.) Trwy newid yr *f* i *v*, ac olddodi *es* at y *v*—*ves*; sef yn y tri gair ar ddeg hyn: *beef*, *beeves*; *calf*, *calves*; *corf*, *corves*; *elf*, *elves*; *half*, *halves*; *leaf*, *leaves*; *loaf*, *loaves*; *self*, *selves*; *sheaf*, *sheaves*; *shelf*, *shelves*; *thief*, *thieves*; *wolf*, *wolves*; *staff*,<sup>1</sup> *staves*. Pob gair arall a derfyno âg *f*, a droir yn lluosog yn ol y Rheol I. § 534, dosp. 3.

(2.) Trwy newid yr *f* i *v*, ac olddodi *s* at yr *e* fud, sef yn y tri gair hyn: *life*, *lives*; *knife*, *knives*; *wife*, *wives*; a'u hanedigion.

<sup>1</sup> *Staff* ydyw yr unig air Seisnig y newidir *ff* derfynol i *v* er ffurfio lluosogedd. Pob gair arall yn terfynu â *ff* a droir yn lluosog yn ol Rheol I. § 534, dosp. 3.



D.S...Yn y ddau ddosparth hyn, seinir yr *s* fel *z*: beeves, bífz; calves, câfz (dosp. 1): lives, leífz; knives, neífz (dosp. 2).

§ 538. Rheol II. Mewn enwau yn terfynu pan yn unigol âg *y* ar ol cydsain, newidir yr *y* i *ie*, ac olddodir *s* hefyd at yr *e* yn y lluosog: beauty, beauties; glory, glories; sally, sallies, &c.

D.S...Seinir yr *s* yn y dosparth yma hefyd fel *z*: beauties, biwtiz; glories, glôriz, &c.

## FFORDD II.

§ 539. Yr ail ffordd i ffurfio y lluosog yw olddodi *en* at yr unigol: ox, oxen.

§ 540. Y gair *brother* a droir yn lluosog drwy newid yr *o* yn y sill flaenaf i *e*, a dilëu yr *e* yn y sill olaf, gan chwanegu *en* at yr *r* derfynol: brother, brethren.

§ 541. *Child* a luosogir trwy olddodi *ren* at yr unigol—children.

§ 542. *Cow* a *sow* a luosogir trwy newidiad a throsodiad fel hyn: cow, kine; sow, swine. Dywedir mai *cowen* a *sowen* oedd y dull cyntefig o luosogi y geiriau dan sylw.

## FFORDD III.

§ 543. Rheol. Y drydydd ffordd i ffurfio y rhif lluosog yw, trwy newid un neu chwaneg o lafariaid yr unigol; ac weithiau newidir llafariad a chydsain.

(1.) Newidir *a* i *e*: man, men; woman, women (a gyn-anir, wimen; ie, braidd, wimin).

(2.) Mewn enwau o'r Lladin, newidir *a* derfynol yr unigol i *æ* er ffurfio y lluosog: lamina, laminæ; larva, larvæ; nebula, nebulae.

Eithr.: miasma, miasmata.

(3.) Newidir *oo* i *ee*: foot, feet; tooth, teeth; goose, geese.

(4.) Newidir *ou* i *i*: louse, lice; mouse, mice.

(5.) Newidir *ex* i *ices*, ac *x* i *ces*, mewn enwau o'r Lladin: apex, apices; index, indices; vertex, vertices; vortex, vortices; appendix, appendices; calx, calces; calix, calices; quincunx, quincunces; phalanx, phalances.

(6.) Newidir *is*, mewn enwau o'r Groeg a'r Lladin, i *es*: antithesis, antitheses; basis, bases; crisis, crises, &c.: axis, axes; oasis, oases, &c.

Eithr. *apsis*, *apsides*; *cantharis*, *cantharides*, &c.: dervis, dervises; metropolis, metropolises, &c.

(7.) Newidir *on* neu *um*, mewn enwau o'r Groeg a'r Lladin, i *a*: *aphelion*, *aphelia*; *automaton*, *automata*, &c.: *addendum*, *addenda*; *animalculum*, *animalcula*, &c.

Eithr.: *asylum*, *asylums* (§ 534, dosp. 1), &c.

(8.) Newidir *us*, mewn enwau o'r Lladin, i *i*: *focus*, *foci*; *nucleus*, *nuclei*; *radius*, *radii*; *ignis-fatuus*, *ignes-fatui*; *genius*, *genii*, neu *geniuses* (§ 535, dosp. 1).

Eithr.: *corpus*, *corpora*; *crocus*, *crocuses*; *genus*, *genera*; *omnibus*, *omnibuses*, &c.

(9.) Newidir *e* neu *o*, mewn enwau o'r Italaeg, i *i*: *cognoscente*, *cognoscenti*; *conversazione*, *conversazioni*; *dilet-tante*, *dilettanti*; *banditto* neu *bandit*, *banditti*; *virtuoso*, *virtuosi*.

D.S...Yn y dospeirth hyn a'u heithradau, seinir *ices*, *ces*, ac *es*, y lluosogiaid, isiz, siz, ac iz—yn wir, dywed Smart bod y terfyniad lluosog *es*, mewn geiriau estronol, i'w seinio yn hir—iz: *apices*, *ápisiz*; *calces*, *calsiz* (dosp. 5): *antitheses*, *antíthisiz* (dosp. 6): *apsides*, *ápsidiz* (dosp. 6, Eithr.): *asylums*, *aseilymz* (dosp. 7, Eithr.): *crocuses*, *crócysiz*; *omnibuses*, *óm nibysiz* (dosp. 8, Eithr.): *geese*, *lice*, *mice* (dosp. 3 a 4), a seinir, *gis*, *leis*, a *meis*. Yr *a* derfynol a ffurfia luosogedd, a seinir megys rhwng *a* ac *y* Gymmreig (edr. § 105): *aphelia*, *affèlia*; *automata*, *otómata* (dosp. 7). Yr *i* a ffurfia derfyniad lluosog mewn enwau o'r Lladin a seinir fel *ei*: *foci*, *ffòsei*; *radii*, *rédiei* (dosp. 8); ond *i* mewn enwau Italaidd a seinir fel *i* Gymmreig: *cognoscenti*, *cogno-senti*; *banditti*, *banditi* (dosp. 9).

### *Lluosogiaid Afreolaidd.*

§ 544. Y lluosogiaid na ddilynant y rheolau blaenorol a ystyryr yn afreolaidd.

§ 545. Mae i rai enwau ddau luosogiad, pob un yn meddu ystyr pennodol:—

Brother,	{ brothers—meibion yr un rhieni. brethren—aelodau o'r un gymdeithas neu eglwys.
Die,	{ dies—cerfiadau at fathiadau. dice—chwechochrynnau bychain at chwareu.
Fish,	{ fishes—pan y golygir <i>rhif</i> . fish—pan y darlunir adrywiau ( <i>species</i> ).
Genius,	{ geniuses—meddiannwyr athrylith godidog. genii—ysprydion chwedlonaid.
Index,	{ indexes—tafleni o gynnwysiad llyfrau. indices—cymmeiriaid alsoddegol.
Pea,	{ peas—rhai yn unigol neu wahanol. pease—yn y crynswth; megys, A dish of pease—Dysglaid o bys.

Penny, { pennies—bathodau gwahanol ; megys, six pennies—  
 chwech o *geiniogau*.  
 } pence—arian bath o'r cyfryw werth ; megys, *Sixpence*  
 in silver—*Chwecheinog* yn arian.

§ 546. Mae i rai enwau ffurfiau unigol ac ystyrion lluosog : brace, cattle, cavalry, hose, infantry, kine, swine, vermin, &c.

§ 547. Mae i rai enwau ffurfiau lluosog ac ystyrion unigol : billiards, gallows, molasses, news :—ac enwau gwyddorion (*sciences*) yn *ics* : *economics*, *ethics*, *mathematics*, *mechanics*, *metaphysics*, *politics*, *statistics*, &c.

§ 548. Mae rhai enwau yn gyffelyb yn y ddau rif : apparatus, billet-doux, congeries, chamois, deer, impetus, pyrites, sheep, salmon, series, sous, &c.

§ 549. Mae rhai enwau heb derfyniad unigol : aborigines, annals, antipodes, arms, &c.

§ 550. Mae rhai enwau heb derfyniad lluosog : ancestry, clergy, generosity, insolence, &c.

D.S...Rheol gyffredinol cynaniad terfyniadau lluosog enwau Seisnig yw, bod *s* i'w seinio fel *z* pan yn gyssylltedig â chydysain leddf (*b, d, g—j, g—eg, v, th—dd*), âg un o'r tawddleddfaid (*l, m, n, r, ng*), neu â llafariad, fel y dangoswyd yn y sylwadau a ragflaenir gan D.S. sydd yn yr adranau blaenorol ; ond pan fyddo yr *s* a ffurfia derfyniad lluosog mewn cyssylltiad â llythyren gras (*p, t, c—k, ch—k, k, f, th—eth*), seinir hithau yn gras, fel *s* Gymmreig, o angenrheidrwydd.

### 3. AM GENEDL.

§ 551. Wrth genedl (*gender*), mewn ystyr ieithyddol, y golygir y dull a ddefnyddia iaith i wahaniaethu rhyw (*sex*) ; a'r unig beth a ddylai fod yn arweinydd i ddosbarthu cenedl enwau mewn grammadeg, ydyw y rhyw, neu y diffyg o ryw a wahaniaetha wir natur y bod neu y peth a adrithir gan enw.

§ 552. Yn ol egwyddorion iaith, y mae i enwau bedair cenedl : gwryw, benyw, canolryw, ac amhennodol.

1. Y gyntaf a gymmwysir at fodau o'r rhyw wrywol : *man*, dyn. *He is writing*—Mae *efe* yn ysgrifenu.

2. Yr ail, at fodau o'r rhyw fenywol : *woman*, dynes. *She is rising*—Mae *hi* yn cyfodi.

3. Y drydedd, at bethau amddifad o ryw : *book*, llyfr. *It is useful*—Mae *o* yn ddefnyddiol.

4. Y bedwerydd, at bethau nas gwyddys eu rhyw, neu bethau y byddo achos siared am danynt mewn modd amhennodol, heb olygu rhyw. Mae yn y Seisneg (ac yn y Gymmraeg

hefyd) un rhagenw personol o ystyr amhennodol; sef y rhagenw *one*, un. Defnyddir hwn mewn ystyr cyffredinol; megys—

*One* likes a man of good manners.

Mae *un* yn hoffi dyn o foesau da.

Mae y rhagenw yma yn adrithio y ddwy genedl, yr wrywol a'r fenywol, heb gyfeiriad at ryw y naill na'r llall, gan hyny perthyna i'r hyn a alwyd uchod y genedl amhennodol, canys nid yw yn adrithio y genedl ganolryw. Daw hyn yn amlwg pan y treithir ar ragenwau.

§ 553. Cymmerir bath o ryddid barddonol weithiau i siared am bethau difywyd: megys, *sun*, haul; *ship*, llong; &c., fel gwrywol neu fenywol, yn ol y delfrydau a goleddir am gyfatebiad eu natur i fodau gwrywol neu fenywol; ond, yn gyffredinol, dosperthir cenedl enwau Seisnig yn ol gwir neu dybiedig natur y pethau a adrithir.

§ 554. Ffurfir y genedl fenywol:

1. Trwy olddodi *ess* at yr wrywol:—*lion*, lioness; *deacon*, *deaconess*; *host*, *hostess*; *poet*, *poetess*, &c.

2. Pan derfynno enwau o'r genedl wrywol yn *er* neu *or*, trwy dori ymaith yr *e* neu yr *o*, a chyssylltu *ess*:—*arbiter*, *arbitress*; *chanter*, *chantress*, &c.; *actor*, *actress*; *ambassador*, *ambassadress*; *benefactor*, *benefactress*; *conductor*, *conductress*, &c.

Eithr: *tutor*, *tutorest*; *author*, *authoress*; *mayor*, *mayorest*; *peer*, *peeress*; *governor*, *governess*; *prior*, *prioress*; *tutor*, *tutorest*.

3. Mewn enwau o'r Lladin a derfynant y genedl wrywol âg *or*, trwy dori ymaith yr *o*, ac olddodi *ix*:—*administrator*, *administratrix*; *director*, *directrix*; *executor*, *executrix*, &c.

4. Trwy ragddodi enw, rhagenw, neu ansoddair at yr enw: *man-servant*, *maid-servant*; *he-goat*, *she-goat*; *male-child*, *female-child*, &c.

5. Trwy olddodi *cock*, neu *hen*, at yr enw: *moor-cock*, *moor-hen*; *pea-cock*, *pea-hen*; *turkey-cock*, *turkey-hen*.

Eithr: *cock-sparrow*, *hen-sparrow*.

§ 555. Mae amryw enwau, gan mwyaf o darddiad estronol, er na chyddfurfiant â'r rheolau sydd yn yr adran olaf, eto a droer yn fenywaidd drwy ryw chwanegiad neu newidiad yn y terfyniad; megys—

1. Trwy chwanegu *a* at y genedl wrywol:—*infant*, *infanta*; *sultan*, *sultana*, &c.

2. Trwy chwanegu *ina* neu *ine* at y genedl wrywol:—*czar*, *czarina*; *landgrave*, *landgravine*; *hero*, *heroine*.

3. Trwy newid terfyniad, a thalfyru neu helaethu y gair:

abbot, abbess; emperor, emperess; duke, duchess; beau, belle; lad, lass; marquis, marchioness.

Eithr: bridegroom, bride; widower, widow; wizard, witch.

D.S. Prif derfyniadau y genedl fenywol, fel y gwelir yn y rheolau blaenorol, yw *ess, ix, a, ina, ac ine*.

§ 556. Hefyd gwahaniaethir cenedl enwau â geiriau gwahanol: bachelor, maid; boar, sow; boy, girl; brother, sister; buck, doe; bull, cow, &c.

#### 4. AM GYFLWR.

§ 557. Wrth gyflwr,<sup>1</sup> mewn ystyr ieithyddol neu rammadegol, y deallir swydd enw yn ei berthynas a'i gyssylltiad â geiriau ereill mewn ymadrodd.

§ 558. Cyn i'r efrydydd fyned ymhellach, annogir ef i ail ddarllen, yn bur astud, yr § 491—524. Mae cyflyrau enwau yn gyffelyb i ddospeirth swyddogol enwau, ac y mae eu rhif a'u hadraniadau yn cyfateb i'r un egwyddor gyffredinol. Yr unig reswm dros wahaniaethu rhwng cyflwr enw a dosparth swyddogol enw ydyw, fel y galler gwahaniaethu rhwng swyddi gwahanol yr un dosparth. Pynag pa nifer o gyflyrau neu swyddi a ellid wahaniaethu, ni fyddent oll ond adraniadau o'r tri dosparth swyddogol cyntefig, sef o enw, adenw, a goradenw.

§ 559. Byddai yn hawdd adranu y tri dosparth yna i nifer tra lluosog o wahanol gyflyrau; ond gan fod holl adraniadau y ddau ddosparth israddol, sef eiddo yr adenwol (*adnominal*) a'r goradenwol (*subadnominal*) o'r un cystrawiad mewn ymadrodd, nid atebai adranu y rhai hyn un diben ymarferol; ac y mae gorfanylwch mewn adraniad, yn enwedig pan yn afreidiol, yn tueddu i ddyrysu y meddwl. Ond y mae cyfansoddiad ymarferol yr iaith Seisnig yn gofyn am i'r

<sup>1</sup> Cyflwr, a elwir yn Seisneg, *case* (*cês*), ac a gyfieithir yn bur amhriodol gan rammadegwyr Cymmreig yn gyffredin *achos* (*cause*). Ystyr penaf y gair *case* (*casus*) yw cwmpawd (*a fall*), yna treigladd, &c.; ond tybir nad hyn chwaith yw ei wir ystyr grammadegol, a chadarnheir y tyb yma yn y dyfyniadau isod:

“*Case* enw a arwydda y cyflwr (*state*) y byddo ynddo, neu y berthynas a ddwg â gair arall yn yr un froddeg.”—*Proff. Sullivan*.

“Os wrth *case* y deallwn un o'r ffurfiau newyddiol trwy y sawl y gellir amlygu amryw berthynasau enw â yniadau ereill, un *case* yn unig sy gan yr iaith Seisnig i sylweddeiriau, a dau i rai o'r rhagenwau. Ond os wrth *case* enw y deallwn yr amlygiad o ryw rai o'r perthynasau hyn, yn cael eu dynodi trwy ei derfyniad neu mewn rhyw ffordd arall, mae genym ni” (y Seison) “gynnifer o *cases* ag unrhyw genedl arall.”—*Arnold*.

“Mewn sylweddeiriau, mae y *case* enwedigol (*nominative*) a gwrthrychol (*objective*) yn meddu, fel enwau canolig yn Groeg a

dosparth penaf neu enwol (*nominal*), gael ei adranu yn ddau gyflwr, am fod geiriau y dosparth yma yn sefyll mewn dwy berthynas, neu yn gwasanaethu dwy swydd wahanol, y sawl hefyd sydd o gystrawiad gwahanol mewn ymadrodd, fel y gwelir yn amlwg trwy ddostranu (*analyze*) un froddeg fer, fel hyn:—

William gave some books to John.

Gwilym a roddodd ryw lyfrau i Ioan.

*William* (boddenw) a saif megys meistr yn y froddeg hon, gan ei fod yn y dosparth swyddogol penaf (sef enw): *gave* (moddenw) sydd air yn dibynu ar, ac yn gweini i *William*, am hyny mae yn yr ail ddostrarth swyddogol, sef adenw: *to John* (boddenw) a wasanaetha, trwy gymmorth y geiryn *to*, y gair *gave*, ac fel gwas adenw, mae yn y trydydd dosparth swyddogol, sef goradenw: fel hyn, *William gave—to John*, a adrithia y delfryd am fod (*William*); y delfryd am y modd y mae'r bod yma yn bodoli, sef am ei weithrediad (*gave*); a'r delfryd am duedd neu amgylchiad y cyfryw weithrediad—*to John*. Mae y tri gair hyn gan hyny, *William gave to—John*—yn gwasanaethu tair swydd wahanol yn y froddeg: ond heb law y tair swydd yma, wele y geiriau *some books* mewn swydd neu gyflwr gwahanol i'r lleill oll. Mae yn amlwg am y gair *some* mai gwasanaethu *books* y mae, gan hyny adenw ydyw *some*; ond nid yw y gair *books* yn gwasanaethu unrhyw air; ac er nad yw yn yr un cyflwr a'r gair *William*, eto mae yn yr un dosparth neu sefyllfa o annibyniaeth. Y gwahaniaeth rhwng cyflyrau yr enwau *William a books* ydyw, bod un (*William*) mewn ystum gweithredol, a'r llall (*books*) mewn ystum goddefol neu ganolig. Mae y ddau enw yn y dosparth swyddogol penaf, gan nad yw y naill na'r llall yn gwasanaethu enwau ereill, ac y mae y gwahaniaeth yma rhwng cyflyrau enwau annibynol yn cyfodi, fel y sylwyd eisys, oddi wrth wahaniaeth ystum gyda golwg ar weithrediad.

Gall enwau annibynol fod naill ai yn gweithredu eu hunain neu yn goddef gweithrediad rhai eraill, a hyn sydd yn achosi dau wahanol gyflwr y dosparth enwol. Er engraifft, *William saw John*—Gwilym welodd Ioan: neu *William struck* (darawodd) *John*: yn y ddwy froddeg hyn, *William* sydd yn yr ystum gweithredol a *John* yn yr ystum goddefol, ond y mae y ddau enw yn y dosparth penaf, gan nad yw y naill na'r llall yn gwasanaethu enwau ereill.

Lladin, yr un ffurf, gan fod yn wahaniaethol y naill oddi wrth y llall trwy ddim ond eu lle.”—*Dr. Crombie*.

§ 560. Yr achos, gan hyny, o wahanol gyflyrau y dosparth enwol, ydyw y gwahaniaeth naturiol sy rhwng ystum bod yn gweithredu a bod yn goddef gweithrediad; ac er y golygir bod cyflwr gweithredydd yn uwchraddol i gyflwr goddefydd, fel y mae bodenwau, o ran eu natur, yn uwchraddol i fodd-enwau a graddenwau; eto, megys y gall moddenwau a gradd-enwau, yn gystal a bodenwau, yn annibynol ar natur y delfrydau a adrithiant, fod yn y dosparth swyddogol penaf ynghyfansoddiad ymadrodd (§ 502—507), felly, gall goddefydd neu weithredydd, yn annibynol ar eu natur fel y cyfryw, fod yn y cyflwr penaf, neu yn y brif swydd ynghyfansoddiad broddeg. Gellir deall hyn yn well drwy engraffft:

John is struck by William—Ioan a darawyd gan Wilym.

William has struck John—Gwilym a darawodd Ioan.

Yn y ddwy froddeg hyn, y gair *William* sydd yn dynodi y bod sydd yn yr ystum gweithredol, a'r gair *John*, y bod sydd yn goddef y gweithrediad: ond yn y froddeg gyntaf, y gair *John* sydd yn y prif gyflwr enwol, eithr yn yr ail froddeg, y gair *William* sydd yn y cyflwr penaf. Oherwydd hyn, yn lle galw dwy swydd y dosparth enwol yn gyflwr gweithredol ac yn gyflwr goddefol, gelwir hwynt, yn ol fel y byddo eu sefyllfa mewn ymadrodd, yn gyflwr enwol (*nominal case*) ac yn gyflwr canolig (*neutral case*).

§ 561. Mor bell ynte ag y perthyn i ymarferiad (a hyny yn unig sydd o wir werth), nid yw y Seisneg yn gofyn gwahaniaethu mwy na phedwar o gyflyrau rhwng y tri dosparth enwau, sef dau gyflwr yn y dosparth penaf, ac un ymhob un o'r ddau arall. Gan hyny, saif y cyflyrau yn eu perthynas â phrif ddosbarthau swyddogol enwau, fel hyn:—

Dosparth enwol.	{ Cyflwr enwol=man.
	{ Cyflwr canolig=man.
Dosparth adenwol.	Cyflwr adenwol=of man.
Dosparth goradenwol.	Cyflwr goradenwol=to man.

§ 562. Dylid sylwi yn fanwl fod cyflyrau enwau yn bethau hollol wahanol i dreigliadau (*declensions*) enwau, neu y gwahanol ddulliau o ddynodi cyflyrau; ac mai yr un peth ydyw cyflwr enw ag ydyw ei swydd ynghyfansoddiad ymadrodd (§ 558). Gellir gwahaniaethu y naill gyflwr oddi wrth y llall trwy flaendodi neu olddodi banynau at yr enw, trwy newidion yn ffurf yr enw, trwy gyflead, neu drwy y gwahanol ddulliau hyn ynghyd, neu mewn rhyw foddau ereill cysson â theithi iaith. Prif ddull y Seisneg, a braidd ei hunig ddull o ddynodi cyflyrau enwau, ydyw amrywio y defnyddiad o fanynau, ac y mae i hyny yr un effaith a phed

amrywid terfyniadau yr enwau. Gan hyny, yn lle chwilio treigliadau neu gwmpodion enwau, rhaid chwilio natur y banynau a ddynodant gyflyrau enwau Seisnig. Mewn gwirionedd arwyddion cyflyrau ydyw y banynau, a elwir yn gyffredin arddodiaid (*prepositions*). Mae'n wir, heb law bod yn arwyddion o gyflyrau, fod i bob un o honynt arwyddocâd pennodol, ond nid yw eu hystyron yn gyflawn pan na fyddont mewn cyssylltiad âg enwau.

§ 563. Un geiryn neu arddodiad sydd yn yr iaith Seisnig yn dynodi y cyflwr adenwol, sef y geiryn *of*; dynodi y cyflwr goradenwol y mae'r holl eirynau ereill.

§ 564. Mae y geiryn *of* yn dynodi y cyflwr adenwol a'r goradenwol, ond achosir y ddau weithrediad yma gan ddau ystyr y geiryn. Pan arwydda feddiant mae yn adenwol, ond pan yn arwyddo *from* (oddiwrth), neu *about* (am), mae yn arwydd goradenwol. Bydd yn hawdd deall hyn trwy eglurhad:—

Last evening we spoke *of* your brother.  
Neithwyr siaradem *am* eich brawd.

Hyny yw, siaradem ynghylch eich brawd. Yn y froddeg yma, mae yn amlwg fod y geiryn *of* yn oradenwol. Yn y froddeg ganlynol, mae yn adenwol:—

Last evening we saw the son *of* your friend.  
Neithwyr gwelsom fab eich cyfaill.

Yma, *the son of your friend* sydd o'r un ystyr yn hollol ag *your friend's son*; o ganlyniad mae y geiryn *of* o flaen enw, a'r llythyren 's yn gyssylltedig wrth derfyniad enw, ill dau yn arwyddion y cyflwr adenwol; a dyma holl arwyddion y cyflwr yma yn y Seisneg.

§ 565. Y cyflwr sydd yn gyffelyb i ddosparth adenwol enw a elwir yn gyffredin yn Seisneg, *possessive case*, cyflwr meddiannol; ond barnwyd yn angenrheidiol galw y swydd gyffredinol yma yn gyflwr adenwol, oblegid y cynnwysa lawer o amrywiadau, o'r sawl nid yw meddiant namyn un yn unig; eithr gan fod holl amrywiadau y dosparth swyddogol yma o'r un cystrawiad mewn ymadrodd, nid yw ymarferiad, fel y sylwyd eisys, yn gofyn manylu ar ei adraniadau; o herwydd hyny eithaf priodol eu dynodi oll âg un enw cyffredinol, sef cyflwr adenwol.

§ 566. Y meddiannol a ddynodir yn gyffredin âg 's ar ol terfyniad enwau; megys,

The gentleman's horse—March y boneddwr.

yn arwyddo—



The horse *of* the gentleman, neu, The horse belonging to the gentleman—Y march sy'n perthyn i'r boneddwr.

Ond defnyddir y geiryn *of* i ddynodi holl amrywiadau y cyflwr adenwol.

§ 567. *Rheolau i ddefnyddio yr 's er ffurfio y meddiannol.*

(1.) I ffurfio yr unigol, cyssyllter 's wrth yr enw syml : dog, dog's.

(2.) I ffurfio y lluosog, cyssyllter tolnod (') yn unig wrth y ffurf lluosog pan derfynno âg s : dogs, dogs' ; ladies, ladies' ; horses, horses'.

(3.) Pan na therfynno y lluosog âg s, cyssyllter 's wrth y ffurf lluosog : men, men's ; children, children's.

(4.) Pan derfynno yr unigol yn s ar ol llafariad seiniedig, weithiau cyssylltir tolnod yn unig, pryd arall, tolnod ac s : Hallas' sword, neu Hallas's sword ; Moses' rod, neu Moses's rod ; Jervis' eloquence, neu Jervis's eloquence ; genius' rays, neu genius's rays.

(5.) Pan fyddo y llafariad derfynol yn fud rhaid chwanegu 's bob amser : James's book, St. Giles's din.

(6.) Pan derfynno yr unigol yn ss neu ee, ac ei dilynir gan *sake* neu *self*, tolnod yn unig a gyssylltir : for goodness's sake ; for conscience' sake ; experience' self shall aid thy lame belief.

D.S...Seinir s y meddiannol yn ol y rheol a roddwyd i seinio s y rhif lluosog (§ 550, D.S.), yn lleddf neu yn gras yn ol natur y gydsain a'i rhagflaeno : dog's, dogz ; ladies', lédiz ; Hallas', Halaz ; Hallas's, Hálaziz ; James's, Jêmziz ; Cook's, cûes, &c.

§ 568. Mae yr holl eirynau neu arddodiaid sydd yn y Seisneg yn arwyddion y cyflwr goradenwol cyffredinol. Mae hyd y nod *of*, pan arwydda *from* neu *about* (§ 564), yn arwydd o'r swydd oradenwol : yr unig eithrad i'r rheol gyffredinol yma ydyw *of* pan yn gwasanaethu yn y cyflwr adenwol. *To, from ; in, out ; up, down ; under, over ; above, below ; by, through ; for, against, &c. &c.*, ydynt oll yn fanynau a ddy-nodant wahanol amrywiadau y swydd neu y cyflwr goradenwol cyffredinol. Nid yw yn angenrheidiol i'r dysgatur, fel y dywedwyd o'r blaen, gyrraedd gwybodaeth fanol o amrywiadau neu adraniadau cyflwr. Cymmaint ag a ddylai ddysgu er deall trefniad geiriau mewn broddeg, ydyw y tri dosparth swyddogol cyntefig—enw, adenw, a goradenw (§ 502—524), a'r pedwar cyflwr cyffredinol sydd yn hanu o'r dospeirth yna, ac yn gyfatebol iddynt (§ 561).

§ 569. Cyn rhoddi engreiffiau er dangos enwau yn eu gwahanol gyflyrau, rhoddir taflen gryno o wahanol fathau (*sorts*) enwau ger bron yr efrydydd. Gellir trefnu yr enwau rheolaidd a berthynant i'r dosparth cyntaf (§ 520, &c.) yn bedwar bath, a gellir adranu pob bath yn bedwar rhyw (*genus*); ond, fel y sylwyd lawer gwaith, nid yw yr amrywiadau o nemmor bwys: os cofir ac y deallir y pedwar bath, gellir esgeuluso eu hadraniadau:—

		BATHAU.	RHYWIAU.	EGLURHAD.
ENWAU. Dosparth Iaf.	{	1. Bod-enwau.	1. Ysprydol.	angel. <sup>1</sup>
			2. Defnyddiol.	matter. <sup>2</sup>
			3. Cymmysgedig.	man. <sup>3</sup>
			4. Canolig.	nothing. <sup>4</sup>
	{	2. Modd-enwau.	1. Gweithredol.	action. <sup>5</sup>
			2. Goddefol.	suffering. <sup>6</sup>
			3. Cymmysgedig.	struggling. <sup>7</sup>
			4. Canolig.	repose. <sup>8</sup>
	{	3. Gradd-enwau.	1. Tufewinol.	quickness. <sup>9</sup>
			2. Allanol.	reverence. <sup>10</sup>
			3. Cymmysgedig.	repulsion. <sup>11</sup>
			4. Canolig.	futurity. <sup>12</sup>
	{	4. Enwau Dirprwy.	1. Rhagenwau personol.	I, me, you, &c. <sup>13</sup>
			2. Rhagenwau perthynasol.	who, which, &c. <sup>14</sup>
			3. Rhagenwau amhennodol.	whosoever, &c. <sup>15</sup>
			4. Rhagenwau ammwysol.	those, &c. <sup>16</sup>

§ 570. Yn awr, dangosir y pedwar bath enwau hyn yn eu hamryfal gyflyrau, yr hyn a elwir yn gyffredin treiglo (*decline*) enwau; a rhoddir engreiffiau o bedwar adraniad pob bath. Cofir bellach mai y geiryn *of* ydyw unig swyddwisg neu arwydd y cyflwr adenwol; fod yr holl eirynau yn ddiwahan-iaeth yn arwyddion y cyflwr goradenwol, a bod y ddau brif gyflwr—yr enwol a'r canolig—mewn bath o sefyllfa anni-bynol neu feistrolaidd, ac nad ydynt yn gofyn unrhyw eirynau neu swyddwisgoedd.

*Enwau o'r Bath cyntaf.*—Bodenwau.

§ 571.	1. Ysprydol.	2. Defnyddiol.	3. Cymmysg.	4. Canolig.
Cyflwr enwol,	angels	earth	man	nothing.
Cyflwr canolig,	angels	earth	man	nothing.
Cyflwr adenwol,	of angels	of earth	of man	of nothing.
Cyflwr goradenwol,	to angels	to earth	to man	to nothing.

<sup>1</sup> Angel.      <sup>5</sup> gweithrediad.      <sup>9</sup> cyflymder.

<sup>2</sup> defnydd.      <sup>6</sup> goddefiad.      <sup>10</sup> parch.

<sup>3</sup> dyn.      <sup>7</sup> ymdrechiad.      <sup>11</sup> ymyrthiad.

<sup>4</sup> dim.      <sup>8</sup> gorphwysiad.      <sup>12</sup> dyfodiant.

<sup>13</sup> myfi, mi, chwi, &c.

<sup>14</sup> yr hwn, yr hyn, &c.

<sup>15</sup> pwybynag, &c.

<sup>16</sup> y rhai (hyny) &c.

*Encau o'r ail Fath.*—Moddenwau.

## § 572. 1. Moddau gweithredol: bath 2il.—

Cyflwr enwol,	movement	moving	to move.
Cyflwr canolig,	movement	moving	to move.
Cyflwr adenwol,	of movement	of moving	of moving.
Cyflwr goradenwol,	in movement	in moving	to move.

§ 573. Ni ddefnyddir yr enw perwyddol (*verbal*) *to move*, neu 'r cyffelyb, un amser yn y cyflwr adenwol: a phan ei defnyddir yn y cyflwr goradenwol, yn gyffredin cymmer y geiryn *to o'i flaen*, a braidd yr un arall; ond gan y defnyddir yr enw *moving* yn yr holl gyflyrau, nid achosir unrhyw anghyfleustra oddi wrth afreolaeth neu amherffeithder treigl- iad yn yr enw *to move*. Gellir deall hyn yn well drwy eglurhad:—

Cyflwr enwol,	To move is disagreeable: moving is disagreeable <sup>1</sup>
Cyflwr canolig,	I dislike to move: I dislike moving. <sup>2</sup>
Cyflwr adenwol,	I dislike the trouble of moving. <sup>3</sup>
Cyflwr goradenwol,	I am inclined to move. <sup>4</sup>

§ 574. Ystyrid mai annheleidiw fyddai defnyddio yr enw perwyddol *to move* yn y cyflwr adenwol, gan ddywedyd, I dislike the trouble of *to move*; am hyn y rhoddir yr enw *moving* yn lle yr enw *to move*, pan ei defnyddir yn y cyflwr adenwol. Mae y sylw yma i'w gymhwyso at holl enwau Seisnig yr ail fath (moddenwau) sydd yn meddu y ffurf a elwir yn gyffredin modd annherfynol perwyddiaid (*the infinitive mode of verbs*).

## § 575. 2. Moddau goddefol: bath 2il.—

Cyflwr enwol,	sufferance	suffering	to suffer.
Cyflwr canolig,	sufferance	suffering	to suffer.
Cyflwr adenwol,	of sufferance	of suffering	of suffering.
Cyflwr goradenwol,	aboutsufferance	aboutsuffering	about to suffer.

## § 576. 3. Moddau cymmysgedig: bath 2il.—

Cyflwr enwol,	strife	struggling	to struggle
Cyflwr canolig,	strife	struggling	to struggle
Cyflwr adenwol,	of strife	of struggling	of struggling.
Cyflwr goradenwol,	in strife	in struggling	to struggle.

## § 577. 4. Moddau canolig: bath 2il.—

Cyflwr enwol,	repose	reposing	to repose
Cyflwr canolig,	repose	reposing	to repose.

<sup>1</sup> Symmud sydd aunymunol.

<sup>2</sup> Anhoffwyf (nid wyf yn hoffi) symmud.

<sup>3</sup> Anhoffwyf (nid wyf yn hoffi) y drafferth o symmud.

<sup>4</sup> Annhueddwyf (nid wyf yn tueddu) i symud.

Cyflwr adenwol,	of repose	of reposing	of reposing.
Cyflwr goradenwol,	in repose	in reposing	to repose.

§ 578. Byddai yn hawdd chwaneu engreiffiau ymhob un o'r adraniadau; ond gan fod lle yn briu, ac nad yw yr amrywiadau yn dra phwysig, ymattalir. Ond cyn myned at dreigl-iad y trydydd bath o enwau, rhaid sylwi ar un neilltuolrwydd arbenig sydd yn gwahaniaethu yr ail fath (moddenwau) oddi wrth y bath cyntaf (bodenwau). Yn nhrefniad geiriau mewn broddeg, gall moddenw gael ei wasanaethu yn ddigyfrwng naill ai gan adenw neu gan oradenw; ond rhaid i fodenwau bob amser gael eu cyssylltu yn ddigyfrwng â, a'u gwasanaethu gan, adenwau yn unig: fel hyn, dichon i fodenwau yn y dosparth swyddogol cyntaf gael eu gwasanaethu gan un enw yn y trydydd dosparth swyddogol, neu un yn yr ail ddosparth, neu drydydd dosparth yn gwasanaethu ail, a'r ail hwnw yn gwasanaethu y prif enw; tra y rhaid i fodenwau gael eu gwasanaethu gan enwau yn yr ail ddosparth yn unig, pynag a fyddo eu gweision hwy o'r ail ddosparth yn cael eu gwasanaethu gan enwau yn y trydydd dosparth ai peidio. Nis gall bodenw yn y dosparth cyntaf gael ei wasanaethu gan enw yn y trydydd dosparth heb gyfryngiad enw yn yr ail ddosparth. Bodenwau yn y dosparth cyntaf a wasanaethir yn ddigyfrwng gan adenwau, ac adenwau a wasanaethir yn ddigyfrwng gan oradenwau; ond gall moddenwau yn y dosparth cyntaf gael eu gwasanaethu yn ddigyfrwng naill ai gan enwau yr ail neu y trydydd dosparth. Er engraifft—

Walking is agreeable—Rhodio sydd hyfryd.

Walking backwards is tiresome—Rhodio yngwrthol sy flinderus.

Y gair *walking*, yn y ddwy froddeg, sydd enw o'r ail fath (moddenw), yn y cyflwr enwol; a'r gair *backwards*, yn yr ail froddeg, sydd oradenw yn cael ei gyssylltu yn ddigyfrwng âg ef, fel gwas yn dynodi modd, *walking*, neu foddedig-aeth modd. Yr achos o'r neilltuolrwydd (*peculiarity*) tan sylw ydyw y ffaith mai moddenwau ydyw gweision naturiol bodenwau, er y gellir defnyddio y ddau fath enw yn wahanredol, ac yn holl ddosparthau swyddogol cyfansoddiad; ond pan ddefnyddir moddenwau yn annibynol ar fodenwau i'r sawl y perthynant yn naturiol, deallir yn wastad eu bod yn perthyn i fodenwau a fyddont yn ddealledig. Ond ceir arfod i egluro hyn ymhellach wrth ymdrin â chyfosodiad (*syntax*); gan hyny, eir ymlaen gyda deffiniad enwau a'u cyflyrau.

*Enwau o'r trydydd Bath.*—Graddenwau.

§ 579.	1. <i>Tufewol.</i>	2. <i>Allanol.</i>	3. <i>Cymmysg.</i>	4. <i>Canolig.</i>
Cyflwr enwol,	quickness	reverence	repulsion	futurity.
Cyflwr canolig,	quickness	reverence	repulsion	futurity.
Cyflwr adenwol,	of quickness	of reverence	of repulsion	of futurity
Cyflwr goraden.	by quickness	by reverence	by repulsion	by futurity

*Enwau o'r pedwerydd Bath.*—Enwau Dirprwy—Rhagenwau.

§ 580. Mae enwau y pedwerydd bath, a elwir yn gyffredin rhagenwau, yn cael eu gwahanredu gan berson yn gystal a rhif, cenedl, a chyflwr. Mae y neilltuolrwydd yma, sef person, o'r eiddo rhagenwau, yn cyfateb i'r nodwedd o eangedd mewn bodenwau. Gan mai dirprwyon yw rhagenwau i enwau sydd yn meddu amryw raddau o eangedd, nid oes i ragenwau nodwedd neilltuol iddynt eu hunain yn yr ystyr yma; ond y mae iddynt nodwedd sy'n cyfateb yn gywir i eangedd, canys gallant gynnwys neu weithredu tros y person cyntaf, neu yr ail, neu y trydydd, mewn unrhyw rif, cenedl, neu gyflwr.

§ 581. 1. *Rhagenwau personol.*

		<i>Unigol.</i>	<i>Lluosog.</i>
Cyflwr enwol,	Person Iaf.	{ I <sup>1</sup> me of me by me	we <sup>3</sup>
Cyflwr canolig,			us
Cyflwr adenwol,			of us
Cyflwr goradenwol,			by us
Cyflwr enwol,	Person Zil.	{ thou <sup>3</sup> thee of thee by thee	you <sup>4</sup>
Cyflwr canolig,			you
Cyflwr adenwol,			of you
Cyflwr goradenwol,			by you

*Unigol.**Lluosog.**Gwryw. Benyw. Canol. Amhenod.*

Cyfl. enwol,	Person <sup>3</sup> .	he <sup>5</sup>	she <sup>6</sup>	it <sup>7</sup>	one <sup>8</sup>	they <sup>9</sup>	ones
Cyfl. canol.		him	her	it	one	them	ones
Cyfl. adenw.		of him	of her	of it	of one	of them	of ones
Cyfl. gorad.		by him	by her	by it	by one	by them	by ones

§ 582. Amrywir ffurf yr holl ragenwau personol i wahaniaethu rhif unigol oddiwrth y lluosog; ond gyda golwg ar genedl, trydydd person y rhif unigol yn unig a amrywir i wahaniaethu y gwrywol, y benywol, y canolig, a'r amhenodol. Fe allai y syna ambell un sy dipyn yn adnabyddus â

<sup>1</sup> Mi (myfi), i fi.<sup>4</sup> Chwi (chychwi).<sup>7</sup> E (ef), fo, o (efo).<sup>2</sup> Ni (nyni).<sup>5</sup> Efe, ef.<sup>8</sup> Un (dyn).<sup>3</sup> Ti (tydi), di.<sup>6</sup> Hi (hyhi).<sup>9</sup> Hwyl, hwynt (nhw), &c.

grammadegau eraill, y dichon i'r llyfryn hwn syrthio i'w law, fod y rhagenw personol amhennodol—*one*—yn cael ei dreiglo yma yn y ddau rif ac ymhob cyflwr; ond hawdd profi y gwneir hynny mewn ymarferiad, er nas gwneir, hyd y gwyddys, mewn grammadegau cyffredin. Er angraffft—

Cyflwr enwol,	Unigol.	{	<i>One</i> dislikes hypocrites. <sup>1</sup>
Cyflwr canolig,			They disgust <i>one</i> . <sup>2</sup>
Cyflwr adenwol,			The pride of <i>one</i> , <sup>3</sup> or, <i>one's</i> self-esteem.
Cyflwr goradenwol,			<i>One</i> does not keep things by <i>one</i> . <sup>4</sup>
Cyflwr enwol,	Lluosog.	{	The great <i>ones</i> expect flattery. <sup>5</sup>
Cyflwr canolig,			We flatter the great <i>ones</i> . <sup>6</sup>
Cyflwr adenwol,			The arrogance of the great <i>one</i> . <sup>7</sup>
Cyflwr goradenwol,			We differ from the great <i>ones</i> . <sup>8</sup>

### § 583. 2. Rhagenwau perthynasol.

Cyflwr enwol,	who <sup>9</sup>	which <sup>10</sup>	that. <sup>11</sup>
Cyflwr canolig,	whom	which	that.
Cyflwr adenwol,	of whom	of which	of that.
Cyflwr goradenwol,	for whom	for which	for that.

§ 584. Nid yw y rhagenwau perthynasol Seisnig yn amrywio eu ffurfiau i ddynodi na rhif na chenedl. *Who* a gymhwysir at bersonau, a *which* at bob peth arall. Defnyddir *that* weithiau yn lle *who* neu *which*.

### § 585. 3. Rhagenwau amhennodol.

Cyflwr enwol,	whosoever <sup>12</sup>	whichsoever. <sup>13</sup>
Cyflwr canolig,	whomsoever	whichsoever.
Cyflwr adenwol,	of whomsoever	of whichsoever.
Cyflwr goradenwol,	by whomsoever	by whichsoever.

<sup>1</sup> Mae *un* yn anhoffi rhagrithwyr.

<sup>2</sup> Maent yn diflasu *un*.

<sup>3</sup> Balchder *un*, neu hunandeb *un*.

<sup>4</sup> Nid yw *un* yn cadw pethau wrth yr *un*.

<sup>5</sup> Y *mawrion* (y rhai mawrion) a ddisgwyliant filadredd.

<sup>6</sup> Yr ydym yn ffladro y *mawrion*.

<sup>7</sup> Trahaussed y *mawrion*.

<sup>8</sup> Yr ydym yn gwahaniaethu oddi wrth y *mawrion*.

D.S...Nid oes yn y Gymmraeg air hollol gyfystyr â'r gair Seisnig lluosog yma—*ones*. Fel cyfieithiad o "*the great ones*," arferir, y mawrion, y gwŷr mawr, neu'r cyffelyb. Arferir y gair *dyn* weithiau, yn Gymmraeg, yn gyfystyr â'r rhagenw amhennodol Seisnig, *one*, yn y rhif unigol; megys, Mae *dyn* yn anhoffi rhagrithwyr. Clywir *gwraig* weithiau yn dywedyd wrth ei phlant—"Peidiwch a byddaru *dyn*"—do not pother *one*.

<sup>9</sup> Yr hwn, yr hon, y rhai. <sup>10</sup> Yr hyn, y rhai, yr hwn, &c.

<sup>11</sup> Y rhai, yr hyn, yr hwn, &c. <sup>12</sup> Pynag pwy, pwybynuag.

<sup>13</sup> Pynag pa beth, &c.

§ 586. Mae y rhagenwau hyn yn deillio yn amlwg o'r rhagenwau perthynasol, ac yn gyffelyb o ran cyfyngedd amrywiad eu ffurf.

4. *Rhagenwau ammwysol.*

§ 587. Rhagenwau ammwysol yw y geiriau a wasanaethant naill ai fel rhagenwau neu adenwau; a gelwir hwynt yn ammwysol am eu bod yn ffurfio bath o drosiad (*transition*) o ddosparth cyffredinol enw i'r eiddo adenw, megys y mae'r ystlym (*bat*) yn ffurfio bath o ddolen rhwng adar â'r man bedrypedion (*quadrupeds*). Mae y sefyllfa ammwysol yma yn ddeddf gyffredinol sydd yn gwasanaethu i gyssylltu holl wahanol ddosparthau bod neu radd mewn natur. Gelwir hi yn gyffredin—deddf eithrad i reolau cyffredinol, neu drosiad o'r naill sefyllfa i'r llall. Nid y rhagenwau yma, y sawl a ffurfiant ddolen rhwng dospeirth enw ac adenw, ydyw yr unig eiriau o natur ammwysol ynghyfansoddiad broddeg; canfyddir eto bod dosparth o eiriau yn ffurfio dolen gyffelyb rhwng dospeirth adenw a goradenw. Mae y geiriau sydd yn ffurfio y ddolen rhwng dospeirth cyntaf ac ail enwau, yn perthyn yn naturiol i'r ddau, a gellid eu trefnu yn y deffiniadau cyffredinol dan y naill neu y llall; ac y mae'r un sylw i'w gymhwyso at y geiriau a ffurfiant y ddolen rhwng ail a thrydydd dospeirth neu swyddi enw.

§ 588. Y rhagenwau ammwysol a ddefnyddir fynychaf yw—

	<i>Unigol.</i>	<i>Lluosog.</i>	<i>Unigol.</i>	<i>Lluosog.</i>
Cyflwr enwol,	this	these	that	those.
Cyflwr canolig,	this	these	that	those.
Cyflwr adenwol,	of this	of these	of that	of those.
Cyflwr goradenwol,	in this	in these	in that	in those.
Cyflwr enwol,			which.	
Cyflwr canolig,			which.	
Cyflwr adenwol,			of which.	
Cyflwr goradenwol,			in which.	

§ 589. Yn y broddegau isod, mae y geiriau ammwysol hyn yn rhagenwau mewn un sefyllfa, ac yn adenwau mewn un arall:—

The apple *which* I threw away was better.<sup>1</sup>  
*This* apple is sweet.<sup>2</sup>  
*That* is not ripe.<sup>3</sup>

<sup>1</sup> Yr afal (*yr hwn*) a deflais i ymaith oedd y goreu.

<sup>2</sup> Yr afal *hwn* sy beraidd.

<sup>3</sup> Nid yw *hwna* yn addfed.

*Which apple is sweet ?<sup>1</sup>*

*That which you gave me.<sup>2</sup>*

§ 590. Yn y froddeg gyntaf, ac yn y bummed, mae y gair *which* yn rhagenw perthynasol. Yn y bedwaredd, adenw ydyw *which* yn dynodi y gair *apple*, ac nid yn perthyn iddo fel adrithiad neu ragenw. Yn yr ail froddeg, mae y gair *this* yn adenw rheolaidd yn gwasanaethu y gair *apple*; ond y gair *that*, yn y drydedd froddeg, a weithreda fel rhagenw yn perthyn i, ac yn adrithio y gair *apple*, yr hwn sy ddealedig ond heb ei grybwyll.

§ 591. Mae yr holl eiriau hyn yn gweithredu naill ai fel gweision o'r ail ddosparth, neu fel dirprwyon (*agents*) o'r dosparth cyntaf; ond y rhagenwau ereill a allant weithredu yn unig fel dirprwyon o'r dosparth cyntaf. Nis gellir gwneyd i ragenw personol weithredu mewn modd cyffelyb, a dywedyd,

*He is learned ; he man is learned.*

*Efe sy ddysgedig ; efe dyn sy ddysgedig.*

Fel y dywedir,

*This is sweet ; this apple is sweet.*

*Hwn sy beraidd ; yr afal hwn sy beraidd.*

#### TROSIAD O DDEFFINIAD ENWAU I DDEFFINIAD ADENWAU.

§ 592. Gyda'r bath ammwysol yma o eiriau y terfynir deffiniad enwau, ac eir ymlaen at yr ail gangen o ddosraniad geiryddol—deffiniad adenwau. Wrth adolygu cynnyrch y radd gyntaf yma o ddosraniad, canfyddir—

(1.) Fod pedwar o fathau (*sorts*) gwahanol yn y dosparth cyffredinol o eiriau a elwir enwau.

(2.) Fod tri dosparth swyddogol hanfodol wahanol i bob un o'r bathau hyny.

(3.) Y gellid adranu y tri dosparth hyn i nifer tra lluosog o gyflyrau, ond nad yw yn anghenrheidiol adranu yr ail a'r trydydd dosparth er ffurfio cyflyrau Seisnig, ac mai y dosparth cyntaf yn unig sydd yn gofyn cael ei ranu yn ddau gyflwr gwahanol.

§ 593. Mae y pedwar bath enw yn deilliaw o'r gwahaniaeth naturiol sy rhwng y delfrydau a adrithiant, a'r gwahaniaeth naturiol yma sydd yn ffurfio egwyddor sylfaenol cyfaddasiad, yr hon a gymerir yn arweinydd sefydlog mewn

<sup>1</sup> *Pa afal sy beraidd ?*

<sup>2</sup> *Hwnw (yr hwn) a roddasoch i mi.*



dosraniad a chyfosodiad. Gall yr efrydydd sylwi y canfyddir yn wastad bedwar bath yn mhob dosparth; pedwar rhyw (*genus*) yn mhob bath; pedwar adryw (*species*) yn mhob rhyw; pedwar amrywiad (*variety*) yn mhob adryw, &c. &c. Nid rheol drosawdurol (*arbitrary*) ydyw hon; deddf natur ydyw. Mewn cyssylltiad â geiryddiaeth, canfyddwyd yr egwyddor gyffredinol yma o gyfraniad, yn y gwahaniaeth naturiol sydd rhwng delfrydau a'u gilydd; a byddai yn hawdd codi y rhif pedwar i saith, neu ddeuddeg (12), neu ddeuddeg ar ugain (32), &c.; ond y rhifau tri a phedwar yw rhifau cyssegredig natur yn y radd seml (*simple*), a saith, deuddeg, deuddeg ar ugain, &c., yn y radd gyfansawdd (*compound*). Wrth y geiriau rhif cyssegredig, y deallir—rhif a ddynodir gan natur, ac nid un trosawdurol. Egwyddorion cyffredinol mewn natur yw y rhai hyn, sydd yn gysylltiedig mewn modd cyfryngol yn unig â grammadeg, gan hyny ni wiw goddef iddynt drawsattal efrydiad y dysgadur drwy ganiatâu i wyddoniaeth (*metaphysics*) ddyfod i fewn yn lle geiryddiaeth: sylwir yn unig yma am y pedwerydd rhif, mai tarddu y mae o'r tri eraill. Y pedwerydd bath o enw (y rhagenw), sy ddirprwyad yn gweithredu yn lle y tri bath cyntefig (§ 521 a 522): y pedwerydd cyflwr (y canolig—*neutral*), sydd adraniad pennodol yn unig o un o'r tri dosparth cyssefin, sef o'r cyntaf: y pedwerydd amrywiad yn yr is-adraniadau, sy fath o wahanrediad ammwysol a gynnyrchir gan y tri eraill, megys y mae yr enw *dim* (*nothing*) yn wahanrediad o ysbrydol, sylweddol, a chymmysgedig gyda golwg ar fod.

§ 594. Mae y fantais o feddu egwyddor naturiol cyfaddasiad yn amlwg: wrth ddilyn yr egwyddor yma mewn dosraniad, gellir gwybod bob amser pa nifer o adraniadau a hanfodant yn naturiol yn y pwnc fyddo dan sylw; ac os na chanfyddir hwynt ar unwaith, gwyddys y bydd y dosraniad yn anmherffaith, ac y rhaid naill ai myfyrio nes canfod y cyfanrif (*whole number*), neu redeg yr antur o gamsyniad rhan am y cyfan yn y cyfosodiad (*synthesis*) cyferbyniol. Mewn dosraniad geiryddol, rhaid sylwi bod yr ail fath o enwau (moddenwau) yn cynnyrchu ail ddosparth cyffredinol o eiriau a elwir adenwau, megys y cynnyrchu y bath cyntaf (bodenwau) ddosparth cyntaf cyffredinol o eiriau a elwir enwau.

§ 595. Yn nosparth cyffredinol adenwau, mae pob bath cyntefig o ddelfryd yn cynnyrchu adenw o nodwedd pennodol, fel yn nosparth cyffredinol enwau y mae pob bath o ddelfrydau yn cynnyrchu swydd bennodol i enw; ac y mae'r

tri dosparth cyffredinol o eiriau, sef enwau, adenwau, a goradenwau, yn cyfateb i dair swydd gyffredinol y bath cyntaf, sef bodenwau. Ar fyr, mae y tri dosparth cyffredinol o eiriau yn tarddu o'r tri bath cyntefig o ddelfrydau, ac y mae adraniadau pob dosbarth cyffredinol yn cyfateb i'w gilydd, ac i'r un egwyddor gyffredinol.

§ 596. Mae dosparth neu swydd adenwol enwau yn hollol gyffelyb o ran ystyr i adenw rheolaidd, fel hyn:—

Dosparth adenwol enw,	a man of learning. <sup>1</sup>
Adenw rheolaidd,	a learned man. <sup>2</sup>

§ 597. Hefyd, mae dosparth neu swydd oradenwol yn gyfystyr mewn cyfansoddiad â goradenw rheolaidd, fel hyn—

Dosparth goradenwol enw,	This orchard yields fruit <i>in abundance</i> . <sup>3</sup>
Goradenw rheolaidd,	This orchard yields fruit <i>abundantly</i> . <sup>4</sup>

§ 598. Os bydd y delfrydau cyffredinol hyn wedi eu hargraffu yn briodol yn y meddwl, bydd yn hawdd deall deffiniadau yr ail a'r trydydd dosparth o eiriau, pynag pa nifer o adraniadau a ddichon fod yn mhob un o'r deffiniadau cyffredinol hyn; ac mewn gobaith o allu symlio y pwnc, eir ymlaen yn bresennol at ail gangen dosraniad geiryddol.

---

## AIL DDOSPARTH CYFFREDINOL GEIRIAU, NEU ARWYDDION DELFRYDAU.

### *Deffiniad Adenwau.*

§ 599. Yn neffiniad enwau, gwelir bod y cyflyrau adenwol a goradenwol yn gweithredu fel gweision ac isweision i enwau yn y cyflyrau enwol a chanolig: yn awr, sylwir ar eiriau a wasanaethant bob amser fel gweision yn nghyfansoddiad broddeg, y sawl ni ddefnyddir byth fel enwau yn y prif gyflyrau. Mae i'r geiriau hyn ffurf sefydlog a ddengys eu bod o'r ail ddosparth. Yr holl wahaniaeth er hyny, rhwng adenw, neu was rheolaidd, ag enw o'r ddosparth cyntaf, yn gweithredu yn achlysurol fel gwas trwy fod yn y cyflwr adenwol, sy mewn ffurf yn unig; canys y mae'r ddau yn yr un dosparth swyddogol, ac yn cyflawni yr un swydd gyffred-

<sup>1</sup> Dyn o ddysg.

<sup>2</sup> Dyn dysgedig.

<sup>3</sup> Y berllan hon a rydd ffrwyth *mewn toraeth*.

<sup>4</sup> Y berllan hon a rydd ffrwyth *yn doreithiog*.

inol yn nghyfansoddiad broddeg. Nid yw yr amrywiad a wahaniaetha gyflwr adenwol enwau oddiwrth adenw o ffurf reolaidd, yn ddim mwy nodedig na'r amrywiadau a wahan-iaethant y naill fath o adenw oddiwrth y llall.

§ 600. Yn y Seisneg pan weithredo enw fel gwas yn y cyflwr adenwol, rhagflaenir ef yn wastad gan eirynd (*of*) fel swydd-wisg a ddynoda y swydd israddol hono o'r eiddo enwau; ond ni ofyna adenw o ffurf reolaidd am un geirynd fel swydd-wisg neu ddynodiad o ddosparth israddol, am fod hwn mewn ffurf sefydlog a ddynoda ei swydd fel gwas.

§ 601. Cyn dosranu gwahanol amrywiadau y geirynd a wasanaethant fel adenwau, y sawl a restrir yn ail ddosparth cyffredinol geirynd, dylid sylwi mai y tri dosparth cyffredinol o eirynd y cyfeirir atynt yma, yw enw, adenw, a goradenw, cyfatebol i dair swydd y bath cyntaf, ond nid y cyfryw eu hunain.

§ 602. Mewn cydgoriad â'r radd seml o rifau dosraniadol, canfyddir pedwar bath o enwau yn nosparth cyntaf geirynd, a'r un egwyddor gyffredinol o gyfaddasiad a ddynoda bedwar bath o adenwau yn ail ddosparth cyffredinol geirynd.

Gellir galw bathau yr ail ddosparth—

Adenwau ansoddebol.<sup>1</sup>

Adenwau perwyddol.<sup>2</sup>

Adenwau dynodiadol.<sup>3</sup>

Adenwau cyfartal.<sup>4</sup>

§ 603. Adenwau ansoddebol a ddeilliant yn gyffredin o'r bath cyntaf o enwau (bodenwau) yn y dosparth cyntaf, ac a adrithiant ddelfrydau am natur ansoddol neu beiriannol (*organic*) bodau neu bethau. Adenwau perwyddol a ddeilliant yn gyffredin o'r ail fath o enwau (moddenwau) yn y dosparth cyntaf, ac adrithiant foddau gweithrediad a bodoliad. Adenwau dynodol a darddant o amgylchiadau damweiniol enwau yn gyffredinol, ac nid o un bath pennođol o enwau yn y dosparth cyntaf. Adenwau cyfartal a ffurfir o gyflyrau adenwol y pedwar bath cyntaf o enwau yn y dosparth cyntaf. Yma, eto, nid yw y pedwerydd rhaniad ond bath o ormodrif, neu yn hytrach, rhif hanedig, gan nad oes ond tri bath rheolaidd a chyntefig o adenwau, megys nad oes ond tri bath cyntefig o enwau; canys yr enwau dirprwy (rhagenwau) yn nosparth cyntaf geirynd, a'r adenwau cyfartal yn yr ail, ydynt

<sup>1</sup> Adjective adnouns.

<sup>2</sup> Verbal adnouns.

<sup>3</sup> Indicative adnouns.

<sup>4</sup> Equivalent adnouns.

gyfatebol i'r pedwerydd, yn ol yr egwyddor ddeilliadol, sydd yn dilyn y triad cyssefinol (§522). Eglurir yr egwyddor ddeilliadol ac osgoawl yma yn fwy cyflawn fel yr eir ymlaen.

§ 604. Megys y cyfaddasir y dosparth cyffredinol cyntaf o eiriau at yr egwyddor gyffredinol o fod peiriannyddol (*organized*), felly y bath cyntaf o enwau a adrithia ddelfrydau am fodau neu bethau; ond megys y cyfaddasir yr ail ddosparth cyffredinol o eiriau at yr egwyddor gyffredinol o fodd gweithrediad, y bath a restrir yn gyntaf yn y dosparth hwn yw y perwyddiad (*verb*). Yn y dosparth cyntaf, y bathau a restrir fel hyn, o ran pwysigrwydd: 1. enwau bod; 2. enwau modd; 3. enwau gradd; 4. enwau dirprwy. Yn yr ail ddosparth, y pedwar bath a restrir, o ran pwysigrwydd, fel hyn: 1. adenwau modd; 2. adenwau ansoddol; 3. adenwau dynodiad; 4. adenwau o wasanaeth cyfartal. Yn y trydydd dosparth cyffredinol o eiriau, bydd dosparth swyddogol y pedwar bath yn gyfatebol i'r drydedd egwyddor eiryddol, neu ddelfrydau am radd.

§ 605. Yr adenw perwyddol, gan hyny, ydyw y bath cyntaf a phenaf yn yr ail ddosparth o eiriau, fel y dengys y daflen hon:—

ADENWAU.	<i>Dosparth 1af.</i>	{	<i>Bathau.</i>	{	<i>Engreiffiau.</i>
			1. Adenwau perwyddol,		<i>move,</i> <sup>1</sup> &c.
			2. Adenwau ansoddebol,		<i>white,</i> <sup>2</sup> &c.
			3. Adenwau dynodiadol,		<i>the.</i> <sup>3</sup>
			4. Adenwau cyfartal,		of whiteness, <sup>4</sup> &c.

§ 606. Cyn dechreu ymdrin yn neilltuol â'r gwahanol adenwau hyn, gallai taflen gryno o honynt oll, ynghyd â'u hamryw adraniadau, fod yn fanteisiol yn y fân yma:

ADENWAU.	<i>Dosparth 2il.</i>	{	<i>Bathau.</i>	{	<i>Rhywiâu.</i>
			1. Adenwau perwyddol.		1. Perwyddiaid gweithredol. <sup>5</sup>
					2. Perwyddiaid goddefol. <sup>6</sup>
					3. Perwyddiaid canolig. <sup>7</sup>
					4. Perwyddiaid adgyrchiol. <sup>8</sup>
			2. Adenwau ansoddebol.		1. Ansoddebau sylweddebol. <sup>9</sup>
					2. Ansoddebau moddiadol. <sup>10</sup>
					3. Ansoddebau cymmysgedig. <sup>11</sup>
					4. Ansoddebau cymhariadol. <sup>12</sup>

<sup>1</sup> Symud.<sup>2</sup> Gwyn.<sup>3</sup> Y, yr.<sup>4</sup> Gwynder.<sup>5</sup> Active verbs.<sup>9</sup> Substantive adjectives.<sup>6</sup> Passive verbs.<sup>10</sup> Modal adjectives.<sup>7</sup> Neuter (neutral) verbs.<sup>11</sup> Mixed adjectives.<sup>8</sup> Reciprocal (reflected) verbs.<sup>12</sup> Comparative adjectives.

	<i>Bathau.</i>	<i>Rhywiau.</i>
ADENWAW. Parhad o Dosparth 2il.	3. Adenwau. dynodiadol.	1. Dynodiaid pennodol. <sup>1</sup>
		2. Dynodiaid amhennodol. <sup>2</sup>
		3. Dynodiaid cymmysgedig. <sup>3</sup>
		4. Dynodiaid ammwysol. <sup>4</sup>
	4. Adenwau cyfartal.	1. Cyflwr deilliadol. <sup>5</sup>
		2. Cyflwr meddiannol. <sup>6</sup>
		3. Cyflwr mewn-ddeilliadol. <sup>7</sup>
		4. Cyflwr gorddeilliadol. <sup>8</sup>

*Adenwau o'r bath cyntaf, neu Adenwau Perwyddol.*

§ 607. Yn ol rhif cyffredinol cyfraniad, mae pedwar rhyw (*genus*) neu fath o adenwau perwyddol, a elwir perwyddiaid, fel y gwelir yn y daflen flaenorol: gweithredol, goddefol, canolig, a chymmysgedig neu adgyrchiol; megys,

1. Being favouring—bod yn hoffi.
2. Being favoured—bod yn hoffedig.
3. Being sleeping—bod yn cysgu.
4. Being blaming one's self—bod yn ymfeio.

§ 608. Y delfryd am hanfodiad yw gwreiddyn y perwyddiad syml cyntefig, *to be*, bod; ac y mae'r prif amrywiadau a'r newidion a ddynodant wahanol rywiau neu fathau y perwyddiaid yn deilliaw o'r ffynnonell gyntefig yma: ond ceir achlysur i sylwi ar hyn eto.

§ 609. Mae i ffurf adenwau perwyddol (perwyddiaid) amryw newidion, yn gyffredin, er dynodi person, rhif, amser, a sefyllfa (*condition*); ac heb law y pedwar gwahanrediad elfenol yma, gwahaniaethir perwyddiaid gyda golwg ar gyfuniadau amser (*combinations of time*), moddau sicrhad (*modes of affirmation*), a graddau manylrwydd (*degrees of precision*) yn ngwahanol foddau sicrhad neu haerid (*assertion*).

RHIF A PHERSON.

§ 610. Dau rif sy mewn ymarferiad, yr unigol a'r lluosog (§ 532), ac y mae i bob rhif dri pherson, y cyntaf, yr ail, a'r trydydd (§ 580 a 581).

RHIF.

<i>Person unigol.</i>	<i>Lluosog.</i>
1. I favour. <sup>9</sup>	We favour. <sup>12</sup>
2. Thou favourest. <sup>10</sup>	You favour. <sup>13</sup>
3. He favours. <sup>11</sup>	They favour. <sup>14</sup>

<sup>1</sup> Definite indicatives.

<sup>2</sup> Indefinite indicatives.

<sup>3</sup> Mixed indicatives.

<sup>4</sup> Ambiguous indicatives.

<sup>9</sup> Hoffaf, neu, yr wyf yn hoffi.

<sup>10</sup> Hoffi, neu, yr wyt yn hoffi.

<sup>11</sup> Hoffa, neu, mae (efe) yn hoffi.

<sup>5</sup> Genitive case.

<sup>6</sup> Possessive case.

<sup>7</sup> Intra genitive case.

<sup>8</sup> Ultra-genitive case.

<sup>12</sup> Hoffwn.

<sup>13</sup> Hoffwch.

<sup>14</sup> Hoffant, neu yr ym, ych, maent, [yn hoffi.

## AMSER.

§ 611. Tri rhaniad syml a hanfodol wahanol sydd i amser; y presennol, y gorphenol, a'r dyfodol. Y pedwerydd, sef yr amhennodol (*indefinite*) sydd o natur droddiadol (*transitional*) neu dros-symudol.

§ 612. Gellir adrodd y rhai hyn mewn dull pennodol neu amhennodol.

<i>Presennol.</i>	<i>Gorphenol.</i>	<i>Dyfodol.</i>
Pennodol, I am favouring, <sup>1</sup>	I was favouring. <sup>2</sup>	I shall be favouring. <sup>3</sup>
Amhennod. I favour. <sup>4</sup>	I favoured. <sup>5</sup>	I shall favour. <sup>6</sup>

§ 613. Y dull pennodol a ddefnyddir yn gyffredin yn y presennol—

(1.) I ddynodi dwy weithred a fyddont yn cyferbynu o ran amser, neu yn cael eu cyflawni, megys, ar yr un pryd:—

*He is talking, while she is singing.*  
*Mae (efe) yn siared, tra y mae hi yn canu.*

(2.) I ddynodi gweithred a fyddo yn awr yn myned ymlaen:—

*Do not disturb him, he is writing.*  
*Nac aflonyddwch ef, mae (efe) yn ysgrifenu.*

(3.) I ddynodi gorchwyl a fyddo yn myned ymlaen, pe heb fod yn cael ei gyflawni y mynyd yma:—

Daniel Silvan Evans *is writing* an English and Welsh Dictionary.  
*Mae Daniel Silvan Evans yn ysgrifenu* Geiriadur Seisneg a Chymmraeg.

§ 614. Yn yr amser gorphenol, arferir y dull pennodol—

(1.) I ddynodi cyflawniad anorphenol gweithred mewn amser pennodol o'r gorphenol:—

*I was writing when he came.*  
*(Yr) oeddwn yn ysgrifenu* pan ddaeth (efe).

(2.) I ddynodi gweithred a fyddo wedi ei chyflawni, ac yn parhau am yspaid pennodol o'r gorphenol:—

*I was sitting upon the ground.*  
*(Yr) oeddwn yn eistedd* ar y llawr.

§ 615. Defnyddir y dull yma, yn yr amser dyfodol, i ddy-nodi gweithred a fyddo ar gynnydd mewn amser a ddaw, ac heb fod yn orphenedig ar amser pennodol:—

<sup>1</sup> Wyf yn hoffi.

<sup>2</sup> Bum, neu, oeddwn yn hoffi.

<sup>3</sup> Byddaf yn hoffi.

<sup>4</sup> Hoffaf (hoffwyf?).

<sup>5</sup> Hoffwn.

<sup>6</sup> Hoffaf.

*I will be riding in the field at three o'clock.*

*Byddaf yn marchogaeth yn y maes am dri o'r gloch.*

*Will they be plotting against our royal sovereign?*

*A fyddant hwy yn bradfwriadu yn erbyn ein teyrn breninol?*

D.S...Mae y dull yma, yn gystal a phob dull arall, yn briodol i'r person cyntaf, yr ail, a'r trydydd, fel eu gilydd; megys y mae yn hawdd canfod yn yr engreifftiau a ddyfynir.

§ 616. Yn yr engreifftiau a ganlynant, eglurir dull amhennodol y tri amser syml:—

	<i>Presennol.</i>	<i>Gorphenol.</i>	<i>Dyfodol.</i>
Amhennodol,	I favour <sup>1</sup>	I favoured	I shall favour.

§ 617. Yn yr amser presennol, defnyddir y dull yma:—

(1.) I ddynodi gwirioneddau cyffredinol, nodweddion, ac arferiadau:—

*The earth moves—Y ddaear a symmuda.*

*Gold is heavy—Aur sy drwm.*

*Birds fly—Adar a ehedant.*

*I drink—Yfaf (wyf).*

(2.) I ddynodi dywediadau awdwyr yn eu gweithoedd, pynag ai marw ai byw fyddo yr awdwyr eu hunain:—

*Seneca reasons and moralizes well.*

*Seneca a ymresyma ac a foesola yn dda.*

*Whateley says—Whateley a ddywed.*

(3.) Weithiau, defnyddir y dull yma am y dyfodol:—

*When he arrives, I shall tell him.*

*Pan diria (efe), dywedaf wrtho.*

*I leave home to-morrow—Gadawaf y cartref yfory.*

(4.) Mewn hanesiaeth, rhydd ystyr presennol yn fynych i weithredoedd gorphenol:—

*He wakes at the vessel's sudden roll.*

*Defny ar dreigliad chwim y llestr (llong).*

*On the scaffold now she stands—Ar y grog-glwyd saif hi 'n awr.*

(5.) Yn ofyniadol a nacaol:—

*Why shrinks the soul?—Paham y tarfa yr enaid?*

*The eye that fires not, wins not, weeps not now.*

*Y llygad ni thania, ni ddena, ni wyla 'n awr.*

*Earth claims not these again.*

*Ni hona 'r ddaear y rhai'n drachefn.*

(6.) Hefyd, yn yr ystyrion hyn:—

*Here Newton lies—Yma y gorwedd Newton.*

*Now tread we a measure—Yn awr ni a droediwn fesur.*

<sup>1</sup> Edr. § 612, nod. 1, 2, 3.

§ 618. Yn yr amser gorphenol, arferir y dull yma—

(1.) I ddynodi gweithred fel wedi digwydd, ond heb gyfeiriad at yr amser yn fanwl:—

*Morn came and went, and came and brought no day.*

*Boreugwaith ddaeth ac aeth, a daeth ac ni ddygodd ddydd.*

*We exhorted, and comforted, and charged every one of you.*

*Nyni a gynghorasom, a gyssurasom, ac a annogasom bob un o honoch.*

(2.) I amlygu defod, arferiad, neu sefyllfa a fyddo wedi pasio:—

*Once I loved torn ocean's roar.*

*Unwaith carwn ru 'r trochionog fôr.*

*He lived for effect—Efe a fywiai i ateb dyben.*

*The village master taught his little school.*

*Athraw y pentref ddysgai ei ysgol fach.*

(3.) Weithiau defnyddir y dull yma yn dalieithiol (*elliptically*) i adrodd digwyddiad mewn rhan o amser a grybwyllir fel heb basio:—

*I was this morning with the secretary.*

*Oeddw'n y bore hwn gyda 'r ysgrifenydd.*

(4.) Defnyddir y dull yma yn bwysleisiol, i hysbysu yr hyn a fu, ac nid yw mwyach:—

*There was a Brutus once—Fe fu Brutus unwaith.*

*These, these were the happy times.*

*Y rhai hyn, y rhai hyn oedd yr amserau dedwydd.*

(5.) Mewn iaith fawreddog, defnyddir y dull yma yn holiadol a negyddol:—

*How came this change to pass?*

*Pa fodd y daeth y newidiad yma o amgylch?*

*We carved not a line, we raised not a stone.*

*Gwers ni cherfasom, ni chodasom faen. Blodau Ieuainc.*

§ 619. Yn yr amser dyfodol, defnyddir y dull yma—

(1.) I arwyddo bod gweithred i gael ei chyflawni, neu sefyllfa i fod, mewn rhyw ran o amser sydd eto i ddyfod:—

*He will speak—Llefara.*

*It will rain—E wlawia.*

*The horse will die—Trenga y march.*

(2.) I ragfynegi neu hysbysu yr hyn a ddigwydd:—

*I shall go—Af.*

*You will come—Deuwch (chwi a ddowch).*

*If it will feed nothing else, it will feed my revenge.*

*Os na phortha ddim arall, e bortha fy ngwŷn.*

(3.) I addaw, bwgwth, neu ragfynegi gyda phwyslais:—



*I will go—Mi a af.*

*You shall die—Chwi a fyddwch feirw.*

*The stars shall fade away—Y ser a ddiplannant ymaith.*

§ 620. Heblaw y ddau ddull hyn—y pennodol a'r amhen-nodol—mae i'r amser presennol a'r gorphenol ddull sicrhaol neu bwysleisiol (*emphatic*) arbenig :—

	<i>Presennol.</i>	<i>Gorphenol.</i>
Sicrhaol,	I do favour. <sup>1</sup>	I did favour. <sup>2</sup>

§ 621. Yn y presennol, defnyddir y dull yma—'

(1.) I ddynodi haerriad neu wrthebiad cadarn :—

*You do not speak truth—Nid ydych chwi yn dywedyd gwir.*

*I do speak truth—Yr ydwyf fi yn dywedyd gwir.*

Neu yn syml,

*I do—Yr ydwyf, neu ydwyf.*

(2.) Defnyddir y dull yma yn fynychach na'r pennodol a'r amhennodol, mewn ystyr negyddol a holiadol :—

*I do not teach—Nid ydwyf fi yn dysgu.*

*He does not feel you now—Nid ydyw efe yn eich teimlo yn awr.*

*Do we not bleed?—Onid ydym ni yn gwaedu?*

*Dost thou suspect my truth?*

*A wyt ti yn drwgdybied fy ngeirwiredd?*

(3.) Ar ol y fath eiriau a *nor, seldom, here, &c.*

*NOR do we feel—Teimlo nid ydym ni.*

*SELDOM do they now exceed a pint or so of wine.*

*Anfynych y maent yn awr yn cyrraedd mwy na pheint neu'r fath o win.*

§ 622. Yn yr amser gorphenol, y dull yma a ddefnyddir—

(1.) Er peru amrywiad neu bwysleisiad; ac y mae yn bennodol neu amhennodol, yn ol y byddo ystyr y cyd-destun :

*And he did ride upon a cherub and did fly.*

*Marchogodd hefyd ar y cerub, ac a ehedodd. Bibl.*

*How he did shake! 'tis true, this God did shake.*

*Fel yr ysgydwodd! gwir, Duw a ysgydwodd hwn.*

*I did send to you—Myfi a ddanfonaais atoch.*

(2.) Defnyddir y dull yma yn bur fynych mewn ystyr negyddol a holiadol :—

*I did not intend to encroach—Nid oeddwn i yn bwriadu gormesu.*

*Did ye not hear it?—Ai ni chlywsoch chwi o?*

<sup>1</sup> Yr wyf fi yn hoffi.      <sup>2</sup> Myfi a hoffais (e ddarfum mi hoffi).

(3.) Ar ol geiriau ac adfroddau (*phrases*) fel hyn : *in vain, oft, little, not vainly, &c.* :—

IN VAIN *did he defend* the liberty of his country.

YN OFER *y diffynodd* efe ryddid ei wlad.

OFT *did the harvest* to their sickle *yield*.

MYNYCH *yr ymroddodd* y cynauaf i'w cryman hwy.

§ 623. I gyfateb, megys, i ddull sicrhaol y presennol a'r gorphenol, mae i'r dyfodol ddull a elwir dechreuol (*inceptive*); megys,

*I am going to write next week.*

*Yr wyf yn myned i ysgrifenu yr wythnos nesaf.*

*I am about to write—Yr wyf am ysgrifenu.*

§ 624. Hefyd, defnyddir y dulliau hyn i ddynodi amser dyfodol :—

*I have got a sum of money to pay to-morrow.*

Hyny yw—

Yr wyf dan anghenrheidrwydd neu rwymedigaeth *presennol* i gyflawni gweithred *dyfodol*.

*John is to command* a regiment—*Mae Ioan i lywyddu* catrawd.

*Æneas went in search of the seat of an empire, which was one day to command* the world.

*Aeth Æneas i chwilio am sedd amherodraeth, yr hen oedd ryw ddiwrnod i lywodraethu y byd.*

§ 625. Can belled ag y golygir amser syml, gan hyny, canfyddir mai tri bath y sydd—y *presennol*, y *gorphenol*, a'r *dyfodol*, ac y gellir adrodd pob un o'r amserau hyn yn benodol neu amhennodol, heb son am y dull sicrhaol, &c. Gwelir hefyd mai yn y dull amhennodol y mae ffurf y perwyddiaid Seisnig symlaf, canys yn y dull pennodol, dull-weddir y perwyddiaid gan eiriau chwanegol; megys—

Amhennodol, *I favour, &c.*

Pennodol, *I am favouring, &c.*

§ 626. Nid yw pob dosparthiad arall o amser yn ddim amgen na chyfuniad o rai o'r amserau syml crybwylledig yn yr adran uchod (§ 625); a dengys y daflen ganlynol, ar unwaith, yn yr hon y cyfunir holl raniadau syml amser y naill â'r llall, pa gyfuniadau o'r cyfryw ydyw y rhai mwyaf defnyddiol ac ymarferol :—

#### PRESENNOL.

*Presennol* a phresennol, *cyfartal i sydd* yn bresennol, yn awr.

*Presennol* a gorphenol, ... *sydd* yn orphenol, yn awr.

*Presenno* a dyfodol, ... *sydd* i fod, mewn amser dyfodol i'r presennol.

## GORPHENOL.

*Gorphenol a phresennol, cyfartal i oedd yn bresennol, y pryd hyny.*  
*Gorphenol a gorphenol, ... oedd yn orphenol, y pryd hyny.*  
*Gorphenol a dyfodol, ... oedd i fod, ar ol amser pennodol.*

## DYFODOL.

*Dyfodol a phresennol, ... a fydd yn bresennol, ar amser dyfodol.*  
*Dyfodol a gorphenol, ... a fydd yn orphenol, ar amser dyfodol.*  
*Dyfodol a dyfodol, ... a fydd i fod, ar ol amser dyfodol.*

§ 627. Ymddengys mai yr amserau cyfansawdd hyn, neu y cyfuniadau yma o amser ydyw y rhai mwyaf eglur a gwahanredol a ellir ffurfio, gan fod pob un o'r tri gwahanol amser cyntefig—y presennol, y gorphenol, a'r dyfodol—yn dyfod yn brif safon cymhariad.

§ 628. Yn y Seisneg, defnyddir tri o'r amserau cyfansawdd hyn, yn gyfatebol i'r tri amser syml (§ 612), mewn dull pennodol ac amhennodol; sef y presennol a gorphenol (*present and past*), y gorphenol a gorphenol (*past and past*), a'r dyfodol a gorphenol (*future and past*), fel y dangosir yma:—

## PRESENNOL A GORPHENOL.

Pennodol, I have been favouring—(Yr) wyf wedi bod yn hoffi.  
 Amhennodol, I have favoured—Bûm yn hoffi (hoffais).

## GORPHENOL A GORPHENOL.

Pennodol, I had been favouring—(Yr) oeddwn wedi bod yn hoffi.  
 Amhennodol, I had favoured—Buaswn yn hoffi (hoffaswn).

## DYFODOL A GORPHENOL.

Pennodol, I shall have been favouring—Byddaf wedi bod yn hoffi.  
 Amhennodol, I shall have favoured—Byddaf wedi hoffi (hoffof).

§ 629. Yn yr amser presennol a gorphenol defnyddir y dull pennodol—

(1.) I amlygu cyflawniad gweithred fel newydd ddarfod:—

During which time I have been pushing my work.

Trwy gydol yr amser yr wyf wedi bod yn dirgymhell fy ngwaith.

(2.) I ddangos gweithred fel wedi bod yn myned ymlaen, ac yn para i fyned ymlaen:—

The man in the garden has been working with great diligence.

Mae y dyn yn yr ardd wedi bod yn gweithio gyda diwydrwydd mawr.

§ 630. Defnyddir y dull yma yn y gorphenol a gorphenol, i ddynodi cyflawniad un weithred fel wedi ei gorphen, pan oedd un arall yn eymeryd lle:—

I had been reading your letter when he called.

Yr oeddwn wedi bod yn darllen y llythyr pan alwodd efe.

§ 631. Yn y dyfodol a gorphenol, y dull yma a ddengys am ddwy weithred ddyfodol, bod cyflawniad un i gael ei derfynu yn ddioed cyn dechreuad y llall:—

*I shall have been studying that subject for a year on the 25th of next month.*

*Byddaf wedi bod yn efrydio y pwnc yna am flwyddyn ar y 25ain o'r mis nesaf.*

§ 632. Y dull amhennodol (§ 628) a ddefnyddir yn yr amser presennol a gorphenol—

(1.) I ddynodi gweithred bennodol, ond amser amhennodol:—

*I have written Welsh—Bâm yn ysgrifenu Cymmraeg.*

(2.) I amlygu gweithred a fyddo wedi ei chyflawn orphen yn ddiweddar:—

*I have sent the letter—Danfonais y llythyr.*

(3.) I ddynodi bod gweithred wedi ei chyflawni mewn yspaid o amser y byddo rhan o hono yn para i fyned ymlaen:—

*I have seen him to-day—Gwelais ef heddyw.*

*It has rained all this week—Gwlawiodd drwy yr holl wythnos yma.*

(4.) I amlygu gweithred a fyddo yn parhau hyd yr amser presennol:—

*The queen has reigned ten years—Teyrnasodd y frenines (yn hytrach, mae y frenines wedi teyrnasu—§ 629, 2) deng mlynedd.*

(5.) I grybwyll am ddigwyddiadau a orphenwyd er's talm, os yn gyssylltedig â'r amser presennol:—

*I have not seen my brother since 1843.*

*Ni welais fy mrawd er's 1843.*

§ 633. Yn yr amser gorphenol a gorphenol, defnyddir y dull amhennodol—

(1.) I adrodd dwy weithred orphenol, un o'r sawl oedd wedi ei chwblhau cyn i'r llall gymeryd lle:—

*I had finished my lessons before he came.*

*Yr oeddwn wedi gorphen fy ngwersi cyn iddo ef ddyfod.*

(2.) I ddangos bod gweithred wedi digwydd ar ol i un weithred basio, ond cyn i un arall gymeryd lle:—

*Had a stranger at this time gone into the province, ignorant of what had happened since the death of the governor, he would, &c.*

*Ped elai dyeithrddyn y pryd hwn i'r dalaeth, yn anwybodus o'r hyn a ddigwyddasai er marwolaeth y llywodraethwr, byddai, &c.*

§ 634. Y dull amhennodol yn y dyfodol a gorphenol, a ddengys fod un weithred i gael ei gorphen mewn amser

amhennodol cyn i un arall gael ei dechreu :—

*I shall have finished* my letter before the post comes.  
*Byddaf wedi gorphen* fy llythyr cyn i'r ffulliadyr ddyfod.

## CYFRANIAD.

§ 635. Yn yr hyn a elwir modd annherfynol (*infinitive mode*), canfyddir moddenw, adenw cymysgedig, ac adenw cyffredin.

§ 636. Y ffurf gwreiddiol, megys, er engraifft, *to work* (gweithio), sydd enw rheolaidd, sef moddenw, a gwasanaetha ymhob cyflwr mewn cyfansoddiad, ond yn y cyflwr adenwol (§ 573 a 578).

§ 637. Y cyfraniad (*participle*) presennol, *working*, sydd adenw ammwysol neu gymysgedig, weithiau yn berwyddol ac weithiau heb fod; megys,

(1.) Yn berwyddol :—

*That man is working.*

(2.) Yn adenw cyffredin, neu ansoddeb (*adjective*) :—

*That is a working man.*

§ 638. Pan gyssylltir y cyfraniad, fel yn yr engraifft gyntaf, â'r perwyddiaid cyffredinol—*to be* (bod), sef â'r moddenw sydd yn adrithio y delfryd o hanfodiad (*existence*), yr hwn yw modd anesgorol (*inseparable*) pob peth, a ffynonell naturiol holl neilltuolion (*peculiarities*) perwyddol adenwau, fel y dangosir eto ;—yn y cyssylltiad yma, bydd y cyfraniad yn adenw perwyddol; ond pan ei cyssylltir yn ddigyfrwng â bodenw, fel yn yr ail engraifft, bydd y cyfraniad yn adenw cyffredin neu ansoddeb; a'r ammwysedd yma yn natur y cyfraniad ydyw yr achos o'i alw yn adenw cymysgedig.

§ 639. Dau gyfraniad sydd yn y Seisneg, y presennol a'r gorphenol :<sup>1</sup>—

Presennol, being, favouring, working, &c.  
 Gorphenol, been, favoured, worked, &c.

## MODD ADENWAU PERWYDDOL.

§ 640. Yn ol y dosraniad a amlygir yn y llyfryn yma, nodwedd cyffredinol a gwahanredol adenw perwyddol yw sicrhad (*affirmation*); gan hyny, nid yw yr hyn a elwir yn gyffredin *moddau*, ond amgylchiadau pennodol, neu sefyll-

<sup>1</sup> Gelwir y presennol weithiau yn amherffaith, a'r gorphenol yn berffaith.

faoedd perthynol i sicrhad; neu mewn geiriau eraill, yr holl foddau hyn a ddynodant ryw ddullweddiadau allanol o'r eiddo haeriad neu sicrhad; ac y mae'r gwahanol fathau o ddullweddion allanol a ddynodir gan dri amrywiad y goradenwau cyssylltiadol, yn cynnysgaethu yr efrydydd ar unwaith âg allwedd (*key*) priodol i'r amrywiol fathau o sicrhad a ddefnyddir yn y Seisneg; a'r bathau hyn a elwir yma, modd dilysol (*absolute mode*), modd cymmysgedig (*mixt mode*), a modd ammodol (*conditional mode*). Am y sawl a elwir yn gyffredin, yr archiadol (*imperative*), y dymuniadol (*optative*), yr holiadol (*interrogative*), &c., canfyddir mai gwahanol donau sicrhad ydynt yn unig, pynag pa un a fyddont ai dilysol, ai cymmysgedig, ai ammodol o ran modd.

§ 641. Dywedir yn y grammadegau yn gyffredin, "fod rhyw gyssylltiad pennodol yn llywodraethu modd cyssylltiadol (*subjunctive*) y perwyddiaid;" ond y gwir yw am y banynau goradenwol a elwir cyssylltiaid, y rhai sydd yn dynodi dullweddiadau allanol (*extrinsic modifications*), nad llywodraethu, ond gwasanaethu y perwyddiaid yn eu gwahanol foddau y maent; ac nid mewn rhyw un modd (*mode*) neilltuol y mae yr un banynau cyssylltiadol yn gwasanaethu perwyddiaid bob amser, canys gwasanaetha y nifer amlaf o honynt yn y modd cymmysgedig yn gystal ag yn yr ammodol. Trwy gyfeirio i'r tafeni crynoawl o amryfal swyddi geiriau, gwelir engreiffitiai o'r goradenwau cyssylltiadol a wasanaethant i ddullweddu y perwyddiaid yn eu gwahanol foddau—y dilysol, y cymmysgedig, a'r ammodol. Detholwyd yr engreiffitiai hyn yn ol amrywiadau y swydd y gwasanaethant ynddi yn gyffredinol; ond dylid sylwi yn fanwl y gall rhai cyssylltiaid, a'u bod hefyd yn gwasanaethu mewn gwahanol fathau o ddullweddiad. Prin y gellir gwneyd i'r cyssylltiaid a wasanaethant sicrhad dilysol wasanaethu sicrhad ammodol mewn unrhyw iaith; ond yn y Seisneg, defnyddir y banyn *if* ymhob un o'r tri bath sicrhad, er y bernir nad priodol ei ddefnyddio un amser yn y sicrhad dilysol: defnyddir y banyn *though* yn bur fynych yn y dilysol, yr ammodol, a'r cymmysgedig. Weithion, ymdrechir egluro y tri phrif fodd yma o sicrhad.

### 1. *Modd Dilysol.*

§ 642. Gall y sicrhad dilysol ac arbenig fod naill ai yn syml (*simple*) neu yn gymmlyg (*complex*). Pan fyddo yn syml ni fydd achos am gyssylltiad, yr hwn sydd fanyn goradenwol a ddefnyddir mewn cyfansoddiad cymmlyg:—

*Modd dilysol sicrhad.*

I shall go to London—Mi af i Lundain (syml).

You *and* I are strangers—Chwi *a* mi ydymddieithriaid (cymmlyg).

*Neither* you *nor* I shall live to see it.

*Nid* chwi *na* mi *a* fydd byw i'w weled ef (cymmlyg).

§ 643. Sicrhad dilysol yw pob un o'r rhai hyn, ac nis arwyddant y radd leiaf o ddibyniad nac ansicrwydd: am hyny y cyssylltiaid a ddefnyddir yn y ddau sicrhad cymmlyg, ni ddynodant ddibyniad neu ammod; gwasanaethant yn unig i gyssylltu yn gadarnhaol neu negyddol adenwau perwyddol sicrhad.

§ 644. Gall y modd dilysol, gan hyny, fod yn naill ai syml neu gymmlyg o ran ffurf, ond bydd bob amser yn haerid neu sicrhad arbenig, ac yn dwyn arno y nodwedd o sicrwydd. Mae y nodwedd yma o sicrwydd yn dibynu ar y sicrhad ac nid ar wirionedd trwyadl pethau; canys gellir haeru yn ddilysol a phenderfynol fod celwydd trwyadl yn wirionedd anghyson.

*2. Modd Cymmysgedig.*

§ 645. Rhaid i'r modd cymmysgedig, yn ol natur pethau, fod yn gymmlyg, yn cynnwys o leiaf un sicrhad dilysol ac un sicrhad ammodol syml; a bydd y sicrhad dilysol yn dibynu ar yr ammodol: fel hyn—

*Modd cymmysgedig sicrhad.*

We shall (yn ddilys) go to London to-morrow *if* the weather be fine.—Nyni *a* awn i Lundain yfory, *os* y tywydd fydd hyfryd.

We shall go to London, *but* not before the weather be finer.

Nyni *a* awn i Lundain, *ond* nid cyn i'r tywydd fod yn hyfrytach.

*3. Modd Ammodol.*

§ 646. Gall modd ammodol sicrhad fod yn naill ai syml neu gymmlyg o ran ffurf, ond bydd y ffurf syml bob amser yn fwy neu lai toleithiol; oblegid nis gall sicrhad fod yn ammodol heb i'r amgylchiadau ammodol fod naill ai yn adroddedig neu yn ddealedig:—

*Modd ammodol sicrhad.*

We may, *perhaps*, go to town to-morrow (syml).

Gallew, *ysgatfydd*, fyned i'r dref yfory.

We shall, *perhaps*, go to-day *if* we can (cymmlyg).

Ni *a* awn, *ysgatfydd*, heddyw *os* gallwn.

We might *probably* have gone, *if* we had thought of it, yesterday (cymmlyg)—Gallasem *ond* *odid* fod wedi myned, *pe* meddyliasem am hyny, ddoe.

§ 647. Mae yr haeriadau hyn, yn y ddau ddull, yn hollol ammodol, er eu bod yn cynnwys yr hyn a elwir yn gyffredin y modd galluogol a'r modd cyssylltiadol o sicrhad.

§ 648. Modd ammodol sicrhad a edrydd ddelafrydau o alledigaeth amheuol, ammodol, neu debygiadol.

§ 649. Modd dilysol sicrhad a edrydd ddelafrydau a sicrydd anhysom.

§ 650. Modd cymmysgedig sicrhad a edrydd ddelafrydau o sicrydd dilys ac anhysom, dibynol ar amgylchiadau ammodol; megys,

If perchance it rain to-morrow, the streets will *certainly* be wet.   
 Os o ddamwain y bydd yn gwlawio yfory, yr ystrydoedd yn ddiâu a fyddant wlybion.

§ 651. Gan mai cyfuniad o foddau dilysol ac ammodol sicrhad ydyw y modd cymmysgedig, mae yn amlwg nad oes anghenrheidrwydd am ond dau ddull hanfodol wahanol i'r perwyddiaid trwy holl amserau, personau, a rhifau cyfuead (*conjugation*) neu raddeg (*scale*) gyffredinol treigliadau.

§ 652. Er nad oes yn y Seisneg amser dyfodol o ffurfiad rheolaidd syml yn y modd dilysol na'r ammodol, eto nid yw hyn yn profi nas gellir adrodd amser dyfodol; gall yr amser presennol a'r gorphenol, trwy gael eu cyfuno â'r enw perwyddol, yn ei gyflwr goradenwol, ddynodi amser dyfodol yn y modd ammodol; fel hyn:—

If I *am to be* blamed at a future period, I shall be sorry for having had any thing to do with the affair.

Os *wyf i'm* beio mewn amser dyfodol, bydd yn ddrwg genyf y darfuasai fod i mi ddim i'w wneyd â'r helynt.

If I *were*, at any future period, to *become* a partisan of these doctrines, I should certainly look back with astonishment at my present incredulity.

Pe *byddwn* ar ryw bryd dyfodol, *i ddyfod* yn bleidiwr yr athrawiaethau hyn, myfi yn ddiâu a edrychwn yn ol gyda syndod ar fy mhresennol anghrediniaeth.

§ 653. Er mai angreiffiau o foddau cymmysgedig yw y rhai hyn, eto adroddir amser dyfodol yn y rhanau ammodol yn gystal ag yn y rhai dilysol; gan hyn, nid yw y diffyg o amser dyfodol o ffurfiad rheolaidd yn y modd ammodol, yn lluddias adroddiad ammodol o'r cyfryw amser.

§ 654. Gall yr archiadol, y dymuniadol, yr holiadol, a thônau (*tones*) cyffelyb o sicrhad, gael eu cymhwyso yn holl foddau y perwyddiaid; a dichon y rhai hyn wisgô nodweddiion eu gilydd yngwahanol foddau sicrhad. Er engraifft, yn y modd dilysol, defnyddir naill ai tôn archiadol, holiadol, neu dymuniadol o orchymmyn, fel hyn:—



Tôn archiadol,	Be gone, sir ! <sup>1</sup>
Tôn archiadol-ddymuniadol,	Will you be gone, sir ! <sup>2</sup>
Eto,	Will you go, sir ! <sup>3</sup>
Tôn ddymuniadol-archiadol,	I entreat you to go, sir ! <sup>4</sup>

§ 655. Mae yr holl dônau hyn yn y modd dilysol o sicrhad, a gellir cymhwyso holl amrywiadau tôn yn y modd ammodol ac yn y cymmysgedig, cystal ag yn y dilysol. Dyma engraifft o'r dôn holiadol yn modd cymmysgedig sicrhad :—

Might we see the museum if we were to ask permission ?  
A allem ni weled yr amgueddfa, pe byddai i ni ofyn caniatâd ?

§ 656. Mae amrywiadau tôn braidd yn ddiderfyn, eithr nid oes ond dau fodd (*mode*) gwahanol i sicrhad, oblegid cyfansawdd ydyw y modd cymmysgedig, o'r dilysol a'r ammodol; a hyn ydyw yr achos na ddynodir ond y ddau fodd yma yn y tafleni cyffredinol o gyfieiad neu dreigliad y modd-enwau perwyddol.

§ 657. Yr unig dôn neilltuol o sicrhad a ddynodir gan dreigliad pennodol o eiddo y perwyddiaid yw y dôn archiadol, a elwir yn gyffredin y modd gorchymmynol. Treigliad neilltuol y dôn yma sy fel hyn :—

*Unigol.*

1. Let me be.
2. Be thou.
3. Let him be.

*Lluosog.*

1. Let us be.
2. Be you.
3. Let them be.

§ 658. Rhestriad o holl amrywiadau treigliad, y sawl a gymhwysant y perwyddiaid i ddynodi person, rhif, amser, modd, sefyllfa, &c., mewn un raddeg (*scale*) gyffredinol, a elwir cyfieiad (*conjugation*) y perwyddiaid; ac y mae'r gwahanol raddegau cyffredinol hyn naill ai yn rheolaidd, afreolaidd, neu ddiffygiol o ran dull i ddynodi y gwahanol amrywiadau crybwylledig. Sylwir ymlaenaf ar y pedwar bath (*sort*) o berwyddiaid a ffurfiant raddegau rheolaidd o dreigliad, sef y rhai hyn: gweithredol, goddefol, canolig, ac adgyrchol; ac yna sylwir yn fyr ar raddegau afreolaidd a diffygiol cyfieiad. Uwch ben pob graddeg, rhoddir y moddenw neu yr enw perwyddol o'r hwn y deillia yr adenw perwyddol a fyddo dan sylw.

<sup>1</sup> Ymaith, syr !<sup>2</sup> A ewch chwi ymaith, syr !<sup>3</sup> A ewch chwi, syr !<sup>4</sup> Erfyniaf arnoch fyned, syr !

D.S...Cofier o hyd mai y prif amcan yn y cyfieithion yw rhoi delfryd i'r efrdydd o *arddull* y Seisneg, ac nid Cymmreigiad gystwyth.

## 1. PERWYDDIAID GWEITHREDOL.

*Graddeg Gyffredinol Treigliadau, neu Gyfieud Perwyddiaid Gweithredol.*

## SEFYLLFA AMHENNODOL.

§ 659. *Enw perwyddol.*

To favour, neu Favouring.

§ 660. *Adenwau cyfraniadol.*

Amser	{	Presennol,	favouring.
		Gorphenol,	favoured.
		Dyfodol,	_____.

## SEFYLLFA BENNODOL.

*Adenwau perwyddol.*

§ 661. *Amser syml presennol.*

	<i>Pers.</i>	<i>Modd Dilysol.</i>	<i>Pers.</i>	<i>Modd Ammodol.</i>
PENNODOL. <i>Lluos. Unig.</i>	{	1. I am favouring.	1. If I am favouring.	1. If I am favouring.
		2. Thou art favouring.	2. If thou art favouring.	2. If thou art favouring.
		3. He is favouring.	3. If he is favouring.	3. If he is favouring.
PENNODOL. <i>Lluos. Unig.</i>	{	1. We are favouring.	1. If we are favouring.	1. If we are favouring.
		2. You are favouring.	2. If you are favouring.	2. If you are favouring.
		3. They are favouring.	3. If they are favouring.	3. If they are favouring.
AMHENNODOL. <i>Lluos. Unig.</i>	{	1. I favour.	1. If I favour.	1. If I favour.
		2. Thou favourest.	2. If thou favourest.	2. If thou favourest.
		3. He favours.	3. If he favours.	3. If he favours.
AMHENNODOL. <i>Lluos. Unig.</i>	{	1. We favour.	1. If we favour.	1. If we favour.
		2. You favour.	2. If you favour.	2. If you favour.
		3. They favour.	3. If they favour.	3. If they favour.

§ 662. *Amser syml gorphenol.*

PENNODOL. <i>Lluos. Unig.</i>	{	1. I was favouring.	1. If I was favouring.
		2. Thou wast favouring.	2. If thou wast favouring.
		3. He was favouring.	3. If he was favouring.
PENNODOL. <i>Lluos. Unig.</i>	{	1. We were favouring.	1. If we were favouring.
		2. You were favouring.	2. If you were favouring.
		3. They were favouring.	3. If they were favouring.
AMHENNODOL. <i>Lluos. Unig.</i>	{	1. I favoured.	1. If I favoured.
		2. Thou favouredst.	2. If thou favouredst.
		3. He favoured.	3. If he favoured.
AMHENNODOL. <i>Lluos. Unig.</i>	{	1. We favoured.	1. If we favoured.
		2. You favoured.	2. If you favoured.
		3. They favoured.	3. If they favoured.

§ 663. *Amser syml dyfodol.*

	<i>Pers.</i>	<i>Modd Dilysol.</i>	<i>Pers.</i>	<i>Modd Ammodol.</i>
PENNODOL. <i>Lluos. Unig.</i>	{	1. I shall be favouring.	1. If I shall be favouring.	
		2. Thou shalt be favouring.	2. If thou shalt be favouring.	
(1.) Trwy chwanegu *d* at yr enw perwyddol os terfyna â *g* *e*; os amgen *ed*: To love, loved; To favour, favoured (§ 660); To exist, existed (§ 686).

(2.) Trwy newid *y* ar ol cydsain i *ie*, a chwanegu *d*: To try, tried.

(3.) Trwy chwanegu *ed* at *y* ar ol llafariad: To play, played; To obey, obeyed.

Eithr.: To buy, lay, pay, say, slay, stay, &c.

(4.) Trwy ddilyn y rheol yn § 784 (4): To beg, begged; To commit, committed.

(5.) Y dulliau eraill a welir ynghyfrasau y perwyddiaid afreolaidd.

## ADENWAU PERWYDDOL.

§ 786. Ail a thrydydd person unigol yr amser presennol amhennodol, a ffurfir o'r enw perwyddol—

(1.) Trwy chwanegiad o *st* yn yr ail, ac *s* yn y trydydd person, pan yn terfynu â *g* *e*: To see, seest; sees: to love, lovest; loves.

(2.) Trwy chwanegiad o *est* yn yr ail, ac *es* yn y trydydd person, pan yn terfynu â *g* *a*, *o*, neu sain *s*, megys, *ch*—*tsh*, *sh*, *s*, *x*—*cs*, *z*: To huzza, huzzaest; huzzaes: to go, goest; goes: to catch, catchest; catches: to push, pushest; pushes: to cross, crossest; crosses: to vex, vexest; vexes: to buzz, buzzest; buzzes.

(3.) Trwy chwanegiad o *est* yn yr ail, ac *s* yn y trydydd person, pan yn terfynu â rhyw gydsain heblaw sain *s*: To talk, talkest; talks: to pull, pullest; pulls.

(4.) Trwy newid *y* ar ol cydsain i *ie*, a chwanegu *st* yn yr ail berson, ac *s* yn unig yn y trydydd: To reply, repliest; replies: to dry, driest; dries. Pan fyddo *y* ar ol llafariad, dilynir y drydedd reol: To delay, delayest; delays.

(5.) Trwy ddilyn y rheol yn § 784 (1): To dig, diggest; digs: to quit, quittest; quits.

§ 787. Gweler cyfarwyddyd i ffurfio treigliadau eraill y perwyddiaid yn § 669 a 677.

## ADENWAW O'R AIL FATH, NEU ADENWAW ANSODDEBOL.

§ 788. Mewn dosraniad manwl o adenwau ansoddebol, hawdd canfod pedair gradd o amrywiad yn cyfateb i'r egwyddor naturiol o gyfaddasiad; ond nid yw yn rheidiol manylu ar yr adraniadau hyn, fel ar eiddo y bath cyntaf o adenwau, sef y perwyddiaid.

§ 789. Gellir galw amrywiadau yr adenwau ansoddebol a gyfatebant i'r gwahanredion dosraniadol o fewnol, allanol, cymmysgedig, ac ammwysol, yn sylweddebol, moddiadol, cymmysgedig, a chymhariadol (§ 606, 2). Y cyntaf o'r gwahanredion hyn sy briodol yn benaf i natur ansoddol y peth a arwyddir, megys yn yr adenwau, *metallic*,<sup>1</sup> *wooden*,<sup>2</sup> *woollen*,<sup>3</sup> &c.; yr ail sy briodol i'r adenwau a ddynodant foddau allanol; megys, *round*,<sup>4</sup> *square*,<sup>5</sup> *triangular*,<sup>6</sup> &c.; y trydydd a ddynoda ansoddau o nodwedd cymmysgedig, yn dibynu ar yr ansoddau mewnol neu allanol, megys yn y geiriau *white*,<sup>7</sup> *smooth*,<sup>8</sup> *greasy*,<sup>9</sup> &c. Mae yn amlwg y gall peth o liw tywyll gael ei baentio yn wŷn, ac y gall peth arall fod yn naturiol wŷn, megys marm, eira; gan hyny gall yr amrywiad yma o'r eiddo adenw ddynodi naill ai ansawdd fewnol neu allanol. Y pedwerydd amrywiad sydd o natur ammwysol, oblegid gall wahaniaethu o ran gradd yn ol amgylchiadau allanol, heb oddef un newidiad o ran ei natur fewnol, megys yn y geiriau *small*,<sup>10</sup> *large*,<sup>11</sup> *valuable*,<sup>12</sup> *useless*,<sup>13</sup> &c. Gellir ystyried yr un peth yn fawr neu fychan yn ol yr amgylchiadau. Nid yw ugain mil o bunnau ond dyled fechan i genedl, ond y mae 'n swm mawr i'w golli gan un dynsawd mewn chwareufa.

§ 790. Trefnir y pedwar amrywiad yma yn rheolaidd, ac archwilir y neilltuolion ymarferol, y sawl a berthynant yn benaf i'r pedwerydd amrywiad, sef yr ammwysol, a elwir yma ansoddebau cymhariadol.

§ 791. *Adenwau Ansoddebol.*

1. Ansoddebau sylweddebol,	Metallic, woollen, wooden, &c.
2. Ansoddebau moddiadol,	Round, square, angular, &c.
3. Ansoddebau cymmysgedig,	White, smooth, greasy, &c.
4. Ansoddebau cymhariadol,	Small, large, useless, &c.

§ 792. Prin y mae 'n rheidiol profi bod y gwahanredion hyn yn rhai gwirioneddol, er nad ydynt o nemmor bwys

<sup>1</sup> Delidol.<sup>5</sup> Yswâr.<sup>8</sup> Llyfn.<sup>11</sup> Mawr.<sup>2</sup> Codiog.<sup>6</sup> Trianglog.<sup>9</sup> Seimlyd.<sup>12</sup> Gwerthfawr.<sup>3</sup> Gwlanog.<sup>7</sup> Gwyn.<sup>10</sup> Bychan.<sup>13</sup> Diddefnydd.<sup>4</sup> Crwn.

ymarferol. Hawdd deall y gall yr un sylwedd feddu gwahanol ffurfiau a lliwiau; y gall sylwedd delidol fod naill ai crwn neu yscwâr, gwyn neu goch, llyfn neu arw; ac y gall peth crwn fod naill ai mawr neu fychan, ireidlyd neu lân, gwlyb neu sych. Er hyny, yr unig fantais ymarferol o wahaniaethu neilltuolion yr adenwau ansoddebol, a seilir ar wahanol raddau cymhariad, a gynnrychir gan y pedwerydd amrywiad, ond sy briodol i'r tri eraill hefyd.

§ 793. Yn y Seisneg ni wahanredir ansoddeb gan berson, rhif, cenedl, na chyflwr. Dywed y Seison,

*A good man, a good woman, good people, of good fortune.*<sup>1</sup>

Yr un ffurf a roddant hwy i'r ansoddeb bob amser, pynag pa fodd y gall person, rhif, cenedl, neu gyflwr yr enw a wasanaetha fod; ond y mae graddau cymhariad yn gofyn newidiad yn ffurf yr ansoddeb; megys,

Good, better, best.—Da, gwell, goreu.

§ 794. Y graddau cymhariad hyn a elwir yn gyffredin y gyssefin, y gymhariadol, a'r eithafol, a defnyddir hwynt mewn dull cyfeiriol a gwrthdroawl; megys,

Good, better, best.—Bad, worse, worst.

§ 795. Gallai fod pedwerydd gwahanrediad i adrithio gradd ganolig neu ammwysol o gymhariad, ond gan na chaniateir ond tair gradd yn y Seisneg, ni wiw ymdroi efo'r bedwaredd.

§ 796. I ddynodi cymhariad ansoddebau Seisnig, gellir dywedyd naill ai

Wise, more wise, most wise.—Doeth, mwy doeth, mwyaf doeth; Neu,

Wise, wiser, wisest.—Doeth, doethach, doethaf.

Ond cyfyngir y dewisiad yma at ychydig eiriau o un neu ddau sill, canys pan gynnwys yr ansoddeb dri sill neu chwaneg, rhaid defnyddio y geiriau *more* a *most* i ddynodi graddau cymhariad, oblegid ystyrid mai annheleidiw fyddai dywedyd

Despotic, despoticker, despotickest.

Arglwyddaid, arglwyddeiddiach, arglwyddeiddiaf.

Yn lle

<sup>1</sup> Dyn *da*, dynes *da*, pobl *da*, o ffawd *da*, a ddywed y Seison, yn lle dyn *da*, dynes *dda*, pobl *dda*, o ffawd *da*. Yn y Gymmraeg gwahanredir ansoddeb yn fynyh gan genedl a rhif: dyn *coch*, *red* man; dynes *goch*, *red* woman; merched *cochion*, *red* women.

Despotic, more despotic, most despotic.

Arglwyddaidd, mwy arglwyddaidd, mwyaf arglwyddaidd.

§ 797. Mae afreoledd treigliad yngraddau cymhariad ansoddebau yn gyffelyb i'r eiddo enwau a pherwyddiaid: fel bath o gyfarwyddyd cyffredinol i ffurfio gwahanol raddau cymhariad, sylwer yn fanwl ar yr engreiffiau a ganlynant:—

§ 798.

	<i>Cyssefin.</i>	<i>Cymhariadol.</i>	<i>Eithafol.</i>
1.	{ Kind Rich Neat Gay	kinder richer. neater gayer	kindest. richest. neatest. gayest.
2.	{ Wise Brave	wiser braver	wisest. bravest.
3.	{ Red Big Hot	redder bigger hotter	reddest. biggest. hottest.
4.	{ Pretty Lonely Dry	prettier lonelier drier	prettiest. loneliest. driest.
5.	{ Good Bad Much Little	better worse more less	best. worst. most. least.
6.	{ Despotic General	more despotic more general	most despotic. most general.

§ 799. Pan derfynno ansoddeb â dwy gydsain, neu âg un gydsain ar ol sain hir llafariad, neu â *y* ar ol llafariad, ffurfir y radd gymhariadol trwy chwaneu *er*, a'r eithafol, *est*, at y gyssefinradd, megys yn yr engraifft gyntaf.

§ 800. Pan derfynno yr ansoddeb cyssefin yn *e*, chwaneu *r* yn y radd gymhariadol, ac *st* yn yr eithafradd, fel yn yr ail engraifft.

§ 801. Pan derfynno y gyssefinradd âg un gydsain ar ol un llafariad fer, dyblir y gydsain yn y ddwy radd arall, a chwaneu *er* yn y radd gymhariadol, ac *est* yn yr eithafol, megys yn y drydedd engraifft.

§ 802. Pan derfynno y gyssefinradd yn *y* ar ol cydsain, newidir *y* i *ie* yn y ddwy radd arall, a chwaneu *r* yn y radd gymhariadol, ac *st* yn yr eithafol, fel yn y bedwaredd engraifft.

§ 803. Y geiriau sydd yn y bummed engraifft a gymharir yn afreolaidd; a gellir ystyried y gyfres ganlynol yn perthyn i'r un dosparth:—



<i>Cyssefin.</i>	<i>Cymhariadol.</i>	<i>Eithafol.</i>
Far	farther	farthest.
Near	nearer	nearest, <i>neu</i> next.
Fore	former	foremost, <i>neu</i> first.
In	inner	iamost.
Out	outer	outmost, <i>neu</i> utmost.
Low	lower	lowest, <i>neu</i> lowermost.
Late	later, <i>neu</i> latter	latest, <i>neu</i> last.
Old	older, <i>neu</i> elder	oldest, <i>neu</i> eldest.

§ 804. Y dull o ddynodi graddau cymhariad sydd yn y chweched engraifft (§ 799), a ddewisir yn gyffredin pan gynwysa yr ansoddeb cyssefin fwy na dau sill; a gellir cymhwyso y dull yma at yr holl engreiffiau.

§ 805. Mae rhai ansoddebau heb y radd gyssefin; megys,

<i>Cyssefin.</i>	<i>Cymhariadol.</i>	<i>Eithafol.</i>
	further	furthest.
	hither	hithermost.
	nether	nethermost.
	under	undermost.

§ 806. Mae eraill heb y radd gymhariadol:—

<i>Cyssefin.</i>	<i>Cymhariadol.</i>	<i>Eithafol.</i>
Top		topmost.
Down		downmost.
North		northmost.
Head		headmost.

§ 807. Nis cofid, pan yn ysgrifenu yr § 796, yr arferir y radd ammwysol yn bur fynych yn y Seisneg, er nad yw grammadegwyr cyffredin yn crybwyll am dani. Ei harwyddion yw *as, so, very, exceedingly, &c.*; megys,

*As white as snow.*—Can wyned a'r eira.

*So far as I was able.*—Mor bell ag y gallwn.

*Very bad job.*—Tasg ddrwg iawn.

It is *exceedingly* good.—Mae yn dda ragorol, &c.

#### ADENWAW O'R TRYDYDD BATH, NEU ADENWAW DYNODIADOL.

§ 808. Yn gysson â'r egwyddor naturiol o ddosraniad, canfyddir pedwar amrywiad o adenwau dynodiadol (§ 606, 3), y sawl a drefnir yn rheolaidd fel hyn:—

§ 809. *Adenwau dynodiadol.*

- |  |   |
|--|---|
| 1. Dynodiaid pennodol, <sup>1</sup>    | { The, this, his.<br>One, two, ten.       |
| 2. Dynodiaid amhennodol, <sup>2</sup>  | { A, many, several.<br>Others, some, any. |
| 3. Dynodiaid cymmysgedig, <sup>3</sup> | { All, none.<br>Each, every.              |
| 4. Dynodiaid ammwysol, <sup>4</sup>    | { Only.<br>Sole.                          |

§ 810. Mae gwahanol amrywiadau yr adenwau dynodiadol wedi cael eu deffinio mewn dull pur ddyrlyd gan ram-madegwyr dan yr enwau o fannodau pennodol ac amhennodol, neu derfynol ac annherfynol (*a, the*), rhagenwau dangosiadol, dosparthol, a meddiannol (*this, each, his*), ansoddeiriau cyffredin (*some, others*), &c. &c. Mae yn eithaf amlwg fod y gwahanol eiriau hyn yn perthyn i'r un bath cyffredinol o adenwau dynodiadol; ac mai llawer cyssonach a symlach ydyw eu dosparthu dan un enw cyffredinol, megys y gwahanredwyd y bath cyntaf a'r ail o adenw wrth yr enwau perwyddiaid ac ansoddebau. Nid yw yr adraniadau, fel y sylwyd lawer gwaith, o nemmor bwys, gan eu bod oll o'r un ansawdd, ac yn gweini yr un swydd gyffredinol mewn ymadrodd.

§ 811. Gwneir y daflen § 810, o'r pedwar bath dynodiaid, yn eithaf eglur trwy yr ychydig engreiffitiau a roddwyd ymhob un. Mae yn amlwg fod y geiriau *the, this, his, hers, one, two*, &c. yn dynodi enwau mewn dull pur bennodol: fod *a, any, several, many, some, others*, &c. yn dynodi enwau mewn modd amhennodol: nad yw *all, none, each, every*, &c. yn ddynodiaid pur bennodol na phur amhennodol, ac am hyny y gellir eu dosparthu fel gradd gymmysgedig; a bod *only, sole*, &c. o natur ammwysol (fel y mae'r pedwerydd rhif bob amser), nid yn unig am eu bod weithiau yn bennodol ac weithiau yn amhennodol, ond hefyd, am eu bod weithiau yn adenwau yn gwasanaethu enwau, ac weithiau yn oradenwau yn gwasanaethu adenwau. Er engrafft—fel adenwau,

He is the *only* man.—Efe ydyw yr unig ddyn.

Fel goradenwau,

We are *only* joking.—Cellwair yn unig yr ydym ni.

<sup>1</sup> Definite indicatives—y, hwn, ei; un, dau, deg.

<sup>2</sup> Indefinite indicatives—(*a*, “bannod amhennodol:” dynoda unigedd; *a man, dyn*), llawer, amryw; eraill, rhyw, unrhyw.

<sup>3</sup> Mixt indicatives—oll, dim; pob un, pawb.

<sup>4</sup> Ambiguous indicatives—unig, unigol.

ADENWAU O'R PEDWERYDD BATH, NEU ADENWAU  
CYFARTAL.§ 812. *Adenwau Cyfartal.*

1. Cyflwr deilliadol enwau.—The genitive case of nouns.
2. Cyflwr meddiannol enwau.—The possessive case of nouns.
3. Cyflwr mewn-ddeilliadol enwau.—The intra-genitive case of nouns.
4. Cyflwr gorddeilliadol enwau.—The ultra-genitive case of nouns.

§ 813. Nid yw y rhai hyn na mwy na llai na chyflyrau adenwol y gwahanol fathau o enwau, yn gwasanaethu fel adenwau, ac am hyny a elwir adenwau cyfartal (§ 606). Rhoddir hwynt i fewn yn benaf er mwyn rheoledd; canys, mewn ymarferiad, llyncir hwynt i fyny gan y cyflwr adenwol cyffredinol, a eglurwyd yn helaeth yn § 570 a 585. Er hyny, mae yr amrywiadau yn hanfodi, fel y dengys yr engreifftiau byrion isod yn amlwg:—

*Y cyflwr adenwol cyffredinol.*

- |                             |  |
|-----------------------------|--|
| 1. Cyflwr deilliadol,       | A basket of wood, i.e. a wooden basket. <sup>1</sup>           |
| 2. Cyflwr meddiannol,       | A basket of mine, i.e. my basket. <sup>2</sup>                 |
| 3. Cyflwr mewn-ddeilliadol, | A basket of wood, i.e. a basket filled with wood. <sup>3</sup> |
| 4. Cyflwr gorddeilliadol,   | A basket of value, i.e. a valuable basket. <sup>4</sup>        |

§ 814. Yn awr, tybir y rhoddwyd deffiniad lled gyflawn o ail ddosparth cyffredinol geiriau, a elwir adenwau. Yn ol y radd seml o wahanrediad dosraniadol, canfyddwyd pedwar bath gwahanol o adenw, a phedwar amrywiad gwahanol ymhob bath: perwyddiaid gweithredol, goddefol, canolig, ac adgyrchol, ansoddebau sylweddebol, moddiadol, cymmysgedig, a chymhariadol; dynodiaid pennodol, amhennodol, cymmysgedig, ac ammwysol; cyflyrau deilliadol, meddiannol, mewn-ddeilliadol, a gorddeilliadol enwau (Edr. § 606).

§ 815. Mae y geiriau hyn oll o'r un dosparth swyddogol cyffredinol ynghyfansoddiad broddeg: gweision uniongyrchol enwau ydynt, a gall pob rhai o honynt hwythau gael eu cynnorthwyo yn eu swyddi gan is-weision a elwir goradenwau.

<sup>1</sup> Baced o goed, h. y. basced goed.

<sup>2</sup> Baced i mi, h. y. fy masced.

<sup>3</sup> Bacedaid o goed, h. y. basced wedi ei llenwi â choed.

<sup>4</sup> Baced o werth, h. y. basced werthfawr.

§ 816. Mae yr is-weision hyn o wahanol fathau, er eu bod oll yn perthyn i'r trydydd bath cyntefig — graddenwau (§ 500); ac y mae eu gwahanol amrywiadau yr un mor lluosog a'r eiddo y ddau ddosparth arall o eiriau—enwau ac adenwau. Daw hyn yn amlwg fel yr eir ymlaen efo 'r deffiniad.



## TRYDYDD DOSPARTH CYFFREDINOL GEIRIAU, NEU ARWYDDION DELFRYDAU.

### *Deffiniad Goradenwau.*

§ 817. Gan fod yr egwyddor ddosraniadol a ddilynwyd hyd yn hyn, yn gyffredinol o ran cyfaddasiad, canfyddir pedwar bath gwahanol o oradenwau, a phedwar amrywiad ymhob bath, yn cyfateb i'r gwahanredion cyffredinol o fewnol, allanol, cymmysgedig, ac ammwysol. Mae y gwahanredion hyn yn cynnwys y geiriau a elwir yn gyffredin goreiriau, arddodiaid, a chyssylltiaid; ac, er mwyn cydymffurfio hyd y gellir â'r arferiad cyffredin, mabwysir hen enwau i ddynodi deffiniadau newyddion.

### GORADENWAU O'R BATH CYNTAF (GOREIRIAU).

#### § 818. *Goradenwau syml, neu Oreiriau.*

- |  |                |
|--|----------------|
| 1. Dullweddiad mewanol, <sup>1</sup>     | { Internally.  |
|  | { Organically. |
| 2. Dullweddiad allanol, <sup>2</sup>     | { Externally.  |
|  | { Adhesively.  |
| 3. Dullweddiad cymmysgedig, <sup>3</sup> | { Correctly.   |
|  | { Perfectly.   |
| 4. Dullweddiad ammwysol, <sup>4</sup>    | { Very, well.  |
|  | { Never, not.  |

### GORADENWAU O'R AIL FATH (CYSSYLLTIAID).

#### § 819. *Goradenwau cynghydiol, neu Gyssylltiaid.*

- |  |            |
|--|------------|
| 1. Cyssylltiad cydiadol, <sup>5</sup>    | And.       |
| 2. Cyssylltiad gwahaniadol, <sup>6</sup> | { Nor.     |
|  | { Neither. |

<sup>1</sup> Intrinsic modification.

<sup>2</sup> Extrinsic modification.

<sup>3</sup> Mixt modification.

<sup>4</sup> Ambiguous modification.

<sup>5</sup> Conjunctive connexion.

<sup>6</sup> Disjunctive connexion.

- |   |                                  |
|---|----------------------------------|
| 3. Cyssylltiad cymmysgedig, neu berthynol, <sup>1</sup> | { Perhaps, though, if, for.      |
|   | { Again, but, yet, or therefore. |
| 4. Cyssylltiad ammwysol, <sup>2</sup>                   | { How? why? too, also.           |
|   | { Since, verily, indeed.         |

## GORADENWAW O'R TRYDYDD BATH (GOREIRIAU).

§ 820. *Goradenwau syml atddodol, neu Oreiriau.*

- |   |                     |
|---|---------------------|
| 1. Atddodiad rhoddiadol, <sup>3</sup>             | { Here, herein.     |
|   | { Towards, aground. |
| 2. Atddodiad gwrthodol, <sup>4</sup>              | { Thence, froward.  |
|   | { Contrarily, off.  |
| 3. Atddodiad amredol, <sup>5</sup>                | { About, between.   |
|   | { Underneath.       |
| 4. Atddodiad canolig, neu berthynol, <sup>6</sup> | { Nearly.           |
|   | { Relatively.       |

## GORADENWAW O'R PEDWERYDD BATH (ARDDODIAID).

§ 821. *Goradenwau cyfartal, neu Arddodiaid.*

- |  |                        |
|--|------------------------|
| 1. Rhoddiadol fanynau atddodol, <sup>7</sup> | { To, at, in, on, for. |
|  | { Ad, per, pro, con.   |
| 2. Gwrthodol fanynau atddodol, <sup>8</sup>  | { From, off.           |
|  | { Ab, ex.              |
| 3. Amredol fanynau atddodol, <sup>9</sup>    | { With, by.            |
|  | { Of, about.           |
| 4. Perthynol fanynau atddodol, <sup>10</sup> | { Near, by, up.        |
|  | { Under, over, sub.    |

§ 822. Mae y bath cyntaf o oradenwau yn cynnwys braidd yr holl eiriau a ffurfir trwy gysylltu *ly* at yr adenwau rheolaidd o'r sawl y tarddant; megys, *quick, quickly: slow, slowly; warm, warmly, &c.* Dyma y rhai sydd yn ffurfio y dosparth lluosocaf o is-weision, ac y mae 'n hawdd eu gwahaniaethu oddiwrth bob goradenwau eraill.

§ 823. Hefyd, mae amryw oradenwau unigol nas tarddant o adenwau. Mae yr enw cyffredin gorair neu adferf yn rhy gyfyng o lawer i ddynodi eu harwyddocâd: canys gwasanaethant bob bath o adenwau, yn gystal a pherwyddiaid. Galwyd hwynt yma yn oradenwau syml (§ 820), am y gwasanaethant adenwau syml yn unig; hyny yw, dullweddant

<sup>1</sup> Mixt, or relative connexion.<sup>2</sup> Ambiguous connexion.<sup>3</sup> Dative annexion.<sup>4</sup> Ablative annexion.<sup>5</sup> Ambient annexion.<sup>6</sup> Neutral, or relative annexion.<sup>7</sup> Dative annexive particles.<sup>8</sup> Ablative annexive particles.<sup>9</sup> Ambient annexive particles.<sup>10</sup> Relative annexive particles.

D.S...Rhaid i'r efrdydd ymofyn â'i eiriadur am gyfieithiad o'r engreiffitiau, o ddiffyg lle.

ystyr adenwau unigol, ond ni chyssylltant amryw eiriau ynghyd. Dosparthwyd hwynt yn bedwar amrywiad, er nad yw yr adraniadau o nemmor bwys ymarferol.

§ 824. Y goradenwau o'r bath cyntaf (§ 818) a ddullweddant adenwau mewn modd uniongyrch; y goradenwau o'r trydydd bath (§ 820) a ddullweddant adenwau mewn modd anuniongyrch (*indirect*) neu berthynol. Mae y bath cyntaf a'r trydydd yn cynnwys y geiriau a elwir yn gyffredin gor-eiriau (*adverbs*). Y goradenwau o'r ail fath (§ 819) a wasanaethant i gydio dau neu chwaneg o wahanol adenwau mewn modd uniongyrch neu anuniongyrch. Banynau y pedwerydd bath (§ 821) a wasanaethant i ffurfio cyflyrau goradenwol enwau er eu cymhwyso i weithredu fel goradenwau o'r bath cyntaf a'r trydydd, cyfatebol i oreiriau, ond weithiau gwasanaetha y banynau hyn fel swyddwisgoedd i enwau, er eu gwneyd yn gyfatebol i oreiriau (*adverbs*), ac weithiau gweithredant yn annibynol fel goradenwau cynghydiol (*connective*) neu gyssylltiad. Defnyddir y banyn *for* yn fynych fel goradenw cynghydiol annibynol, ac yn fynychach fyth fel banyn syml atddodiadol; eithr nid yw y gwahaniaeth yma ond dibwys, gan mai goradenw neu iswas ydyw y banyn *for* ymhob amgylchiad.

§ 825. Mae rhai o'r goradenwau, a elwir goreiriau, yn goddef graddau cymhariad fel yr adenwau ammwysol neu gymhariadol; megys, *soon, sooner, soonest; often, more often, most often; properly, more properly, most properly*: ac mewn dull lleihaol trwy flaendodi *less a least*; megys, *bravely, less bravely, least bravely*. Eraill, yn ol yr un egwyddor, a gynnorthwyant eu gilydd i gryfhau neu uwchâu gradd y dullweddiad; megys, *very well disposed; too carelessly dressed; more than usually neglectful*.

§ 826. Byddai yn dda i'r efrdydd ddeall y gwahanol fathau o oradenwau yn drwyadl; ond nid oes achos iddo fanylu efo'r adraniadau. Rhaid cofio bod ffurf y goradenw yn hollol annibynol ar ei swydd neilltuol, canys gall yr un gair fod weithiau yn fanyn o'r pedwerydd bath, weithiau yn oradenw syml o'r trydydd bath, ac weithiau yn oradenw cynghydiol neu gyssylltiad o'r ail fath. Mae ychydig o sylw manwl yn ddigon er deall hyn; ond os digwydd i feddwl yr efrdydd fod mewn peth dryswch ar y dechreu gyda'r manwl wahanredion sydd yn nosparth cyffredinol goradenwau, gall ymfoddloni trwy ddeall bod holl amrywiadau y dosparth hwn, ymhob sefyllfa yn ddiethrad, yn gweithredu fel isweision i adenwau, pynag pa un ai gweini i ddullweddu un adenw, ai i gydio dau adenw, ynte i ddynodi perthynas un adenw âg un arall fel atddodiad.

§ 827. Er mwyn eglurhau natur y goradenwau, archwilir ychydig o engreiffiau, mor fyr ag y gellir. Mae rhai wedi bod mewn ffwdan dirfawr gyda'r geiryn *and* sydd yn yr engraifft ganlynol:—

The king *and* the queen are a handsome couple.

“Oblegid,” meddant, “nis gallwn ddywedyd,

The king is a handsome couple, *and* the queen is a handsome couple.”

Os ystyrir ychydig, canfyddir bod y dyryswch yn cael ei achosi gan anghyssondeb arbwylllegol (*logical*), ac nid gan afreoledd grammadegol. Can belled ag y perthyn i gysylltiad grammadegol geiriau,

The king *is*, *and* the queen *is*,

neu,

The king *and* the queen *are*,

ac, yn arbwylllegol, y maent (*they are*), yn wahanredol neu yn gydgysylltiol, yr hyn y dengys gwirionedd eu bod. Ynghyd, maent yn bâr; yn wahanredol, maent yn ddau o unigolion. Sylwer, mae y gair *and* yn gweini i gydio perwyddiaid, hyd y nod pan yr ymddengys yn cydio enwau. Pan ddywedir,

The king *and* the queen are a handsome couple,

ymddengys fel pe gweinyddai y gair *and* yn uniongyrch i gydio y geiriau *king* a *queen*, ond nid felly y mae. Gweini yn anuniongyrch i gyssylltu y ddau enw hyn y mae, am y gweinydda yn uniongyrch i gyssylltu eu hadenwau pennodol. Pan ddywedir,

The king *is*, and the queen *is*,

mae y gair *and* yn cydio y ddwy froddeg fer ynghyd, ac am hyny fe'i gelwir cyssylltiad, ond hawdd profi mai cydio eu moddau o fodoli y mae mewn dull uniongyrch, a'r enwau eu hunain yn unig trwy gyfrwng eu moddau pennodol. Cymmaint ag sydd yn rheidiol i wneyd y ddwy froddeg yn un, ydyw gwneyd y ddau berwyddiad unigol yn un lluosog trwy gyfrwng y goradenw cynghydiol *and*, a dywedyd,

The king *and* the queen *are*.

Yn lle,

The king *is*, and the queen *is*.

Yn y ddau amgylchiad, er hyny, cydio yr adenwau perwyddol y mae y cyssylltiad, a'r ddau enw i'r sawl y perthynant a gydir trwy hyny mewn un modd cyffredin o fod. Mae gwir gydiad enwau yn beth hollol wahanol; yn lle gosod y gair *and* rhwng dau enw gwahanredol, cynnwysir yr enwau yn un corff o rif lluosog; fel hyn,

That *man* is learned, *and* the other *man* is learned.

Neu,

Those *men* are both learned.

Yn yr amgylchiad yma, mae y cyssylltiad *and* yn diflannu, oblegid gwedi i'r ddau enw unigol, *man*, ddyfod yn un enw lluosog, *men*, nid yw y cyssylltiad mwyach yn rheidiol i gydio y ddau berwyddiad unigol, nac yn wahanredol, nac yn un perwyddiad lluosog, am fod yr un enw lluosog yn naturiol yn cymmeryd perwyddiad lluosog.

§ 828. Gan hyny, y cyssylltiaid cydiadol a'r gwahaniadol a weinyddant i ddullweddu moddau, trwy gydio adenwau naill ai yn wahanredol ai yn gyssylltedig.

(1.) I *am* ignorant *AND* he *is* ignorant; *neu*, He *AND* I (*we*) are ignorant.

Myfi *wyf* anwybodus *AC* efe *sydd* anwybodus; *neu*, Efe *A* mi (*nyni*) *ydym* anwybodus.

(2.) *NEITHER* he *NOR* I are learned; he *is* *NOT* learned, *NOR* *am* I.

Efe *NA* mi *NID* *ym* ddysgedig; efe *NID* yw ddysgedig, minnau *NID* *wyf*.

(3.) Edward *is* young *AND* delicate; *neu*, Edward *is* young *AND* Edward *is* delicate.

Iorwerth *sydd* ieuanc *A* llednais; *neu*, Iorwerth *sydd* ieuanc *A* Iorwerth *sy* lednais.

(4.) I *saw* John *AND* Owen.—Mi *welais* Ioan *AC* Owain.

Yn y froddeg yma (4), nid diben y gair *and* yn uniongyrch yw cydio y geiriau *John and Owen*; ei ddiben yw ailadrodd y perwyddiad *saw*; megys,

I *saw* John *AND* I *saw* Owen.

Mi *welais* Ioan *AC* mi *welais* Owain.

§ 829. Pan yr ymddengys y cyssylltiad *and* fel yn cydio dau enw neu ddau adenw cyffredin (ansoddeb), gellir sicrhau bod y froddeg naill ai yn cynnwys dau berwyddiad mewn un ffurf lluosog, megys,

The king *and* the queen are,

neu ailadroddiad o berwyddiad a grybwyllir unwaith yn unig, megys,



Edward *is* young and delicate.

I *saw* John and Owen.

§ 830. Mae y bathau eraill o oradenwau cynghydiol yn gyffelyb o ran eu swyddi.

I would go to town to-morrow, *if* I had time.

Mi awn i'r dref yfory, *pe* cawn amser.

Yma, y gair *if* a gydia fodd neu sefyllfa yr ail ragenw—*I*, â'r eiddo y cyntaf: *h. y.* cydia ddau fodd gwahanol o fod, perthynol i'r un person neu beth.

§ 831.

(1.) I dislike that sauce, *because* it is bitter.

Anhoffwyf y sibr yna, *am* ei fod yn chwerw.

(2.) I prefer this, *for* its sweetness.

Wyf yn dewis hwn, *oherwydd* ei bereiddiwch.

Yn y froddeg gyntaf, y gair *because* a gydia y geiriau *it is* âg *I dislike*, neu y ddwy sefyllfa a adroddir gan y perwyddiaid, *is* a *dislike*, y rhai ydynt brif foddau dwy froddeg wahanol wedi eu cydio ynghyd gan y cyssylltiad *because*. Trwy adael y cyssylltiad allan, fel hyn—

I dislike that sauce ; it is bitter,

ffurfir dwy wahanol froddeg seml yn un gymmlyg (*complex*).

§ 832. Yn yr ail froddeg, y gair *for* a wasanaetha ragenw yn ei ffurf adenwol, trwy yr hyn y gweinydda swydd goradenw. Y gair *its* sydd adenw, o'r un ystyr ag *of it*: gan fod *The sweetness of it*, yn gyfystyr âg *its sweetness*.

§ 833.

I hope *that* you may succeed.

Wyf yn gobeithio *y* llwyddwch.

I hope *for* your success.—Gobeithiaf *am* eich llwyddiant.

Yn y broddegau hyn, mae i'r goradenwau *that* a *for* ystyr cyffelyb, er bod un (*that*) yn cael ei alw yn gyffredin, cysylltiad, a'r llall, arddodiad. Y gair *that*, a gydia yr adenw perwyddol *hope* a *may succeed*; a'r gair *for* a atddoda (*annex*) yr adenw ansoddebol *your* at yr adenw perwyddol *hope*. Y gwahaniaeth dibwys yma yn natur ei swydd yw yr achos ei fod yn perthyn i'r pedwerydd bath o oradenw, gan ei fod o radd gymmysgedig rhwng y goradenw syml a wasanaetha yn unig i un adenw, a'r goradenw cynghydiol a weinydda i gydio dau neu chwaneg o adenwau. Gwahaniaethwyd y bath cymmysgedig yma o oradenw â'r gair atddodol (*annexive*), i ddangos nas dichon i ddau adenw o wahanol fath gael eu cydio yn gyfymlyn er ffurfio un adenw lluosog, fel dau adenw perwyddol o'r un ystyr. Profa hyn

y byddai hyn yn fwy priodol galw y goradenwau cynghyd-  
iol, neu y cyssylltiaid, yn adferfau, nag un bath arall o  
oradenw, canys y rhai hyn yw yr unig fath o oradenw a  
gyflwynir yn hollol at wasanaeth adenwau perwyddol; mae  
y bathau eraill o oradenwau yn gwasanaethu pob bath o  
adenwau braidd yn ddiwahaniaeth.

§ 834. Yn y broddegau a ganlynant, mae y gair *since* yn  
yr ail, y trydydd, a'r pedwerydd bath o oradenw, a elwir yn  
gyffredin cyssylltiaid, goreiriau (*adverbs*), ac arddodiaid:—

1. Fel cyssylltiad (§ 820)—

We must part, *since* it is necessary.

Rhaid i ni ymadael, *gan* ei bod yn anghenrheidiol.

2. Fel gorair (§ 821)—

Our friendship commenced long *since*.

Dechreuodd ein cyfeillach *ers* talm.

3. Fel arddodiad (§ 822)—

We have not seen him *since* Christmas.

Nis gwelsom ef *er* y Nadolig.

§ 835. Efallai mai y deffiniad egluraf o'r gwahanredion  
hyn yn nodwedd goradenwau ydyw, bod gorair ar ol yr  
adenw a wasanaetha, yn gwneyd synwyr cyflawn heb unrhyw  
air ychwanegol; bod arddodiad ar ol yr adenw a wasanaetha  
yn gofyn o leiaf un enw i gyflawni synwyr yr ymadrodd; a  
bod cyssylltiad yn gofyn broddeg gyfan, naill ai yn adrodd-  
edig ai yn ddealledig, i gyflawni ei swydd o gynghydiad  
(*connexion*):—

(1.) We talk *incessantly*.—Siaradwn *yn ddiidawl*.

(2.) We talk *to*.—Siaradwn *wrth*.

(3.) We talk *that*.—Siaradwn *fel*.

Y froddeg gyntaf, yr hon sy gyflawn, a ddengys bod y gor-  
adenw *incessantly* yn orair; yr ail froddeg, gan y gofyna, o  
leiaf, un enw i gyflawni ei synwyr, a ddengys bod y banyn  
atddodol *to* yn arddodiad: gellid cyflawni y froddeg â'r  
rhagenw *you*, neu ryw enw arall:—

We talk *to you*.—Siaradwn *wrth-ych*.

Y drydedd froddeg, gan nas gellir ei chyflawni âg enw unig-  
ol, a ddengys bod y gair goradenwol yn fanyn cynghyd-  
iol neu gysylltiad, ac nid banyn atddodol yn unig neu arddod-  
iad. Gofyna adenw, ac o ganlyniad enw, a wasanaethir gan

yr adenw hwnw, sef, gofyna froddeg gyflawn i gyflawni ei hystyr:—

We talk, *that* you may be amused.—Siaradwn *fel* ych diddaner.

§ 836. Mae cyssylltiad neu fanyn cynghydiol, nid yn unig yn gofyn enw ac adenw i gyflawni ei ystyr, ond hefyd gofyna i'r enw a'r adenw fod yn y cyflwr enwol. Gall arddodiad neu fanyn atddodol, oddef enw ac adenw, neu amryw enwau ac adenwau i gyflawni ei synwyr; ond gan y bydd y geiriau hyn mewn cyflwr israddol, ni fyddant ond atddodol i'r enw a'r adenw blaenorol a fyddo yn y cyflwr enwol; megys,

We talk *to* your old friend John Maddock.

Adenwau o wahanol fathau, gan hyny, a atddodir trwy gyfrwng arddodiaid, ac adenwau o'r un bath a gydir trwy gyfrwng cyssylltiaid; ond digwydda yn fynych bod yr un bany goradenwol yn gweini i gyssylltu adenwau o'r un bath, ac i atddodi adenwau o wahanol fathau, ac yna a elwir naill ai arddodiaid ai cyssylltiaid, fel y bo'r achos.

§ 837. Eto, mae yn hawdd gwahaniaethu rhwng y ddau nodwedd, canys, os atddodol yn unig fydd y bany goradenwol, cyflawna y chwanegiad o'r gair *something* ei synwyr; ond, os cynghydiol neu gydiadol fydd, dengys y chwanegiad o'r gair *something* na fydd y synwyr yn gyflawn. Bydd yn hawdd profi y gyfres ganlynol o fanynau goradenwol wrth y brofeg (*experiment*) yma:—

We look *for* (something).—Edrychwn *am* (rywbeth).

We hope *that*.—Gobeithiwn *mai*.

We hope *but*.—Gobeithiwn *ond*.

We fear *lest*.—Ofnwn *rhag*.

We fear *more than* (you).—Ofnwn yn fwy *na* (chwi).

We expect; *though*.—Disgwyliwn; *er*.

We expect this, *or* (that).—Disgwyliwn hyn, *neu* (hyny).

We shall go, *if*.—Nyni a awn, *os*.

We shall go *in* (something).—Nyni a awn *mewn* (rhywbeth).

We must go *to* (London).—Rhaid i ni fyned *i* (Lundain).

We shall write, *unless*.—Rhaid i ni ysgrifenu, *oddi-eithr*.

We must go, *since*.—Rhaid i ni fyned, *gan*.

We have walked *since* (noon).—Rhodiasom *er* (canol dydd).

§ 838. Y bany nau *or* a *than* yn y gyfres uchod, ydynt gysylltiaid, er y gellid eu cyflawni trwy y chwanegiad o enw unigol, ond nid yw hyny yn diddymu y rheol: yn unig ffurfia eithrad perthynol i'r bany nau a arwyddant ailadroddiad

o'r adenw blaenorol, neu adroddiad o adenw a fyddo yn ddealedig trwy yr enw fydd yn y cyflwr enwol; megys,

We expect this *or* that ;

sef,

We expect this, *or* we expect that.

We fear more *than* you ;

sef,

We fear more *than* you fear.

Y banynau y gellid eu cymmeryd mewn camsyniad fel arddodiaid yn y fath amgylchiadau, ydynt gyssylltiaid braidd bob amser, y sawl ni wasanaethant byth megys banynau atddodol yn unig.

§ 839. Defnyddir y gair *both* weithiau fel adenw dynodiadol, ac weithiau fel gorair, ond bydd yn hawdd ei wahaniaethu yn y ddwy sefyllfa. Mewn gwirionedd, ni ddylid un amser ei ystyried yn adenw, canys ymddangosiad yn unig o adenw a gymmer trwy effaith adroddiad tolieithol. Pan ddywedir,

*Both* servants are ill.—Mae 'r *ddau* was yn glaf, mae 'n amlwg y dylid dywedyd,

*Both of the servants* are ill.—Mae *dan* o'r *gweision* yn glaf :

ac yn y sefyllfa yma mae y gair *both* yn oradenw yn gwasanaethu y geiriau, *of the servants*, yr hyn sy gyflwr adenwol neu adenw cyfartal. Pan ddywedir,

They are *both* feeble and feverish.

Maent yn weinïon a thwymynog,<sup>1</sup>

ystyr y gair *both* yw, *at the same time* :

They are feeble, and *at the same time*, they are feverish.

Yn y ddwy engraffft mae y swydd yn oradenwol.

§ 840. Ymddengys bod y banynau bychain hyn wedi peru y ffwdan mwyaf i ieithegwyr dysgedig ymhob oes; canys dywed yr enwog ddoethwr Johnson,

“ Mae y banynau ymysg pob oenedl yn cael eu defnyddio gyda'r fath eangder, fel nad hawdd yw eu dwyn dan unrhyw gynllun rheolaidd o eglurhad. Nid yw yr anhawdsder yma yn llai, nac efallai yn fwy, yn y Seisneg nag mewn ieithoedd eraill. Mi lafuriais arnynt gyda diwydrwydd, ac hyderaf, gyda llwyddiant ; y fath, o leiaf, ag a ellir ddisgwyl mewn tasg, nad oes un dyn, pynag pa mor ddysgedig neu ddoethbyllus, wedi bod yn alluog i'w chyflawni.”

<sup>1</sup> D.S...Pan ddilynir y gair *both* gan *and*, megys uchod, ni chyfieithir *both* i'r Gymmraeg ond anfynych.

§ 841. Mae braidd yn rhyfedd fod profenau (*problems*) mor syml ag ydyw banynau iaith wedi dyrysau cymmaint ar enwogion “dysgedig a doethbwyllus;” pynag beth am hyny, mae yr adranau hyn, § 819—822, yn cynnwys cynllun rheolaidd o ddsraniad banynau pob iaith; a hyderir y gall yr efrydydd gael gwybodaeth drwyadl o’u natur a’u swyddi mewn ymadrodd, trwy gyfrwng yr eglurhad a roddwyd arnynt.

§ 842. Ynghyfansoddiad ymadrodd, anfynych y mae ’n angenrheidiol archwilio pa un a fydd goradenw yn gwasanaethu i gydio dau gyflwr enwol, ynte yn unig i gynnorthwyo enw er gweini adenw unigol; ymhob amgylchiad, gwasanaetha goradenwau i ddullweddu adenwau trwy amlygu gradd fewnol modd neu radd allanol cyssylltiad perthynol; a chymmaint ag a ddylid wybod yn benderfynol ydyw, bod goreiriau, arddodiaid, a chyssylltiaid yn perthyn i’r un dosparth o swyddogaeth ynghyfansoddiad geiriau. Rhoddir mwy o eglurhad ar hyn eto wrth ymdrin â chyfosodiad, a elwir cystrawen (*syntax*) goradenwau.

§ 843. Yn awr eir ymlaen i archwilio y pedwerydd dosparth cyffredinol o arwyddion delfrydau, yr hwn sydd o’r un nodwedd ammwysol ag ydyw y bedwaredd radd bob amser o eiddo yr egwyddor gyffredinol o ddsraniad a chyfaddasiad.

§ 844. Dilynir yr un egwyddor gyffredinol o ddsraniad, sydd yn cyfateb i’r geiriau—mewnol, allanol, cymmysgedig, ac ammwysol—wrth ymdrin â’r dosparth yma, ag a ddilynwyd yn y dosparthau eraill.

§ 845. Er nad yw y pedwerydd dosparth cyffredinol o swyddi ynghyfansoddiad broddegau, mewn ystyr priodol, yn gyfansoddedig o eiriau; eto, megys y mae ’r tri dosparth cyffredinol eraill yn gyfansoddedig o arwyddion delfrydau, felly hefyd y mae y pedwerydd; yr holl wahaniaeth rhyngddynt ydyw, bod y pedwerydd dosparth yn cael ei adrithio gan arwyddion yn unig, pan yr adrithir y tri eraill gan eiriau.

§ 846. Mae y dosparth yma yn cynnwys yr un nifer o fathau ac adraniadau a’r dospeirth eraill, fel y gwelir eto.

---

## Y PEDWERYDD DOSPARTH CYFFREDINOL O ARWYDDION DELFRYDAU.

### *Deffiniad Arwyddion a Marciau.*

§ 847. Yn y dosparth cyffredinol yma o arwyddion, adrithir rhai gan farciau pennodol, ac eraill gan nodwedd

neilltuol o ynganiad yn y geiriau yr effeithiant arnynt; ond mewn llawer o engreiffitiau, gadewir allan y naill a'r llall o'r moddau arwyddocaol hyn, o ysgrifeniad ac argraffiad arwyddion geiriol delfrydau.

§ 848. Wrth ddosranu yr arwyddion hyn a effeithiant ar ystyr geiriau mewn broddegau, rhaid peidio eu cymmysgu â'r rhai a effeithiant yn unig ar awyddocâd llythyrenau mewn sillau, nac â'r rhai a ddynodant gyfeiriadau ymylnodol (*marginal*), &c. Rhoddir taflen fer o'r rhai olaf hyn, ymmlaenaf, ac yna, prysurir i ymdrin yn fyr â'r lleill.

YR ARWYDDION ARFEROL NAD EFFEITHIANT YN UNIONGYRCH  
AR GYFANSODDIAD CYFFREDINOL GEIRIAU.

§ 849. *Arwyddion gwahanredol llythyrenau.*

Didolnod—Diæresis, " (aërial).

Hirnod—Long, ~ (färe).

Byrnod—Brave, ä, (fät).

§ 850. *Arwyddion cyfeiriadol mewn cyfansoddiad.*

Gwallnod—Caret, ^

Serenig—Asterisc, \*

Bideg—Obelisk, †

Bêr—Dagger, ‡

Dyblin—Parallel, §

§ 851. Heblaw y pum arwydd cyfeiriadol yna, mae eraill mewn arferiad; megys y rhifau 1, 2, 3, &c., ac weithiau y llythyrenau *a, b, c, &c.* Defnyddir hwynt oll i'r un diben, oddi eithr y gwallnod, yr hwn yn gyffredin a gyfyngir i ddynodi llythyrenau a geiriau a adewir allan yn amryfus o ysgrifenwaith, a'r lleoedd priodol i'w cyflëu.

§ 852. Yr arwyddion a effeithiant ar ystyr geiriau mewn ymadroddion a welir yn y tafleni a ganlynant. Trwy gymhwyso yr egwyddor gyffredinol o gyfaddasiad at ddosraniad y dosparth cyffredinol yma o arwyddion delfrydau, canfyddir yr adrithir y swyddi mewnol gan wahanol fathau o acan; y swyddi allanol, gan wahannodiad; y swyddi cymmysgedig, gan bwysleisiad; a'r swyddi ammwysol, gan arwyddion atddodol.

*Y bath cyntaf o arwyddion: Swyddi mewnol.*

§ 853. *Aceniad.*

- |                                     |           |
|-------------------------------------|-----------|
| 1. Acan fewnol—Intrinsic accent     | } ' ^ &c. |
| 2. Acan allanol—Extrinsic accent    |           |
| 3. Acan bwysiadol—Emphatic accent   |           |
| 4. Acan adlawiadol—Secondary accent |           |

*Yr ail fath o arwyddion: Swyddi allanol.*

§ 854. *Gwahannodiad* (Punctuation).

1. Y gwahannod, neu ostegiad mewnol.<sup>1</sup>
2. Y diweddnod, neu ostegiad allanol.<sup>2</sup>
3. Y goddiweddnod, neu ostegiad cymmysgedig.<sup>3</sup>
4. Nodau tonyddiad, neu ostegiad ammwysol.<sup>4</sup>

*Y trydydd bath o arwyddion; Swyddi cymmysgedig.*

§ 855. *Pwysleisiad* (Emphasis).

1. Pwysleisiad mewnol.<sup>5</sup>
2. Pwysleisiad allanol,<sup>6</sup>
3. Pwysleisiad perthynol.<sup>7</sup>
4. Pwysleisiad dynodiadol.<sup>8</sup>

*Y pedwerydd bath o arwyddion: Swyddi ammwysol.*

§ 856. *Atddodiad* (Annexation).

1. Y cyssylltnod, neu ddolen fewnol.<sup>9</sup>
2. Y wahansang, neu ddolen allanol.<sup>10</sup>
3. Y cyplysnod, neu ddolen gymmysgedig.<sup>11</sup>
4. Y tolnod, neu ddolen ammwysol.<sup>12</sup>

ACENIAD.

§ 857. Y bath cyntaf o arwyddion a ddynoda wahanol fathau o swydd fewnol, am yr effeithir ar ystyr yr un gair trwy osod yr acan ar wahanol sillau, megys yn y geiriau *contract* a *con'tract*. Ni ddefnyddir arwyddion aceniad ond anfynych mewn llyfrau, oddi eithr mewn grammadegau a geiriaduron; a chan fod ychydig gyfarwyddiadau wedi eu rhoddi eisys ar aceniad yn y rhan gyntaf o'r llyfr hwn, ni chaniata lle i helaethu yma ar y pwnc: efallai y ceir arfod yn fuan eto, i osod eglurhad cyflawn a desebol (*systematic*) ar holl gangenau gwyddor iaith, ger bron y Cymry.

§ 858. Sylwyd lawer gwaith wrth ymdrin â'r tri dosparth arall o arwyddion delfrydau—enw, adenw, a goradenw, nad

<sup>1</sup> Comma, or internal pause.

<sup>2</sup> Period, or external pause.

<sup>3</sup> Semi-period, or mixt pause.

<sup>4</sup> Notes of intonation, or ambiguous pause.

<sup>5</sup> Intrinsic emphasis.

<sup>6</sup> Extrinsic emphasis.

<sup>7</sup> Relative emphasis.

<sup>8</sup> Indicative emphasis.

<sup>9</sup> Hyphen, or internal link.

<sup>10</sup> Parenthesis, or external link.

<sup>11</sup> Brace, or mixt link.

<sup>12</sup> Apostrophe, or ambiguous link.

yw yr isadraniadau o nemmor bwys, ond y mae 'r dosparth hwn, y pedwerydd, yn wahanol; yma, nid yw yr adraniadau mor ddyrys ag eiddo y lleill, ac y maent yn fwy defnyddiol mewn ymarferiad. Byddai yn hawdd adranu y bath cyntaf, aceniad, yn gystal a'r tri bath arall; ond oherwydd yr hyn a ddywedwyd eisys, § 857, eir ymlaen yn ddiöed at yr ail fath o arwyddion a ddynoda swydd allanol, gostegiad, gwahannodiad (*punctuation*), a thônnyddiad (*intonation*).

§ 859. *Yr ail fath o arwyddion: Gwahannodiad.*

1. *Gostegiad mewanol.*<sup>1</sup> *Gwahannod.*<sup>2</sup>

1. Nôd cyweirlais: anadliad (,).<sup>3</sup>
2. Nôd gwahaniad: heibiad gwahanredol (,).<sup>4</sup>
3. Nôd addoediad: heibiad pur wahanredol (, —;).<sup>5</sup>
4. Nôd gwahanrediad dosparthranol (,—).<sup>6</sup>

2. *Gostegiad allanol.*<sup>7</sup> *Diweddnod.*<sup>8</sup>

1. Diweddnod broddeg berthynol (.).<sup>9</sup>
2. Diweddnod gwahaniad pur wahanredol (.).<sup>10</sup>
3. Diweddnod gwahaniad goddosparthranol (.).<sup>11</sup>
4. Diweddnod gorphenol neu ddosparthranol (,—).<sup>12</sup>

3. *Gostegiad cymmysgedig.*<sup>13</sup> *Go-ddiweddnod.*<sup>14</sup>

1. Go-ddiweddnod byr aelodau cyflawn (,;).<sup>15</sup>
2. Go-ddiweddnod hir aelodau cyflawn (;).<sup>16</sup>
3. Go-ddiweddnod aelodau adgyflenwadol (:).<sup>17</sup>
4. Go-ddiweddnod dosparthranol (;—:—).<sup>18</sup>

4. *Gostegiad ammwysol.*<sup>19</sup> *Nodau tonyddiad.*<sup>20</sup>

1. Tônau attyniadol (?).<sup>21</sup>
2. Tônau gwrthyriol (?).<sup>22</sup>
3. Tônau canolig (!).<sup>23</sup>
4. Tônau ammwysol (!).<sup>24</sup>

<sup>1</sup> Internal pause.

<sup>2</sup> Comma.

<sup>3</sup> Mark of cadence: respiration.

<sup>4</sup> Mark of separation: distinct grouping.

<sup>5</sup> Mark of suspension: very distinct grouping.

<sup>6</sup> Mark of paragraphic distinct-ion.

<sup>7</sup> External pause.

<sup>8</sup> Period.

<sup>9</sup> Period of a relative sentence.

<sup>10</sup> Period of a very distinct separation.

<sup>11</sup> Period of a semi-paragraphic separation.

<sup>12</sup> Final or paragraphic period.

<sup>13</sup> Mixt pause.

<sup>14</sup> Semi-period.

<sup>15</sup> Semi-period of short complete members.

<sup>16</sup> Semi-period of long complete members.

<sup>17</sup> Semi-period of repletable mem-bers.

<sup>18</sup> Paragraphic semi-period.

<sup>19</sup> Ambiguous pause.

<sup>20</sup> Notes of intonation.

<sup>21</sup> Attractive tones.

<sup>22</sup> Repulsive tones.

<sup>23</sup> Neutral tones.

<sup>24</sup> Ambiguous tones.



## DEFFINIAD ISADRANIADAU GWAHANNODIAD.

*Y Gwahannod.*

§ 860. Y gwahannod a ddynoda ostegiad mewnlol cynnwysfawr; oblegid gwasanaetha i wahaniaethu un gair neu res o eiriau oddi wrth arall, mewn broddeg; megys—

Certainly, in cases of doubt, we should pause to reflect.

Yn ddiâu, mewn achosion o amheuaeth, dylem orphwys i adystyried.

§ 861. Wrth ddosranu swyddi gwahannodiad, canfyddir bod y gwahannod yn cael ei ddefnyddio i arwyddo amryw raddau gostegiad a gwahaniad. Mae ei swydd yn cynnwys pedwar, o leiaf, o amrywiadau:—

1. Dynoda ostegiad pur fyr yn unig i gymmeryd anadl, heb berthyn i wahaniad amryfal adfroddau (*clauses*).

2. Dynoda ostegiad a gwahaniad, yr hyn ydyw ei brif swydd. Hyny yw—gwahana heibiau pennodol o eiriau mewn broddeg hir, er rhoddi amser i'r llefarydd i ynganu yn bwyllig ac er cynnorthwyo y gwrandawydd i wahaniaethu pob rhan o'r sicrhad (*affirmation*) cyffredinol.

3. Dynoda ostegiad hwy na chyffredin, ar ddiwedd aelodau pur hirion a chymmlyg, na ffurfiant, pan yn unigol, synwyr cyflawn; ac am hyny, na ddylent gael eu gwahanu gan o-ddiweddnodau, megys pe byddent yn aelodau cyflawn o froddeg gyfansawdd. Gellir nodi y swydd yma â gwahannod neu â throddlin (*dash*). Yn y dyfyniad canlynol ceir engraifft o'r gostegiad tan sylw ar ol aelod anghyflawn broddeg:—

To rule with your counsels three mighty realms; to decline no labours, to yield to no blandishments of pleasure; to spurn the pageantries of wealth and power; these are difficulties in comparison with which, those of war are the mere levities of play.<sup>1</sup>

Yn y froddeg hon defnyddir tri go-ddiweddnod i nodi gostegiadau hirion, lle nad yw y synwyr yn gyflawn; a hyny ydyw, neu a ddylai fod, un o swyddi y gwahannod neu ostegiad mewnlol. Yn ol y deffiniadau yma, fel hyn y buasai gwahannodiad y froddeg uchod yn gywir:—

To rule with your counsel three mighty realms, to decline no labours, to yield to no blandishments of pleasure, to spurn the pageantries of wealth and power—these are difficulties in comparison with which those of war are the mere levities of play.

<sup>1</sup> Gan fod y lle mor brin, ac y gall yr efrydydd ganfod y gwahaniaeth yngwahannodiad yr engreiffitiau Seisnig, gadewir hwynt heb eu cyfieithu.

Neu, gallasid rhoi gwahannod ar ol "*power*," yn lle y droddlin, ac ni fuasai go-ddiweddnod yn y fan yma mor amhriodol ag yn y lleoedd eraill. Gwahanol amrywiadau y go-ddiweddnod a ddylent gael eu defnyddio yn unig lle y bo 'r synwyr yn gyflawn; ond, gan y defnyddir go-ddiweddnod yn fynych yn lle gwahannod i adrithio gostegiad hir ar ol aelod anghyflawn broddeg, rhaid cydymffurfio â'r arferiad yn gystal ag â'r un gwrthwynebol, sef defnyddio gwahannod i adrithio gostegiad byr ar ol aelod cyflawn. Daw y gwahanredion hyn yn fwy amlwg pan eglurir y gwahaniaeth rhwng broddegau cymmlyg a rhai cyfansawdd.

4. Defnyddir gwahannod i ddynodi gostegiad pur wahan-iaethol ynghyda bath o wahaniad dosparthranol (*paragraphic*). Mae y bath yma o ostegiad a gwahaniad yn dynodi aelod arweiniol neu droddiadol (*transitional*) broddeg, yn fwy amlwg na'r trydydd bath o ostegiad, y sylwyd arno uchod. Ceir engraffit o'r swydd yma o'r eiddo gwahannod yn y froddeg ganlynol:—

"The present tense expresses what some person or thing now does; as,—'*I am writing a grammar.*'"

Yma y goradenw *as*, sydd aelod neu swydd arweiniol a wahanir oddi wrth y froddeg ganlynol, yr hon y gallasid ei hysgrifenu mewn dosparthran (*paragraph*) wahanol; ac oherwydd hyny y chwanegwyd llinell fer, a elwir yma dosparthlin (*paragraphic line*), ar ol y gwahannod er dynodi gwahaniad dosparthranol. Defnyddir y dull yma pan dde-wisir arbed lle trwy beidio dechreu dosparthran newydd. Tybia rhai mai yn yr amgylchiad yma yn unig y gellir defnyddio y llinell (—) yn briodol, ond ymdrechir dangos wrth ymdrin â chyfosodiad (*synthesis*, neu *syntax*) bod y fath dyb yn anghywir.

### *Y Diweddnod.*

§ 862. Y diweddnod a adrithia ostegiad allanol a ddengys wahaniad y naill froddeg gyflawn oddiwrth y llall; megys,

In cases of doubt, we should pause to reflect. It is better to be undecided, than fanatically superstitious.

§ 863. Canfyddir pedwar amrywiad yn swydd y diwedd-nod neu nôd gwahaniad a gostegiad allanol, cystal ag yn yr eiddo gwahannod neu ostegiad a gwahaniad mewnol (§ 859). Mae pedwar amrywiad swydd y diweddnod yn cael eu defnyddio yn § 874. Eglurir hwynt yn bresennol mewn

dull gwrthdroawl, yn ol eu cyflead pennodol yn y daflen, §859, gan ddechreu gyda'r pedwerydd a diweddu gyda'r cyntaf.

1. Y diweddnod gorphenol neu ddosparthranol yw yr un a gynnwys haib<sup>1</sup> gyflawn o gyfanwersi,<sup>2</sup> ac a'u gwahana oddi wrth yr haib neu y ddosparthran nesaf. Diweddnod o'r bath yma yw y diweddaf ond un yn §874. Dywedwyd eisys pan y dymunir cynnilo lle, y defnyddir dosparthlin i ddynodi y gwahaniad yma o heibiau, yn lle dechreu dosparthran newydd.

2. Y diweddnod o wahaniad go-ddosparthranol, a ddy-noda fath o is-haib o gyfanwersi, nad ystyrir yn ddigon pwysig i ffurfio haib neu ddosparthran wahaniaethol. Yn y §874, a eglura y pedwerydd bath o bwysleisiad, mae pedair is-haib o gyfanwersi a wahanir gan ddiweddnodau o natur go-ddosparthranol, yr hon adran a fwriedir fel engraifft i egluro y definiad yma; heblaw y pwnc sy dan sylw yno. Yr is-haib gyntaf yn yr adran hono a nodir âg (*a*), yr ail â (*b*), y drydedd â (*c*), a'r bedwaredd â (*d*), yr hon a ddilyna ddiweddnod gorphenol neu ddosparthranol (—). Gwel uchod, 1. Hefyd, §859, 2. Yr is-haib olaf yn §874, a gynnwys ddim ond un froddeg, ac a derfyna yr holl gynnulliad o gyfanwersi.

3. Mae tair cyfanwers yr is-haib gyntaf—(*a*), lle y ceir engraifft o ail amrywiad y diweddnod (§859, 2), yn bur wahaniaethol oddi wrth eu gilydd, a gellid ffurfio y diweddnodau neu y marciau a'u gwahanant yn y fath ddull ag i adrithio y cyfryw wahanrediad annibynol; a gellid gwahanu is-heibiau a dosparthranau cyfan â marciau o wahanol ffurf- iad. Gwir y dynodir haib neu ddosparthran gyflawn naill ai â dosparthlin, megys ar ol y drydedd is-haib a ddynodir â (*c*) yn yr adran tan sylw, neu drwy ddechreu dosparthran newydd; ond gwahaniadau is-heibiau, cyfanwersi gwahanol a broddegau perthynol a ddynodir oll â'r un arwydd, sef diweddnod.

4. Mae tair cyfanwers gyntaf y drydedd is-haib (*c*) yn §874, lle y ceir engraifft o amrywiad cyntaf y diweddnod, yn dwyn llawer agosach perthynas i'w gilydd nag i'r ddwy froddeg sydd yn eu dilyn yn yr un is-haib; ond afreidiol yw manylu ar yr is-adraniadau hyn, gan y gwahanir hwynt oll mewn ymarferiad â'r un arwydd, sef diweddnod.

<sup>1</sup> *Group*—cnud, swp, cynnulliad.

<sup>2</sup> *Period*—ymadrodd o'i ddechreuad hyd ddiweddnod.

*Y Go-ddiweddnod.*

§864. Mae pedwar amrywiad y go-ddiweddnod neu y gostegiad cymmysgedig (§ 859, 3) yr un mor nodadwy a'r eiddo y gwahannod a'r diweddnod.

1. Mae i amrywiad cyntaf y goddiweddnod ddau farc—y gwahannod (,) a'r adwahannod (;).<sup>1</sup> Y gwahannod a ddefnyddir fynychaf i weini y swydd yma o'r eiddo go-ddiweddnod: dynoda ostegiad byr ar ddiwedd broddeg gyflawn a gyssylltir â rhai eraill yn un froddeg gyfansawdd; megys—

James has been very ill, but he is improving now.

Yma y mae dau aelod cyflawn, y sawl ni wahanir gan farc cyffredin go-ddiweddnod, er y gallai gael ei wahanu felly; ond, megys y sylwyd eisys (§ 861, 3), y gwahannod a ddefnyddir yn gyffredinol yn lle y go-ddiweddnod i wahanu aelodau byrion broddeg gyfansawdd, a'r go-ddiweddnod a ddefnyddir yn gyffredinol yn lle y gwahannod i wahanu aelodau pur gymmlyg o'r eiddo broddeg gymmlyg. Mae hyd y gostegiad yn cael mwy o sylw na swydd y gwahaniad, yn y defnyddiad cyffredin o'r gwahannod a'r go-ddiweddnod.

2. Marc ail amrywiad swydd y go-ddiweddnod yw adwahannod (§ 859, 3), a'i brif ddefnydd yw dynodi gostegiad pennodol a gwahaniad aelodau cymmlyg broddeg gyfansawdd. Gellir egluro hyn trwy wneyd dwy froddeg seml yn un gyfansawdd; fel yma,

In cases of doubt, we should pause to reflect; for it is better to be undecided, than fanatically superstitious.

3. Marc trydydd amrywiad y go-ddiweddnod a elwir yn gyffredin gorphwahannod,<sup>1</sup> (§ 859, 3), yr hwn a ddefnyddir i ddangos bod broddeg eisys yn gyflawn, ond y goddefa aelod chwanegol i'w gwneyd yn hollol adgyflawn; megys—

I should very much like to travel in the East, and observe the manners of uncivilized nations; but I cannot this year: next year, perhaps I may.

Gellir sylwi, wrth fyned heibio, mai prin y mae sefyllfa bresennol iaith yn gofyn i'r gorphwahannod gael ei ddefnyddio o gwbl. Gellir defnyddio naill ai adwahannod ai diweddnod yn ei le braidd bob amser; megys, er engraifft, y defnyddiwyd diweddnod yn ei le yn yr ymadrodd yma, ar ol y geiriau—“o gwbl.” Ond, gofynai sefyllfa berffaith gwahannodiad

<sup>1</sup> *Semicolon.*

<sup>2</sup> *Colon.*

bedwar o leiaf o amrywiadau i bob un o'r pedwar marc sydd yn awr mewn arferiad, megys y dangosir yn fyr yn y deffiniadau yma.

4. Pedwerydd amrywiad y go-ddiweddnod sy gyffelyb i bedwaredd swydd y gwahannod (§ 861, 4) a'r diweddnod (863, 1)—dynoda fath o wahaniad dosparthranol a ofyna ddosparthlin pan na ddechreuo yr haib neu ddosparthran newydd â llinell wahanol; megys yn yr engraifft ganlynol:—

“Let us ask our conscience the question put by Socrates;—‘Suppose,’ says he, ‘an ass should kick me, would it be right or becoming in me to kick him again?’”

Gwelir yma ddwy engraifft o'r go-ddiweddnod dosparthranol—un ar ol y gair “*ganlynol*,” a'r llall ar ol y gair “*Socrates*.” Mae y ddau nôd yn ateb yr un diben yn hollol—cynnulo lle (§ 863, 1), a gall yr ysgrifenydd arfer yr un a ddewiso: tybir mai y blaenaf a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin.

### *Nodau Tonyddiad.*

§ 865. Nodau tonyddiad a adrithiant radd ammwysol o ostegiad, oblegid gosodir hwynt weithiau ar ol un gair syml, weithiau ar ol broddeg gyflawn, ac weithiau ynghanol broddeg gyfansawdd. Dau farc gwahanol sy mewn arferiad cyffredin i ddynodi holl amrywiadau tonyddiad (§ 859, 4), ac y mae'r ddau arwydd hyn, rhyfeddnod (!)<sup>1</sup> a gofynnod (?), yn fwy neu lai amhennodol o ran eu swyddi yn adrithio gostegiad a gwahaniad. Mewn gwirionedd, mae yn anhawdd sefydlu graddau pennodol o ostegiad i'r naill na'r llall o arwyddion gwahannodiad, oblegid gellir eu hamrywio oll yn ol y cyflymder neu yr arafedd a ddichon nodweddu gwahanol arddulliau parabliad; ond gellir ffurfio bath o raddeg gyffredinol o'u cymmeintiolaeth (*proportion*) perthynol, megys y gwelir yn yr adran ganlynol:—

§ 866. Os tybir bod amrywiad cyntaf y gwahannod yn gyfartal i ostegiad o hanner eiliad, gellir ystyried yr ail amrywiad yn gyfartal i un eiliad, y trydydd i ddau eiliad, a'r pedwerydd i eiliad a haner. Gellir ystyried pedwar amrywiad y goddiweddnod yn gyfartal i un eiliad, eiliad a haner, dau eiliad, a thri eiliad. Pedwar amrywiad y diweddnod, neu nôd cyflawn gwahaniad, a ystyrir yn gyfartal i dri, pedwar, pump, a chwech eiliad. Nodau tonyddiad a amrywir o ran hyd gostegiad yn ol symmudiadau y nwyd a ddynodant, ac y mae deffinio eu nodweddiion cyffredinol yn perthyn yn fwy priodol i areitheg nag i reolau syml geiryddiaeth. Yn awr, sylwir ar y trydydd bath o arwyddion.

<sup>1</sup> *Note of admiration.*

<sup>2</sup> *Note of interrogation.*

## TAFLEN O AMRYWIADAU PWYSLEISIAD.

§ 867. *Y trydydd bath o arwyddion : Pwysleisiad.*1. PWYSLEISIAD MEWNOL (*Pwysleisiad grymusol*).<sup>1</sup>

1. Tônau attyniadol y llais.—Attractive tones of voice.
2. Tônau gwrthyriol y llais.—Repulsive tones of voice.
3. Tônau canolig y llais.—Neutral tones of voice.
4. Tônau ammwysol y llais.—Ambiguous tones of voice.

2. PWYSLEISIAD ALLANOL (*Pwysleisiad synwryol*).<sup>2</sup>

1. Perthynas gyfatebol.—Analogous relativeness.
2. Perthynas gyferbyniol.—Contrasted relativeness.
3. Perthynas wrthredol.—Contrary relativeness.
4. Perthynas ganolig.—Neutral relativeness.

3. PWYSLEISIAD PERTHYNOL (*Pwysleisiad darostyngol*).<sup>3</sup>

1. Eglurhad.—Illustration.
2. Dyfyniad.—Quotation.
3. Crybwylliad.—Allusion.
4. Ailddywediad.—Repetition.

4. PWYSLEISIAD DYNODIADOL (*Pwysleisiad canolig*).<sup>4</sup>

1. Dynodiad pennodol.—Definite indication.
2. Dynodiad amhennodol.—Indefinite indication.
3. Dynodiad perthynol.—Relative indication.
4. Dynodiad canolig.—Neutral indication.

## DEFFINIAD ISADRANIADAU PWYSLEISIAD.

§ 868. Y trydydd bath o arwyddion, a elwir pwysleisiad, a adrithia swydd gymmysgedig, gan y cyfranoga o nodwedd allanol a mewanol, ac effeithia ar ystyr broddeg gyfan, trwy osod pwys neilltuol ar air neilltuol.

§ 869. Y bath cyntaf o bwysleisiad (§ 867, 1) a effeithia ar air unigol mewn broddeg, fel yr effeithia y bath cyntaf o aceniad ar sill unigol mewn gair heb gyfeiriad uniongyrch at yr un arall. Yn yr engraifft ganlynol, mae i bob un o'r geiriau italedig bwysleisiad a rodda rym neilltuol o sicrhad i'r holl froddeg.

*I do dislike religious controversy.*

§ 870. Gall gair a wahaniaethir trwy ei gynanu yn fwy grymus na 'r gweddill, gael ei wahaniaethu fel hyn â phedair o dônau gwahanol y llais: yr attyniadol, yr wrthyriol, y ganolig, a'r ammwysol neu amhennodol.

§ 871. Yr ail fath o bwysleisiad (§ 867, 2) a gyferbynia amryw eiriau mewn broddeg, megys yn yr engraifftiau isod.

<sup>1</sup> Emphasis of force.

<sup>3</sup> Subdued emphasis.

<sup>2</sup> Emphasis of sense.

<sup>4</sup> Neutral emphasis.

I do dislike religious controversy, because it savours more frequently of *mental aberration* than of *charitable feeling*.

Yn yr aelod olaf o'r froddeg hon, y geiriau *mental aberration* a *charitable feeling* a gyferbynir yn bwysleisiadol; ond yn y geiriau *do a religious* o'r aelod blaenaf, nid oes i'r pwysleisiad gyfeiriad allanol at gyferbyniad cydberthynol.

§ 872. Gellir amrywio geiriau a feddant bwysleisiad yn gyfatebol i eiriau pwysleisiol ereill yn yr un froddeg, yn bedair gradd wahanol, yn ol cydberthynas yr ystyr.

1. Gall geiriau pwysleisiol a fyddont yn gyfatebol fod o gyffelyb ystyr, megys yn y froddeg ganlynol:—

We prefer *London* to *Paris*.

Yma mae y geiriau pwysleisiol *London* a *Paris* yn gyffelyb o ran graddau eu heangedd, gan fod y ddau yn perthyn i ddi-nasoedd pur fawrion. Byddai yn amhriodol dywedyd

We prefer *London* to *France*,

am nad yw graddau cymhariaeth yn gyfatebol rhwng dinas unigol a theyrnas gyfan.

2. Gall geiriau pwysleisiol broddeg a fyddont yn gyfatebol fod yn gyferbyniol o ran ystyr, megys yn yr engraifft yma:—

We prefer the *small* to the *great*, or, the *smallest* to the *greatest*.

3. Gall pwysleisiad cyfatebol fod ar eiriau o ystyr gwrthredol yn hytrach na chyferbyniol yn y froddeg hon; mae y geiriau “gwrthredol” a “chyferbyniol” yn cyfateb i'w gilydd mewn gradd wrthredol ac nid cyferbyniol o gymhariaeth. Gellir dywedyd yr un modd am y ddau air pwysleisiol yn y froddeg ganlynol:—

They are more *learned* than *wise*.

4. Gellir ystyried gradd cyfatebiad yn ganolig pan adroddir gair yn y fath fodd ag i arwyddo cymhariad cymhlethol â gair arall nas adroddir. Er engraifft:—

Gold is scarce ; a lion is bold ; the lion is master.

Yn y broddegau hyn, mae graddau pennodol o gymhariad i'w deall heb gael eu hadrodd. Pan ddywedir, *gold is scarce*—aur sy brin—cymharir sefyllfa bresennol pethau â'r hyn a fu, pan nad oedd aur yn brin. Pan ddywedir *a lion is bold*—llew sydd hyf—cymharir yr adryw hyny o anifel âg adrywiau ereill nad ydynt nodedig am eu hyfder. Pan ddywedir, *the lion is master*—y llew sy feistr—mae yn amlwg y cyfeirir at ryw anifel arall a feistrolir gan y llew.

§ 873. Y trydydd bath o bwysleisiad a adrithia swydd gymmysgedig o ddynodiad neilltuol, a wahaniaetha air neu ofrawdd (*phrase*) oddi wrth y rhai y byddo yn gyssylltiedig â hwynt. Gan fod y gair *pwysleisiad* yn arwyddo modd neilltuol o sefydlu y sylw ar ryw eiriau neu ranau o froddeg, gellir ei gymeryd mewn ystyr ychydig eangach, i arwyddo nôd o sylw neilltuol, nid yn unig trwy ynganiad grymus, ond hefyd trwy ddulliau eraill o ddynodiad pennodol. Yn ol y deffiniad yma, gellir nodi pedwar bath o ddynodiad pwysleisiol, megys y gwelir yn y daflen, § 867, a phedwar amrywiad ymhob bath. Y bath sy dan sylw yn bresennol a elwir pwysleisiad perthynol, a'i amrywiadau a wahaniaethir fel hyn:—

1. Rhoddir gradd berthynol o bwysleisiad neu sylw neilltuol i'r geiriau neu i'r heibiau o eiriau a wasanaethant fel engreiffitiau o reolau pennodol, neu egluriadau o egwyddorion neilltuol.

2. Gelwir gradd neilltuol o sylw at y geiriau a'r broddegau a ddyfynir o awdwyr eraill, a hynodir y dyfyniadau hyny yn arbenig â dyfynnodau (" "), a elwir gan rai, "Rhagwahandro." Yn yr adranau blaenorol, § 869—872, cystal ag mewn amryw fanau eraill, defnyddiwyd arwyddion dyfyniad i osod pwys neilltuol ar froddegau cyfan er dangos y bwrriedid hwynt fel egluriadau arbenigol. Er mai egluriadau yn unig ydyw yr engreiffitiau crybwylliedig, eto gallasant fod yn ddyfyniadau ar yr un pryd.

3. Mae i bwysleisiad perthynol amrywiad arall a ellir ei alw crybwylliad neu crybwyllnod. Y crybwylliad a ddefnyddir i ddynodi edryf neu ffynnonell neilltuol rhyw ddeffiniadau, ac a farcir yn gyffredin â rhagwahandro sengl (' ') fel hyn—

"We fear that a great number of the 'finest pisantry in the world' will be reduced to the most horrid state of privation in consequence of the crops failing this year in Ireland."

Yma y geiriau "*finest pisantry in the world*" a ddefnyddir fel crybwylliad o eirweddiad (*phraseology*) O'Connell.

4. Pedwerydd amrywiad pwysleisiad perthynol, a elwir yma ailadroddiad, a ddefnyddir weithiau mewn amgylchiadau o sicrhad pur bennodol, megys—

*Rich people* may neglect religion; *rich people* may neglect morality; *rich people* may tamper with the law; in fact, *rich people* may do as they like, but the *poor* must be strictly bound to do their duty to society.



§ 874. (a) Y pedwerydd bath o bwysleisiad, a elwir dynodiadol, sydd o natur ammwysol, ac a adrithir gan y marciau arfodol (*conventional*) a ddynodant wahanrediad cyffredinol rhwng geiriau ac adfroddau; a chynnwys bedwar amrywiad—dynodiad pennodol, amhennodol, perthynol, a chanolig. Y radd bennodol a berthyn i'r geiriau a'r adfroddau (*clauses*) a wahaniaethir gan wahanol llythyrenau mewn argraff, a chan danlinellau mewn ysgrifen. Pan roddir dim ond un linell dan air mewn ysgrifen, bydd yn gyfartal â gair argraffedig â llythyrenau *Italaidd*; pan roddir dwy linell dan air ysgrifenedig, bydd yn gyfartal âg un a argreffir â MAN LLYTHYRENAU PENIGOL; pan roddir chwaneg o linellau dan air ysgrifenedig, arwyddant y dylai fod mewn LLYTHYRENAU BRASACH, a bod y pwyslais yn fwy nodedig. (b) Y radd amhennodol o ddynodiad pwysleisiol a berthyn i'r geiriau a wahaniaethir oddi wrth eraill trwy gael llythyren benigol ar eu dechreu. Y dynodiad neilltuol yma trwy gyfrwng dechreuoliaid penigol (*capital initials*) a eglurir yn yr adran nesaf. (c) Y radd berthynol o ddynodiad a berthyn i'r ffugrau, a'r arwyddion a ddynodant wahanol raddau cynnwysiad mewn tafleni dosraniadol. Er engraifft; yn y tafleni a gynnwysant y gwahanol fathau o arwyddion a eglurir yn bresennol, y dosparth cyffredinol a renir yn gyntaf yn bedwar bath (§ 853—856), a phob bath yn bedwar rhyw (§ 859 a 867), a phob rhyw yn bedwar adryw neu amrywiad, fel y dengys yr un tafleni. Yn awr, y rhifnodau 1, 2, 3, 4, a ddefnyddir ymhob un o'r graddau gwahanol hyn o gyfraniad, ac am hyny rhaid dangos eu gwahanredion. Nid oes trefn bur reolaidd i wahaniaethu y gwahanredion perthynol hyn o ddynodiad mewn ymarferiad; ond gellid dynodi y rhaniad cyntaf â'r llythyrenau A, B, C, D; a'r ail â'r Iaf, 2il, 3ydd, a'r 4ydd rhyw o'r bath A; a'r trydydd â 1<sup>o</sup>, 2<sup>o</sup>, 3<sup>o</sup>, 4<sup>o</sup>, i adrithio pedwar adryw y rhyw a berthyn i'r bath A, ac felly am bob un o'r rhaniadau a'r adraniadau. Weithion, canfyddir y dylid cael trefn reolaidd i adrithio graddau perthynol dynodiadol, fel y gellid ar unwaith adnabod nodwedd cyffredinol cystal ag arbenigol deffiniadau a dynodiadau neilltuol.<sup>1</sup> (d) Y radd ganolig o ddynodiad neilltuol a gymhwysir at y geiriau a nodir â marc cyfeiriad, megys y diweddnod a wahana y froddeg yma oddi wrth y rhai a'i rhagflaenant.

§ 875. Am y radd amhennodol neu ammwysol o ddynodiad pwysleisiol, y cyfeiriwyd ati uchod, § 874 (b), yr holl eiriau a adrithiant ddynion neu bethau nodedig a wahaniaethir

<sup>1</sup> Edrych yr eglurhad ar y gwahanol ddiweddnodau, § 863.

gan lythyren benignol ar eu dechreu; megys, y Brenin, y Cadfridog, y Tywysog; Llundain, Paris, Caergybi; Lloegr, Cymru, Ffrainc; Dwyrain, Gorllewin, Gogledd, De; Ioan, Iago, Arthur, &c. Yn gyffredin rhoddir gair cyflawn yn nechreu pob llyfr, ac weithiau yn nechreu pob rhan o lyfr, ac yn nechreu pob pennod, mewn llythyrenau benignol. Hefyd, rhoddir un lythyren benignol yn nechreu pob adran, yn nechreu pob cyfanwers (*period*), yn nechreu pob llinell o fydryddiaeth, yn nechreu pob dyfyniad a wneir yngeiriau yr awdwr cyntefig—*remember the maxim, "Know thyself,"* yn nechreu holl enwau y Duwdod; a'r rhagenw Seisnig I, a'r cyfryngiad O! a ysgrifeni'r bob amser yn benignol. Ar fyr, gellir dynodi rhyw air y dymunir rhoddi rhyw radd o bwysleisiad arno, yn ol rhyw rai o'r dulliau a nodwyd uchod. Weithiau defnyddir adranod (§), megys yn y llyfryn hwn, i ddynodi deffiniadau cyffredinol.

§ 876. Y radd dan sylw a ystyrir fel bath o fud bwysleisiad, gan nad yw yn gofyn un dull neilltuol o barabliad. Fe'i dosparthwyd fel gradd ammwysol o bwysleisiad, am y geilw sylw neilltuol at ryw eiriau ac adfrodau, er nas gofyn iddynt gael eu hynganu yn rymus; ac, am nad yw yn perthyn i aceniad, na gwahannodiad, nac atddodiad, rhaid y perthyn i bwysleisiad. Yn awr eir at y pedwerydd bath o arwyddion.

#### TAFLEN O AMRYWIADAU ATDDODIAD.

§ 877. *Y pedwerydd bath o arwyddion atddodiad.*

##### 1. CYSSYLLTNODIAD.

*Atddodiad mewanol.*

1. Attodiad penodol <sup>1</sup>	} infinite in- finite in general ever-green k—g
2. Attodiad negyddol <sup>2</sup>	
3. Attodiad dynodiadol <sup>3</sup>	
4. Attodiad parthdoriadol <sup>4</sup>	

##### 2. GWAHANSANGIAD.

*Atddodiad allanol.*

1. Ymsangau <sup>5</sup>	} ( ) [ ]
2. Gwahansangau <sup>6</sup>	
3. Cyweirsangau <sup>7</sup>	
4. Cyfeirnodau <sup>8</sup>	

\* † ‡ ||, a, b, 1, 2, &c.

<sup>1</sup> Positive annexion.

<sup>2</sup> Negative annexion.

<sup>3</sup> Indicative annexion.

<sup>4</sup> Elliptical annexion.

<sup>5</sup> Crotchet or bracket.

<sup>6</sup> Parenthesis.

<sup>7</sup> Rectification.

<sup>8</sup> Marks of reference.

## 3. CYPLYSNODIAD.

*Atddodiad Cymmysgedig.*

- |                                |   |
|--------------------------------|---|
| 1. Nôd cynghydiad <sup>1</sup> | } |
| 2. Nôd gwahaniad <sup>2</sup>  |   |
| 3. Nôd cynnwysiad <sup>3</sup> | " |
| 4. Nôd adeiriad <sup>4</sup>   | " |

## 4. TALFYRIAD.

*Atddodiad Ammwysol.*

- |                           |                    |
|---------------------------|--------------------|
| 1. Tolnod <sup>5</sup>    | ' don't—do not     |
| 2. Gwarthnod <sup>6</sup> | { —<br>* * *       |
| 3. Godornod <sup>7</sup>  | { —<br>...         |
| 4. Talfyrnod <sup>8</sup> | N.B. : M.S. : P.S. |

## DEFFINIAD ISADRANIADAU ATDDODIAD.

§ 878. Y pedwerydd bath o arwyddion a adirthia swydd ammwysol ynghyfansoddiad geiriau.

§ 879. Prif raniad cyntaf y bath yma yw cyssylltnodiad (§ 877, 1), ac arwydd cyffredinol y rhaniad hwn yw y cyssylltnod, ond y mae rhai amgylchiadau pan na fydd angen defnyddio yr arwydd. Yn yr amrywiad cyntaf, a elwir attodiad pennodol, ni ddefnyddir yr arwydd i nodi undeb y tri syll yn yr engrafft gyntaf o'r gair *infinite* (edr. y daflen). Mewn rhai amgylchiadau yn unig y defnyddir arwydd y cyssylltnod i gydio y sillau ynghyd; megys, ar ddiwedd llinell, i ddangos bod gweddill y gair ar ddechreu y llinell nesaf: edrycher yr ail engrafft yn y daflen o'r gair *in-finite*. Hefyd defnyddir yr arwydd mewn Silliaduron i ddangos rhaniad geiriau i'w priodol sillau; megys, *in-fi-nite*. Yn yr ail amrywiad, a elwir attodiad negyddol, ni ddefnyddir arwydd i ddynodi y cyssylltiad agos sy rhwng y banyn *in* a'r gair *general*, ac eto ni ffurfia y ddau hyn ond un gair neu swydd cyfatebol i'r gair *generally*. Mae y nifer amlaf o'r swyddi goradenwol, a adirthir gan enwau a banynau, yn yr un sefyllfa: yn ddamweiniol neu negyddol yn unig yr atosodir enwau wrth y banynau, y sawl a'u gwasanaethant fel swyddwisgoedd

<sup>1</sup> Mark of aggregation.<sup>2</sup> Mark of separation.<sup>3</sup> Mark of comprehension.<sup>4</sup> Mark of repetition.<sup>5</sup> Apostrophe.<sup>6</sup> Omission.<sup>7</sup> Interruption.<sup>8</sup> Abbreviation.

achlysurol. Yn yr un sefyllfa y mae yr adenwau cyfartal a ffurfir trwy attodiad damweiniol o enwau a bany nau. Y trydydd amrywiad a elwir attodiad dynodiadol, am fod y cyssylltnod yn cael ei ddefnyddio yn weithredol i ddynodi attodiad dau air ynghyd yn un cyfansoddair; megys y geiriau *ever-green*. Y pedwerydd amrywiad a elwir attodiad parthdoriadol, am y defnyddir y cyssylltnod i gydio dwy lythren a dorwyd o'u hundeb naturiol; megys yn y gair *k—g*, am *king*.

§ 880. Ail raniad y pedwerydd bath o arwyddion a elwir gwahansangiad (§ 877, 2). Defnyddir y gwahansangau i amgau broddeg ynghanol broddeg, fel bath o ail sylwad heb fod yn anhebgorol angenrheidiol; a phan na fyddo na ffraeth na dyddorol, bydd bob amser yn drwsgl ac anghymeradwy, megys yn yr engreiffiau hyn:—

“Every planet (as the Creator has made nothing in vain) is most probably inhabited.”

“To gain a posthumous reputation, is to save four or five letters (for what is a name besides?) from oblivion.”

Yn yr ymadroddion hyn gallesid adrodd y delfrydau yn llawer gwell heb y gwahansang. Buasai y froddeg flaenaf yn lithricach ac yn fwy telediwl fel hyn:—

“As the Creator has made nothing in vain, every planet is most probably inhabited.”

Mae i'r ffurf yma y fantais o fod yn uniongyrch, er bod y geiriau wedi eu dethol yn drwstan. Byddai yn hawdd gochelyd cystrawidiadau (*constructions*) trwsgl broddegau fel hyn trwy sylwi tipyn ynfanwl ar eglurdeb yn nhrefniad geiriau.

§ 881. Nid yw pedwar amrywiad atddodiad gwahansangol wedi cael eu gwahaniaethu yn neilltuol oddiwrth eu gilydd. Yr amrywiad cyntaf a elwir yn y daflen (§ 877, 2) ymsangau, a ddefnyddir yn gyffredin i amgau gair neu adfrawdd (*clause*) ynghanol broddeg, er gochel ammwysedd yn yr ystyr; megys,—

John rebuked Herod and Herod was very much affected.

He (John) left the room soon afterwards.

Y gair *John* a roddir i fewn rhwng ymsangau i ddangos bod y rhagenw *he* yn adrithio John, ac nid Herod. I'r un diben rhoddir gair neu eiriau estronol i fewn rhwng ymsangau, megys yn yr ail gyfanwers (*period*) o'r adran yma y rhoddwyd *clause* i fewn ar ol adfrawdd, ac yn y gyfanwers yma y rhoddir *period* ar ol cyfanwers. Yr amrywiad yma a

etyb i radd fewnol cyfaddasiad, am ei defnyddir gan yr awdwr er rhyddhau ei waith ei hun oddi wrth ammwysedd. Gwelir yn y daflen (§ 877, 2) fod dau ffurf i arwyddion gwahansangiad—( ) a [ ]. Y blaenaf a elwir yn gyffredin cromau neu crwmfachau. Nid ydys yn gwybod am enw pennodol i'r olaf—mae yn ddigon hyll i'w alw *gwrthfachau*. Y blaenaf a ddefnyddir gan ysgrifenydd yr oes hon braidd ymhob amgylchiad, oddi eithr yn unig yn y sefyllfa a nodir isod, dan yr amrywiad nesaf.—Yr ail amrywiad a adrithir yn gyffredin gan y gwahansangau cyffredin, ac a gynnwys gëlsylwad neu sylwad gormodol, naill ai gan yr awdwr ei hun neu gan ei arnodydd (*commentator*), megys yn yr engraifft ganlynol:—

He laughed in the lady's face, and told her she was as beautiful as the setting sun. (No one but him would have been so rude). She blushed and said the compliment was *too* flattering.

Hefyd, perthyn i'r amrywiad yma y mae 'r sylwadau a wneir weithiau gan olygyddion ar erthyglau eu gohebwyd; megys,

*Defensive War.* From H—. I cannot allow the appearance of the article in your last number on the *Campaign in the Punjab* to pass without sending you my most decided protest against the sentiments conveyed therein. \* \* \* [We insert the above because it has been sent in the form of a regular communication. We adhere to our own opinion, that there are cases in which defence—*none* in which attack—is justifiable.]

Gwelir yma i sylwad y golygydd gael ei amgau rhwng gwrthfachau, a rhoddir i fewn fel bath o eglurhad, yr unig amgylchiad efallai y gellir defnyddio gwrthfachau yn briodol. Y trydydd amrywiad, cyfatebol i radd allanol cyfaddasiad, a adrithir gan gyweirsangau, ac a roddir i fewn fel arnodiaid rhwng gwahansangau, fel ei gwahaniaethir oddi wrth y testyn i'r hwn y perthyna; megys yn yr engraifft ganlynol:—

We were very much pleased by a solo on the violin. It was the most exquisite harmony (melody?) we ever heard.

Yma rhoddir y gair *melody* (peroriaeth) i fewn rhwng gwahansangau gan y person sydd yn dyfynu, a chwanegir y gofynnod er i'r darlennydd ateb yr holiad o barth y priodoldeb o ddefnyddio y gair *melody* yn lle y gair *harmony* (cynghanedd), pan yn llefaru am gerddoriaeth offeryn syml o fath y grŵth. Pedwerydd amrywiad gwahansangiad a adrithir yn ddiammwys (*unequivocally*) gan y cyfeirnodau (§ 850 a 877, 2), y sawl a gyfarwyddant y darlennydd i edrych am adfrawdd gwahansangol na roddir i fewn ynghorff y testyn. Perthyn i'r amrywiad yma y mae y cyfeiriadau

sydd yn y froddeg uchod rhwng ymsangau, y sawl a gyfeiriant i'r gwahanol adranau a rifnodir; a buasai yn llawn mor briodol rhoi cyfeirnod (\* neu <sup>1</sup>) ar ol y gair cyfeirnodau, gan roddi y rhifnodau ar odre y ddalen.

§ 882. Mae yn hawdd gwahaniaethu pedwar amrywiad cyplysnodiad (§ 877, 3). Nôd cynghydiad a ddefnyddir i ddynodi gradd berthynol cyssylltiad rhwng geiriau a broddegau, megys mewn mydryddiaeth, fel y dangosir yn dlws gan Arvonwyson, fel hyn—"Cyplysnod"-au,

" Mewn barddoniaeth	}	a gyssonir :
Eu gwasanaeth		
Drwy gydglymiad	}	fel y gwelir."
Fawl a galwad		

Hefyd, gwelir eu gwasanaeth yn yr holl dafleni sydd yn y llyfr hwn, lle y dangosant berthynas yr isadraniadau â'r prif raniadau, &c. Nôd gwahaniad a ddefnyddir i wahanu colofnau o ffugrau mewn cyfrifiant, neu golofnau argraffedig mewn papyrâu newyddion a llyfrau. Nôd cynnwysiad a ddefnyddir mewn tafleni i gyssylltu gwahanol amrywiadau un adryw, gwahanol adrywiau un rhyw, gwahanol rywiau un bath, a gwahanol fathau un dosparth. Nôd adeiriad a ddefnyddir i ddynodi graddau perthynol cyssylltiad a fyddo rhwng geiriau neu dermau cyffredin cyfres; megys,

First person singular number.		
Second ditto	do.	do.
Third	„	„

Mewn amgylchiadau o adeiriad, weithiau defnyddir y sill *do*. neu y gair Lladin *ditto*, ac weithiau nodir yr adeiriad â dau wahannod fel uchod.

§ 883. Pedwerydd rhaniad atddodiad a elwir talfyriad (§ 877, 4), a chan ei fod yn radd ammwysol o fath ammwysol, mae o anghenrheidrwydd o natur osgoawl (*divergent*), a'i swydd megys bath o gyfrwng rhwng cydiad a gwahaniad, neu ystyr pennodol a negyddol. Mae pedwar amrywiad talfyriad mewn arferiad cyffredin. Y tolnod a ddefnyddir i ddynodi hebgoriad (*omission*) o lythyren neu sill; megys, *sever'd, I'll, don't*, am *severed, I will, do not*; ond ni ddylid defnyddio talfyriadau o'r fath braidd un amser yn y Seisneg, oddi eithr mewn mydryddiaeth ac i ddynodi cyflwr meddiannol enwau; megys, *William's horse*, yn arwyddo *the horse of William*. Yr ail amrywiad, a elwir gwarthnod (§ 877, 4), sef dau, tri, neu chwaneg o sernodau (\* \* \*), a arwydda hebgoriad rhywbeth anwedus i'w adrodd, neu a ddynoda ryw ddifffyg: ond ysgrifenwyr diweddar yn gyffredin

a ddewisant y diffyglin (—), yr hon sydd ychydig yn hwy na'r droddlin (§ 861, 2) ac na'r cyssylltnod (§ 879). Er engraifft:—

“ ‘Strike,’ says the Athenian, unmoved at the insult—‘but hear me,’ and continuing his discourse, he proceeded to shew ——.”

Dyna engraifft o'r droddlin, y cyssylltnod, a'r ddiffyglin, yr hon yw 'r olaf. Y llinell fannodol, a elwir godornod (§ 877, 4), a ddefnyddir i ddynodi hebgoriad naill ai yn fwriadol neu yn anfwriadol, a achosir gan drawsattaliad; megys, *I should go, if.....*” Yma gadewir allan—“*my circumstances would permit,*” neu ryw adfrawdd gyffelyb. Y diffyglin sy mewn arferiad cyffredin yn bresennol yn lle y llinell fannodol hefyd:—

“You know that gentleman? I mean —— yet I need not mention his name.”

Yma rhoddir y ddiffyglin yn fwriadol yn lle enw y boneddwr; ond yn y froddeg ganlynol, trawsattaliad a achosa y ddiffyglin:—

“How could I, when”——“Don't say you were not there, I”——“I'm sure I was not.”

Pedwerydd amrywiad talfyriad, a elwir talfyrnod, a ddefnyddir mewn geiriau pur gyffredin o'r Lladin neu 'r Seisneg; megys,

A. B. am *Artium Baccalaureus*.—Gwryf yn y Celfyddydau.

A. D. am *Anno Domini*.—Ymlwyddyn yr Arglwydd.

A. M. am *Artium Magister, Anno Mundi*, neu *Ante Meridiem*.—Athraw yn y Celfyddydau, Ymlwyddyn y byd, neu, Cyn canolddydd.

B. D. am *Baccalaureus Divinitatis*.—Gwryf mewn Duwinyddiaeth.

D. D. am *Doctor Divinitatis*.—Dysgawdwr, doethor, neu doctor mewn Duwinyddiaeth.

E. G. neu *e. g.* am *Exempli Gratia*.—Er engraifft.

*i. e.* am *id est*.—hyny yw.

L. L. D. am *Legum Doctor*.—Doctor neu Ddysgawdwr o'r Gyfraith.

M. D. am *Medicinæ Doctor*.—Dysgawdwr mewn Meddyginiaeth.

N. B. am *Nota Bene*.—Dalier sylw.

P. M. am *Post Meridiem*.—Ar ol canolddydd.

P. S. am *Post Scriptum*.—Ol ysgrifen.

Ult. am *Ultimo*.—Y (mis) diweddaf.

Etc. am *Et Cætera*.—Ac felly ymlaen.

A. am *Answer*.—Ateb.

Acct. am *Account*.—Cyfrif.

Bart. am *Baronet*.—Barwnig.

Cr. am *Creditor*.—Gofynwr neu Achretawr.

Dr. am *Debtor*, neu *Doctor*.—Dyledwr, neu Doctor.

Q. am *Question*.—Gofyniad.

Esq. am *Esquire*.—Yswain.

Mr. am *Master* neu *Mister*.—Meistr.

Mrs. am *Mistress*.—Meistres.

Mess. neu Messrs. am *Messieurs*.—Meistri neu Meistriaid=Fon-  
eddigion.

MS. am *Manuscript*.—Llawysgrif.

MSS. am *Manuscripts*.—Llawysgrifau, &c. &c.

§ 884. Dyna holl brif amrywiadau swydd y pedwerydd dosparth cyffredinol o arwyddion delfrydau, sydd o fewn terfynau priodol dosraniad geiryddol, neu ail gangen gyffredinol gwyddor iaith: buasai yn hawdd helaethu arnynt oll pe caniatasai lle, ond rhaid prysuro at y drydedd gangen—cyfosodiad geiryddol. Egyr y rhan yma o wyddor iaith ddrws eang o'n blaen, trwy yr hwn y gellid syllu yn fanwl ar holl amrywiadau pob dosparth o arwyddion delfrydau, ar wahan; ond er mwyn byrdeb, ceglir ynghyd, hyd y gellir, yr holl amrywiadau sydd o'r un cystrawiad, ac ym-drinir â hwynt yn heibiau; ac ni fydd hyn ym anfantais fawr i'r efrwydd.

---

## DOSPARTH II.

### CYFOSODIAD GEIRYDDOL, NEU GYSTRAWEN.

*Definiad Cyffredinol o swyddi Cyfosodol neu Gystrawenol Geiriau.*

§ 885. WRTH ymdrin â dosraniad geiryddol, cyfyngwyd yr archwiliad yn benaf at swyddi unigol geiriau fel dirprwyon neu adrithiaid delfrydau; ond yma, swyddi cynnulliadol geiriau yn adrithio delfrydau, fydd prif bwnc yr olrheiniad.

§ 886. Mae y drefn o archwiliad yn y ddwy ran yn naturiol ddosraniadol, er y gelwir un, Dosraniad Geiryddol, a'r llall, Cyfosodiad Geiryddol: nid yw yr anghyssonedd ymddangosol yma yn cynnwys gwrthwediad, am mai perthyn y mae y rhan arall yn benaf i swyddi cyfansoddol geiriau mewn ystyr unigol, ond hon i swyddi cyfansoddol geiriau yn eu trefn



gynnulliadol. Mae yr egwyddor gyffredinol yma o gyfaddasiad a dosraniad yn gynnwysedig ynghyfaddasiad cyffredinol a chydweiddol y pedwar gwahanrediad cyntefig sy mewn natur, yn cyfateb i'r geiriau mewnol, allanol, cymmysgedig, ac ammwysol; neu pennodol, negyddol, cymmysgedig, ac ammwysol; neu, gwrywol, benywol, canolig, ac ammwysol; neu, uniongyrch,<sup>1</sup> anuniongyrch,<sup>2</sup> &c. &c.

§ 887. Yn unol â'r egwyddor yma, gellir dosparthu swyddi cynnulliadol geiriau yn swyddi pennodol cyfansoddiad, swyddi negyddol cyfansoddiad, ac yn swyddi cymmysgedig ac ammwysol cyfansoddiad geiryddol; a gellir adranu y dosparthau hyn yn raddau cynnyddol fel yr eir ymlaen yngwahanrediad manwl deffiniadau dosraniadol.

§ 888. Swyddi pennodol cyfansoddiad a gynnwysir yn nhrefniad cyffredinol geiriau mewn broddeg. Y swyddi negyddol a berthynant i'r drefn briodol o hebgor y geiriau a ddeallir yn hawdd heb eu hadrodd yn bennodol. Swyddi cymmysgedig trefniad a berthynant i ffurfiad mewnol y geiriau a amrywiant o ran silliad yn ol eu cyssylltiad allanol neu eu cyfatebiad uniongyrch â geiriau eraill; a swyddi ammwysol trefniad a berthynant i amgylchiad yn yr hwn y byddo geiriau dan ddylanwad cyssylltiad anuniongyrch â geiriau eraill. Mae y dosparth cyntaf o'r swyddi cyffredinol hyn wedi dianc heb gael prin ei grybwyll gan y nifer amlaf o ramadegwyr, a'r sawl a gymerasant arnynt egluro ei natur a ymgyfyngasant at sylwadau ammwysol ac arwynebol ynghylch modd naturiol cystrawiad,<sup>3</sup> fel pe na fyddai ond un modd naturiol o drefnu geiriau mewn broddeg. Ail swydd gyffredinol trefniad a elwir yn gyffredin tolieithiad; ac er y sylwyd arni yn fynychach nag ar y llall, eto prin ei hystyriwyd fel cangen naturiol o drefniad geiriau. Trydedd swydd gyffredinol trefniad a elwir yn gyffredin cydweiddiad, a hon, ynghyda'r bedwaredd swydd gyffredinol, dan yr enw llywodraeth, a ystyriwyd hyd yn hyn, yn ddigon amhriodol fel prif bynciau cystrawen.<sup>4</sup>

§ 889. Gallir galw pedwar dosparth swyddogol cystrawen, sydd yn cyfateb i bedwar cyffredinedd deffiniad—pennodol, negyddol, cymmysgedig ac ammwysol, yn drefniad,<sup>5</sup> tolieithiad,<sup>6</sup> cyfatebiad uniongyrch<sup>7</sup> a chyfatebiad anuniongyrch.<sup>8</sup> Gelwir y trydydd a'r pedwerydd dosparth yn gyfatebiad

<sup>1</sup> Direct.

<sup>2</sup> Indirect.

<sup>3</sup> Construction.

<sup>4</sup> Syntax.

<sup>5</sup> Arrangement.

<sup>6</sup> Ellipsis.

<sup>7</sup> Direct correspondency.

<sup>8</sup> Indirect correspondency.

uniongyrch a'r anuniongyrch, am fod i'r geiriau ystyr mwy cyffredinol na chydweddiad a llywodraeth, heblaw y tueddant i drosglwyddo delfryd cywirach o'r hyn a wahaniaetha y naill swydd oddi wrth y llall yn yr un dosparth cyffredinol.

TAFLEN GYFFREDINOL O WAHANOL SWYDDI CYSTRAWEN.

§ 890. *Cyfosodiad Geiryddol.*

1. *Trefniad, neu swydd Bennodol.*

Dosp. 1af.

1. Swydd fewnol.—Internal function.
2. Nodwedd allanol.—External character.
3. Trefn cystrawiad.—Order of construction.
4. Nodau arbenigrwydd.—Marks of individuality.

2. *Tolieithiad, neu swydd Negyddol.*

Dosp. 2il.

1. Tolieithiad teleidiol.—Graceful ellipsis.
2. Tolieithiad talfyrog.—Laconic ellipsis.
3. Goddynodiadau.—Partial indications.
4. Hebgoriadau arwyddocaol.—Significant omissions.

3. *Cyfatebiad uniongyrch, neu swydd Gymmysgedig.*

Dosp. 3ydd.

1. Cyfundod cydiadol.—Connecting agreement.
2. Cyfundod anghydiadol.—Disconnecting agreement.
3. Cyfundod cymmysgedig.—Mixt agreement.
4. Cyfundod amhennodol.—Indefinite agreement.

4. *Cyfatebiad anuniongyrch, neu swydd Ammwysol.*

Dosp. 4ydd.

1. Mewn amser.—In time.
2. Mewn modd.—In mode.
3. Mewn cynhariaeth.—In comparison.
4. Mewn swydd berthynol. In relative function.

AM DREFNIAD GEIRIAU MEWN BRODDEG, NEU SWYDDI PENNODOL CYFANSODDIAD.

1. *Am Swyddi mewnol Trefniad.*

§ 891. Cyn myned ymhellach, annogir yr efrydydd i ddarllen eto, yn bur fanwl, yr § 491—519, a 557—591, er ymgyneffino â swyddi syml a chyffredinol geiriau ynghyfansoddiad broddeg.

§ 892. Yn awr, swyddi mewnol broddeg a adrithir gan bedwar prif gyflwr enwau, a'r dospeirth cyffredinol o eiriau

sydd yn gyfatebol i'r cyflyrau hyn. Ond, er mwyn gwahaniaethu swyddi cyffredinol geiriau mewn broddeg, oddi wrth y gwahanol gyflyrau a gymhwysant enwau i wasanaethu yn y swyddi hyny, defnyddir y gair swydd yn lle y gair cyflwr, a dywedir,

Swydd enwol broddeg.—The nominal function of a sentence.

Swydd ganolig broddeg.—The neutral function of a sentence.

Swydd adenwol broddeg.—The adnominal function of a sentence.

Swydd oradenwol broddeg.—The subadnominal function of a sentence.

§ 893. Canfyddir bod y gwahaniaeth yma rhwng y geiriau cyflwr a swydd yn anghenrheidiol, oblegid y gair cyflwr sy briodol i enwau yn unig, pan y cymmerant y swyddwisgoedd neu y banynau a'u cymhwysant i weini fel adenwau neu fel goradenwau; tra y mae'r gair swydd yn briodol i holl ddspeirth geiriau, pynag pa un ai adrithiaid parhaol neu sefydlog, ai achlysurol, fyddant o'r swyddi yn y sawl eu defnyddir; hyny yw, bod yr holl adenwau, pe ai perwyddol ai ansoddebol ai dynodiadol ai cyfartal, yn perthyn i swydd adenwol broddeg; a bod yr holl oradenwau, pe ai goreiriau ai cyssylltiaid ai arddodiaid, yn perthyn i swydd gyffredinol oradenwol broddeg. Y swyddi enwol a chanolig sydd adraniadau o'r dosparth cyntaf cyffredinol o eiriau a elwir enwau, fel y mae'r cyflyrau enwol a chanolig yn adraniad o ddsparth swyddogol enwol y geiriau a elwir bodenwau. Rhaid cofio, gan hyny, y cyfaddasir prif gyflyrau enwau at swyddi mewdol geiriau mewn broddeg, a bod cyflyrau enwol, canolig, adenwol, a goradenwol enwau, yn gyfartal i swyddi enwol, canolig, adenwol, a goradenwol broddeg.

§ 894. Mae pob broddeg gyflawn yn cynnwys amryw swyddi cyfansoddol, naill ai yn adroddedig neu yn ddealledig, er bod rhai broddegau heh gynnwys mwy na dau neu dri o eiriau. Mewn gwirionedd, distaw arwyddir amryw swyddi mewdol trefniad, hyd y nod pan fyddo y froddeg yn cynnwys dim ond un gair; megys mewn rhyfeddeb neu atebiad syml i holiad. Hawdd profi hyn trwy ddsrannu ychydig o froddegau syml.

- (1.) I see you now.
- (2.) I saw him then.
- (3.) I hear.
- (4.) I hear you.
- (5.) Are you well?
- (6.) Yes.
- (7.) Silence!

§ 895. Mae y gyntaf o'r broddegau syml hyn yn cynnwys pedair swydd fewdol trefniad. Y rhagenw *I* sydd yn y cyflwr

neu 'r swydd enwol; y perwyddiad *see*, yn y swydd adenwol; y rhagenw *you*, yn y cyflwr neu 'r swydd ganolig; a'r gorair *now*, yn y swydd oradenwol. Y gair *now*, yn y sefyllfa oradenwol, sydd yn gwasanaethu y gair *see*, yr hwn sydd adenw yn gweini i'r rhagenw *I* yn ei swydd enwol neu benaf; a'r rhagenw *you* sydd yn y sefyllfa ganolig, heb fod yn llywodraethu nac yn gweini, a'r sefyllfa ganolig hono sydd yn cyfansoddi yr hyn a elwir y swydd ganolig.

§ 896. Mae yr ail froddeg yn hollol gyffelyb i'r gyntaf, o ran rhif a sefyllfaoedd swyddi mewdol trefniad.

§ 897. Yn y drydedd froddeg, dwy swydd yn unig a adroddir yn bennodol, er ei bod yn arwyddo trydedd swydd, yr hon sy ddealledig. Y rhagenw *I* sydd yn y swydd enwol, a'r perwyddiad *hear* sydd yn y swydd adenwol; ac ymddengys y ddwy swydd hyn fel yn ffurfio broddeg gyflawn: ond mae'r swydd ganolig o anghenrheidrwydd yn ddealledig, canys pan sierheir y byddys yn clywed, mae yn amlwg y cyfeirir at rywbeth a glywir, a thrwy chwanegu enw y rhywbeth hyny, chwanegir trydedd swydd i'r froddeg; fel hyn,

I hear you.

Mae y drydedd froddeg, gan hyny, yr hon a ymddengys yn cynnwys dim ond dwy swydd, mewn gwirionedd yn cynnwys tair, a'r bedwaredd froddeg sydd adrihiad cyflawn yn unig o'r swyddi a adroddir yn dolieithiol yn y drydedd. Y bummed froddeg a gynnwys swydd adenwol, ganolig, a goradenwol.

§ 898. Y chweched froddeg a ymddengys fel yn cynnwys dim ond un swydd; ond y mae'r un gair hwnw yn arwyddo tair o swyddi eraill, oblegid y mae'n gyfartal i froddeg gyflawn adroddedig yn y geiriau hyn;

I answer you *affirmatively*.

Mae y froddeg hon yn cynnwys pedair swydd trefniad; a chan fod y gair *yes* yn oradenw cyfartal o ran ystyr i'r goradenw, *affirmatively*, mae yr holl froddeg yn gudd-ddealledig trwy yr un gair hwnw, *yes*.

§ 899. Mae y seithfed froddeg o'r un natur a'r chweched; canys yr enw *silence*, o'i ynganu fel rhyfeddeb, sydd air yn y swydd ganolig a arwydda yr adroddiad o'r swyddi mewdol eraill. Mae y banllefiad syml o'r gair *silence* yn gyfartal i'r froddeg hon,

I proclaim silence here,

ac y mae'r froddeg yma yn cynnwys holl swyddi mewdol trefniad.

§ 900. Gellir dywedyd yn ddiogel, gan hyny, y cyfansoddir pob broddeg o ddwy swydd o leiaf, naill ai yn adroddedig ai yn ddealedig, ac nad oes un froddeg yn cynnwys mwy na phedair o wahanol swyddi trefniad. Er hyny, gall y gwahanol swyddi hyn gael eu hail adrodd lawer gwaith drosodd yn yr un froddeg, a'r gwahaniaeth yma rhwng swyddi syml a chymmlyg a gyfansodda yr hyn a elwir nodwedd allanol broddegau.

§ 901. Pan na chynnwysa broddeg seml ond tair o'r pedair swydd fewnol, rhaid i'r un a hebgorir fod naill ai y ganolig neu yr oradenwol; canys gan mai yr enwol a'r adenwol yw prif swyddi trefniad, rhaid i'r rhai hyn bob amser naill ai yn adroddedig neu yn ddealedig. Digwydda yn fynych fod un gair yn adrithio broddeg gyfan, a bod y gair unigol hwnw yn perthyn i swydd israddol, megys y mae 'r gair *yes* yn adrithio swydd oradenwol, a'r gair *silence* yn adrithio y swydd ganolig; ond ymhob amgylchiad o'r fath, bydd y swyddi enwol ac adenwol yn ddealedig heb fod yn adroddedig.

§ 902. Gellir sylwi yma, pan yr adroddir broddeg âg un gair, yr adrithia y gair hwnw yn gyffredinol un o'r ddwy swydd nad ydynt yn anheggorol angenrheidiol er adroddiad cyflawn o ddefnyd neu froddeg. Mae y rheswm am hyn yn amlwg; canys y mae 'r adroddiad pennodol o un o'r swyddi nad ynt yn anheggorol angenrheidiol ymhob broddeg, yn arwyddo yr hebgoriad o'r ddwy swydd y rhaid eu bod yn ddealedig, a'r cyfryw hebgoriad a gyfansodda dolieithiad dealladwy.

§ 903. Trwy ddsoranu swddi broddeg a fyddo yn adroddiad cyflawn o ddefnyd, hawdd gweled paham y mae dwy swydd sydd yn anheggorol angenrheidiol, a dwy swydd sydd yn anghenrheidiol yn unig mewn rhai amgylchiadau o fanyldeb neilltuol.

§ 904. Y swydd enwol a adrithia ddefnyd am y bod neu y peth a fyddo tan sylw. Y swydd adenwol a adrithia ddefnyd am fodd neu sefyllfa y bod neu y peth hyny; ac am hyny mae y ddwy swydd hyn yn anheggorol angenrheidiol i ddy-nodi testyn neu sylfon (*subject*) broddeg.

§ 905. Y swydd oradenwol a adrithia ddefnyd am radd neilltuol a pherthynol yn modd neu sefyllfa bod neu beth, ac y mae 'n hawdd deall nad ydyw yn angenrheidiol bob amser nodi cysgodion manwl y radd berthynol a fyddo ymoddau neu sefyllfaoedd pethau. Er engrafft, os dywedir,

The weather is cold,

mae y froddeg yn gyflawn, a'r delfryd yn cael ei adrodd yn gywir, er na chynnwysa ond dwy o swyddi gwahanol—yr enwol a'r adenwol.

§ 906. Dwy o swyddi yn unig a gynnwys y froddeg dan sylw, er ei bod yn cynnwys pedwar o eiriau, tri o'r sawl sydd yn adenwau, ac am hyny yn perthyn i'r swydd adenwol. Pan berthyno amryw eiriau mewn broddeg i'r un swydd, mae y froddeg yn gymmlyg; ond gan yr eglurir y gwahanredion hyn eto, cyfyngir y sylwadau presennol at yr hyn a wahaniaetha y prif swyddi oddi wrth eu gilydd.

§ 907. Mae yn hawdd amgyffred y gellir adrodd delfryd yn llawn a chywir heb gynnorthwy swydd oradenwol, er y bydd gwasanaeth y swydd hono yn angenrheidiol pan yr ewyllysir bod yn bur fanwlyngwahaniaethiad graddau cymharol, megys yn yr engrafft ganlynol :

The weather is very cold.

Yma y gair *very* sydd oradenw yn egluro gradd yr oerni (*cold*), ac, megys y mae 'r gair *weather* yn y swydd enwol, a'r gair *cold* yn y swydd adenwol, y gair *very* sydd yn y swydd oradenwol. Y swydd gyntaf a'r drydedd yn y froddeg hon a ddelir gan eiriau unigol; ond yr adenw dynodiadol *the*, yr adenw perwyddol *is*, a'r adenw ansoddebol *cold*, ydynt oll yn perthyn i'r ail swydd. Yn ol y golygiad yma ar swyddi trefniad, ystyrir y cyflwr canolig fel yr olaf o ran swydd; oblegid, er ei sefyllfa ganolig, gweithreda mewn bath o swydd amwysol. Oherwydd hyn, mae yn rheidiol gwahaniaethu rhwng annibyniad ei sefyllfa a phwysigrwydd ei swydd. Ond, at ddostraniad y swyddi.

§ 908. Mae yn amlwg nad yw y swydd oradenwol yn angenrheidiol ymhob broddeg; a'r un modd y gellir dywedyd am y swydd ganolig: canys, mae yn adrithio delfryd am fod annibynol sydd yn meddu cyssylltiad canolig neu berthynol yn unig â phrif sylfon (*subject*) y froddeg. Pan y dywedir,

I see clearly ;

I see you ;

hawdd deall nad yw yn angenrheidiol bob amser defnyddio y swydd oradenwol, sydd yn egluro modd y gwelir, na'r swydd ganolig, sydd yn egluro y person neu y peth a welir genym; ac am hyny, gellir hebgor y naill neu 'r llall, neu y ddwy, mewn broddeg a edrydd ddelfryd am un peth yn unig o'i briodoleddau cyffredinol.

§ 909. Mae y ddwy swydd hyn, yr enwol a'r adenwol, yn anhebgorol angenrheidiol ymhob broddeg; a'r ddwy eraill, y ganolig a'r oradenwol, sydd yn angenrheidiol can belled yn unig ag y gofyno adroddiad o raddau perthynol am eu gwasanaeth.

§ 910. Mae o bwys i'r efrydydd ddeall y rhan yma o'r mater yn drwyadl, oblegid arweinia ef i benderfynu, pynag pa nifer o eiriau a ddichon broddeg gynnwys, nas gall rhif y gwahanol swyddi fod yn fwy na phedair; ac, mewn rhai engreiffiau, yn ddim mwy na dwy neu dair; er y gellir adrithio pob swydd âg amryw eiriau yn yr un froddeg. Yna y canlyn, bod trefniad geiriau mewn broddeg bur hir yn ddarostyngedig i'r un egwyddorion cyffredinolag ydyw trefniad geiriau mewn broddeg bur fer; ac arweinia yr ystyriaeth yma yr efrydydd yn naturiol at y gwahaniaeth sydd yn nodwedd allanol broddegau.

## 2. *Am Nodwedd allanol Broddegau.*

§ 911. O barth nodwedd unigol, gellir gwahaniaethu broddegau wrth y gwahanol raddau o symledd neu gymhlygiaeth (*complexness*) a fyddont yn eu swyddi, a thrwy gymhwyso ein safon arferol o gyfaddasiad dosraniadol, canfyddir pedwar bath gwahanol o froddegau:

### *Nodwedd allanol<sup>1</sup> Broddegau.*

Syml.

Cymmlyg.

Cyfansawdd.

Ammwysol.

## BRODDEGAU SYML.

§ 912. Broddeg a ystyrir yn seml, pan fyddo pob un o'i swyddi yn gynnwysedig mewn gair unigol; ond gall y gair hwn fod yn syml neu gyfansawdd heb newid nodwedd y froddeg. Er engraifft:—

- (1.) We converse freely.
- (2.) We converse with pleasure.
- (3.) You injure yourself.
- (4.) You are in danger.
- (5.) They sleep.
- (6.) We understand you now.

§ 913. Mae y broddegau hyn oll yn syml, er bod swyddi goradenwol yr ail a'r bedwaredd yn cael eu hadrithio gan eiriau cyfansawdd; hyny yw, gan gyflyrau goradenwol enwau, y sawl a ofynant gynnorthwy banynau er eu gwneyd yn gyfartal i oradenwau rheolaidd a chyflawn.

§ 914. Gall broddeg seml gynnwys dwy neu dair neu y bedair swydd; ond unwaith yn unig y rhaid adrithio pob un o'r swyddi: canys, os ail adroddir rhyw un o'r swyddi mewn broddeg, newidir y nodwedd, a gwneir y froddeg yn gymmlyg.

<sup>1</sup> The external character of sentences.

## BRODDEGAU CYMMLYG.

§ 915. Mae rhai broddegau a ystyrir yn gyffredin yn syml, mewn gwirionedd yn gymmlyg, er na chynnwysant bob un o'r pedair swydd seml. Mae y froddeg ganlynol yn gymmlyg, er nad yw yn cynnwys ond pedwar gair yn unig; canys y mae tri o'r geiriau hyny yn ail adrodd yr un swydd gyffredinol, ac felly dwy swydd sy'n cyfansoddi yr holl froddeg.

The weather is cold.

Os dywedir,

The weather is very cold,

cynnwys y froddeg dair gwanhanol swydd, ond nid ydyw yn fwy cymmlyg; oblegid nid oes ynddi eto ond un swydd gymmlyg, y ddwy eraill ynt hollol syml.

§ 916. Gall un, neu ddwy, neu dair, neu bob un o swyddi broddeg syml gael eu hail adrodd amryw weithiau, a gall y cyfryw ailadroddion fod yn fwy neu lai lluosog a chymmlyg.

(1.) William's son | is coming | here.

(2.) We | shall return | to town | in the cool of the evening.

(3.) We | met | multitudes of people returning from the fair | last evening.

§ 917. Mae pob un o'r tair broddeg hyn yn fwy neu lai cymmlyg; ond heblaw bod ailadroddiad o amryw o'r swyddi syml yn eu gwneyd yn gymmlyg, gellir sylwi ar fath o dueddiad mewn rhai geiriau at gymdeithasiad, trwy yr hyn yr ymddengys fod rhyw heibiau o swyddi unigol yn adrithio gwanhanol gyttyriadau (*aggregations*) neu swyddi cynnulliadol. Gwahanwyd yr heibiau hyn trwy roddi llinellau bychain unionsyth rhyngddynt.

§ 918. Mae y froddeg gyntaf yn cynnwys tair swydd seml, un o'r sawl a adroddir dair gwaith. Y gair *son* a adrithia y swydd enwol; y geiriau *William's, is, a coming*, ydynt ailadroddion o'r swydd adenwol; a'r swydd oradenwol a adrithir gan y gair *here*. Ond y mae'n amlwg fod y geiriau *William's son* yn ffurfio haib neu adfrawd wahaniaethol, a ellir alw yr adfrawd enwol (*nominal clause*), oblegid y mae'r enw *son* yn y cyflwr enwol, ac y mae'r adenw *William's* yn cael ei glymu wrtho mewn modd mwy neilltuol na'r adenwau *is a coming*, er bod yr enw mewn ystyr mor gydgyssylltiol â'r naill o'i adenwau ag ydyw â'r llall. Mae'n hollol amlwg, er hyny, bod y geiriau *is a coming* yn cydsefyll fel adfrawd adenwol, a bod y gair *here* yn sefyll yn unig fel adrithiad (*representative*) o'r adfrawd neu y swydd oradenwol.

§ 919. Wrth y tueddiad yma i ffurfio heibiau neu adfrodau,



ymddengys bod rhai swyddi arlywiadol<sup>1</sup> y sawl a ffurfiant wahanol gyttyriadau bychain, ac wrth fanylu canfyddir mai y swyddi arlywiadol hyn yw swyddi cyntefig broddeg pan yn ei ffurf symlaf. Cymmerir, er engraifft, y drydedd froddeg (§ 916), a throir hi i'w helpenau syml.

We met multitudes last evening.

Yma canfyddir pedair swydd seml cyfansoddiad, pob un yn cael ei hadrithio gan air unigol, oddi eithr yr olaf, yr hon a adrithir â gair cyfansawdd, wedi ei ffurfio o ddau air a gydir ynghyd gan gyssylltnod. Dewiswyd y gair cyfansawdd tan sylw yn fwriadol yn hytrach na goradenw syml, er dangos y modd y gellir cyttru amryw swyddi unigol yn un gair neu adfrawd, i adrithio un swydd wahanol ynghyfansoddiad broddeg; ac y mae'r engraifft yma o ddau air wedi eu gweithredol gydgyssylltu i adrithio un swydd, yn dangos yn fanwl fel y mae amryw eiriau a berthynont i swyddi gwahanol yn ffurfio un cyttriad neu haib bennodol dan ddyllanwad un swydd arlywiadol. Mynych y gwelir nifer o wahanol eiriau wedi eu cydio ynghyd â chyssylltnodau i ffurfio un gair arwyddocaol, megys y "*never-to-be-forgotten treachery*," &c. Er mai un adenw cyfansawdd yn unig a ffurfia yr haib yma o eiriau, eto mae'n gyfansoddedig o ddau wahanol adenw ac uu goradenw.

§ 920. Naturiol, gan hyny, ydyw i brif swyddi broddeg ffurfio cyttyriadau pennodol o wahanol swyddi unigol, ac i bob un o'r cyttyriadau neu adfrodau hyn adrithio un swydd gynnulledig dan ddyllanwad y prif air. Y gwahaniaeth yma rhwng swydd seml ac un gyfansawdd, ydyw yr achos o'r gwahaniaeth sy rhwng nodwedd syml a chymmlyg broddegau; ac er nad arferol ydyw cydio swyddi unigol is-gyttiriadau, fel y cydir gwahanol aelodau gair cyfansawdd, â chyssylltnodau, eto mae egwyddor cyssylltiad yr un yn y ddau amgylchiad.

§ 921. Yn y froddeg yma—*We met multitudes last evening*, y gair *we* a adrithia y brif swydd enwol; *met*, y brif swydd adenwol; y gair *multitudes*, y brif swydd ganolig; a'r geiriau *last-evening*, a adrithiant y brif swydd oradenwol, er i fanyn neu swyddwisg y cyflwr goradenwol gael ei hebgor. Pe rhoddid y swyddi yn gyflawn, byddai fel hyn;—*We met multitudes on-last-evening*. Oddi eithr y gair cyfansawdd a adrithia swydd oradenwol y froddeg hon yn ei ffurf gymmlyg gyntaf, mae yn amlwg mai y ganolig yw yr unig swydd gyfansawdd sydd yn y froddeg; canys y mae'r geiriau *we* a

<sup>1</sup> Predominant.

*met* yn berffaith syml. Trwy drefnu y geiriau yn y dull canlynol, bydd yn amlwg y cyttyrir yr holl is-swyddi unigol braidd gyda'r gair *multitudes*, mewn un adfrawdd gyffredinol:—

Last evening | we | met | multitudes-of-people-returning-from-the-fair.

Bydd hyn yn fwy amlwg os hebgorir y gair *multitudes*, canys yna gwelir y gommedd ei osgorddalu<sup>1</sup> (os goddefir y gair) ffurfio cymdeithasiad uniongyrch â'r prif swyddi eraill:—

Last-evening | we | met | of-people-returning-from-the-fair.

Mae yn amlwg yma nas dichon y gosgorddalu weithredu heb gynnorthwy eu tywysog, sef y swydd arweiniol; ond y gall hi weithredu heb ei gosgorddalu (*satellites*):—*Last evening we met multitudes.*

§ 922. Os dosrenir y swyddi unigol a gyttyrir ynghyd dan ddylanwad digyfrwng y swydd ganolig a adrithir yma gan y gair *multitudes*, canfyddir yn gyntaf, y gair *of-people*, yr hwn sy gyflwr adenwol neu adenw cyfartal; yn ail, y gair *returning*, yr hwn sydd adenw perwyddol; ac yn drydydd, y gair cyfansawdd, *from-the-fair*, yr hwn sy gyflwr goradenwol, neu oradenw cyfartal, gwedi ei gydio â'r adenw dynodiadol *the*, er adrithio un swydd sengl. Felly, nid yn unig cyttyrir yr is-swyddi unigol yn un adfrawdd dan ddylanwad un swydd gyffredinol, ond ffurfir dwy o'r is-swyddi hyn eu hunain o eiriau cyfansawdd neu is-heibiau o wahanol swyddi.

§ 923. Y gwahaniaeth arbenigol rhwng broddeg seml ac un gymmlyg, ydyw, bod holl swyddi y flaenaf yn berffaith syml neu unigol; a bod un, o leiaf, os nad holl swyddi yr olaf, wedi ei ffurfio o adfrodau, neu heibiau o is-swyddi unigol dan ddylanwad prif swyddi y froddeg pan yn ei sefyllfa symlaf. Daw hyn yn amlycach eto pan dreithir ar gystrawriad broddegau. Digon yw sylwi, yn y fan yma, mai yr enw a'r adenw perwyddol, y sawl a gyfueir<sup>1</sup> ynghyd i adrithio prif ddelfryd y froddeg, a phriodoledd arweiniol y delfryd hwnw, ydyw yr arweiniol swyddi enwol ac adenwol bob amser yn y froddeg. Mae'n wir y cyfansoddir adfrodau prif froddegau weithiau o froddegau cyfan, ond yr un egwyddor a lywodraetha yn y ddau amgylchiad; canys y mae'r froddeg, yr hon yn unig a ffurfia adfrawdd o froddeg fwy cyffredinol, yn llywodraethu ei swyddi unigol ei hun, bron yr un fath a phe byddai mewn sefyllfa annibynol. Cyfansoddir prif gorff

<sup>1</sup> Satellites.

<sup>2</sup> Conjugated.

broddeg, gan hyny, o enw a pherwyddiad cyfieuedig (*conjugated*), mewn cyssylltiad uniongyrch â'r prif swyddi perthynol, y ganolig a'r oradenwol, pan ddigwyddo i un neu y ddwy swydd hyn gael eu hadrodd mewn broddeg. Mae yn hawdd canfod prif swyddi broddeg gymmlyg trwy ei throi yn froddeg seml noeth, yna gwelir pa rai o'r prif gyflyrau a ffurfiasant gyttyriadau cryno er chwanegu grym eu swyddi.

§ 924. Pan droir broddeg gymmlyg fel hyn i'w phrif swyddi syml, bydd yn hawdd deall bod y swyddi a ffurfiwyd o is-attyriadau, yn hollol gyfartal i air cyfansawdd. Trwy gydio geiriau adlawiadol (*secondary*) ynghyd â chyssylltnodau, er ffurfio un cyttryiad cryno, eniuddir y gosgorddlu, megys, gan eu harweinydd, a ffurfia yr holl haib un swydd gyfansawdd, a adrithir, gan gnewullyn y brif swydd, pynag pa un a fyddo ai yr enwol, yr adenwol, y ganolig, ai yr oradenwol.

§ 925. Pedair prif swydd sydd i froddegau, ymhob amgylchiad, a gall nifer y prif swyddi hyn mewn broddeg amrywio o ddwy i bedair. Pynag pa un ai dwy, tair, ai pedair o swyddi a adroddir mewn broddeg, bydd nodwedd y froddeg yn syml, os bydd pob swydd yn sengl; ond os bydd rhyw un o'r swyddi yn gyfansawdd, sef wedi ei chyfansoddi o amryw swyddi dan ddylanwad un, ystyrir nodwedd y froddeg yn gymmlyg.

## BRODDEGAU CYFANSAWDD.

§ 926. Broddeg gyfansawdd a ffurfir trwy gyfuniad o ddwy neu chwaneg o froddegau cyflawn yn un froddeg gyffredinol; a dichon i'r broddegau a gydlunir fel hyn yn un froddeg gyfansawdd, fod naill ai yn syml, cymmlyg, neu ammwysol.

927. Amryw froddegau a gyfunir yn gyffredinol trwy gyfrwng adenwau cydiadol; y sawl, o herwydd eu swydd, a elwir yn gyffredin cysylltiaid.

(1.) I am rich. You are poor. Neither of us is perfectly happy.

Mae y rhai hyn yn dair broddeg gyflawn, a gellir eu cyfuno trwy gyfrwng dau adenw cydiadol; fel hyn,

(2.) I am rich *and* you are poor, *but* neither of us is perfectly happy.

3. Last evening we met multitudes of people returning from the fair. Many of them were evidently under the influence of excitement, from having indulged themselves too freely in the pleasures of wine.

Y ddwy froddeg gymmlyg hyn (3) a gyfunir trwy gyfrwng yr adenw cydiadol *and*.

(4.) Last evening we met multitudes of people returning from the fair, *and* many of them were evidently under the influence of excitement from having indulged themselves too freely in the pleasures of wine.

§ 928. Mae yn bur hawdd cyfuno broddegau a berthynont yn uniongyrch i'r un pwnc, ac yn fynych bydd yn hyfrytach darllen un froddeg hir gyfansawdd nag amryw o froddegau byrion annibynol: ond dylid bod yn bur ofalus i beidio cyfuno broddegau ar na fyddont yn dal perthynas agos i'w gilydd. Hefyd, bydd yn fwy dymunol weithiau cadw rhai broddegau ar wahan, y byddai yn hawdd, o ran priodoldeb ieithodurool, eu cyfuno; ond i areitheg y perthyna pynciau fel hyn yn hytrach nag i eiryddiaeth.

§ 929. Yn awr rhoddir cyfarwyddyd byr i'r efrydydd i droi broddegau cymmlyg i'w helpenau mwyaf syml, ac yna i heibio y cyttyriadau israddol o amgylch y prif swyddi i'r sawl y perthynant yn naturiol. Yr engraifft a gymmerir yw y froddeg a nodir â (1) yn yr adran hono, § 933. Dechreuir trwy docio (*prune*) y froddeg gymmlyg dan sylw o'r cyttyriadau adlawiadol (*secondary*) a gynnwysant bârau cyfieuedig o swyddi enwol ac adenwol, a ddefnyddir mewn dull israddol, megys adfrodau yn unig o'r froddeg gyffredinol, ac fel y cyfryw a ystyrir yn unig fel arweinyddion cyttyriadau israddol, ac nid o'r un pwysigrwydd a'r broddegau annibynol a gydir ynghyd ar dir cyfartal mewn broddegau cyfansawdd:

“In the first uncultivated ages of a state, | men, being contented with the produce of their own fields, | have | but little occasion | for money.”

I'r froddeg hon nid oes ond un pâr cyfieuedig o swyddi arweiniol, er mor gymmlyg ydyw pob un o'i swyddi cymtefig.

§ 930. Cylcheden (*framework*) neu elfenau mwyaf syml y froddeg a ddullweddyd yn yr adran olaf, ydyw hyn,

“Men have occasion for money.”

Dyma bedair prif swydd y froddeg; ond y mae ystyr pob un o'r swyddi syml hyn wedi ei lwyr newid, 1, gan ei ddullweddiad mewnol ei hun, ac yn 2, gan ddullweddiadau penodol yr holl brif swyddi ereill. Fel engraifft o ymarferiad yn nullweddiad swyddi cymtefig, trwy eu trawsffurfio yn

adfroddau (*clauses*) neu swyddi cyfansawdd, ysgrifener y froddeg yma mewn cyfres o ffurfiau cyfatebol i ddullweddiad canlynol ei phrif swyddi:—

(1.) MEN-being-contented-with-the-produce-of-their-own-fields | HAVE | OCCASION | FOR-MONEY.

(2.) MEN,-being contented with the produce of their own fields | HAVE | but-little-OCCASION | FOR-MONEY.

(3.) Being content with the produce of their own fields, MEN | HAVE | but little OCCASION | FOR-MONEY | in-the-first-uncultivated-ages-of-a-state.

(4.) Being-contented-with-the-produce-of-their-own-fields,-MEN | HAVE,-in-the-first-uncultivated-ages-of-a-state | but-little-OCCASION | FOR-MONEY.

Wrth y cyfwaith (*process*) yma, canfyddir mai y swydd enwol a ddullweddir yn yr engraifft gyntaf; y ganolig, yn yr ail; yr adenwol, yn y bedwaredd; ac mai y brif swydd oradenwol ydyw yr unig un na chafodd ei newid pan y mae'r froddeg yn gyflawn. Yn y sefyllfa yma, gan hyny, mae y froddeg yn cynnwys tair adfrawdd, neu dair swydd gyfansawdd; ac adrithir un swydd seml gan y goradenw cyfartal, *for-money*. Eglurir dullweddiadau y prif swyddi ymhellach pan draithir ar gystrawiad broddegau.

§ 931. Gall broddeg gyfansawdd ymddangos yn ffurfiedig weithiau o ddim ond dau aelod yn unig, pan, mewn gwirionedd, y bydd pob un o'r cyfryw aelodau yn cynnwys amryw froddegau gwahanol; megys yn yr engraifft ganlynol:—

I am rich and you are poor, but neither of us is perfectly happy; *nor* do I see that there is any plausible reason for thinking that we can find happiness in this world, so long as the incoherence of social interest shall force the different classes, ages, and sexes to remain disunited in conflicting selfishness.

Yr aelod blaenaf o'r froddeg gyfansawdd hon a ffurfir o dair broddeg gyflawn wedi eu cadwyno ynghyd gan gyssylltiad, ac y mae'r ddau aelod cyffredinol eu hunain wedi eu cadwyno ynghyd gan y goradenw cydiadol *nor*.

§ 932. Y prif wahaniaeth rhwng broddeg gymmlyg ac un gyfansawdd ydyw bod yr olaf yn meddu dau brif bâr, o leiaf, o swyddi cyfieuedig neu sylfaenol, yr enwol a'r adenwol, pan nad oes i'r flaenaf (broddeg gymmlyg) ond un pâr arweiniol o swyddi neu adfroddau sylfaenol; ond dygwydda yn fnych fod un o aelodau cyffredinol broddeg gyfansawdd yn ffurfiedig o amryw fyr froddegau cyflawn wedi eu cadwyno ynghyd gan gyssylltiad, fel nad ymddengys mor gymmlyg ag un froddeg sengl a fyddo yn dra chymmlyg. Mae y froddeg yna a ysgrifenwyd yn awr i egluro y gwahaniaeth dan sylw, yn ymddangos fel yn cynnwys dim ond dau

o aelodau cyflawn, er bod pob un o'r aelodau hyn yn gyfansoddedig o amryw froddegau cyflawn wedi eu cydgyssylltu yn un cymmlyg cyffredinol; ac y mae pob un o'r broddegau byrion a gadwynir ynghyd fel hyn yn cynnwys rhestr gyflawn o swyddi, rhai o'r sawl sydd yn hollol syml, tra y mae ereill yn fwy neu lai cymmlyg.

§ 933. Pan fyddo pob un o aelodau broddeg gyfansawdd yn bur gymmlyg ac yn bur hir, bydd yn well eu gwahanu yn amryw froddegau cymmlyg, na'u cydio yn un froddeg gyfansawdd gyffredinol. Byddai y froddeg ganlynol yn well wedi ei dosparthu yn ddwy o froddegau gwahanol:—

(1.) In the first uncultivated ages of any state, ere fancy has confounded her wants with those of nature, men, contended with the produce of their own fields, or with those rude improvements which they themselves can work upon them, have little occasion for money, which, by agreement, is the common measure of exchange.

Nid broddeg gyfansawdd ydyw hon, ond y mae 'n un bur gymmlyg, ac ni fyddai mor flinderus pe'i trefnid yn ddwy froddeg gyflawn: fel hyn:—

(2.) In the first uncultivated ages of any state, ere fancy has confounded her wants with those of nature, men have little occasion for money, which is now deemed so essential as a common measure of exchange. The absence of refinement in primitive ages renders people content with the produce of their own fields and with those rude improvements which they can effect on a small scale by their own industry.

Gellir dywedyd bod y ddwy froddeg hyn yn trosglwyddo ystyr sydd ychydig yn wahanol i'r cyntefig; ond tybir bod y gwahaniaeth yn wellâd, a bod ystyr gyffredinol y delfrydau yn cael ei adrodd gyda mwy o eglurder a chywirdeb. Ond, pwnc o gelfyddyd ydyw hyn, a grybwyllir yma yn unig yn achlysurol, er cymmell yr efrydydd i arfer ei alluoedd meddyliol ar amrywiadau cydgyfuniad, trwy yr hyn y gellir heibio (*to group*) ac adrodd delfrydau mewn broddegau. Mae tel-eidrwydd arddull (*style*) mewn ysgrifeniad a llefariad yn dibynu i raddau mawrion ar y dull ffel a chelfyddol o gydio a gwahanu broddegau unigol, ac y mae yn rhan o drefniad (*arrangement*) a ddylai gael sylw manylaf y rhai a ymgeisiant at ardderchogrwydd mewn cyfansoddiad llenorol; ond gan mai dosraniad o swyddi geiryddol yn unig ydyw yr hyn sydd i fod tan sylw yma, ni wiw ymdroi i helaethu ar ddirgelion celfyddyd ac ar deleidion arddull. Bydd ychydig o ymarferiad mewn cyfansoddi a dadgyfansoddi broddegau cyfansawdd yn ddigonol i wneyd yr efrydydd meddylgar yn adnabyddus â'r ffynnonellau cyfansoddiadol hyn.

§ 934. Mae un gwahanrediad y dylid sylwi arno yma, sef y rhaid i bob un o aelodau broddeg gyfansawdd gynnwys un brif froddeg yn cael ei hadrodd yn modd dilysol sicrhad, oblegid cyfuniad o froddegau yn cael eu hadrodd mewn gwahanol foddau a gyfansodda un o brif nodweddau broddeg ammwysol. Mae yn hawdd cofio hyn. Broddeg gyfansawdd a gyfansoddir o amryw aelodau cyflawn yn cael eu hadrodd yn y prif fodd, neu fodd dilysol sicrhad. Broddeg yn cynnwys dau aelod, un o'r sawl a adroddir yn y modd ammodol, neu mewn ffurf droddiadol (*transitional form*), sydd o angenrheidrwydd o nodwedd ammwysol.

## BRODDEGAU AMMWYSOL.

§ 935. Ystyrir broddeg yn ammwysol, pan nas gellir yn naturiol ei dosparthu nac fel broddeg seml, na chymmlyg, na chyfansawdd. Gall ychydig engreiffitiau wasanaethu yn lle deffiniad, er dangos nodwedd ammwysol y broddegau a ymddangosant fel yn cyfranogi o natur y cwbl ereill, heb berthyn yn bennodol i'r naill na'r llall o honynt. Er engraifft :—

(1.) He and I converse.

Mae i hon radd o nodwedd broddeg seml, ac eto mae yn gyfartal i froddeg gyfansawdd ; fel hyn—

(2) He converses ; and I converse.

Y goradenw cydiadol, *and*, a gyfuno y ddau berwyddiad neu adenw unigol, y rhai a wasanaethant y ddwy swydd enwol, a'r cyfuniad yma o'r ddau berwyddiad unigol, a ffurfia un adenw perwyddol lluosog cyfatebol i swydd enwol lluosog y ddau gyflwr enwol unigol, *He ac I*.

§ 936. Yr un peth a ellir ddywedyd am gyfuniad agos ddwy froddeg gymmlyg :—

(1.) You and he are intimately acquainted.

Mae yr un froddeg gymmlyg yma yn gyfartal i ddwy :—

(2.) He is intimately acquainted with you, and you are intimately acquainted with him.

§ 937. Mae bath arall o froddeg ammwysol a gyfranoga o nodwedd un gymmlyg ac o'r eiddo un gyfansawdd :—

(1.) It is my opinion that,—you are taking the shortest way to ruin yourself.

Mae hon yn gyfartal i froddeg gyfansawdd ; ac eto mae yr aelod cyntaf o nodwedd ammwysol, gan fod yn debycach i adfrawd israddol neu i swydd gyfansawdd nag i froddeg

gyflawn. Er hyny, mae 'n hawdd dangos bod yr aelod cyntaf neu ammwysol yn gyfartal i froddeg gyflawn; fel hyn :

(2.) You are taking the shortest way to ruin yourself. That is my opinion.

Rhoddir y nodwedd ammwysol yma yn gyffredin i froddeg gyfansawdd, trwy wrthgyflëu ei haelodau; megys,

(1.) The fact is that, you are very much deceived.—(*Broddeg Ammwysol.*)

(2.) You are much deceived. That is the fact.—(*Broddeg Gyfansawdd.*)

§ 938. Yn ol trefn uniongyrch cystrawiad, mae i bob aelod ystyr cyflawn; ond pan y cymmer gwrthdroad le, bydd yr aelod cyntaf yn anghyflawn, oblegid na fydd y delfryd i'r hwn y perthyna wedi cael ei adrodd ymlaen llaw. Mae hyn yn arwain yr efrydydd yn naturiol at y dosparth nesaf o'r pwnc—cystrawiad broddegau; ond gellir sylwi yma, mai ammwysol fydd broddeg pan fyddo un o'i swyddi cyfansawdd yn gyfartal i froddeg gyflawn, nodwedd israddol yr hon a'i hanghymhwysa i sefyll yn unigol mewn sefyllfa annibynol; megys,

If it be true that ;  
Who was much admired ;  
When that is the case ;  
I really think that ; ———.

Nis gellir ystyried y broddegau perthynol hyn yn aelodau annibynol o froddeg gyfansawdd; ac am hyny gelwir hwynt yn swyddi cyfansawdd ammwysol neu allanol, yn cyfranogi o natur broddeg gyflawn ac o'r eiddo cyttyriad israddol.

§ 939. Pan gyfansoddir broddeg gyffredinol o ddau aelod annibynol, neu froddegau cyflawn, bydd yn gyfansawdd: pan ei cyfansoddir o un froddeg annibynol, ac un froddeg berthynol neu ammwysol, bydd yn ammwysol: pan ei cyfansoddir o swyddi cyfansawdd allanol yn unig, bydd yn gymmlyg; a phan yr adrithir ei holl swyddi gan eiriau unigol, bydd yn berffaith seml.

### 3. *Am Gystrawiad Broddegau.*

§ 940. Mae hon yn rhan bwysig iawn o drefniad, ac, mewn ystyr athronyddol, cyflwyna faes pur eang i sylw yr arsyllydd gwyddoregol; ond, gan fod symledd a byrdeb ymhlith anheborion y treithodyn hwn, ni wiw arwain yr efrydydd un cam dros derfynau ymarferiad.

§ 941. Trwy gymhwyso yr egwyddor gyffredinol o ddosraniad, gellir gwahaniaethu pedwar bath gwahanol o drefniad mewn swyddi broddegau:—



1. Trefniad *uniongyrch* cystrawiad.
2. Trefniad *gwrthdröedig* cystrawiad.
3. Trefniad *cymmysgedig* cystrawiad.
4. Trefniad *ammwysol* cystrawiad.

§ 942. Gelwir trefn cystrawiad yn uniongyrch pan adroddir swyddi arweiniol broddeg o flaen y swyddi perthynol; sef, pan ragflaeno y prif enw a'r prif adenw yr adfrodau goradenwol neu ganolig, y sawl a eglurant eu graddau a'u sefyllfaoedd perthynol; megys yn y froddeg ganlynol:—

We hear you distinctly.

Yn y froddeg hon saif y swydd enwol yn gyntaf; yr adenwol, yn ail; y ganolig, yn drydydd; a'r oradenwol, yn bedwerydd, ac olaf. Os gadewir allan y swydd ganolig bydd y froddeg fel hyn: *We hear distinctly*—ac yn y trefniad yma saif yr enw, neu y swydd feistrolaidd, yn gyntaf; yr adenw, neu y gwas, yn ail; a'r goradenw, neu yr eilwas, yn olaf; fel y mae blaenoriaeth sefyllfa yn cyfateb i'r eiddo graddiant (*rank*) pob swydd.

§ 943. Bydd trefn cystrawiad yn wrthdröedig pan safo y swyddi israddol, sef y ganolig a'r oradenwol, yn enwedig yr olaf, o flaen y prif swyddi, sef o flaen yr enwol a'r adenwol, megys yn yr engreiffiau hyn:—

(1.) How often are we deceived?

(2.) *In the first uncultivated ages of a state, MEN HAVE but little OCCASION FOR MONEY.*

Yn y froddeg yma (yr 2), rhoddwyd yr adfrawdd oradenwol gyntaf mewn llythyrenau Italaidd, i'w gwahaniaethu oddiwrth y swyddi enwol ac adenwol, y rhai sydd mewn llythyrenau penigol. Rhoddwyd swyddi perthynol ereill y froddeg, y ganolig a'r oradenwol, yn null uniongyrch trefniad.

§ 944. Ystyrir trefn cystrawiad o nodwedd cymmysgedig pan osodir y drydedd swydd rhwng y gyntaf a'r ail; neu, pan osodir y swydd ganolig o flaen y prif swyddi:—

(1.) *MEN, in the first uncultivated ages of a state, HAVE but little occasion for money.*

(2.) You, I *ESTEEM* more than him.

Yn ol trefn gymmysgedig cystrawiad, gosodir y prif swyddi mewn trefn uniongyrch yn eu perthynas â'u gilydd, tra y gosodir cynnorthwyolion pob un mewn trefn wrthdröedig; hyny yw, rhagflaena y cynnorthwyolion y prif swyddi i'r sawl y perthynant yn bennodol; megys yn y broddegau uchod ac yn yr un ganlynol:—

(3.) *WE sometimes MEET your sister HELLEN ON-the new-PARADE.*

Prin y mae 'n rheidiol ailadrodd y gall prif swyddi broddeg gael eu hadrithio gan eiriau unigol, a phan y geilw un o'r geiriau hyny am gyttyriad israddol o swyddi unigol i'w wasanaeth, y deil ef o hyd, fel cnewullyn yr adfrawdd, yr un swydd ag a ddeil fel swydd unigol. Yn y froddeg (1) o'r adran hon, adrithir y brif swydd enwol, gan y gair unigol *men*; y brif swydd adenwol, gan y gair unigol *have*; y brif swydd ganolig a adrithir gan y gair *occasion* a'i ddau os-gordd, *but little*; y brif swydd oradenwol, a adrithir gan y gair cyfansawdd, *for-money*: felly ail swydd oradenwol yn unig yn y froddeg yw yr holl adfrawdd oradenwol sy mewn llythyrenau Italaidd, er mor lluosog ac amryw ydyw ei rhanau cyssodol. Gan fod i'r swydd ganolig fath o raddiant anni-bynol, gellir ei gosod braidd yn y sefyllfa a ddewiser, heb newid nodwedd cyffredinol trefniad yn y cystrawiad. Eto, fe'i gosodir yn gyffredin ar ol y brif adfrawdd adenwol, pynag pa un ai uniongyrch ai gwrthdröedig fyddo y cystrawiad.

§ 945. Ystyrir trefn cystrawiad yn ammwysol pan osodir y prif swyddi mewn dull gwrthdröedig, ac y gosodir eu cyn-northwyolion pennodol ar eu hol mewn dull uniongyrch:—

(1.) How often are we deceived by our own imagination.

Ammwysol hefyd y cyfrifir cystrawiad, pan fyddo pâr cyfieuedig o swyddi yn ddealedig ac heb fod yn adroddedig; megys mewn rhyfeddeb neu mewn atebiad syml i holiad, neu pan wneir i ystyr broddeg ymddibynu ar osodiad eu nodau mewnol. Rhydd Cobbett yr engraifft ganlynol o ammwysedd yn nhrefn cystrawiad:—

(2.) You will be rich if you be industrious, in a few years.

(3.) You will be rich, if you be industrious in a few years.

“Yma, er bod y geiriau yn y ddwy froddeg, a threfn y geiriau hefyd, yr un yn hollol, eto mae ystyr un o'r broddegau yn hollol wahanol i'r eiddo y llall. Ystyr y froddeg gyntaf ydyw, y byddwch, *yn ystod ychydig flynyddoedd*, yn gyfoethog, os byddwch ddiwyd *yn awr*. Ystyr yr ail ydyw, y byddwch yn gyfoethog, *ryw bryd*, os byddwch ddiwyd, *mewn ychydig flynyddoedd o'r pryd hwn*.”—Mae Cobbett wedi camsynied yma: mae diffyg gwreiddiol yn y trefniad, ac nis gall un cywreindeb mewn gwahannodiad byth ei berffeithio. Nid yw yr ammwysedd yn nhrefn y cystrawiad yn dibynu cymmaint ar y dull o osod y gwahannodau (*commas*) a wahanant yr adfrodau, ag y dibyna ar y dull y mae'r adfrodau wedi eu trefnu. Achoswyd yr ammwysedd, yn yr engraifft (2), trwy gyflëu broddeg gyflawn yn y modd

ammodol rhwng prif adfrodau neu swyddi y froddeg benaf, yr hon a adroddir yn y modd dilysol:—

(4.) You will be rich in a few years.

Mae hon yn froddeg gyflawn ymodd dilysol sicrhad.

(5.) If you be industrious,

sy froddeg gyflawn hefyd; ond gan ei hadroddir yn y modd ammodol, dan ddylanwad y goradenw cydiadol *if*, deua yn ail aelod o froddeg ammwysol; yr hon froddeg sydd ammwysol am nad ydyw na seml, na chymmlyg, na chyfansawdd. Nid yw, mewn ystyr priodol, yn froddeg gyfansawdd, oblegid cyfansoddir broddeg gyfansawdd o ddau neu chwaneg o aelodau gwahanol adroddedig yn y modd dilysol, ac am hyny a gyssylltir ynghyd ar dir cyfartal a oddefa iddynt gael eu gwahanu oddi wrth eu gilydd mor hawdd ag y cyssylltir hwynt ynghyd. Nid ydyw, chwaith, yn froddeg gymmlyg, oblegid nid isgyttryiad mewdol ydyw y froddeg ammodol, yn meddu fel ei chnewullyn, un o brif swyddi y froddeg benaf. Gan hyny, aelod ammodol ydyw y froddeg ammodol o froddeg ammwysol, ac nid aelod cyfansawdd yn unig o froddeg gymmlyg; ond gan y cyfranoga y cyfan o natur broddeg gyfansawdd ac un gymmlyg, gweithreda yr aelod ammodol fel bath o adfrawdd oradenwol ormodol, yr hon, trwy gael ei chyflëu yn amhriodol rhwng prif adfrodau y froddeg benaf, a'i gwna yn amhëus i ba un y perthyn y goradenw cymmlyg olaf, ai i'r froddeg ddilysol ynte i'r un ammodol. Ni fydd dim ammwysedd yn yr ystyr pan gedwir y ddwy froddeg ar wahan yn ol trefn uniongyrch cystrawiad; fel hyn:—

(6.) You will be rich in a few years, if you be industrious.

Fel prawf pellach fod ammwysedd yr ystyr yn cael ei achosi gan gymmysgiad y ddwy froddeg, gellir gwrthdroi trefniad y swyddi yn yr aelod cyntaf, heb newid yr ystyr:—

(7.) In a few years you will be rich, if you be industrious.

Ie, gellir gwrthdroi trefniad y ddau aelod, ac i'r ystyr fod byth yn eglur:—

(8.) If you be industrious, you will be rich in a few years.

Ond, yn gyntaf, os gwrthdröir trefniad y ddau aelod, ac yna trefniad yr adfrodau yn y froddeg benaf, dibyna yr ystyr yn hollol ar y gwahannodiad, er i swyddi pob aelod fod yn berffaith gyssylltedig:—

(9.) If you be industrious, you will be rich in a few years.

(10.) If you be industrious, in a few years you will be rich.

(11.) If you be industrious in a few years, you will be rich.

Gan hyny, nis gall ammwysedd naturiol trefniad, ynghys-trawiad broddeg, ddibynu ar gystrawiad gwallus: achosir y cyfryw ammwysedd trwy i ddwy froddeg, o gystrawiad priodol, gael eu gosod ynghyd yn y fath fodd ag y gellir cymmeryd adfrawd olaf un, mewn camsyniad, yn adfrawd flaenaf y llall; ac yn y fath amgylchiadau, yr unig ffordd i ochelyd ammwysedd ydyw, gwahannodi yr adfrodau yn y fath ddull ag i gadw y broddegau yn wahaniaethol, neu wrthdröi trefniad yr adfrawd a osodir yn y sefyllfa ammwysol. Efallai y deallir hyn yn well drwy ychydig engreiffitiau:—

(12.) If you be industrious, in a few years you will be rich.

(13.) If you be industrious in a few years you will be rich.

(14.) If you be industrious in a few years, you will be rich.

(15.) In a few years you will be rich if you be industrious.

(16.) You will be rich in a few years if you be industrious.

Mae cystrawiad yr holl froddegau hyn yn hollol gywir, ond y mae ystyr y (13) yn ammwysol, am nad yw ei dwy ran gyssoddol wedi eu gwahanu; felly, gall yr adfrawd oradenwol—*in a few years*—berthyn naill ai i aelod ammodol neu i un dilysol y froddeg. Yn y (12) a'r (14) mae yr ystyr yn hollol eglur, oblegid yn y naill cydgorffolir yr adfrawd oradenwol â'r aelod dilysol, ac yn y llall fe'i cyssylltir â'r aelod ammodol; ond y mae ystyr y ddwy froddeg yn wahanol. Yn y (15) a'r (16), symmudwyd yr adfrawd oradenwol o'i sefyllfa ammwysol, ac y mae'r ystyr yn hollol amlwg, er nad oes yn y broddegau hyn un nôd o wahaniad. Wrth yr engreiffitiau blaenorol, gwelir nad ydyw yn bur anhawdd gochelyd gwallau yn nhrefniad ammwysol cystrawiad. Ond, rhaid deall mai ammwysedd naturiol a olygir yma, ac nid yr ammwysedd a achosir gan drefniad amhriodol cystrawiad, yr hwn y tybia Cobbett, yn gyfeiliornus, a achosir gan ddiffyg gwahannodiad. Pan gyfansoddir broddegau mor drwsghion a hon—

You will be rich if you be industrious, in a few years, ni ddylid disgwyl y gellir byth, trwy gyfrwng y gwahannodiad manylaf, eu gwneyd yn gywir, canys ni cheir moddion digonol yn holl adnoddau (*resources*) gwahannodiad yn unig, i gywiro yr hyn sy wreiddiol wallus o ran trefn cystrawiad.

§946. Y rheol oreu y gwyddys amdani ynglyn â'r pwnc mewn llaw, ydyw hon:—Gosoder yr holl weision a'r isweision, pynag pa un ai swyddi unigol ai adfrodau fyddont, mor agos ag y bo ddichonadwy at y geiriau neu y prif swyddi y

bwriedir iddynt eu gwasanaethu yn uniongyrch: canys, gan nad oes ffurf bennodol i wahaniaethu y naill restr o swyddi oddi wrth y llall, y gweision nas cyssylltir yn ddigyfrwng â'r geiriau a ddylent wasanaethu, a deffir o angenrheidrwydd i fysg geiriau ereill; ac, fel mai agosrwydd sefyllfa ydyw yr unig ddangosiad o agosrwydd cyssylltiad, y geiriau a gamgyflëir, nid yn unig nis gwasanaethant lle y bwriedir iddynt wasanaethu, ond gweithredol wasanaethant eiriau â'r sawl nid amcenir iddynt fod mewn cyssylltiad uniongyrchol. Yn y fath amgylchiadau, nid yn unig ni ddywedir yr hyn a amcenir ei ddywedyd, ond dywedir yn fynych yr hyn a fyddo yn hollol groes i'r amcan; megys yn y froddeg ganlynol:—

Wanted, a groom to take care of two horses, of a religious turn of mind.

Buasai yn hawdd gochelyd ammwysedd digrifol y froddeg yna trwy osod y geiriau yn eu sefyllfaoedd priodol: fel hyn,

Wanted, a groom of a religious turn of mind, to take care of two horses.

§ 947. Yr engraifft ganlynol o ammwysedd naturiol sydd un y gellir yn hawdd ei gwellâu naill ai trwy wahannodiad gofalus, neu drwy wrthdroi trefniad y swydd a osodir mewn sefyllfa ammwysol:—

(1.) I Lord George Gordon stand here as prisoner at the bar, *unfortunately*, you sit there as judge.

Mae y goradenw, *unfortunately*, wedi ei osod fel ag y gall berthyn i aelod cyntaf neu ail y froddeg; a chan ei gwahanir oddi wrth y ddau aelod gan wahannodau, mae ei sefyllfa mor ammwysol a phe nas gwahanesid oddiwrth y naill na'r llall. Trwy ddefnyddio un gwahannod yn y froddeg, gan ei osod o flaen y gair *unfortunately*, perthyna y gair i'r ail aelod:—

(2.) I Lord George Gordon stand here as prisoner at the bar, *unfortunately* you sit there as judge.

Ond trwy osod y gwahannod ar ol *unfortunately*, bydd y gair yn perthyn i'r aelod cyntaf:—

(3.) I Lord John Gordon stand here as prisoner at the bar *unfortunately*, you sit there as judge.

Eithr, mae yn hawdd newid sefyllfa ammwysol y goradenw *unfortunately*; fel hyn—

(4.) I Lord George Gordon stand here, *unfortunately*, as prisoner at the bar; you sit there as judge.

§ 948. Mae yr ysgrifenydd mwyaf coethedig yn dywedyd yn fynych yr hyn na feddylant, trwy beidio dilyn y rheol sydd yn § 946; megys,

(1.) As signs exhibit the things which they are intended to represent, *more or less accurately*.—MURRAY.

Mae yn debyg mai yr hyn a feddyliai Murray oedd,

(2.) As signs exhibit, *more or less accurately*, the things which they are intended to represent.

(3.) By greatness, I do not *only* mean the bulk of any single object, but the largeness of a whole view.—ADDISON.

Yn ddiâu, meddwl yr ysgrifenydd enwog ydoedd,

(4.) By greatness, I do not mean the bulk of any single object *only*, but the largeness of a whole view.

(5.) The Romans understood liberty, *at least*, as well as we.—DEAN SWIFT.

Tybir mai meddwl y Deon oedd hyn,

(6.) The Romans understood liberty, as well, *at least*, as we.

(7.) Are these designs, which any man, who is born a Briton, *in any circumstances, in any situation*, ought to be ashamed or afraid to avow?—LORD BOLINGBROKE.

Mae ystyr y froddeg yma yn bur dywyll: fe allai mai hyn oedd meddwl yr awdwr;—

(8.) Are these designs, which any man, who is born a Briton, ought to be ashamed or afraid, *in any circumstances, in any situation*, to avow?

(9.) It is folly to pretend *to arm ourselves against the accidents of life*, by heaping up treasures, *which nothing can protect us against*, but the good providence of our heavenly Father.—SHERLOCK.

Mae camgyflëu yr adfrodau Italedig wedi gwneyd yr holl froddeg yn ddisynwyr. Byddai yr ystyr yn amlwg fel hyn:—

(10.) It is folly to pretend, *by heaping up treasures, to arm ourselves against the accidents of life, which nothing can protect us against*, but the good providence of our heavenly Father.

(11.) With regard to certain parts of them, he retained the right of taking great sums of money from the possessors of the estates, *under various pretences*.—COBBETT.

Yma gellid tybied mai yr etifeddiaethau a ddelid mewn meddiant dan amryw ffugesgusion; ond y mae'n dra thebyg mai amcan yr awdwr oedd dywedyd—

(12.) With regard to certain parts of them, he retained the right of taking *under various pretences*, great sums of money from the possessors of the estates.

Neu fel hyn—

(13.) He retained the right of taking great sums of money *under various pretences* from the possessors of the estates.

Y nifer amlaf o'r engreiffiau blaenorol a gymmerwyd o ddarlithoedd y Dr. Blair, yr hwn sy wedi rhoddi y cyfarwyddiadau goreu a allwyd ganfod ar drefniad broddegau; ond er mor rhagorol ydyw rheolau y Doctor, mae efe ei hun yn eu troseddu weithiau, fel y gwelir yn yr engraifft ganlynol, ystyr yr hon, oherwydd camgystrawiad, sy dra amwysol :—

(14.) Some writers practise this degree of inversion, which our language bears more than others; Lord Shaftesbury, for instance, much more than Mr. Addison.—LECT. XII.

Mae braidd yn sicr mai amcan y doctor oedd dywedyd,

(15.) Some writers practise much more than others, this degree of inversion which our language bears.

Yn wir, mae yn ddiarnheul mai dyna oedd ei feddwl, canys yr oedd efe newydd fod yn egluro y graddau cyfyng o wrthdroad (*inversion*) a oddef y Seisneg, a'r amrywiadau lluosog o wrthdroad a ganfyddid yn y Lladin a'r Groeg. Adroddasid ei feddwl yn llawer gwell yn y dull canlynol :—

(16.) This limited degree of inversion which our language bears, has been much more practised by some writers than by others; by Lord Shaftesbury, for instance, much more than by Mr. Addison.

§ 949. Mae y pwnc tan sylw—cystrawiad broddegau—yn un o'r pethau mwyaf pwysig sy mewn cyfansoddiad, ac am hyny yn teilyngu efrydiad mwyaf astud y dysgadur. Gwel, wrth yr engreiffiau a ddyfynwyd yn yr adran ddiweddaf, nad ychydig o ofal sy'n ddigonol, ymhob amgylchiad, i drefnu gwahanol aelodau broddeg yn y fath fodd ag i ddangos y meddwl yn ddiammwys; bod yr awdwyr cywiraf yn methu'r marc weithiau; ac, yn wir, fe allai y canfyddir bod yr ysgrifenydd ei hunan wedi cyflawni aml wall cystrawenol hyd y nod pan yn treithu ar y gwirbwnc: os felly y digwydd, nid oes ganddo ond mabwysio syniad Horace;

Awchlymmed eraill, fel yr hogal bur,  
Er nas medd fin ei hunan—*minia 'r dur*.<sup>1</sup>

§ 950. O barth y pedwar bath cystrawiad—yr uniongyrch, y gwrthdröedig, y cymmysgedig, a'r amwysol, y sylwyd arnynt yn yr adranau hyn, § 940—948, byddai yn anhawdd profi bod y naill yn rhagori ar y llall. Mae i bob un o honynt ei deleidion priodol, ac y maent oll yn gyfartal werthfawr er cynnyrchu amrywiaeth. Mewn broddegau byrion, y trefniad uniongyrch a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin; ond mewn broddegau pur hirion, mae y trefniadau ereill yn fwy

<sup>1</sup> Let me sharpen others, as the hone  
Gives edge to razors, though itself has none.—FRANCIS.

manteisiol. Buasai yn hawdd ac yn fuddiol helaethu ar bob un o swyddi broddegau a threfniadau cystrawiad, ond gobeithir bod yr hyn a ddywedwyd yn ddigon i roi yr efrwydd meddylgar ar ben y ffordd i ddosranu broddegau o bob darluniad. Rhaid prysuro yn awr i sylwi yn fyr ar y pwnc o arbenigrwydd, neu y dull priodol o wahanu broddegau unigol ac aelodau unigol broddegau, trwy gyfrwng arwyddion gwahannodol.

#### 4. *Am Arbenigrwydd yn Swyddi cyffredinol Trefniad.*

§ 951. Y pwnc i'w efrynu yn yr adranau hyn ydyw swyddi neilltuol y pedwerydd dosparth cyffredinol o arwyddion del-frydau; a chan fod deffiniad o'r dosparth hwnw o arwyddion a nodau wedi ei roddi eisys yn § 847—883, rhaid cyfarwyddo yr efrwydd i ddarllen yr adranau hyny eto yn bur fanwl, cyn myned ymlaen.

§ 952. Gwedi darllen yr adranau crybwylledig, bydd yn hawdd deall swyddi cyfosodol (*synthetical functions*) yr arwyddion a marciau a ddefnyddir yn gyffredin i ddosparthu (*distinguish*) y gwahanol fathau o arbenigrwydd sydd yn swyddi cyffredinol trefniad. Sylwir yma ar swyddi y nodau yn ol eu cyflead yn y tafleni, § 854—856, gan adael heibio aceniad, am fod sylwadau lled helaeth ar hyny yn y rhan gyntaf o'r treithawd, ac o herwydd nas gellid egluro swyddi cyfosodol aceniad yn foddhaol, heb gael mwy o le nag a ganiateir yma.

#### GWAHANNODIAD.

§ 953. Can belled ag y perthyna i arbenigrwydd unigol a chynnulliadol, *gwahaniad* yn unig ydyw swyddi gwahannodiad; ac mewn Geiryddiaeth, cyfyngir y swyddi hyn o fewn terfynau heibiau unigol broddegau. Yr hyn sydd i fod tan sylw yma, gan hyny, ydyw y gwahanol fathau o arbenigrwydd a gynnwysa un ddosparthran wahanol neu haib gyflawn o froddegau.<sup>1</sup>

§ 954. Fe allai mai prin y mae'n angenrheidiol chwanegu engreiffiau o wahanol ddosparthiad broddegau unigol. Os darllenir amryw weithiau drosodd, yn fanwl, y deffiniad o wahanol amrywiadau gwahannodiad a roddwyd yn § 847—883, ceir llai o drafferth i ddeall trefn briodol gwahaniad broddegau cyflawn, gan ddiweddnodau—aelodau cyflawn, gan o-ddiweddnodau—a swyddi cymmlyg, gan wahannodau—nag a geid ped archwilid lluaws o wahanol engreiffiau.

<sup>1</sup> Trefniadau uchraddol dosparthiad, gyda golwg ar arbenigrwydd pennodau, dosparthrauau, ac adraniadau ereill pwnc, a berthynant i gangenau uchraddol gwyddor iaith—arbwylleg ac areitheg.



§ 955. Yr hyn a ddywedwyd am wahanol amrywiadau diweddnod, a fwriadwyd yn benaf er trosglwyddo delfryd cyffredinol am hebiad dosparthanol neu arbenigrwydd cynnulliadol yn hytrach nag er hõni yr angenrheidrwydd o gael pedwar amrywiad o ddiweddnod i ddynodi amryw swyddi gwahaniad unigol a chynnulliadol. Mae un nôd wedi cael ei ystyried hyd yn hyn yn ddigonol i'r perwyl, a dïau nad dymunol fyddai gorlwytho gwahannodiad ymarferol âg unrhyw nôdau y gellir gwneyd hebddynt.

§ 956. Gellir cymhwyso yr un sylwadau at y go-ddiweddnod yn ei amryw ddulliau o ddosparthu a gwahanu aelodau unigol broddeg gyfansawdd.

§ 957. Am ddefnydd y gwahannod yn nosparthiad swyddi unigol broddeg gymmlyg, dangoswyd eisys, gyda golwg ar ystyr broddeg, nad yw marc gwahaniad yn anhebgorol angenrheidiol ond yn unig pan osodir swydd israddol yn gywir rhwng dwy swydd, i bob un o'r sawl y gall berthynu, ac felly achosi i ystyr yr holl froddeg fod yn ammwysol, oddi eithr i'r gyfryw swydd israddol gael ei gwahanu oddi wrth un a'i chysylltu â'r llall. Eglurwyd hyn yn ddigonol wrth ymdrin â chystrawiad. Dangoswyd hefyd, os trefnir y cystrawiad yn briodol, mai anfynych y digwydda yr ammwysedd crybwyllledig, ac mai prif ddefnydd y gwahannod ydyw, nodi sefyllfaoedd naturiol y gostegiad a ofyna ynganiad gwahaniaethol er mwyn anadlu yn rhydd mewn mânau priodol.

§ 958. At yr hyn a ddywedwyd am swyddi gwahannod, gall y ddwy reol gyffredinol hyn fod o ddefnydd:—

1. Mai afreidiol yw tra mynychu ysgrifenwaith â marciau o'r holl ostegiadau mwyaf dibwys a ddigwyddant mewn darlenniad a llefariad.

2. Y dylid cyflëu gwahannod mewn ysgrifen lle bynag y byddo gostegiad pur amlwg mewn llefariad.

§ 959. Y droddlin (—) a ystyrir yn perthyn i drydydd amrywiad y gostegiad mewnol (§ 859, 1). Fe allai nad oes un marc mewn gwahannodiad yn cael ei gamddefnyddio mor fynych a'r droddlin, ac odid mai hyny a yrodd Cobbett i ddywedyd mai "gorchudd am anwybodaeth o ddefnydd y nodau" ydyw; yn wir, mae y dull ei defnyddir gan amryw yn arwyddo rhywbeth heblaw medrusrwydd gwahannodol. Ond, y mae i'r droddlin amryw ddibenion uwch na bod yn "orchudd am anwybodaeth," fel y dengys gweithiau y prif awduron. Gellir defnyddio y droddlin yn briodol,

1. I ddynodi troad sydyn neu fyrbyyll yn y syniad:—

(1.) A shot I heard—again a flame  
Flashed thick and fast—a volly came!

(2.) A single phrase—sometimes a word—and the work is done.

2. I ddynodi gostegiad arwyddocaol :—

(1.) And Askelon rejoice, for Saul is—nothing.

(2.) Another time you called me—dog.

3. Pan arwyddir attaliad neu betrusedd :—

(1.) “I forgot my”—“Your portmanteau,” hastily interrupted Thomas. “The same.”

(2.) You may judge from his own — I cannot find a term. He is more like a — I don't know what, than a man.

4. Yn lle *that is to say* (hyny yw) :—

(1.) Where woe comes not, where never enters death,  
You will have other names—joy, love, and faith.

Heb y droddlin, byddai y llinell olaf fel hyn :—

(2.) You will have other names, *that is to say*, joy, love, and faith.

5. Pan ystyrir bod *in other words* (mewn geiriau ereill) yn ddealedig :—

These are but monuments of cruelty—a catalogue of crimes.

6. I gyflenwi lle *in short* (ar fyr) :—

He offered gold, jewels, honours—everything for liberty.

§ 960. Gellir sylwi ymhellach, o barthed defnyddioldeb cyffredinol gwahannodiad, pan fyddo pob broddeg unigol, pynag pa un ai seml, cymmlyg, cyfansawdd, ai ammwysol fyddo, wedi ei dosparthu yn wahaniaethol oddi wrth y gweddill gan ddiweddnod, nad yw o gymaint pwys bod yn bur fauwl i wahanu ei haelodau a'i swyddi mewnol, oddi eithr yn yr amgylchiad pennodol o sefyllfa ammwysol a eglurwyd eisys. O leiaf, nid yw o bwys pa un ai yr adwahannod ai y gwahannod a ddefnyddir i ddosparthu aelodau cyflawn broddeg gyfansawdd; a defnyddir y naill a'r llall yn fynych i wahanu swyddi cymmlyg broddeg gymmlyg neu ammwysol. Fel nodau arbenigrwydd, gan hyny, y diweddnod a ddefnyddir i wahanu y naill froddeg unigol oddiwrth y llall, trwy arwyddo y gostegiad naturiol mewn llefariad a ddynoda ystyr cyflawn a gwahanol pob un o'r broddegau yn bennodol. Yr adwahannod a ddefnyddir i wahanu aelodau unigol hirion broddeg gyfansawdd, a swyddi cymmlyg hirion broddeg gymmlyg neu ammwysol. Y gwahannod a ddefnyddir i wahanu aelodau byrion broddegau cyfansawdd, ac weithiau i wahanu amryw ranau broddegau syml neu gymmlyg. Y droddlin a ddefnyddir i wahanu aelodau unigol hirion neu fyrion broddegau cyfansawdd pan gymmero troad disymmwth le yn y syniad. Y gofynnod a osodir ar ddiwedd holiad, a rhyfeddnod ar ddiwedd broddeg a ystyrir o hynodrwydd neilltuol.

## PWYSLEISIAD.

§ 961. Er nas adrithir pwysleisiad gan unrhyw farc neu nôd, eto mae ei bwysigrwydd ymarferol er gwahaniaethu amrywiadau arbenigrwydd yn llawer mwy, yn gyffredin, na'r eiddo arwyddion ereill. Gellir rhoddi amryw ystyrion gwahanol i'r un froddeg heb wneyd unrhyw newidiad arni—dim ond symmud y pwyslais o'r naill air i'r llall. Mae un froddeg neilltuol sy 'n cael ei defnyddio braidd yn holl lyfrau ysgol y ganrif bresennol, fel eglurhad o allu pwysleisiad, a chan fod y froddeg hono wedi cyrraedd bath o awdurdod pwysleisiadol, nis gellir gwneyd yn well nag ymostwng i alluoedd ei hyfforddiad. Dyma hi, gan hyny, yn ei gwahanol ymddangosiadau :—

- (1.) Shall *you* ride to town to-day? No; I shall send my servant.
- (2.) Shall you *ride* to town to-day? No; I shall walk.
- (3.) Shall you ride *to town* to-day? No; I shall ride into the country.
- (4.) Shall you ride to town *to-day*? No; but I shall to-morrow.

Wrth yr engreiffiau hyn, gwelir bod y pwysleisiad yn hynodi prif ddelfryd y froddeg, a bod ystyr yr holl froddeg yn cael ei newid trwy symmud y pwysleisiad. Oddi wrth hyn, dysgir, mai un o swyddi cyfansoddol pwysleisiad ydyw trosglwyddo y radd uwchaf o bwysigrwydd o ran ystyr, i ryw air mewn broddeg, pynag pa swydd gyfansoddol a ddichon fod i'r gair hwnw mewn trefniad. Yn yr engreiffiau uchod, ysgrifenyd y gair pwysleisiadol, ymhob broddeg, â llythyr-enau italaid; ac, er y defnyddir y dull yma yn fynyeh i ddynodi geiriau a fyddont yn fwy pwysig na'r gweddill o froddeg, eto, yn ol y dull cyffredin o ysgrifenu, mae llawer o eiriau pwysleisiadol nas dynodir gan unrhyw farc neu nôd. Y gwir yw nad oes un drefn sefydledig i ddynodi gwahanol fathau pwysleisiad. Y cwbl a ellir sierhau ar y pwnc ydyw, os dynodir gair, neu gyfres o eiriau, âg argraffnodau gwahanol, âg arwyddion dyfyniad neu grybwylliad, neu drwy fod yn ysgrifenedig mewn llinell wahanol, y bydd dan ddylanwad un o'r pedwar bath cyffredinol o bwysleisiad (§ 869—874): ond un rheol yn unig sydd i wybod pa fath bwysleisiad a ddynodir, a hono yw—synwyr cyffredin.

## ATDDODIAD.

§ 962. Am atddodiad, can belled ag y perthyn i ymarferiad, nid yw yn angenrheidiol chwanegu dim at y deffiniad cyffredinol a roddyd eisys yn § 878—883.

## AM DOLIEITHIAD, NEU SWYDDI NEGYDDOL CYFANSODDIAD.

### 1. TOLIEITHIAD TELEIDIOL.

§ 963. Y GAIR tolieithiad (*ellipsis*) yn ei berthynas â threfniad geiriau mewn broddeg, a arwydda hebgoriad y geiriau neu y swyddi y gellir yn hawdd eu deall heb iddynt gael eu hadrodd; a'r prif wahaniaeth rhwng broddeg dolieithedig deleidiol ac un dalfyrog, ydyw, bod yn haws deall y geiriau hebgoredig yn y flaenaf nag yn yr olaf, trwy gyfrwng y geiriau a adroddir.

§ 964. Am hebgoriad priodol geiriau, gan nad oes lle i helaethu, hyderir y bydd ychydig o engreiffiau yn ddigon i wneyd y pwnc yn ddealladwy.

#### 1. *Am briodol hebgoriad Enwau yn gyffredinol.*

§ 965. Gellir hebgor enwau yn briodol, heb niweidio eglurder na chywirdeb, yn y fath amgylchiadau a hyn:—

(1.) The ideas of light, of heat, of colour, of sound, and of most other things, are conveyed to the mind through the medium of the senses.

Yma byddai yn afreidiol ailadrodd y geiriau, *the ideas*, o flaen y geiriau, *of heat, of colour, &c.*, am nad oes geiriau ereill yn cyfryngu y byddai yn ddichonadwy eu camsynied, ac am hyny, mae y tolieithiad yn gywir a phrydferth.

(2.) Now, if you take time to reflect a little on this matter, you will never be puzzled for a moment by these detached words, to suit which grammarians have invented *vocative cases* and *cases absolute*, and a great many other appellations, with which they puzzle themselves, and confuse and bewilder and torment those who read their books.—COBBETT.

Mae y rhan olaf o'r froddeg hon yn bur dolieithol, ond nid ydyw oherwydd hyny yn aneglurach. Ped adroddid yr holl eiriau a arwyddocêir ac a ddeallir yn hawdd, byddai yn bur amrosg ac ambrydferth, fel hyn:—

(3.) .....and a great many other appellations with which they puzzle themselves, and (*with which they*) confuse and (*with which they*) bewilder and (*with which they*) torment those (*persons*) who read their books.

#### 2. *Am briodol hebgoriad Adenwau yn gyffredinol.*

§ 966. Mae llawer o fânau y gellir yn briodol hebgor adenwau, ond ni wiw aros i dramynychu engreiffiau.

(1.) Vice overcame shame, boldness, fear, and madness, reason.  
Hyny yw, heb doliath—

(2.) Vice overcame shame, boldness (*overcame*) fear, and madness (*overcame*) reason.

(3.) A delightful house and garden.

Hyny yw—

(4.) A delightful house and (*a delightful*) garden.

3. *Am briodol hebgoriad Goradenwau.*

§ 967.

(1.) He went into the abbeys, the halls, and the public buildings.

Hyny yw—

(2.) He went into the abbeys, (*into*) the halls, and (*into*) the public buildings.

Neu, yn fwy cyflawn—

(3.) He went into the abbeys, (*he went into*) the halls, and (*he went into*) the public buildings.

(4.) They confess the power, the wisdom, the love and the bounty of their Creator.

Hyny yw—

(5.) They confess the power, (*and*) the wisdom, (*and*) the love, and the bounty of their Creator.

Ac, yn fwy cyflawn eto—

(6.) They confess the power, (*and they confess*) the wisdom, (*and they confess*) the love, and (*they confess*) the bounty of their Creator.

(7.) He spoke and acted wisely.

Hyny yw—

(8.) He spoke (*wisely*) and (*he*) acted wisely.

4. *Am briodol hebgoriad Arwyddnodau.*

§ 968. Ni ddefnyddir arwyddion braidd un amser i ddy-nodi pwysleisiad ac aceniad, oddi eithr mewn geiriaduron a grammadegau, a'r unig arwyddnodau a ystyrir o bwys ym- arferol yw yr eiddo gwahannodiad; a'r nodau a hebgorir fynyachaf, yw isamrywiadau y gwahannod:—

(1.) The examples that follow are produced to shew the improp- erty of ellipsis in some particular cases.—MURRAY.

Yn y froddeg hon ni ddefnyddir gwahannodau i ddosparthu y gostegau a'r gwahaniadau mewnol, er y gellid defnyddio dau, fel hyn:—

(2.) The examples that follow, are produced to shew the improp- erty of ellipsis, in some particular cases.

Dengys yr engreiffiau hyn fod cystrawiad tolieithiol yn bur briodol, a thra manteisiol, mewn rhai amgylchiadau, ex

mwyn cyflymedd; ond, digwydda yn fynych fod cystrawiad tolieithiol, trwy fod yn rhy dalfyrog, yn gwneyd ystyr brodd-eg braidd yn ammwysol, hyd y nod pan na fyddo yn gwbl anghywir.

## 2. TOLIEITHIAD TALFYROG.

§ 969. Oherwydd bod yn anhawdd canfod broddegau yn y sawl yr hebgorir un swydd yn unig, trinig y pwnc mewn dull cyffredinol heb nodi y dosparth pennodol i'r hwn y perthyna swydd hebgoredig. Yn awr, dylai yr efrydydd fod yn ddigon adnabyddus â holl ddosparthau, bathau, a rhywiau swyddi, i wahaniaethu y naill oddiwrth y llall yn yr holl engreiffiau.

(1.) I like you better than he.

(2.) I like you better than him.

Dyma ddwy froddeg dolieithiol pur dalfyrog, y rhai yn fynych y cymmysgir eu hystyron, er eu bod yn adrithio delfrydau pur wahanol. Eu hystyron yn llawn ydyw—

(3.) I like you better than he (*likes you*).

(4.) I like you better than (*I like*) him."

§ 970. Mae amryw gystrawiaid tolieithiol yn y Seisneg wedi cael eu camddeall gan yr ieithegwyr mwyaf dyfnddysg. Yn yr engraifft ganlynol, mae Murray wedi rhoddi un eglurhad, a Cobbett un arall, ac y mae 'r ddau yr un mor ddyrlyd ac anghywir:—"Pan na fyddo i'r cyflwr enwadol amser personol perwyddiad, ond yn cael ei osod o flaen cyfraniad, yn annibynol ar y gweddill o'r froddeg, fe'i gelwir y cyflwr gwrthodol: megys—

(1.) 'Shame being lost, all virtue is lost.'

"Wrth ddefnyddio y cyflwr gwrthodol, gan mai y cyflwr, yn Seisneg, *bob amser ydyw yr enwadol*, mae yr engraifft ganlynol yn wallus, o herwydd ei wneyd yn wrthrychol:—

(2.) 'Solomon was of this mind; and I have no doubt he made as wise and true proverbs, as any body has done since; *him* only excepted, who was a much greater and wiser man than Solomon.'

"Dylasai fod, '*he* only excepted.'"—MURRAY.

"O ddiffyg meddwl tipyn am y pwnc sy'n ddigyfrwng o'n blaen (defnydd y rhagenw *it*) mae rhai grammadegwyr wedi canfod 'cyflwr gwrthodol,' fel ei galwant; ac y mae Mr. Lindley Murray yn rhoddi engraifft o hono yn y geiriau hyn: 'Shame being lost, all virtue is lost.' Cyflawn ystyr y froddeg yw hyn: *It being, or the state of things being such*, that '*shame is lost, all virtue is lost.*'"—COBBETT.

Mae ystyr y froddeg yn bur amlwg heb eglurhad Cobbett arni, a diau bod ei chystrawriad yn brydferthach yn y dull gwreiddiol—"Shame being lost, all virtue is lost," nag ydyw yn ei esponiad ef o honi—" *It being* that shame is lost, all virtue is lost." Hwrwg yn unig ydyw yr "*it being*" yma. Gwir achos y camsyniad ydyw trefniad tolieithiol. Nid yw y cyflwr gwrthodol (*case absolute*) yma na mwy na llai na swydd neu gyflwr goradenwol, lle yr hebgorir y banyn goradenwol, fel y gwelir yma:—

(3.) *By* shame being lost, all virtue is lost.

(4.) *On* shame being lost, all virtue is lost.

(5.) *When* shame is lost, all virtue is lost.

(6.) All virtue is lost, *by* shame being lost.

Tolieithiad cyffelyb a barodd i Murray gamsynied defnydd y rhagenw yn yr ail engraifft. Trwy gyflawni swyddi y froddeg hono, safant fel hyn:—

(7.) Solomon was of this mind, and I have no doubt (*that*) he made as wise and (*that he made as*) true proverbs as any body has done since (*his time*); (*on*) him only (*being*) excepted, &c.; neu, (*with the exception of*) him only, &c., neu, (*if we except*) him only, &c.

Bydd y gwall o roddi *he* yn lle *him*, yn ol rheol Murray, yn amlwg, pan lenwir y tolieithiad â geiriau priodol; fel hyn:—

(8.) (*On*) he only (*being*) excepted; neu, (*with the exception of*) he only; neu, (*if we*) except he only; neu, (*in*) excepting he only, &c.

Mae yn amlwg, gan hyny, mai y cystrawriad gwreiddiol sy gywir, ac mai Murray sy wallus, a bod Murray a Cobbett wedi cael eu twyllo gan yr hebgoriad o fanyn goradenwol. Mae y ffaith yma yn dangos y pwysigrwydd o sylwi yn fanwl ar swyddi negyddol trefniad yn gystal ag ar y swyddi a adroddir yn bennodol a chyflawn mewn broddeg.

### § 971.

(1.) He could have been a rebel easier than a republican.—*Bulwer*.

Mae y froddeg dolieithiol hon yn rhy dalfyredig, oblegid gellir ei deall mewn dau ystyr gwahanol, a'r naill mor briodol a'r llall; fel hyn:—

(2.) He could have been a rebel easier than (*he could have been*) a republican. Neu,

(3.) He could have been a rebel easier than a republican (*could have been a rebel*).

### § 972.

(1.) Like other rakes, he may, perhaps, live to see his error, but not until he has ruined his estate.—*Junius*.

Mae y froddeg hon yn bur ddiffygiol, heblaw ei bod yn dolieithiol. Os rhoddir y swyddi i fewn yn llawn safant fel hyn:—

(2.) Like other rakes he may perhaps live to see his error, but, (*he may*) not (live) untill he has ruined his estate.

Mae 'n debyg nad yw gwir feddwl yr awdwr yn cael ei adrodd yn y froddeg hon; gellir tybied mai hyn oedd ei feddwl:—

(3.) Like other rakes he may perhaps live to see his error, but he may not live to see it, *before* he has ruined his estate.

Defnyddiodd Junius y goradenw *until* yn lle y gair *before*; adroddid meddwl yr awdwr yn gywir a phrydferth fel hyn:—

(4.) Like other rakes, he may perhaps live to see his error, but he will not see it before he has ruined his estate.

Os cedwir y gair *until*, dylid cystrawenu y froddeg fel hyn:—

(5.) Like other rakes he may perhaps live to see his error, but he will not see it, untill the ruin of his estate shall have brought him to his senses.

#### § 973.

(1.) The lame and blind are particularly the objects of our pity and charity."

Nid hawdd ydyw gwybod yn benderfynol beth yw ystyr y froddeg yma. "The lame and blind" a arwydda, y personau hyny sydd yn gloffion *ac* yn ddeillion hefyd, ond y mae 'n debyg mai amcan yr awdwr oedd dywedyd,

Those persons who are *either* lame or blind, or both, are particularly the objects of our pity and charity.

Yn y fath froddegau a hyn, dylid ailadrodd y bannod *the*, fel hyn:—

(2.) The lame and the blind are particularly the objects of our pity and charity.

Mae yn hawdd deall bod gradd o wahaniaeth rhwng ystyr y broddegau hyn:—

(3.) Those who are lame and those who are blind, &c.

(4.) Those who are lame and blind, &c.

#### § 974.

(1.) Were he to come alone, I should be very much surprised.

Dyma dolieithiad pur brydferth a'r cyssylltiad *if*, trwy wrthdroi sefyllfaoedd yr enw a'r perwyddiad. Heb y tolleithiad, byddai y froddeg fel hyn:—

(2.) (If) he were to come alone, I should be very much surprised.



## § 975.

(1.) He was more beloved, but not so much admired as Cinthio.

(2.) He was more beloved (*than Cinthio*), but not so much admired as Cinthio.

Yma canfyddir bod y tolieithiad yn afreolaidd, am nad yw y gwahanol raddau cymhariad, *more*, a *not so much*, yn goddef yr un banyn i gyflawni eu hystyron pennodol, *nor THAN a not so much AS*. Byddai y tolieithiad yn hollol reolaidd fel hyn:—

(3.) He was more beloved than Cinthio, but not so much admired.

(4.) He was more beloved than Cinthio (*was beloved*), but (he was) not so much admired (*as Cinthio was admired*).

Yn yr amgylchiad yma, mae y gair *than* wedi ei adrodd, gall y banyn cyferbyniol i *so much* fod yn ddealledig heb fod yn adroddedig; oblegid pan yn adroddedig, ni ffurfia drefn anghywir o gystrawiad.

## 3. TALFYRIADAU, NEU GODDYNODIADAU.

§ 975. Byddai yn afreidiol helaethu ar yr isamrywiadau hyn o'r eiddo y swydd dalfyrog, gan fod y deffiniad yn unig yn ddigon i ddynodi eu defnyddioldeb (§ 883). Yn y dosparth yma y rhestrir llythyrenau dechreuol enwau priodol, teitlau, &c., megys—Sir A. B., K.B.C., am *Sir A. B., Knight of the Bath, &c.*; Mr. F., A. M. (*Master of Arts*); M. D. (*Doctor of Medicine*), &c. (*et cætera*). Pob dynodiad dansoddol, megys arwyddion alsoddol, + (*plus*), — (*minus*), = (*equal*), × (*multiply*), neu  $\frac{1}{2}$  (*divide*), *x*, *y*, (*unknown quantities*), 2*a*, 5*b* (*co-efficients*),  $a^2$ ,  $b^3$ ,  $c^4$ ,  $d^5$ ,  $a^3$ , &c. (*exponents*). Yr holl ddynodiadau dansoddol hyn, a'r cyffelyb, perthynol i gangenau eraill o wyddoriaeth, megys, cerddoriaeth, seryddiaeth, &c., a restrir fel goddynodiadau neu dalfyriadau; ar fyr, perthyn i'r dosparth yma y mae pob gwir hebgoriadau arwyddocaol, megys *k—g*, am *king*, a'r cyfryw ffurfiau tolieithiol ag a ddeallir cystal a phed adroddid hwynt yn bennodol.

## 4. DYNODIADAU AMHENNODOL.

§ 976. Yma gellir rhestru yr holl amrywiadau hyny o'r eiddo hebgoriad a fwriedir fel gwib awgrymiadau, neu fel gwagleoedd y gellir eu llenwi yn ol amgylchiadau; fel hyn:

I, ——— (*lle i'r enw*) do hereby certify, &c. &c., that, on the ——— (*lle i'r dyddiad*), &c. &c.

Ni ofyna y swyddi ammwysol hyn o'r eiddo tolieithiad ychwaneg o eglurhad, gan hyny gellir myned ymlaen at y pwnc nesaf.

## AM GYFUNDOD, NEU GYFATEBIAD UNIONGYRCH.

§ 977. Y RHAN yma o gyfosodiad (*synthesis*) a berthyn i gyfundod (*agreement*) geiriau o ran eu ffurfiau unigol, i adrithio person, rhif, cenedl, a chyflwr, ynghanol amrywiadau swydd gyfansoddol. Mae pedwar prif fath o gyfundod unigol:—

### *Cydweddiad, neu Gyfundod Unigol.*

1. Cyfundod cydiadol.—Connecting agreement.
2. Cyfundod anghydiadol.—Disconnecting agreement.
3. Cyfundod cymmysgedig.—Mixt agreement.
4. Cyfundod Amhennodol.—Indefinite agreement.

§ 978. Bydd ychydig o engreiffitiau yn ddigon er dangos yr hyn a olygir wrth wahanol fathau o gyfundod; a phan y delo yr efrydydd unwaith yn gynnefin â'r deffiniadau cyffredinol, bydd yn llawer haws iddo eu cymhwyso, ymhob amgylchiad, nag a fyddai iddo ddeall rheolau yn meddu afrifed eithradau.

### 1. CYFUNDOD CYDIADOL.

#### § 979.

1. *Cyssylltiad pennodol*,<sup>1</sup> He and I are friends.
2. *Cyssylltiad negyddol*,<sup>2</sup> Neither he nor I are young.

Y cyssylltiad *and* a gydia y ddau ragenw unigol, *he* ac *I*, yn un cyflwr enwol lluosog, yr hwn a gymmer un perwyddiad lluosog i gyfuno âg ef yn gynnulliadol, yn lle cymmeryd dau berwyddiad unigol i gyfuno â'r rhagenwau *he* ac *I* yn ben-nodol ac yn unigol. "*He is my friend and I am his friend,*" sy gyfartal o ran ystyr i "*We are mutual friends,*" ac y mae'r froddeg yma yn gyffelyb o ran ystyr i "*He and I are (mutual) friends;*" y gair *mutual* (ein dau) sydd yn ddeall-edig heb fod yn adroddedig.

§ 980. Y cyssylltiad *nor* yn gyffredin sydd adenw gwahan-iadol, ond yn yr engraifft yma—2, a phob un gyffelyb,

<sup>1</sup> Positive conjunction.

<sup>2</sup> Negative conjunction.

cydiadol negyddol ydyw—cyfuna ddwy swydd unigol o negyddiad yn un negyddol lluosog, yr hyn, mewn gwirionedd, sy ddull gwrthdröedig o gyssylltiad a sierhad pennodol.

(1.) He is not young, and I am not young (*yn bennodol*); we are not young; we are advanced in age. He is not young, *nor* am I.

(2.) Neither he *nor* I are young.

Yma defnyddir y perwyddiad lluosog *are* i gyfuno yn negyddol ac yn gynnulledig â'r ddau ragenw, oblegid nid yw eu priodol berwyddiaid unigol yn gyffelyb o ran ffurf, ac am hynny ped adroddid un ohonynt i gyfuno yn bennodol â'i enwedigydd (*nominative*) digyfrwng, ac yn negyddol neu dolieithiol â'r enwedigydd unigol cyntaf, byddai anghyfundod pennodol rhwng un o'r enwedigyddion a'i berwyddiad:—

(3.) Neither he nor I *is* young.

(4.) Neither he nor I *am* young.

Yn y (3) engraifft, ni ddichon y perwyddiad unigol *is* gyfuno â'r rhagenw *I*, ac, yn y (4), nid yw y perwyddiad unigol *am* yn cyfuno â'r rhagenw *he*; felly rhaid defnyddio y perwyddiad lluosog *are*, i gyfuno â'r ddau enwedigydd unigol fel un lluosog negyddol.

§ 981. Tybia rhai iethegwyr da y gall ysgrifenydd ddefnyddio yr unig neu y lluosog, yn ol ei chwaeth, mewn amgylchiadau fel hyn:—

(1.) Neither one nor the other of us *is* to be blamed.

(2.) Neither one nor the other of us *are* to be blamed.

(3.) Neither of us *is* to be blamed.

(4.) Neither of us *are* to be blamed.

Yn yr holl amgylchiadau hyn, addefir mai y perwyddiad<sup>d</sup> unigol *is* sy briodol, ond dywedir nad yw y perwyddiad lluosog *are*, yn amhrydferth, er nad yw yn gywir o ran cyfundod. Y perwyddiad unigol *is*, o gael ei gymhwyso yma yn dolieithiol, a gyfetyb i ddau adroddiad pennodol o hono, fel hyn:—

(5.) Neither *is* one, nor *is* the other of us to be blamed.

§ 982. Y cyssylltiad *or* a ddefnyddir weithiau i ailadrodd yr un delfryd mewn gwahanol eiriau, megys “chatting *or* talking:” ac ambell waith fe'i defnyddir i ddadgyssylltu; megys, “this is *or* that is.”

## § 983.

YNGHYFUNDOD CYDIADOL.

Rhifiau

Cenedl

Cyfyrâu Personau

- |   |                              |
|---|------------------------------|
| { | Unigol a gyfuna âg unigol.   |
|   | Lluosog, â lluosog.          |
|   | Cymmysgedig, â chymmysgedig. |
|   | Amhennodol, âg amhennodol.   |
| { | Gwrywol a gyfuna â gwrywol.  |
|   | Benywol, â benywol.          |
|   | Canolig, â chanolig.         |
|   | Amhennodol, âg amhennodol.   |
| { | Cyntaf a gyfuna â chyntaf,   |
|   | Ail, âg ail.                 |
|   | Trydydd, â thrydydd.         |
|   | Amhennodol, âg amhennodol.   |
| { | Enwol a gyfuna âg enwol.     |
|   | Adenwol, âg adenwol.         |
|   | Goradenwol, â goradenwol.    |
|   | Canolig, a chanolig.         |

§ 984. O barth *rhif*, unigol a gyfuna âg unigol, fel hyn : *I am, thou art, he is* ; lluosog, â lluosog, fel hyn ; *We are, you are, they are* ; *good men are scarce* ; *few persons are faultless*. Ni fedd y Seisneg amrywiadau i ddynodi y rhifau cymmysgedig a'r amhennodol ; am hyny, crybwyllir y rhai hyn yn unig er mwyn i'r deffiniad fod yn rheolaidd ; ac, yn gyffredin, yr un ffurf i adenw a gyfuna â'r enw unigol a'r lluosog ymhob cyflwr ac ymhob cenedl : *one good man, two good men, three good women* ; *the good man spoke to us, and we answered the good man*.

§ 985. Obarthed *cenedd*, nid oes braidd ddim gwahaniaeth yn nulliau y cyfundod mewn swyddi cyffelyb. Dywedir—*He is, she is, it is, one is*, fel mai yr un adenw perwyddol sydd yn cyfuno â phob cenedl o'r eiddo enwau ; a'r un peth sydd i'w ddywedyd am adenwau ansoddol a dynodiadol : *A good man, a good woman, the good man, the good woman* ; *good men, good women, good things*.

§ 986. Mewn perthynas i *berson*, y perwyddiad yw yr unig adenw a newidia ei ffurf i gyfuno â'r person cyntaf, yr ail a'r trydydd ; megys—*I am, thou art, he is*. Y person amhennodol a drinir fel trydydd person y rhif unigol : "*One is not always well disposed*."

§ 987. Am *gyflwr*, mae yr adenwau perwyddol yn newid eu ffurfiau i gyfuno â gwahanol gyflwrau enwau, ond yr un ffurf sydd i bob dosparth arall o eiriau yn y gwahanol gyflwrau. Y perwyddiaid a newidiant yn ol rheolau cyfieuaid, fel y gwelir yn eu graddegau treigliadol ; megys—*He works, she works, they work* ; ond cyfraniaid a ddilynant reolau cyffredin cyfundod heb newidiad ffurf :—*He is a working man* ;

They are *working* people; He is *working*, She is *working*, They are *working*.

§ 988. Fe allai y byddai yn annichonadwy canfod gwahanol engreiffiau, yn y Seisneg, i egluro yr un amrywiad ar hymtheg o'r eiddo cyfundod : cyfyngir amrywiadau cenedl, er engraifft, i enwau yn unig ; felly nid oes i'r tri dosparth cyffredinol arall braidd unrhyw amrywiad o ran cenedl. Yn wir, ychydig iawn sydd o newidiad yn silliad geiriau Seisnig i adrithio gwahanol swyddi cyfansoddiad, ac am hyny nid yw rheolau cyfundod ond pur ychydig o nifer a phur syml. Rhagenwau a pherwyddiaid yw yr unig eiriau braidd y dylid sylwi yn neilltuol ar eu dulliau pennodol o gyfundod.

(1.) The man *who* was suspected was not guilty ; *he* was innocent.

(2.) The woman *who* was suspected was not guilty ; *she* was innocent.

(3.) The trees *which* were transplanted did not grow ; *they* withered and died.

(4.) The animals *which* were brought from India could not be inured to this climate ; *they* died.

(5.) The thing was very pretty, but *it* was useless.

(6.) *This* book, *these* books, *that* person, *those* persons ; *one* thing, *another* thing, *other* things.

(7.) Every tree *is* known by its fruit ; *each* was, *all were* ; *no one is*, *none are*.

Nid oes eisieu helaethu ar yr engreiffiau hyn, os ydyw yr efrdydd wedi sylwi yn briodol ar yr hyn a ddywedwyd eisys yn y deffiniad wrth ymdrin â'r rhagenwau perthynol, amhenodol, ac ammwysol, ac â'r adenwau perwyddol.

## 2. CYFUNDOD ANGHYDIADOL.

### § 989.

(1.) *I think*, with my friend, that it is useless.

(2.) My friend *thinks* it is useless, and so do I.

(3.) My friend and I *think* that it is useless.

Mae y tair engraifft yma yn gyffelyb o ran ystyr, ond gwahaniaetha y flaenaf a'r olaf o ran eu dulliau pennodol o gyfundod rhwng y prif enwau a'r perwyddiad. Yn y frodd-eg olaf, mae y perwyddiad lluosog *think* yn cyfuno â'r enwedigydd lluosog *I and my friend* ; ond, yn yr engraifft flaenaf, y perwyddiad *think* a gyfuna â'r enwedigydd unigol *I*, ac y mae'r enw *my friend* yn y cyflwr goradenol, dan ddyllanwad y banyn *with*. Nid yw yr arddodiad *with*, gan hyny, yn cydio dau enw yn un cyflwr enwol, fel y gwna'r cyssylltiad *and*, er bod y ddau fanyn goradenwol hyn yn

gwasanaethu i gydio y geiriau o ran ystyr. Mae y banyn *and* yn cydio dau enw yn un cyflwr fel ag i'w gwneyd i gyfuno âg un perwyddiad lluosog; y banyn *with* sydd arddodiad yn unig, neu atddodol fanyn goradenwol, yr hwn a wahana gyflyrau enwau, ac am hyny nis goddefa gyfundeb o adenwau rhwng y cyflwr enwol a goradenwol.

§ 990.

(1.) Neither one *nor* the other *is* right.

(2.) He *or* she *is* wrong.

Dywedir yn gyffredin fod *or* a *nor* yn dadgyssylltu perwyddiaid fel na ffurfiot un lluosog cyffredin; ond, fel y dywedwyd eisys (§ 981), barna rhai mai prydfferth, er nad priodol, ydyw defnyddio y banynau crybwylledig fel cydiadolion.

3. CYFUNDOD CYMMYSGEDIG.

§ 991. Gellir ystyried cyfundod yn gymmysgedig, pan gymhwysir un perwyddiad yn gyfartal at ddau enw, ac y gellir gwneyd iddo gyfuno â'r naill neu y llall, ond nid â'r ddau; fel hyn:—

(1.) *I* am the man who *make* the objection.

(2.) I am the *man* who *makes* the objection.

Yma gall y perwyddiad gyfuno naill ai â'r rhagenw yn y person cyntaf, neu â'r enw yn y trydydd person.

(3.) Thou and he have shared it between you.

(4.) When one or both of these things happen.

(5.) The public *is* deceived.

(6.) The public *are* deceived.

Yn y (5) a'r (6) engraifft, gall y perwyddiad gyfuno â'r enw cynnulliadol, *public*, naill ai yn y rhif unigol neu y lluosog, oblegid gellir dosparthu enwau cynnulliadol naill ai fel unigol neu luosog. Ond, ni ddylid defnyddio yr un enw cynnulliadol fel unigol a lluosog yn yr un haib neu gynnulliad o froddegau. Yn yr engraifft (3), cyfuna y perwyddiad *have* â *thou* a *he*, fel un lluosog, er bod i bob un o'r ddau rhagenw wahanol berwyddiad unigol: Thou *hast* a he *has*, neu, Thou and he *have*. Pan berthyno perwyddiad i ddau enw rhagflaenol o wahanol rif, cyfuna â'r lluosog yn hytrach nag â'r unigol: megys—

(7.) When one or both of these things *happen*.

(8.) When one *happens*, or when both *happen*.

(9.) His meat *was* locusts and wild honey.

(10.) Locusts and wild honey *were* his meat.

(11.) One cause of misery *was* stagnation of trade and want of confidence.

(12.) Stagnation of trade and want of confidence *were* one cause of misery.

#### 4. CYFUNDOD AMHENNODOL.

§ 992. Mewn rhai amgylchiadau cymmerir geiriau mewn ystyr gyffredinol, fel ag y gwneir iddynt gyfuno mewn gwahanol rifau, cenedl, cyflyrau, &c.; megys—

(1.) By *this means* alone their greatest obstacles will vanish.

(2.) By *these means* they were enabled to succeed.

(3.) Peace of mind is *an ample amends* for the sacrifice of interest.

(4.) *These were ample amends* for all his labours.

### SYLWADAU BEIRNIADOL AR GYDWEDDIAD NEU GYFUNDOD.

#### § 993.

(1.) What *signifies* good principles when we act improperly—*signify*.<sup>1</sup>

(2.) Thou *sees* how little has been done—*seest*.

(3.) Though thou *cannot* do much for the cause, thou shouldst do something for it—*canst not*.

(4.) A variety of things *have* transpired—*has*.

(5.) In moral, physical and intellectual harmony *consist* human happiness—*consists*.

#### § 994.

(1.) Corn (in general) is now very dear, but *the* corn (*which is now growing*) looks very well, and promises an abundant harvest.

(2.) *A* man was taken up last evening for stealing, but *the* man who was seen stealing your fruit has not been arrested.

Rhydd y ddwy engraifft yma ddefnydd cyffredinol o'r gwahaniaeth sy rhwng y bannod pennodol a'r amhennodol. Gweinydda ychydig engreiffitiau eto o'u cam gymhwysiad, yn gystal ag o gam gymhwysiad rhai adenwau dynodiadol ereill, i ddangos eu priodol ddefnydd mewn cystrawriad:—

(3.) A man, woman, and child, were sitting in one corner.

*A man, a woman, and a child were, &c.*

(4.) A dog, cat, and ape were all together in one room.

*A dog, a cat, and an ape, &c.*

(5.) The day and hour were appointed.

*The day and the hour, &c.*

<sup>1</sup>D.S...Y geiriau Italaidd a ddilynant y dosparthlin ar ol yr engreiffitiau sy gywir, a dylasant gael eu defnyddio yn lle y geiriau Italaidd sydd yn yr engreiffitiau.

(6.) The sun, moon and stars, were created by the Almighty.

*The sun, the moon, and the stars, &c.*

Pan gyfeirir at yr un gwrthrych mewn gwahanol eiriau yn yr un froddeg, nis ailadroddir y bannod :—

(8.) He is *a* better soldier than scholar.

nid

(9.) He is *a* better soldier than *a* scholar.

Yn yr (8) engraifft, yr un gwrthrych ydyw *scholar* a *soldier*, ond yn y (9), mae *scholar* yn wrthrych gwahanol i *soldier* : mae y ddwy engraifft yn gywir o ran cystrawiad.

(10.) James, *the* son of Zebedee, and brother of John, *was* present.

Pe buasai "*brother of John*" heb fod yr un a "*James, the son of Zebedee,*" buasai yn rheidol rhoi y bannod *the* o flaen y gair *brother* ; fel hyn—

(11.) James, *the* son of Zebedee, and *the* brother of John, *were* present.

§ 995.

(1.) Give me *them* books—*those*.

Dywed Murray—"Cyfarfyddir yn fynych â *those* yn lle *they* ar ddechre broddeg, lle na fyddo cyfeiriad pennodol at flaenorydd (*antecedent*); megys, '*Those* that sow in tears sometimes reap in joy.'—(*They* that, or those who sow in tears.") Yma, mae Murray wedi camsynied swyddi perthynol y geiriau *those* a *they*. Yn briodol, nid rhagenw yn perthyn i flaenorydd ydyw y blaenaf—*those*, ond adenw dynodiadol yn perthyn i enw dilynol a fyddo yn adroddedig neu yn ddealledig; megys—

(1.) *Those* (*persons*) who sow in tears, sometimes reap in joy.

Y rhagenw *they*, yn y gwrthwyneb, a ddylai berthyn bob amser i flaenorydd, sef i enw neu gynnulliad o enwau a wnaed o'r blaen yn hyspys i'r darlennydd; canys, pan ddywedir *they*, mae yn dra naturiol gofyn, *who?* oddi eithr fod y person neu y peth y treithir am dano yn hyspys eisoes. Priodol, gan hyny, yw dywedyd, "*Those* (*persons*) who sow in tears," ac amhriodol yw dywedyd, "*They* who sow in tears," oblegid y mae'r gair *persons*, yn yr engraifft gyntaf, yn ddealledig, ond nid yw y gair *they* yn perthyn i unrhyw enw a adroddir nac fel blaenorydd pennodol, nac fel eanlynietydd tolieithiol. Nis gellid dywedyd, "*They* (*persons*) who sow in tears," ac, am hyny, nid yw y gair *they* yn perthyn i unrhyw enw nac yn adroddedig nac yn ddealledig; ac y mae'r engraifft a rydd Murray fel un wallus, yn hollol gywir, tra y mae ei gyweiriad ef yn hollol wallus. Ymddengys y teimlai fod rhywbeth



yn gyfeiliornus yn ei eglurhad, canys ychwanega, "Nid yw yn hawdd bob amser dywedyd, pa un ai rhagenw personol ai dangosiadol" (sef adenw dynodiadol) yw y goreu mewn rhai cystrawia dau.

2. We are not acquainted with the calumny of *them* (or those) who openly make use of the warmest professions.

Yma, mae yn bur amlwg mai y gair *those* a ddylai gael ei ddefnyddio, a bod y gair *them* yn amhriodol, fel yr eglur brofa engraifft o'i swyddi pennodol:—

(3.) What do you think of *those* (persons) who make warm professions of friendship to us in person, and then calumniate us in our absence?—We think very unfavourably of *them*.

Yma mae'r gair *them* yn perthyn i ryw beth adnabyddus, ac nid i ryw wib awgrymiad. Ond perthyn y pwnc yma yn fwy uniongyrch i gyfundod cynnulliadol nag i'r arbenigol, ac am hynny sylwir arno yn y dosparth nesaf.

#### § 996.

(1.) For among all the *animals* upon *which* nature has impressed *deformity* and *horror*, there was none *whom* he durst not encounter rather than a beetle.

Defnyddir y gair *whom* yma, cystal a'r gair *which*, i ddynodi yr un enw, *animals*; a chan mai am bersonau yn unig y dylid defnyddio *who* yn ei holl gyflyrau, mae yn amhriodol ei gymhwyso at anifeiliaid a phethau difywyd. Defnyddir *which* a *that* weithiau fel rhagenwau am bersonau, ond ni ddefnyddir *who*, *whom*, &c., byth yn briodol i ddynodi israddolion y greadigaeth. Pur amhriodol hefyd yw y gair *horror* am y delfryd a fwriedir ei adrithio. Yn wir, mae y froddeg oll yn anhrydferth ac anghywir.

(2.) If the calm in which he was born and lasted so long had continued—and *which* lasted so long.

(3.) A man whose inclination led him to be corrupt, and had great abilities to manage the business—and *who* had great abilities.

(4.) *Which* rule, if it had been observed, a neighbouring prince would have *wanted* a great deal of that incense which hath been offered up to him.

Broddeg hollol drosgl ydyw hon. Gosodir y geiriau *which* *rule* fel enwedigydd heb berwyddiad, a defnyddir y gair *wanted* mewn ystyr goddefol, er mai perwyddiad gweithredol diwrthrych ydyw. Gellid adrodd yr ystyr yn briodol fel hyn:—

If this rule had been observed, a neighbouring prince would have been left without a great deal of that incense which has been lavished upon him.

(5.) They will not believe but *what* I was entirely to be blamed—but *that*.

(6.) That faction *who* most powerfully opposed him in England—*which*.

(7.) France, *who* was in alliance with Sweden—*which*.

(8.) The court *who*; the cavalry *who*; those cities *who* aspired to liberty; that party *who*.

*Which* a ddylid ddefnyddio ymhob man yn yr (8) engraifft, yn lle *who*, oblegid dosparthir y personau unigol fel pethau cynnulliadol, ac nid mewn cyfeiriad uniongyrchol at bersonau neilltuol.

### § 997.

(1.) He behaved *conformable* to that great example—*conformably*.

(2.) Live *suitable* to your station—*suitably*.

(3.) He is *miserable* poor—*miserably*.

(4.) I cannot think so *mean* of him—*meanly*.

(5.) I now write *agreeable* to my promise—*agreeably*.

(6.) He acted in this business *bolder* than was expected—*more boldly*.

(7.) The tutor addressed him in terms (which were) rather warm, but (which were) *suitable* to his offence—*suitably*.

(8.) He lived in a manner (which was) *agreeably* to the dictates of reason—*agreeable*.

(9.) A *more serene* temper—*serener*, neu *more serene*.

(10.) The most *strictest* sect—the *strictest*, neu the *most strict*.

(11.) *Worser* conduct—*worse*, (bad, worse, worst).

(12.) This noble nation hath *of all* others, admitted *fewer* corruptions—hath admitted *fewer* corruptions *than* any other.

(13.) And I persecuted this way unto *the* death.

Llafarwedd (*idiom*) Ffrengig ydyw hon, y (13), heb fod yn briodol i'r Seisneg. Ni ddywed y Seison *the death*, oddi eithr pan yn cyfeirio at ryw farwolaeth neilltuol; megys, "*The death of the king*."

### § 998.

(1.) We have *spoke* to your brother about you—*spoken*.

(2.) It was *spoke* in my hearing—*spoken*.

(3.) And so *was* also James and John—*were*.

(4.) By whom all good and evil *is* harmonized—*are*.

(5.) A long course of time, *with* a variety of accidents, *are* requisite to produce revolutions—*is*.

(6.) Full many a flower *are* born to blush unseen—*is* born.

(7.) A conformity of inclinations and (of) qualities *prepare* us for friendship—a conformity *prepares* us.

(8.) *Anthea* was content to call a coach and crossed the brook.  
Mae y froddeg hon yn rhy dolieithiol. Dylasai fod,

*Anthea* was content to call a coach and SHE crossed the brook.  
Canys, os nad hyn ydyw y gwir ystyr, dylasai y gair *crossed*  
fod yn to cross:—

*Anthea* was content to call a coach and (to) cross the brook.

### § 999.

(1.) We may see a metaphor or an allegory in a picture as well as read *them* in a description—*it*.

(2.) *One* should not think too flatteringly of *ourselves*—*one's self*.

(3.) We should not think too flatteringly of *one's self*—*ourselves*.

Nid yw yr holl engreiffitiau blaenorol o gyfundod diffygiol yn perthyn i gyfundod arbenigol yn unig; mae rhai o honynt yn perthyn i gyfundod cynnulliadol, oblegid mewn engreiffitiau amryfal prin y mae 'n rheidiol sylwi ar is amrywiadau deffiniad.

---

## AM LYWODRAETH, NEU GYFATEBIAD ANUNIONGYRCH.

§ 1000. Y rhan yma o gystrawen (*syntax*) a berthyn i gyfundod geiriau o ran eu nodweddau pennodol, fel adrithiaid y pedwar prif ddosparth swyddogol ynghyfansoddiad broddeg. Gellir ei alw yn gyfundod allanol neu gynnulliadol, i'w wahaniaethu oddi wrth y cyfundod mewnol neu arbenigol a fu dan sylw yn yr adranau blaenorol.

§ 1001. Gwahanol amrywiadau cyfundod cynnulliadol a berthynant yn benaf i amserau a moddau y perwyddiaid, ac i swyddi perthynol enwau yn eu gwahanol raddau o gymhariad.

### 1. CYFATEBIAD ANUNIONGYRCH O RAN AMSER.

§ 1002. Gellir dosparthu pedwar is amrywiad o amser ymhob un o'r tair gradd berthynol, *gorphenol*, *presennol*, a *dyfodol*; a gellir galw yr is amrywiadau hyn, pennodol, amhennodol, cymmysgedig, ac ammwysol.

#### AMSER PRESENNOL.

1. *Pennodol*. I am very well now, at this moment.
2. *Amhennodol*. I am very well, generally, but not so now.
3. *Cymmysgedig*. To enjoy health at all times, is very desirable now and at all times.
4. *Ammwysol*. Being well now, or generally, is not the same thing.

§1003. Gan nad yw y perwyddiaid yn newid eu ffurf i adrithio holl is amrywiadau amser, mae graddau eu cyfatebiad anuniongyrch yn perthyn braidd yn hollol i'r tri dosparth cyffredinol o amser, y gorphenol, y presennol, a'r dyfodol, ac i'r gwahanredion pennodol a ddynodant berwyddiaid gweithredol, goddefol, canolig, ac adgyrchol.

§1004. Mae i amryw o'r perwyddiaid Seisnig wahanol ffurfiau i ddynodi dull pennodol ac amhennodol amser; megys,

*Pennodol.* I am writing (now).

*Amhennodol.* I write (generally).

Ond, pan ddymunir dynodi gradd bennodol amser, gair a chwanegir yn gyffredin i amlygu y radd bennodol hono, megys,—“I gave him that book *yesterday*,” a'r radd amhennodol a amlygir heb eglurhad, fel hyn,—“I gave him the book;” neu, defnyddir gair cyfansawdd, a dywedir,—“I have given him the book.”

§1005. Anfynych y camddefnyddir graddau perthynol amser mewn broddegau pur fyrion, ond fe'u camddefnyddir yn aml mewn broddegau hirion; fel hyn:—

I *expected*, from the former language of that gentleman, to have seen him actively engaged in promoting the interest of our cause, &c.

Yma priodol radd amser cyfatebol ydyw, to see, ac nid to have seen:—“I *expected*, THEN, to see him NOW engaged, &c.”

#### § 1006.

- (1.) I *expected to have ploughed* my land last Monday.
- (2.) I *expected to be ploughing* my land last Monday.
- (3.) I *expected my land to be ploughed* on or before last Monday.
- (4.) I *expected to plough* my land last Monday.
- (5.) I *expected to have my land ploughed* last Monday.

Yr un ystyr fe allai sydd i'r (1) a'r (5) o'r broddegau hyn, ond oherwydd ffurf ammwysol y (1), prin y gellir dywedyd pa un o'r pedair ereill sydd yn adrithio ei gwir ystyr.

#### § 1007.

I called on him and *wished to have submitted* my manuscript to him.

Yma, mae 'n amlwg nad yw *wished* yn cyfuno â to have submitted. Yr ystyr yw, “I *wished* there and then to submit my manuscript to him;” ac nid—“I WISHED then TO HAVE before SUBMITTED it to him.” Pe dywedasid, “I *wished* then to have my manuscript submitted to him,” buasai y cystrawriad yn gywir, oblegid cyfuna yr amser presennol to have â'r gorphenol (neu yr amser oedd yn bresennol) *wished*, ond yr

amser gorphenol *wished* ni chytuna yn uniongyrch âg amser blaenorol gweithred.

§ 1008.

I had not the pleasure of *hearing* his sentiments, when I wrote that letter.

Dyma froddeg bur gywir, yr hon a arwydda, "I had not the pleasure of hearing him express his sentiments while I was writing that letter:" ond y mae 'n dra thebyg mai amcan yr awdwr oedd dywedyd, "I had not the pleasure of *having* (previously) *heard* his sentiments when I wrote that letter."

§ 1009.

All that was *wanting* was honesty.

Ystyr y froddeg yma ydyw, "That honesty was *wanting* something," ond y mae 'n debyg mai meddwl yr awdwr oedd dywedyd mai "Honesty was *wanted* by somebody."

§ 1010.

(1.) I *should have liked to have been informed* of the exact amount.

Y froddeg yma a arwydda, "I should (*then*) have (previously) liked, to have, been (before that previous time) informed of the exact amount." Dyma gymysgfa hollol o amserau perthynol.

(2.) I should (now) like to have been (then) informed of the exact amount.

(3.) I should (then) have liked to be informed of the exact amount.

Mae y broddegau hyn yn adrodd y graddau angenrheidiol o amser perthynol heb gael eu gorlwytho âg ailadroddion afreidiol neu adroddiadau anghywir o amser gorphenol.

§ 1011. Hefyd mae yn angenrheidiol bod yn bur ofalus i wahaniaethu oddiwrth eu gilydd wahanol dreigliadau y perwyddiaid gweithredol, goddefol, canolig, ac adgyrchol, fel na chymmysger eu swyddi perthynol mewn cyfundod cynnulliadol. Mae trefniad difygiol o'r natur yma i'w ganfod yn bur gyffredin, hyd y nod yngweithiau dynion dysgedig.

(1.) I did not speak so well yesterday as I *wished to have done*.

Yma cysylltir y cyfraniad goddefol *done* wrth y perwyddiad *to have*, a defnyddir ef yn lle y perwyddiad gweithredol *to do*, yr hwn yw y priodol air cyfatebol:—

(2.) I did not speak so well yesterday as I *wished to speak*.

(3.) I did not speak yesterday so well as I *wished to do*.

(4.) I did not speak so well yesterday as I *wished (to do or to speak)*.

Nid priodol dywedyd,

(5.) I did not speak so well yesterday as I wished (*to have done speaking*).

§ 1012. Mae amryw berwyddiaid a ddefnyddir weithiau mewn ystyr gweithredol ac weithiau mewn ystyr canolig, ac y mae'n dra angenrheidiol gwahaniaethu rhwng y cysgodion hyn o wahaniaeth ystyr a berthynant iddynt, am nad yw eu graddau pennodol o gyfatebiad yn gyffelyb. Fel perwyddiad gweithredol, *to endure* a arwydda cynnal, ymaros â; ond, fel perwyddiad goddefol, arwydda para, goddef; a gellir dywedyd yn yr ystyr gweithredol, ac yn y goddefol cyferbyniol, "I *endure* pain," a "Pain *is endured* by me;" ond nis gellir dywedyd yn briodol, "The world *is endured* from age to age," er bod yn briodol dywedyd, "The world *endures* from age to age." *To go*, sy berwyddiad gweithredol; ac am hyny dywedir, "He *had gone* away," ac nid "he *was gone* away." Oherwydd yr un rheswm dywedir, "He *had run* away;" ac nid "He *was run* away." Os dywedir, "He *was gone*," rhaid ystyried bod y gair *gone* yn arwyddo *absent*, heb gyfeirio at y weithred o *going*.

§ 1013. Mae priodol ddefnyddiad y graddau hyn o gyfatebiad yn dibynu ar ystyr y geiriau, ac nid ar eu ffurf. Gellir dywedyd, "The horse *was run* to death;" oblegid, yn yr amgylchiad yna, ystyrir y march yn offeryn goddefol dan arweiniad meddwl dynol.

## 2. CYFUNDOD CYNNULLIADOL O RAN MODD.

§ 1014. Er nad ystyriwyd yn angenrheidiol gwahaniaethu mwy na dau o wahanol foddau sicrhad, eto mae yn hawdd canfod pedwar amrywiad o fodd yn adroddiad cyffredinol syniadau.

### AMRYWIADAU MODD.

- |                             |   |
|-----------------------------|---|
| 1. <i>Modd Dilysol.</i>     | We are (undoubtedly) secure.                              |
| 2. <i>Modd Ammodol.</i>     | If he be cautious, he may (perhaps) succeed.              |
| 3. <i>Modd Cymmysgedig.</i> | We might (certainly) succeed, <i>if we were</i> to try.   |
| 4. <i>Modd Ammwysol.</i>    | If I am mistaken, I am; but I do not believe it probable. |

Mae y cyntaf o'r moddau hyn o sicrhad yn hollol ddilysol neu bennodol; yr ail yn ammodol; y trydydd yn gymmysgedig, am fod y rhan gyntaf neu bennodol yn dibynu ar yr ail ran neu yr ammodol; y pedwerydd a ystyrir yn ammwysol, oblegid y mae'r sicrhad, mewn gwirionedd, yn hollol ben-

nodol, er ei fod mewn ymddangosiad yn ammodol er cydweddu â gwahanol farn ar yr un pwnc.

§ 1015. Gan nad yw ffurf y perwyddiaid Seisnig yn newid ond pur ychydig er adrithio y gwahanol foddau hyn o sicrhad, mae yn bur hawdd eu defnyddio yn briodol; ond nid mor hawdd ydyw deall priodol ddefnyddiad a chyfatebiad anuniongyrch y cyssylltiaid a wasanaethant berwyddiaid yn y gwahanol foddau hyn o sicrhad. Hyderir y bydd i'r byr sylwadau a ganlynant egluro ychydig ar y pwnc.

### § 1016.

1. If it *be* dark, do not come.

2. If eating *is* necessary to man, he ought not to be a glutton.

“Yn y gyntaf o'r broddegau hyn, gall y pwnc a adroddir gan y perwyddiad fod, neu gall beidio bod. Mae ansicrwydd yn hanfodi gyda golwg ar y pwynt. A phe llenwid y froddeg i fyny, safai fel hyn:—“If it *should be* dark do not come home.” Ond yn yr ail froddeg, nid oes y fath ansicrwydd yn hanfodi. Gwyddom ni, a gŵyr yr holl fyd, fod bwyta yn angenrheidiol i ddyn. Nis gallwn lenwi y froddeg hon i fyny â *should*. Ac am hyny defnyddir *is*. Fel hyn, gan hyny, nid oes dim a wnelo y cyssylltiad *if*, a welwch yn cael ei ddefnyddio yn y ddau amgylchiad, â llywodraeth y perwyddiad. Yr ystyr ydyw yr hyn sy'n llywodraethu.”—COBBETT. Gallasai Cobbett chwanegu y defnyddiwyd y cyssylltiad *if* yn anmhrìodol yn yr ail froddeg, yn lle y gair *though*.

(3.) Though eating is necessary to man, he ought not to be a glutton.

Moddau dilysol o sicrhad yw y rhai hyn; ac am hyny, gan mai dynodiad o'r modd ammodol ydyw ac a ddylai y cyssylltiad *if* fod, ni ddylid ei ddefnyddio mewn unrhyw fodd arall oddi eithr yn yr ammwysol, at yr hwn y cyfeiriwyd eisys fel un o bedwar amrywiad modd. Darfu i Cobbett naill ai camddeall neu esgeuluso yr amgylchiad yna. Mae efe yn gyffredin yn sylwi yn bur ffel, ond o ddiffyg mwy o wyddoriaeth, mae ei egluriadau yn fynych yn lled drwsglïon. Gweinydda y dyfyniad canlynol o'i Rammadeg fel eglurhad dyblyg: laf, o'r gwall y sylwodd efe arno yn yr engreifftau blaenorol, ac 2il, o'i amryfuseddau yntau wrth sylwi ar y gwall hwnw.

“Effeithir yn bur fawr ar ystyr yr hyn a ysgrifenisir pan wneir defnydd o'r moddau yn annosparthus. Cymerwn engraifft.

(4.) ‘Though her chastity *be* right and becoming, it gives her no claim to praise; because she would be criminal, *if* she *were* not chaste.’

“Yn awr, trwy ddefnyddio y (modd) cyssylltiadol yn aelod cyntaf y froddeg, gadewir yn ansicr pa un a ydyw yn iawn ai peidio iddi fod yn ddiwair; a thrwy ei defnyddio yn yr ail, amlygir amheuaeth o barth y ffaith o'i diweirdeb. Nid ydys yn meddwl yr un o'r pethau hyn; ac am hyny, er bod yma *though* ac *if*, dylai y ddau berwyddiad fod yn y mynegol (yn modd dilysol sicrhad). ‘Though her chastity *is* right and becoming, it gives her no claim of praise; because she would be criminal if she *was* not chaste.’ Cyflawner â'r arwyddion, ‘Though her chastity *may* be right; if she *should not* be chaste;’ ac yna gwelir ar unwaith pa wahaniaeth sydd yn yr ystyr.”

Mae nodiadau Cobbett ar y rhan gyntaf o'r froddeg yn eithaf cywir, ond nid yw yn sicr y gwellhaodd yr ail ran, trwy ei newid. Gwedi newid yr aelod cyntaf, mae yr holl froddeg yn sicrhad pur gywir yn y modd cymmysgedig, gan fod mewn rhan yn ddilysol, ac mewn rhan yn ammodol; fel hyn:—

(5.) Though her chastity is right and becoming, it gives her no claim to praise; because she would be criminal (after the fault) if she *were* not chaste (during her whole life).

Yn ol newidiad Cobbett, ystyr y froddeg yw hyn:—

(6.) Though her chastity is right and becoming, it gives her no claim to praise; because she would be criminal (now, or generally, or some time or other) if she (really) *was* not chaste (at a certain period which is now past).

§ 1017. Defnyddir modd ammodol y perwyddiad weithiau heb gyssylltiad i ddynodi y cyfryw fodd ammodol o sicrhad; megys,

(1.) *Were* I not to succeed I should suffer very considerably.

(2.) I should suffer very considerably *if* I *were* not to succeed.

§ 1018. Yn y Seisneg, fel yn y Gymmraeg, mae dau negyddiad yn gyfartal i sicrhad; megys,

(1.) *Nor* did they *not* perceive him: hyny yw, They did perceive him.

(2.) His language may be inelegant, but it is *not ungrammatical*: sef yw hyny, It is grammatical.

### 3. CYFUNDOD CYNNULLIADOL O RAN CYMHARIAD.

§ 1019. Heblaw graddau cymhariad rhwng geiriau, mae pedwar bath o gymhariad yn ol deddfau cyfatebiad, y gellir eu galw

1. *Cyfatebiad Gogyfartal.*

2. *Cyfatebiad Cyferbyniol.*

*Paris and London* are rich places.

The *learned* are often as unhappy as the *illiterate*.



3. *Cyfatebiad Gwrthredol.* That gentleman is more *learned* than *wise*.
4. *Cyfatebiad Anuniongyrch.* There is a difference between a man and *the* man.

Byddai yn groes i ddeddfau cyfundod cynnulliadol dywedyd, "*Paris and England are rich places;*" oblegid nad yw eu graddau pennodol o eangedd yn gyffelyb i'w gilydd. Hefyd, byddai yn amhriodol dywedyd, "*The learned are often as unhappy as the most illiterate;*" oblegid bod graddau cyferbyniad yn gofyn i *great* gael ei gyferbynu â *small, greater* â *smaller, a greatest* â *smallest*, ac am hyny, dylai *learned* gael ei gyferbynu â *illiterate, more learned* â *less learned, a most learned* â *most ignorant*. Byddai yn amhriodol dywedyd, "*That gentleman is wiser than he is learned;*" oblegid nad yw *wiser* a *learned* yn cyfateb o ran eu graddau pennodol o gymhariad: *wise, learned; more wise, more learned; most wise, most learned*. Mae cyfatebiad amhennodol neu anuniongyrch yn perthyn i'r graddau hyny o gymhariad a ddeallir heb fod yn adroddedig. Pan ddywedir, "*The corn is not ripe,*" gwneir bath o gyfeiriad anuniongyrch at yd yn gyffredinol, yr hwn sydd addfed a chymmwys i'w ddefnyddio: a phan ddywedir, "*A beast of prey is a dangerous animal,*" gwneir cyfeiriad anuniongyrch at yr anifeiliaid nad ydynt yn beryglus. Perthyna y cyfatebiadau anuniongyrch hyn, gan hyny, yn benaf, i'r adenwau dynodiadol (y bannodau) pennodol ac amhennodol.

#### CYFUNDOD CYNNULLIADOL O RAN SWYDDI PERTHYNOL ENWAU.

§ 1020. Mae pedwar bath o swyddi perthynol ynghyfansoddiad geiriau, a gellir galw y pedwar bath hyn o gyfatebiad,

1. Swyddi perthynol Rhagenwau.
2. Swyddi perthynol Cyfraniaid.
3. Swyddi perthynol Goradenwau.
4. Swyddi perthynol Rhagenwau Amhersonol.

Yn y gyntaf o'r swyddi hyn, gall rhagenw fod yn ddirprwyad (*agent*) enw mewn unrhyw swydd; ac y mae ffurfiau yr enw a'i ragenw yn dibynu, nid ar eu perthynas anuniongyrch â'u gilydd, ond ar raddiannau (*ranks*) neilltuol eu swyddi pennodol ynghyfansoddiad cyffredinol broddeg. Felly gall enw o unrhyw raddiant (*rank*) gael ei adrithio gan ragenw o raddiant gwahanol, fel hyn:—

That Almighty Being, *whose* name we repeat in adoration, *who* preserves us from danger, *to whom* we belong, and *whom* we serve, is eternal.

Yma y mae'r holl ragenwau mewn cyffyrâu gwahanol, er eu bod yn adrithio ac yn perthyn yn uniongyrch i enw yn y cyflwr enwol.

§ 1021. Mae swyddi perthynol y cyfraniaid yn gwahan-iaethu o ran eu cyfundod cynnulliadol yn ol y dull yn yr hwn eu defnyddir, fel hyn :—

(1.) These are the rules of grammar, by *the observing of* which you may avoid mistakes.

(2.) These are the rules of grammar, *by observing* which you may avoid mistakes.

Mae i'r ddwy froddeg yma ystyr cyffelyb, er nad yw swyddi perthynol y gair *observing* yr un yn hollol. Yn y froddeg gyntaf, fe'i defnyddir fel enw perwyddol cyfartal i'r enw *observance*; ac yn yr ail, fe'i defnyddir fel cyfraniad gweithredol, yn cyfranogi o natur enw ac adenw, ac yn gwasanaethu yma yn swydd goradenw. Byddai yn amhriodol dywedyd, "by *observing of* which," neu "by *the observing* which." Rhaid defnyddio y gair *observing*, a phob gair cyffelyb, naill ai fel enw rheolaidd, a dywedyd, "by *the observing of* which;" neu fel goradenw cyfraniadol, gan ddywedyd yn syml, "by *observing* which." Hefyd rhaid dywedyd,

(3.) This was *a betraying of* his trust, neu

(4.) This was *betraying* his trust.

§ 1022. Er mwyn gwneyd y pwnc tan sylw mor eglur ag y mae yn ddichonadwy, rhoddir yma alleiriad byr o ddefiniad nodwedd ammwysol cyfraniaid, yn neilltuol cyfraniaid gweithredol.

Cyfraniad gweithredol fel *Enw yn y cyflwr enwol* :—WORKING is more conducive to health than being idle.

*Fel Adenw* :—He is a WORKING man.

*Fel Goradenw* :—He is WORKING. Hyny yw—He is *in* the act of working.

Yma gwelir bod y cyfraniad syml yn ei ystyr gweithredol neu berwyddol, yn hollol gyfartal i enw yn y cyflwr goradenwol, a dyna'r achos mae'n debyg i rammadegwyr ddywedyd,—“Defnyddir cyfraniaid yn fynych fel arddodiaid: fel hyn,—*excepting, respecting, touching, concerning, according* :—“They were all in fault, *except* or *excepting* him.” Yn awr ni ddefnyddir y cyfraniaid hyn fel arddodiaid, y rhai nid ynt ond arwyddion yn unig o swydd oradenwol, ond defnyddir y cyfraniaid fel goradenwau heb unrhyw fanynau i ddynodi y swydd hono. Y ffaith yma sy wedi arwain grammadegwyr i'r gwall o barth yr hyn a alwant y “cyflwr

arbenig (*absolute case*)." Pan fyddo cyfraniad yr hyn a elwir perwyddiad, adenw yn unig ydyw yn gwasanaethu y perwyddiad cyfieuedig yn yr un dull ag y gwna gorair, fel hyn:—

We are	}	well.
		in haste.
		working.
		reading.
		in danger.
		at work.

Mae yn wir y gellir cysylltu adenw wrth y perwyddiad *to be*, mor hawdd a goradenw: gellir dywedyd, "This *is good*," neu *bad*, neu *indifferent*; a'r nodwedd dyblyg yma o gyssylltiad rhwng y swyddi adenwol a goradenwol a berthyn i ran amwysol o gyfansoddiad, ar yr hon ni wiw helaethu.

§ 1023. Mae swyddi perthynol y goradenwau yn eu cyfundod cynnulliadol, yn gofyn am i'r banynau a feddant ystyr cyfatebol gael eu cadw yn ofalus yn y meddwl, pynag beth a fyddo nifer y geiriau a'u gwahanant oddi wrth eu gilydd mewn broddeg. Y banynau hyn yw—*so, as; so, that; more, than; whether, or (not); yet, nevertheless; either, or; neither, nor; as, as; as, so, &c. &c.*

- (1.) Arrange your business *so as* to be prepared for leaving it.
- (2.) He was *so* (much) fatigued *that* he could scarcely move.
- (3.) They were *more* wearied in mind *than* (they were) fatigued in body.
- (4.) I cannot pretend *whether* it is true *or* not.
- (5.) He knew that to be the case, and *yet*, he persisted *nevertheless*; and *yet*, he persisted in his resolve, *notwithstanding* the remonstrances of friends.
- (6.) *Either* this *or* that; *neither* one *nor* the other.
- (7.) She is *as* amiable *as* she is beautiful.
- (8.) *As* he preaches, *so* he acts.

Mae ychydig o sylw ar arddull yr ysgrifenyddion goreu yn ddigon er dysgu iawn ddefnyddiad y banynau cyfatebol hyn. Awduron diweddar yn gyffredin yw y cynlluniau goreu o gywirdeb arddull, pynag beth a ddichon fod teilyngdod delfrydau yr hen ysgrifenyddion.

## ENGREIFFTIAU O GYFATEBIAD ANGHYWIR, NEU ANGHYFUNDOD CYNNULLIADOL.

### § 1024.

- (1.) The relations are *so* uncertain *as* that they require a great deal of examination—*so* uncertain *that* they require; neu, *so* uncertain *as* to require.

(2.) There was no man *so* sanguine, *who* did not apprehend some ill consequence—*so* sanguine *as* not to apprehend.

(3.) To trust in him is no *more* *but* to acknowledge his power—is no *more* *than* to acknowledge; neu, is *but* to acknowledge.

(4.) The duke had not behaved with that loyalty *as* he ought to have done—with that loyalty *which* was his duty; neu, with loyalty, *as* he ought to have done.

§ 1025. Heblaw y banynau cyfatebiadol hyn, mae rhyw fanynau neu arddodiaid a ddefnyddir yn hytrach nag ereill gyda rhyw berwyddiaid ac enwau perwyddol, ac yn gymmaint ag nad yw holl raddau manwl symmudiad a sefyllfa yn cael eu hadrithio yn ddyladwy gan fanynau gwahanol, mae rhyw reolau arbenig o berthynas iddynt a fabwysir yn gyffredinol, a dylai y cyfryw reolau gael sylw manylaf yr efrydydd. Arferir dywedyd, *Expert at neu in*: “*Expert in deception*,” “*Expert at finding an excuse*.” “*To converse with a person, upon or concerning business, in a hasty manner*.” Dywedir, “*We are disappointed of a thing*,” pan nas gellir ei gael; a “*disappointed in it*,” pan ei ceffir, neu “*satisfied with it*.”

“*Disposed to talk*; a disposition to talk. To comply WITH; in compliance WITH. *Resolved ON*; *depending ON*; to *call ON* a person, to *call* to a person at distance; *eager TO do*; *eager* √ doing; worthy OF; happy IN; to *bestow UPON*; to *accuse OF*; to *blame FOR*; *different FROM*; to *differ FROM*; being *partial TO*, neu *prejudiced AGAINST*; to *think OF*, neu ABOUT; to *speak OF*, neu ABOUT, neu CONCERNING; to *derogate FROM*; to *make much OF*; to *swerve FROM*; I am going to LONDON; we have been at London; we have lived or resided IN London; he resides at a distance; at Paris (*in France*); they live at Hackney (*in the neighbourhood of London*).”

Cydsyniadol (*conventional*) hollol ydyw y dulliau hyn o ddefnyddio banynau; ac am hyny, arferiad a synwyr yn a raid fod yn arweinyddion yn y gangen yma o gyfundod.

§ 1026. Swydd berthynol y rhagenw amherisonol *it*, yn gyffredin ydyw adrithio a mynegu enw perwyddol yn *it* yn a elwir yn gyffredin modd annherfynol (*infinite mode*): fel hyn—

(1.) *It is disagreeable to walk in the rain*: hyny yw, *to walk*, neu, *walking in the rain is disagreeable*.

(2.) *It is delightful to hear her sing*: *to hear her sing is delightful*.

(3.) *It is tiresome to listen to such nonsense*: *to listen to such nonsense is tiresome*.

Yma y rhagenwau *it* sy fath o ormodiad mynegiadol y gellid yn hawdd ei hebgor; ond y mae amgylchiadau yn y sawl y mae y gair *it* yn rhagenw rheolaidd, swydd yr hwn sydd amgen na bod yn atblygiad yn unig. Er engraifft:—

(4.) *It is very beautiful.—That thing is very beautiful.*

Yma, saif y rhagenw *it* am *that thing*, neu *a thing*, ac nid fel dyblygiad yn unig.

(5.) *It rains ; it snows ; it is very warm ; it is very cold.*

Yn yr engreiffitiau hyn (5), yr *it* a berthyn i sefyllfa neu ansawdd yr hîn.

§ 1027. Buasai yn hawdd, ac, efallai, yn fuddiol, chwanegu engreiffitiau i egluro yr holl reolau a'r egwyddorion a osodwyd i lawr yn y treithawd hwn; ond os ydyw yr efrydydd wedi sylwi yn briodol ar y rheolau a'r egwyddorion eu hunain, nes eu deall yn drwyadl, hyderir y bydd yr engreiffitiau a roddwyd yn ddigonol i'w roi ar ben y ffordd i ddeall ac ysgrifenu y Seisnig yn briodol. Yn awr, terfynir trwy anog yr efrydydd i arfer ysgrifenu broddegau unigol mewn cynnifer o wahanol ffyrdd ag y canjata gwahanol drefniadau cystrawiad iddo wneyd, ac i arfer chwanegu at, a thynu oddi wrth y broddegau, bob yn ail, ryw swyddi ac adfrodau cynnorthwyol. Bydd i'r ymarferion hyn gynnefino ei farn â ffynnonellau amrywiad y sawl a gyfoethogant yr arddull heb niweidio yr ystyr; a phan unwaith y delo efe yn gynnefin â'r ffynnonellau hyny, bydd iddo ganfod yr achosion o gyfundod, diffygiol, a dysgu eu gochelyd.

## CYNGHLOAD.

§ 1028. YN awr, dyma yr efrdydd wedi cael crynoad o'r egwyddorion a'r rheolau sydd yn dangos sut i adnabod geiriau Seisnig yn ol eu dosparthau, a'r modd i'w cyfosod yn briodol er ffurfio broddegau neu ymadroddion (§ 485): hefyd, mae wedi cael rheolau a chyfarwyddiadau i gynanu ac ysgrifenu geiriau Seisnig; bellach, mae yn bryd iddo ym-röi i ddysgu yr iaith fel offeryn (§ 4), sef dysgu ystyr ei geiriau.

§ 1029. Un peth sy'n achos digalondid mawr i'r efrdydd ieuanc, ydyw nifer lluosog geiriau yr iaith Seisnig—dros gant a hanner o filoedd. Pe byddai raid iddo gofio ystyrion cynnifer o wahanol eiriau cyn bod yn alluog i ddeall y Seis-neg, byddai ganddo wir achos digaloni: ond y gwir ydyw y gall ddeall cyfansoddiad Seisnig yn lled dda cyn medru *cofio degwm* geiriau yr iaith. Ffaith nad yw pawb wedi sylwi arni ydyw, bod mwy na phedair rhan o bump o bob cyfan-soddiad yn gynnwysedig o'r *un geiriau* yn cael eu tra-mynychu; ac nid yw cofio ystyrion y cyfryw ond gorchwyl a ellir wneyd mewn ychydig oriau; ac y mae deall y rhai hyny yn agoriad i luaws o rai ereill a fyddont yn gyssylltedig â hwynt mewn broddeg.

§ 1030. Dyma gyfres bur gyflawn o'r cyfryw eiriau, yn dangos pa mor fynych y digwydd pob gair sydd ynddi mewn cyfan-soddiad o ugain mil o eiriau, a gymmerwyd o ugain o wahan-ol lyfrau, mil o bob llyfr. Trefnir y gyfres yma yn ol yr egwyddor, a rhoddir cynaniad pob gair Seisnig ar ei ol, a gair Cymmreig cyfystyr iddo, neu eglurhad arno; a rhifnodau ar ol hyny, yn dangos pa mor fynych y digwydd mewn cyfan-soddiad o'r fath ag a nodwyd uchod.

*Cyfres o'r geiriau mynychaf mewn cyfansoddiad Seisnig.*

A, e; un, . . . . .	320	Against, <i>a-génst</i> ; yn erbyn, . . .	18
About, <i>a-bówt</i> ; o amgylch, . . .	18	All, <i>ól</i> ; oll, . . . . .	132
Above, <i>a-býf</i> ; uwch, . . . . .	18	Allow, <i>al-lów</i> ; caniatáu, . . . . .	4
Accord, <i>ac-córd</i> ; cydfod, . . . . .	6	Alone, <i>a-lôn</i> ; unig, . . . . .	12
Act, act; gweithredu, . . . . .	2	Already, <i>ol-red-i</i> ; eisys, . . . . .	6
After, <i>âff-tyr</i> ; gwedi, . . . . .	30	Also, <i>ól-so</i> ; hefyd, . . . . .	16
Again, <i>a-gén</i> ; trachefn, . . . . .	16	Alter, <i>ól-tyr</i> ; newid, . . . . .	2

Always, <i>ól-wez</i> ; yn wastadol, 8	Day, <i>de</i> ; diwrnod, . . . 22
Am, <i>am</i> ; ydwyf, . . . 20	Dear, <i>di'r</i> ; anwyl : drud, . . . 4
An, <i>an</i> ; un (yr un ystyr ag <i>a</i> , ond y defnyddir <i>an</i> o faen llafariad), . . . 66	Death, <i>deth</i> ; marwolaeth, 26
And, <i>and</i> ; <i>ac</i> , . . . 818	Deliver, <i>di-lif-yr</i> ; traddodi 18
Any, <i>en-i</i> ; unrhyw, . . . 50	Direct, <i>di-réct</i> ; cyfeiriol, . . . 6
Are, <i>âr</i> ; ydym, <i>ych</i> , <i>ynt</i> , 140	Do, <i>dw</i> ; gwneuthur, . . . 40
Art, <i>ârt</i> ; wyt : crefft, . . . 10	Did, <i>did</i> ; gwnaid (y gor- phenol o <i>do</i> ), . . . 20
As, <i>az</i> ; megys, . . . 160	Done, <i>dyn</i> ; wedi ei wneyd (y gorphenol o <i>do</i> ), . . . 4
At, <i>at</i> ; yn, . . . 90	Down, <i>down</i> ; i lawr, . . . 16
Aught, } <i>ôt</i> ; dim : dyly, . . . 6	Dwell, <i>dwèl</i> ; trigo . . . 4
Ought, }	Each, <i>ich</i> ; pob un, . . . 6
Avoid, <i>a-fôid</i> ; gochelyd, . . . 4	Either, <i>i-ddyr</i> ; y naill neu'r llall, . . . 4
Away, <i>a-wé</i> ; ymaith, . . . 8	End, <i>end</i> ; diwedd, . . . 8
Awe, <i>o</i> ; arswyd, . . . 2	Enter, <i>en-tyr</i> ; myned i fewn 6
Be, <i>bi</i> ; bod, . . . 170	Even, <i>i-f'n</i> ; gwastad : hyd y nod, . . . 8
Because, <i>bi-côz</i> ; oblegid, . . . 10	Ever, <i>ef-yr</i> ; bob amser, . . . 42
Been, <i>bin</i> ; wedi bod, . . . 44	Every, <i>éf-yr-i</i> ; pob, . . . 26
Being, <i>bi-ing</i> ; yn bod, . . . 27	Evil, <i>i-fl</i> ; drwg, . . . 2
Believe, <i>bi-lif</i> ; credu, . . . 8	Except, <i>ecs-sépt</i> ; oddieithr 10
Below, <i>bi-ló</i> ; isod, . . . 12	Expect, <i>ecs-péct</i> ; disgwyl, 6
Beneath, <i>bi-nidd</i> ; tanodd 2	Few, <i>ffiw</i> ; ychydig, . . . 12
Between, <i>bi-twîn</i> ; rhwng, 24	First, <i>ffÿrst</i> ; yn gyntaf, . . . 30
Betwixt, <i>bi-twïcst</i> = <i>Between</i> 2	Follow, <i>ffol-o</i> ; dilyn, . . . 8
Breadth, <i>breth</i> ; lled, . . . 2	Foot, <i>ffwt</i> ; troed, . . . 4
But, <i>byt</i> ; ond, . . . 136	For, <i>ffôr</i> ; canys, . . . 140
Buy, <i>bei</i> ; prynu, . . . 22	Form, <i>ffôrm</i> ; ffurf, . . . 18
By, <i>bei</i> ; gan : trwy, . . . 94	Frequent, <i>ffri-cwent</i> ; myn- ych, . . . 14
Calculate, <i>cál-ciw-let</i> ; cyfrif 2	From, <i>ffrom</i> ; o, . . . 130
Call, <i>cól</i> ; galw, . . . 16	Full, <i>ffwl</i> ; llawn, . . . 42
Came, <i>cêm</i> ; daethym, daethom, &c. . . 26	General, <i>jén-yr-yl</i> ; cyffred- inol, . . . 14
Can, <i>can</i> ; gallu-af-i, &c. . . 50	Gentle, <i>jen-t'l</i> ; tirion, . . . 2
Cannot, <i>can-nyt</i> ; bod yn analluog : <i>I cannot</i> , Nis gallaf, . . . 18	Gave, <i>géf</i> ; a roddwyd, . . . 4
Capital, <i>cáp-i-tal</i> ; prif . . . 2	Give, <i>gif</i> ; rhoddi, . . . 32
Character, <i>câr-ac tyr</i> ; nod- wedd, . . . 2	Given, <i>gif'n</i> ; wedi ei roddi 6
Charge, <i>chârj</i> ; archiad, . . . 2	Glad, <i>glad</i> ; llawen, . . . 4
Child, <i>cheild</i> ; plentyn, . . . 2	Glory, <i>glo-ri</i> ; gogoniant . . . 74
Christ, <i>creist</i> ; CRIST, . . . 20	Go, <i>go</i> ; myned, . . . 8
Come, <i>cym</i> ; dyfod, . . . 26	Gone, <i>gon</i> ; wedi myned, . . . 4
Consequence, <i>cón-si-cwens</i> ; canlyniad, . . . 2	God, <i>god</i> ; Duw, . . . 74
Consequent, <i>cón-si-cwent</i> ; canlyniadol, . . . 2	Good, <i>gwd</i> ; da, . . . 20
Could, <i>cwd</i> ; gallid, . . . 18	Gratify, <i>grât-i-fei</i> ; boddio, 2
	Great, <i>grêt</i> ; mawr, . . . 46
	Had, <i>had</i> ; a gafwyd, . . . 36

Hand, hand ; llaw, . . . . .	6	Mind, meind ; meddwl, . . . . .	30
Have, haf ; cael, . . . . .	108	More, môr ; mwy, . . . . .	77
He, hi ; efe, . . . . .	109	Most, most ; mwyaf, . . . . .	40
Heart, hârt ; calon, . . . . .	28	Much, mych ; llawer, . . . . .	32
Heaven, hef'n ; nef, . . . . .	48	Must, myst ; rhaid, . . . . .	24
Her, hêr ; hi, . . . . .	37	My, mei ; fy, . . . . .	100
Him, him ; ef, . . . . .	81	Nature, ne-ti'w'r ; natur . . . . .	32
His, hiz ; ei, . . . . .	191	Never, nef-yr ; erioed : byth . . . . .	28
Hold, hold ; dal, . . . . .	2	New, niw ; newydd, . . . . .	8
How, how ; pa, . . . . .	64	No, no ; nid, . . . . .	52
Human, hiw-myn ; dynol, . . . . .	20	None, nyn ; neb, . . . . .	6
I, ei ; myfi (mi) . . . . .	250	Nor, nôr ; na, . . . . .	24
Idea, ei-di-a ; delfryd . . . . .	8	Not, not ; ni, . . . . .	134
If, iff ; os, . . . . .	69	Nothing, nyth-ing ; dim, . . . . .	22
In, in ; yn, . . . . .	367	Now, now ; yn awr, . . . . .	20
Into, in-tw ; i fewn, . . . . .	32	O, Oh, o ; O ! . . . . .	40
Is, iz ; yw (sydd), . . . . .	236	Object, ob-ject ; gwrthrych . . . . .	20
It, it ; fo (o), . . . . .	234	Oblige, o-bleij' ; rhwymo ; boddhau, . . . . .	2
Its, its ; ei, . . . . .	26	Of, of ; am : o, . . . . .	768
Join, join ; cydio, . . . . .	6	Off, off ; oddiyma, . . . . .	12
Joy, joi ; llawenydd, . . . . .	28	Offer, offyr ; cynnyg, . . . . .	4
Judge, jyj ; barnu (barnwr) . . . . .	4	Often, off'n ; yn fynych . . . . .	20
Just, jyst ; cyfiawn, . . . . .	22	On, on ; ar, . . . . .	68
Justice, jyst-tis ; cyfiawnder . . . . .	6	One, wyu ; un, . . . . .	40
Kind, ceind ; rhyw : mwyn . . . . .	16	Only, on-li ; yn unig, . . . . .	30
Knew, niw ; gwyddai, . . . . .	2	Or, or ; neu, . . . . .	100
Know, no ; gwybod, . . . . .	23	Other, ydd-yr ; arall, . . . . .	46
Known, nôn ; a wybuwyd, . . . . .	4	Our, ow'r ; ein, . . . . .	80
Land, land ; tir, . . . . .	10	Out, owt ; allan, . . . . .	42
Language, lang-gwij ; iaith . . . . .	4	Over, of-yr ; uwch, . . . . .	26
Large, lâ'j ; mawr, . . . . .	8	Own, ôn ; eiddym : hun . . . . .	18
Law, lo ; cyfraith . . . . .	2	Part, pârt ; rhan, . . . . .	44
Least, list ; lleiaf, . . . . .	2	Particular, par-tic-iw-lyr ; peth : pennodol, . . . . .	8
